



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 28 Ebrill 2010
Wednesday, 28 April 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions to Minister for Social Justice and Local Government
- 21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes
Questions to Minister for Children, Education and Lifelong Learning
- 36 Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Strategaeth Weithgynhyrchu
The Enterprise and Learning Committee's Report on the Manufacturing Strategy
- 52 Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd yng Nghymru
The Sustainability Committee's Inquiry into Flooding in Wales
- 77 Dadl sy'n Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Eleanor Burnham Gyflwyno Mesur
Arfaethedig ynghylch Addysg Oedolion
Debate Seeking the Assembly's Leave for Eleanor Burnham to Introduce a Proposed
Measure on Adult Education
- 90 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Diweithdra yng Nghymru
Welsh Liberal Democrats Debate: Unemployment in Wales
- 116 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 119 Dadl Fer: Llywodraethu'r Corfforaethau—Gwersi i'w Dysgu o Visteon UK
Short Debate: Governing the Corporations—Lessons to be Learned from Visteon UK

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau. Nid oes cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol.

The Presiding Officer: Order for questions. There are no questions to the Counsel General.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to Minister for Social Justice and Local Government

Independent and Voluntary Sectors

Q1 David Melding: Will the Minister make a statement on the role of the independent and voluntary sectors in meeting the Welsh Assembly Government's objectives to promote social justice in Wales? OAQ(3)1178(SJL)

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): Thank you, David, for the question. Achieving social justice for people in Wales continues to be at the heart of the Welsh Assembly Government's agenda. Our voluntary sector scheme annual report sets out the wide range of third sector activity, and the contribution that the sector makes to our communities.

David Melding: I know that you share the belief of all Members in the Assembly that the use of the voluntary sector can lead to great innovations in Government programmes and other public services in general. However, there is a concern in the voluntary sector, given that we have not yet embedded three-year budgets, for instance, that any spending squeeze that follows this economic crisis may fall disproportionately on the voluntary sector. Will you assure us that the Welsh Assembly Government will do all in its power to prevent this from happening?

Carl Sargeant: It is very important to me that the third sector plays an important part in the delivery of services across Wales and the UK, and my department is always keen to promote that. However, we cannot ignore the fact that the sector has been very fortunate to receive fair or good budgets over

Y Sectorau Annibynnol a Gwirfoddol

C1 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y sectorau annibynnol a gwirfoddol o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(3)1178(SJL)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch, David, am y cwestiwn. Mae sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bobl yng Nghymru yn parhau wrth wraidd agenda Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein hadroddiad blynyddol ar gynllun y sector gwirfoddol yn gosod allan yr ystod eang o weithgarwch sydd yn y trydydd sector, a chyfraniad y sector i'n cymunedau.

David Melding: Gwn eich bod chi, fel holl Aelodau'r Cynulliad, yn credu bod defnyddio'r sector gwirfoddol yn gallu arwain at ddatblygiadau newydd gwych mewn rhaglenni Llywodraeth ac mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae pryder yn y sector gwirfoddol, o gofio nad ydym eto wedi sefydlu cyllidebau tair blynedd, er enghraifft, y gallai unrhyw wasgfa ar wariant ar ôl yr argyfwng economaidd hwn effeithio'n anghymesur ar y sector gwirfoddol. A wnewch chi roi sicrwydd inni y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth yn ei gallu i atal hynny rhag digwydd?

Carl Sargeant: Mae'n bwysig iawn i mi fod y trydydd sector yn chwarae rhan bwysig yn y broses o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru a'r DU, ac mae fy adran bob amser yn awyddus i hyrwyddo hynny. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith fod y sector wedi bod yn ffodus iawn o gael

many years. We must examine the impacts over the coming years. I recognise that for every £1 spent in the voluntary or third sector, the delivery of services can be worth 10 to 20 times that. The sector is still part of the Welsh Assembly Government's agenda and a high priority for me, and I take on board your comments.

Leanne Wood: Eradicating poverty is a priority for this Government and it will be more of a challenge as the impending cuts kick in. However, one voluntary group that is really making a difference to people in poverty is the food bank network. There are currently 10 food banks in Wales, including one in Tylorstown and another in Cardiff in my region, and they have fed thousands of people in acute crisis. Money is needed now to support an expansion of the network so that people in crisis are able to access the food that they need. Only £170,000 is needed to fund an expansion of the network for three years, but funding sources have proved to be elusive for this group. In particular, it has been impossible to tap into the Communities First network because of the way in which the network is structured, namely its bottom-up approach. Minister, will you agree to explore ways of providing the necessary cash—it is a relatively small amount of cash—for this organisation to expand and meet the growing needs of people in acute crisis in Wales?

Carl Sargeant: I am aware that my colleague, Brian Gibbons, visited the food bank last year to see the work done there. I admire your technique in asking me to fund this organisation in the Chamber, but I cannot commit to that today. However, I will consider the innovative ways in which organisations try to eradicate poverty and bring new ideas to the delivery of service for the needy. I will look at this issue closely, particularly with regard to the food bank.

cyllidebau teg neu dda dros nifer o flynyddoedd. Rhaid inni archwilio'r effeithiau dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yr wyf yn cydnabod y gall y gwasanaethau a ddarperir am bob £1 a gaiff ei gwario yn y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol fod yn werth 10 i 20 gwaith hynny. Mae'r sector yn dal yn rhan o agenda Llywodraeth y Cynulliad ac yn dal yn flaenoriaeth uchel imi, ac yr wyf yn derbyn eich sylwadau.

Leanne Wood: Mae dileu tlodi yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, a bydd yn fwy o her wrth i'r toriadau arfaethedig frathu. Fodd bynnag, un grŵp gwirfoddol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl sydd mewn tlodi yw'r rhwydwaith banciau bwyd. Ar hyn o bryd mae 10 o fanciau bwyd yng Nghymru, gan gynnwys un yn Tylorstown ac un arall yng Nghaerdydd yn fy rhanbarth i, ac maent wedi bwydo miloedd o bobl sydd mewn argyfwng enbyd. Mae angen arian yn awr i helpu ehangu'r rhwydwaith er mwyn i bobl sydd mewn argyfwng allu cael y bwyd y mae arnynt ei angen. Dim ond £170,000 y mae ei angen i gyllido ehangu'r rhwydwaith am dair blynedd, ond nid yw'r grŵp wedi gallu cael ffynonellau cyllid. Yn benodol, mae wedi bod yn amhosibl defnyddio'r rhwydwaith Cymunedau yn Gyntaf oherwydd y modd y mae'r rhwydwaith wedi'i strwythuro, hynny yw, oherwydd ei ddull gweithredu o'r gwaelod i fyny. Weinidog, a gytunwch i archwilio ffyrdd o ddarparu'r arian angenrheidiol—mae'n swm cymharol fach o arian—er mwyn i'r mudiad hwn ehangu a diwallu anghenion cynyddol pobl sydd mewn argyfwng enbyd yng Nghymru?

Carl Sargeant: Gwn fod fy6 nghydweithiwr, Brian Gibbons, wedi ymweld â'r banc bwyd y llynedd i weld y gwaith a wneir yno. Yr wyf yn edmygu eich techneg wrth ofyn yn y Siambr imi gyllido'r mudiad hwn, ond ni allaf ymrwymo i hynny heddiw. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon ystyried y dulliau arloesol a ddefnyddir gan fudiadau i geisio dileu tlodi a chyflwyno syniadau newydd yn y modd y caiff gwasanaethau eu darparu i bobl sydd mewn angen. Archwiliaf y mater yn fanwl, yn enwedig yng nghyswllt y banc bwyd.

Priorities

Q2 Nick Ramsay: Will the Minister outline his priorities for the next 12 months? OAQ(3)1175(SJL)

Carl Sargeant: In addition to promoting safe and sustainable communities, promoting greater community cohesion and tackling child poverty, the Assembly Government will be working with our partners and stakeholders to ensure high-quality public services in the coming period of public expenditure restraint.

Nick Ramsay: Thank you, Minister, for that answer. I recently asked the Deputy First Minister if he had had discussions with you regarding the transitional rate relief that is available in England, and which many would like to see made available in Wales. I know that you have announced a modest increase in small business rate relief, which has been very much welcomed by the sector. Is it your intention, when that begins in October, to back-date it to April, so that firms that qualify for that business rate relief are able to benefit from it from that earlier time? Otherwise, as I am sure that you will agree, businesses will be stung in a way which they should not be. Also, on transitional relief, which your Government is not proposing to follow in the same way as England, would you not agree with me that, at this time of recession, it would be helpful for businesses in Wales, such as pubs and shops, particularly in rural areas, to have a certain amount of transitional relief targeted at small businesses?

Carl Sargeant: As you are aware, I made a statement on the consequential for Wales from the Chancellor's budget earlier in the year. I intend to release details shortly of how those will be used in Wales, and some of your questions today will be answered then. It is not my intention to introduce a transitional scheme. That was available in England early on. This debate has been well rehearsed here, and my view was that transitional rate relief should not be taken away from businesses that were eligible for it in order to bring them into line with businesses that were not eligible for it,

Blaenoriaethau

C2 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1175(SJL)

Carl Sargeant: Yn ogystal â hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy, hyrwyddo mwy o gydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â thlodi plant, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o safon yn ystod y cyfnod sydd ar ddod o gyfyngu gwariant cyhoeddus.

Nick Ramsay: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yn ddiweddar, gofynnais i'r Dirprwy Brif Weinidog a oedd wedi cael trafodaethau â chi ynghylch y rhyddhad ardrethi trosiannol sydd ar gael yn Lloegr, ac y byddai llawer o bobl yn hoffi gweld ei gynnydd yng Nghymru. Gwn ichi gyhoeddi cynnydd bach mewn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, sydd wedi'i groesawu'n fawr iawn gan y sector. Pan fydd hwnnw'n dechrau ym mis Hydref, a yw'n fwriad gennych ei ôl-ddyddio i fis Ebrill, er mwyn i gwmnïau sy'n gymwys i gael y rhyddhad ardrethi busnes dan sylw allu elwa ohono o'r dyddiad cynharach hwnnw? Fel arall, fel y cytunwch, yr wyf yn siŵr, bydd busnesau'n dioddef mewn modd na ddylent. Yn ogystal, o ran rhyddhad trosiannol, nad yw eich Llywodraeth yn bwriadu ei weithredu yn yr un modd â Lloegr, oni chytunwch â mi y byddai o gymorth i fusnesau yng Nghymru, megis tafarnau a siopau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gael rhywfaint o ryddhad trosiannol sy'n targedu busnesau bach yn ystod y dirwasgiad hwn?

Carl Sargeant: Fel y gwyrddoch, gwneuthum ddatganiad ynghylch y symiau canlyniadol ar gyfer Cymru o gyllideb y Canghellor yn gynharach eleni. Bwriadaf gyhoeddi manylion cyn hir am y modd y bydd y rheini'n cael eu defnyddio yng Nghymru, a bydd rhai o'ch cwestiynau heddiw'n cael eu hateb bryd hynny. Nid wyf yn bwriadu cyflwyno cynllun trosiannol. Yr oedd ar gael yn gynnar yn Lloegr. Yr ydym wedi cawl llawer i ddadl yma ar y mater, a'm barn i odd na ddylai rhyddhad ardrethi trosiannol gael ei gymryd oddi ar fusnesau a oedd yn gymwys i'w gael er mwyn cael cysondeb rhyngddynt

similar to the scheme that was made available in England. That was supported by the Federation of Small Businesses in Wales. I have not changed my mind. I will write to you with further details of the scheme that was announced in England.

Christine Chapman: Minister, child trust fund accounts have benefited 179,000 children in Wales and represent an ambitious and forward-looking way of challenging inequality. They are also part of a deeper approach to tackling poverty, providing an opportunity to all to invest in their future, not just those who can afford to do so. Unfortunately, that is not a view shared by the opposition parties, who would scrap child trust funds given the chance. With your cross-cutting responsibility for anti-poverty initiatives, what assurances can you give that investment in important initiatives such as this will remain a priority?

Carl Sargeant: My colleague Huw Lewis, the Deputy Minister for Children, looks after child trust fund matters in Wales. I am aware of the proposals. As you are aware, Christine, in Wales, the Government tops up the child trust fund. That is in complete contrast to what the Conservatives wish to do after the election. The electorate will make their choice next Thursday.

Darren Millar: Minister, you will know that many people in Wales are concerned about the level of council tax. It has doubled over the past 10 years under Labour, and the prospects are that it will have to increase at a far greater rate than the rate of inflation because of Labour's mismanagement of the economy, as councils struggle to plug the gap between the cost of providing services and the resources that are provided to them by your Government. In 2007-08, some 27 per cent of council tax was spent on town hall pensions in Wales. Do you agree that that level expenditure on town hall pensions is unsustainable and, if you do, what do you intend to do about it?

a busnesau nad oeddent yn gymwys, yn debyg i'r cynllun a oedd ar gael yn Lloegr. Yr oedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cefnogi'r farn honno. Nid wyf wedi newid fy meddwl. Ysgrifennaf atoch i roi manylion pellach am y cynllun a gyhoeddwyd yn Lloegr.

Christine Chapman: Weinidog, mae cyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant wedi bod o fudd i 179,000 o blant yng Nghymru, ac maent yn ffordd uchelgeisiol a blaengar o herio anghydraddoldeb. Maent hefyd yn rhan o ddull dyfnach o fynd i'r afael â thlodi, ac yn gyfle i bawb fuddsoddi yn eu dyfodol, yn hytrach na dim ond y rheini a all fforddio gwneud hynny. Yn anffodus, ni chaiff y farn honno ei harddel gan y gwrthbleidiau, a fyddai'n dileu cronfeydd ymddiriedolaeth plant pe baent yn cael y cyfle. Gyda'ch cyfrifoldeb trawsbynciol am fentrau atal tlodi, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd buddsoddi mewn mentrau pwysig fel hon yn parhau'n flaenoriaeth?

Carl Sargeant: Fy nghydweithiwr, Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, sy'n gofalu am faterion cronfeydd ymddiriedolaeth plant yng Nghymru. Yr wyf yn ymwybodol o'r cynigion. Fel y gwyddoch, Christine, yng Nghymru mae'r Llywodraeth yn cyfrannu at y gronfa ymddiriedolaeth plant. Mae hynny'n hollol wahanol i'r hyn y mae'r Ceidwadwyr am ei wneud ar ôl yr etholiad. Bydd yr etholwyr yn dewis ddydd Iau nesaf.

Darren Millar: Weinidog, gwyddoch fod llawer o bobl yng Nghymru yn pryderu am lefel y dreth gyngor. Mae wedi dyblu dros y 10 mlynedd diwethaf dan y Blaid Lafur, a rhagwelir y bydd yn rhaid iddi gynyddu'n gyflymach o lawer na graddfa chwyddiant oherwydd y modd y mae'r Blaid Lafur wedi camreoli'r economi, wrth i gynghorau frwydro i lenwi'r bwlch rhwng cost darparu gwasanaethau a'r adnoddau a roddir iddynt gan eich Llywodraeth. Yn 2007-08, gwariwyd tua 27 y cant o'r dreth gyngor ar bensynau cynghorau yng Nghymru. A gytunwch nad yw'r gwario hwnnw ar bensynau cynghorau yn gynaliadwy, ac os ydych yn cytuno, beth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn ei gylch?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Darren; your questions are always interesting. Let us get to the facts of the matter. You often talk about percentages. Band D council tax will continue to be significantly lower in Wales than in England. It costs less in Wales than in England. That is pretty straightforward. Average band D council tax in Wales is £1,127, compared with £1,439 in England. I do not know what kind of mathematics you studied during your education, but there is a marked difference in what is charged in Wales and what is charged in England. I do not recognise your figures on inflation. The average increase for 2010-11 is around 3.7 per cent. I certainly do not want to reintroduce a poll tax, which your party introduced. That is at the bottom of my agenda. I will not be taking any lessons on poll tax from you.

1.40 p.m.

Darren Millar: As usual, you avoided answering the question, which was about the cost of town hall pensions. You tried to sidestep it, and then avoided it completely. I will give you a second opportunity to answer the question. Do you agree that the cost of town hall pensions in Wales is unsustainable, given that over a quarter of council tax is spent on them? That is unsatisfactory. What will you do to address that problem? Do you agree with our proposals to work with the unions and private sector organisations to try to close the gap and address the disparity between private sector pensions and public sector pensions? Do you also agree that there should be a cap on the largest local government pensions? Do you agree with that and what are you going to do about that?

Carl Sargeant: Again, thank you for your question. I do not think that I sidestepped the question at all. You spoke to me about council tax, which is clearly lower in Wales than it is in England. I will address specifically your second question on public sector pensions. Do I want to cut them? No, I do not. If that is your position, I am glad that you made that clear today.

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn, Darren; mae eich cwestiynau bob amser yn ddi-ddorol. Gadewch inni egluro'r ffeithiau. Byddwch yn sôn yn aml am ganrannau. Bydd y dreth gyngor band D yn parhau'n sylweddol is yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'n costio llai yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae hynny'n eithaf syml. Ar gyfartaledd, mae'r dreth gyngor band D yng Nghymru yn £1,127, o'i gymharu â £1,439 yn Lloegr. Ni wn pa fath o fathemateg yr arferch ei hastudio yn eich addysg, ond mae gwahaniaeth amlwg rhwng yr hyn a godir yng Nghymru a'r hyn a godir yn Lloegr. Nid wyf yn adnabod eich ffigurau ar chwyddiant. Tua 3.7 y cant yw'r cynnydd ar gyfer 2010-11 ar gyfartaledd. Yn bendant nid wyf am ailgyflwyno treth y pen, a gyflwynwyd gan eich plaid chi. Mae treth o'r fath ar waelod fy agenda. Ni chymeraf yr un wers gennyh chi am dreth y pen.

Darren Millar: Fel arfer, yr ydych wedi osgoi ateb y cwestiwn, sef cost pensiynau cynghorau. Yr ydych wedi ceisio camu o'i amgylch, a'i osgoi'n gyfan gwbl wedyn. Rhoddaf ail gyfle ichi ateb y cwestiwn. A gytunwch nad yw cost pensiynau cynghorau yng Nghymru yn gynaliadwy, o gofio bod dros chwarter y dreth gyngor yn cael ei wario arnynt? Mae hynny'n anfoddfaol. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem honno? A gytunwch â'n cynigion ni i weithio gyda'r undebau a sefydliadau'r sector preifat i geisio llenwi'r bwlch a mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng pensiynau'r sector preifat a phensiynau'r sector cyhoeddus? A gytunwch hefyd y dylid capio'r pensiynau mwyaf mewn llywodraeth leol? A ydych yn cytuno â hynny, a beth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn ei gylch?

Carl Sargeant: Unwaith eto, diolch am eich cwestiwn. Ni chredaf imi geisio camu o amgylch eich cwestiwn o gwbl. Yr oeddech yn sôn wrthyf am y dreth gyngor, sy'n amlwg yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Hoffwn roi sylw'n benodol i'ch ail gwestiwn ar bensiynau'r sector cyhoeddus. A wyf am eu torri? Nac ydwyf, nid wyf am wneud hynny. Os dyna yw eich safbwynt chi, yr wyf yn falch ichi wneud hynny'n eglur heddiw.

David Lloyd: Yn nhermau eich blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, Weinidog, byddwch yn ymwybodol o fy Mesur arfaethedig ar ddiogelu meysydd chwarae, sydd wedi bod yn mynd drwy'r lle hwn ers cryn amser. A fydddech yn fodlon fy nghyfarfod i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn yn y dyfodol agos?

Carl Sargeant: I am aware of your commitment to pursue this proposed Measure. I will be delighted to meet with you as soon as possible; please contact my office to arrange that.

Eleanor Burnham: I want to bring you back to poverty and to child poverty in particular. The current situation is unacceptable, as stated by the End Child Poverty Network, which has released a five-point charter, identifying action to tackle the growing problem of child poverty. Do you agree with such organisations that urgent action must be taken and what will you do differently from your predecessor to ensure that the rates of child poverty and severe child poverty in Wales are drastically reduced?

Carl Sargeant: Thank you for the question, Eleanor. As you will be aware, child poverty comes under the remit of my colleague Huw Lewis. However, we, collectively as a Cabinet, have a responsibility to reduce poverty and address it as a whole in the Welsh Assembly Government. One of the initiatives that we will be supporting is the child tax credit, which goes a long way towards supporting families and children experiencing poverty or low incomes. I would hope, Eleanor, that you would also support child tax credits on a UK basis, although I do not think that it is likely, given that I believe that it is Liberal Democrat policy to cut them.

Eleanor Burnham: Vince Cable is our guru, and he has told you all about how he is going to reduce the tax burden on very poor families by raising the tax threshold to £10,000, which is simpler and easier to comprehend than your hugely complicated tax system, which many institutions and organisations find impossible.

David Lloyd: With regard to your priorities for the next 12 months, Minister, you will be aware of my proposed Measure on safeguarding playing fields, which has been in progress here for some time. Would you be willing to meet me to discuss the way forward for this proposed Measure in the near future?

Carl Sargeant: Gwn am eich ymrwymiad i fynd ar drywydd y Mesur arfaethedig hwn. Byddwn yn falch eich cyfarfod cyn gynted ag y bo modd; mae croeso ichi gysylltu â'm swyddfa i drefnu hynny.

Eleanor Burnham: Hoffwn ddod â chi'n ôl at tlodi, a thlodi plant yn enwedig. Mae'r sefyllfa bresennol yn annerbyniol, fel y nodwyd gan y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant. Mae wedi cyhoeddi siarter pum pwynt yn nodi camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, sy'n broblem gynyddol. A gytunwch â mudiadau o'r fath pan ddywedant ei bod yn rhaid gweithredu ar frys, a sut y bwriadwch weithredu'n wahanol i'ch rhagflaenydd i sicrhau bod cyfraddau tlodi plant a thlodi plant difrifol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol?

Carl Sargeant: Diolch am y cwestiwn, Eleanor. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae tlodi plant yn perthyn i gylch gwaith fy nghydweithiwr, Huw Lewis. Fodd bynnag, mae gennym ni, ar y cyd fel Cabinet, gyfrifoldeb i leihau tlodi a mynd i'r afael ag ef yn ei gyfanrwydd yn Llywodraeth y Cynulliad. Un o'r mentrau y byddwn yn eu cefnogi yw'r credyd treth plant, sy'n gwneud llawer i gynorthwyo teuluoedd a phlant sy'n byw mewn tlodi neu ar incwm isel. Byddwn yn gobeithio, Eleanor, y bydddech chi hefyd yn cefnogi credydau treth plant yn y DU, ond ni chredaf fod hynny'n debygol, o ystyried fy mod yn credu mai polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol yw eu torri.

Eleanor Burnham: Vince Cable yw ein gwrw ni, ac mae wedi dweud popeth wrthych am y modd y mae'n bwriadu lleihau'r baich trethi ar deuluoedd tlawd iawn drwy godi trothwy'r dreth i £10,000. Mae hynny'n symlach ac yn haws ei ddeall na'ch system gymhleth iawn chi ar gyfer trethi, sy'n amhosibl ym marn nifer o sefydliadau a chyrrff.

You did not answer my question on the five-point charter that that very august body the End Child Poverty Network has released. Do you not agree that child poverty must be abolished? If I remember correctly, Tony Blair stated that he was going to halve it by 2010 and eradicate it by 2020—perhaps I am being a bit generous and he said that it would happen a little earlier. However, to your shame, that has not happened.

Carl Sargeant: As I responded in answer to your first question, responsibility for child poverty comes under Huw Lewis's portfolio. However, I reiterate my point that child tax credits go a long way to supporting needy families in Wales and across the UK, and we will continue to support that. You, as Liberal Democrats, want to cut those credits and the Conservatives want to make amendments to the whole programme.

Alun Davies: When you entered office, Minister, one of the first priorities that you outlined was to tackle violence against women. There is warm and broad welcome throughout this Chamber for the strategy that you published to end violence against women, as there is for the additional funding that you have found to support this valuable work. The strategy emphasises the importance of tackling the sexualisation of women; therefore, would you join me in expressing concern about the policy of the Liberal Democrats, which would allow 16-year-olds to buy and star in pornographic films?

Carl Sargeant: You are quite right, Alun, I introduced—

Eleanor Burnham: That is absolutely desperate.

Carl Sargeant: I do not consider that question to be desperate at all. I think that it is a very serious issue.

The Presiding Officer: Order. Minister, there is no reason for you to take any notice

Nid ydych wedi ateb fy nghwestiwn am y siarter pum pwynt a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, sy'n gorff pwysig iawn. Oni chytunwch ei bod yn rhaid dileu tlodi plant? Os cofiaf yn iawn, dywedodd Tony Blair y byddai'n ei haneru erbyn 2010 ac yn ei ddileu erbyn 2020—efallai fy mod ychydig yn hael, oherwydd dywedodd y byddai'n digwydd ychydig yn gynharach. Fodd bynnag, er cywilydd ichi, nid yw hynny wedi digwydd.

Carl Sargeant: Fel y nodais wrth ateb eich cwestiwn cyntaf, mae'r cyfrifoldeb am dlodi plant yn rhan o bortffolio Huw Lewis. Fodd bynnag, hoffwn ailadrodd fy mhwynt fod credydau treth plant yn gwneud llawer i gynorthwyo teuluoedd sydd mewn angen yng Nghymru a ledled y DU, a byddwn yn parhau i'w cefnogi. Yr ydych chi, fel Democratiaid Rhyddfrydol, am dorri'r credydau hynny, ac mae'r Ceidwadwyr am wneud newidiadau yn y rhaglen gyfan.

Alun Davies: Pan ddechreuasoch yn eich swydd, Weinidog, un o'r blaenoriaethau cyntaf a amlinellwyd gennych oedd mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Mae croeso cyffredinol a chynnes ar draws y Siambr hon i'r strategaeth a gyhoeddwyd gennych i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, ac mae'r un croeso i'r cyllid ychwanegol yr ydych wedi dod o hyd iddo i gefnogi'r gwaith gwerthfawr hwn. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r modd y caiff menywod eu rhywioli; felly, a wnewch chi ymuno â mi i fynegi pryder am bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol, a fyddai'n caniatáu i bobl ifanc 16 oed brynu ffilmiau pornograffig ac ymddangos ynddynt?

Carl Sargeant: Yr ydych yn llygad eich lle, Alun, cyflwynais—

Eleanor Burnham: Yr ydych yn crafu gwaelod y gasgen.

Carl Sargeant: Ni chredaf mai crafu gwaelod y gasgen o gwbl yw'r cwestiwn hwnnw. Credaf ei fod yn fater difrifol iawn.

Y Llywydd: Trefn. Weinidog, nid oes rheswm ichi gymryd dim sylw o bobl nad

of people who are not satisfied with their orderly supplementary questions and seek to interject further on. You may reply to the question of Alun Davies, Minister, without sedentary interruption.

Carl Sargeant: Thank you, Presiding Officer.

I followed up with my commitment in producing the strategy, 'The Right to Be Safe', to tackle stereotypes, particularly the sexualisation of young women. If the proposal is to allow 16-year-olds to buy and star in pornographic films in Wales and the United Kingdom, then I am appalled by it. It is an appalling action, and the Liberal Democrats should overturn that policy.

Communities First

Q3 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on funding for Communities First? OAQ(3)1163(SJL)

Carl Sargeant: Core funding for Communities First partnerships is in place until March 2012. Further to my recent statements on the programme, I have written to all partnerships explaining that I require additional assurances that their financial management and governance arrangements are robust enough before committing further funding to them.

Mark Isherwood: In the last Assembly, the Social Justice and Regeneration Committee considered an independent report commissioned by the Welsh Government into Communities First. The report identified a lack of funding and human resource controls set by the Welsh Government at the outset. Last July, the Wales Audit Office published a report into Communities First in general, which also identified a lack of financial and human resource controls implemented by the Welsh Government from the outset. Most recently, a report on a Communities First partnership in north Wales indicated that the Welsh Government was made aware of problems as long ago as 2003, and the Association of Voluntary Organisations in Wrexham subsequently brought problems to

ydont yn fodlon â'u cwestiynau atodol trefnus, ac yn ceisio torri ar draws wedyn. Gallwch ymateb cwestiwn Alun Davies, Weinidog, heb i bobl sy'n eistedd dorri ar eich traws.

Carl Sargeant: Diolch, Lywydd.

Cyflawnais fy ymrwymiad i lunio'r strategaeth, 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel', er mwyn mynd i'r afael â stereoteipio, yn enwedig y modd y caiff menywod ifanc eu rhywioli. Os y bwriad yw caniatáu i bobl ifanc 16 oed brynu ffilmiau pornograffig ac ymddangos ynddynt yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, mae'r holl beth yn codi arswyd arnaf. Mae'n weithred arswydus, a dylai'r Democratiaid Rhyddfrydol ddiddymu'r polisi.

Cymunedau yn Gyntaf

C3 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)1163(SJL)

Carl Sargeant: Mae cyllid craidd ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ar gael tan fis Mawrth 2012. Yn dilyn fy natganiadau'n ddiweddar ar y rhaglen, yr wyf wedi ysgrifennu at bob partneriaeth yn esbonio bod arnaf angen sicrwydd ychwanegol fod eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn ddigon cadarn, cyn rhoi rhagor o gyllid iddynt.

Mark Isherwood: Yn y Cynulliad diwethaf bu'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ystyried adroddiad annibynnol ar Cymunedau yn Gyntaf, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Nododd yr adroddiad ddiffyg yn y systemau rheoli cyllid ac adnoddau dynol a bennwyd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru. Fis Gorffennaf diwethaf cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar Cymunedau yn Gyntaf yn gyffredinol, a nododd hefyd ddiffyg yn y systemau rheoli adnoddau dynol ac ariannol a weithredwyd o'r dechrau'n deg gan Lywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar, nododd adroddiad ar bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn y gogledd fod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am broblemau mor bell yn ôl â 2003, a bod y

its attention. You state that you have now implemented a requirement for all of the partnerships to put proper financial controls in place. Why did the Welsh Government not do this earlier, either in this Assembly, or through members of the current Government in the last Assembly, when these problems were first highlighted in reports commissioned by the Welsh Government and delivered by the Wales Audit Office?

Carl Sargeant: As you are aware, I have been open and transparent with the proposals that I have taken forward with Communities First, starting with a governance review across the whole sector. I do not recognise some of the datelines in your comments. I am led to believe that Welsh Assembly Government colleagues took steps swiftly before I was appointed to this post. These are all in order, and they have been audited by the Wales Audit Office and internal agencies within the Welsh Assembly Government. I am committed to ensuring that our most deprived communities in Wales continue to have direct action and intervention from Welsh Assembly Government funding. I will ensure that that happens once I am assured that the governance process is in place in all of these partnerships.

Jeff Cuthbert: I would maintain that Communities First is an excellent programme aimed at those who live in our most disadvantaged communities, and we are yet to see some of the long-term benefits of those programmes. I have 10 Communities First wards or sub-wards in my constituency. However, despite what appears to have happened in the Communities First partnership in Plas Madoc, it is important that we still have full confidence in these programmes, which is why I welcome the firm measures that you have taken to improve the governance of the Communities First programme. Do you agree, Minister, that we must not judge all of these programmes by what happened, or what appears to have happened, in Plas Madoc, and confirm that, on the whole, Communities First represents

Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam wedi tynnu ei sylw at broblemau'n dilyn hynny. Dywedwch eich bod erbyn hyn wedi gosod gofyniad ar bob un o'r partneriaethau i roi systemau rheoli ariannol priodol ar waith. Pam na wnaeth Llywodraeth Cymru hynny'n gynharach, naill yn ystod y Cynulliad hwn ynteu drwy aelodau'r Llywodraeth bresennol yn y Cynulliad diwethaf, pan dynnwyd sylw at y problemau hyn gyntaf mewn adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'u darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru?

Carl Sargeant: Fel y gwyddoch, yr wyf wedi bod yn onest ac yn dryloyw o ran y cynigion yr wyf wedi bwrw ymlaen â hwy yng nghyswllt Cymunedau yn Gyntaf, gan ddechrau gydag adolygiad llywodraethu ar draws y sector cyfan. Nid wyf yn adnabod rhai o'r dyddiadau yn eich sylwadau. Caf ar ddeall i'm cydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad gymryd camau buan cyn imi gael fy mhenodi i'r swydd hon. Mae'r rheini i gyd yn gywir, ac maent wedi'u harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac asiantaethau mewnol yn Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn parhau'n destun ymyriadau a champau gweithredu uniongyrchol yn sgil cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad. Byddaf yn sicrhau bod hynny'n digwydd pan gaf sicrwydd bod y broses lywodraethu ar waith ym mhob un o'r partneriaethau hyn.

Jeff Cuthbert: Byddwn i'n honni bod Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen ardderchog sy'n anelu at y bobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae rhai o fanteision hirdymor y rhaglenni hynny eto i'w gweld. Mae gennyf 10 o wardiau neu is-wardiau Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth. Fodd bynnag, er gwaetha'r hyn sydd fel pe bai wedi digwydd yn y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ym Mhlas Madog, mae'n bwysig inni barhau i ymddiried yn llwyr yn y rhaglenni hyn, a dyna pam yr wyf yn croesawu'r camau cadarn yr ydych wedi'u cymryd i wella'r modd y caiff y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei llywodraethu. A gytunwch, Weinidog, ei bod yn rhaid inni beidio â barnu pob un o'r rhaglenni hyn yn ôl yr hyn a ddigwyddodd, neu'r hyn sydd fel pe bai wedi

good value for money?

digwydd, ym Mhlas Madog, a'i bod yn rhaid inni gadarnhau bod Cymunedau yn Gyntaf, ar y cyfan, yn rhoi gwerth da am yr arian?

1.50 p.m.

Carl Sargeant: Let us be very clear. The Plas Madoc partnership has delivered some very good work on the ground in turning that community around. As you say, this is a long-term programme. When the Welsh Assembly Government introduced the Communities First programme, we had to identify the most deprived across Wales—there are many in your constituency, as you have alluded to. They did not become deprived by chance; it was because of the difficulties that politics can sometimes deliver and their impact communities. Communities change on the whole. The closure of the mining and steel industries had a big impact on our communities. That is why we have to put these Communities First measures in place. I am open-minded; I have not made a decision on any of the partnerships in respect of a non-commitment to spend, and I will not do so until there is clear governance reporting. When I am confident that I can start to release significant amounts of money back into these needy communities, I will.

Janet Ryder: Minister, when you do release money back into the communities—and those communities do need that money—it needs to be ensured that they are in control of it. The original aim of Communities First was to empower those communities. Unfortunately, in some cases that has not happened, and those communities have in fact become more dislocated as a result of the events that have taken place. Will you give a firm commitment to considering the use of participatory budgeting schemes, in Communities First areas to start with, not just for small schemes, but for bigger schemes, too, so that the whole community can come forward together with the project and can take the budget into their own hands? Will you look for the experience to run those projects? For example, in Wrexham, Together Creating Communities has built up a wealth of experience in running these

Carl Sargeant: Gadewch inni egluro. Mae partneriaeth Plas Madog wedi gwneud gwaith da iawn ar lawr gwlad, o ran gwella'r gymuned dan sylw. Fel y dywedwch, mae hon yn rhaglen hirdymor. Pan gafodd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei chyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad, bu'n rhaid inni adnabod y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru—mae nifer yn eich etholaeth chi, fel yr ydych wedi sôn. Nid ar hap a damwain yr aethant yn ddifreintiedig; digwyddodd hynny oherwydd yr anawsterau y gall gwleidyddiaeth eu hachosi weithiau, a'u heffaith ar gymunedau. Mae cymunedau'n newid ar y cyfan. Cafodd cau'r diwydiannau mwyngloddio a dur effaith fawr ar ein cymunedau. Dyna pam y mae'n rhaid inni gyflwyno'r camau hyn sy'n ymwneud â Cymunedau yn Gyntaf. Mae gennyf feddwl agored; nid wyf wedi penderfynu peidio ag ymrwymo i wario yng nghyswllt yr un bartneriaeth, ac ni fyddaf yn gwneud hynny nes bydd systemau clir ar waith ar gyfer adrodd ynghylch llywodraethu. Pan fyddaf yn hyderus y gallaf ddechrau rhyddhau symiau sylweddol o arian yn ôl i'r cymunedau hyn sydd mewn angen, byddaf yn gwneud hynny.

Janet Ryder: Weinidog, pan fyddwch yn rhyddhau arian yn ôl i'r cymunedau—ac mae angen yr arian ar y cymunedau hynny—bydd angen sicrhau mai nhw sy'n ei reoli. Nod gwreiddiol Cymunedau yn Gyntaf oedd grymuso'r cymunedau dan sylw. Yn anffodus, nid yw hynny wedi digwydd mewn rhai achosion, ac mewn gwirionedd mae'r cymunedau hynny wedi mynd yn fwy datgysylltiedig o ganlyniad i'r hyn sydd wedi digwydd. A wnewch chi ymrwymo'n bendant i ystyried defnyddio cynlluniau cyllidebu cyfranogol, mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ddechrau, nid yn unig ar gyfer cynlluniau bach, ond ar gyfer cynlluniau mwy hefyd, er mwyn i'r gymuned gyfan allu cydgyflwyno'r prosiect a rheoli'r gyllideb ei hun? A wnewch chi chwilio am y profiad i redeg y prosiectau hynny? Er enghraifft, yn Wrecsam mae Creu Cymunedau Gyda'n Gilydd wedi magu lawer iawn o brofiad o

projects.

Carl Sargeant: On participatory budgets, I expect that you, too, will have had a discussion with TCC and similar organisations in north Wales. I have allocated some diary time to have that discussion with them. There is still work to be done on participatory budgets—it is not an easy word to say; I think I will call them ‘PBs’ from now on. My view is that we should not tar everyone with the same brush. What happened at Plas Madoc concerned some individuals and the matter is under police investigation, so I cannot comment on the details or on the people involved. However, what I will say is that I do not see the same model in the 150-odd partnerships across Wales. There are some good partnerships, good leaders, and good people delivering services on the ground. We have to take a balanced view on what we do with Communities First, on how the partnerships engage and on how we deliver services through them. I will support them to get that governance right.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1179(SJL), yn ôl.

Priorities for Local Government

Q5 Darren Millar: Will the Minister make a statement on his priorities for local government over the next 12 months? OAQ(3)1169(SJL)

Carl Sargeant: In addition to supporting local authorities in providing high quality services that meet local needs, building strong and sustainable communities and operating in an open and accountable manner, the Welsh Assembly Government will be working with our partners and stakeholders to help people, businesses and communities to tackle the economic downturn.

Darren Millar: You and I agree that collaboration is one way forward to achieve the cost savings that will be required of local authorities over the next few years, and I know that you are committed to that. However, if we are also going to cut waste in

redeg y prosiectau hyn.

Carl Sargeant: O ran cyllidebau cyfranogol, tybiaf eich bod chi hefyd wedi cael trafodaeth â Cymunedau Gyda'n Gilydd a mudiadau tebyg yn y gogledd. Yr wyf wedi clustnodi ychydig amser yn fy nyddiadur i gael y drafodaeth honno â'r mudiad. Mae angen gwneud gwaith o hyd ar gyllidebau cyfranogol. Yn fy marn i, ni ddylem dybio bod pawb yr un fath. Yr oedd yr hyn a ddigwyddodd ym Mhlas Madog yn ymwneud â rhai unigolion, ac mae'r heddlu'n ymchwilio i'r mater, felly, ni allaf wneud sylwadau ar y manylion na'r bobl dan sylw. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw nad wyf yn gweld yr un model yn y partneriaethau sydd ledled Cymru, ac mae bron i 150 ohonynt. Mae yna rai partneriaethau da, arweinwyr da, a phobl dda wrthi'n darparu gwasanaethau ar lawr gwlad. Rhaid inni bwysu a mesur yn ddoeth beth a wnawn â Cymunedau yn Gyntaf, sut y mae'r partneriaethau'n ymgysylltu ag eraill, a sut yr ydym yn darparu gwasanaethau drwyddynt. Byddaf yn eu cefnogi i sicrhau bod eu trefn lywodraethu'n gywir.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)1179(SJL), has been withdrawn.

Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Leol

C5 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol dros y 12 mis nesaf? OAQ(3)1169(SJL)

Carl Sargeant: Yn ogystal â chynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion lleol, adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy, a gweithredu'n agored ac yn atebol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i helpu pobl, busnesau a chymunedau i fynd i'r afael â'r dirywiad economaidd.

Darren Millar: Yr ydych chi a mi'n cytuno bod cydweithredu'n un ffordd i sicrhau'r arbedion cost y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu gwneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a gwn eich bod wedi ymrwymo i hynny. Fodd bynnag, os ydym

local government, there needs to be more transparency. Do you agree that requiring local authorities to publish every item of their expenditure online is one way in which the public can participate in the drive against waste?

Carl Sargeant: I am not sure that I do agree with that, but I can see the action that you are trying to take. My view is that there should be openness and transparency. Those figures should be available to members of the public. You claim to be a champion for cutting red tape and bureaucracy in this respect. I trust many local authorities to deliver public services. We have to work together collaboratively across the whole of the public sector to change the way we do business. I have now visited most of the authorities and I am encouraged by the partnership working. There is a long way to go, but I am not convinced that publishing some data on the internet would give us a cost benefit or any outcome benefits.

Chris Franks: You will be aware that a number of councils have expressed concern about the local development plan process. In my region, Cardiff County Council is concerned that its draft plan could be subject to significant revision following comments from inspectors. Are you content that the current system is effective? Many residents are concerned that there may be unacceptable large-scale developments in the countryside around the city.

Carl Sargeant: You may or may not be aware that I cannot comment on individual local development plans. This issue should perhaps be directed to the Minister for Environment, Sustainability and Housing so that she can write to you in more detail.

Community Safety Scrutiny

Q6 Brian Gibbons: Will the Minister provide an update on community safety scrutiny by local government in Wales? OAQ(3)1186(SJL)

hefyd yn bwriadu lleihau gwastraff mewn llywodraeth leol, mae angen mwy o dryloywder. A ydych yn cytuno bod mynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi pob eitem o'u gwariant ar-lein yn un ffordd y gall y cyhoedd gymryd rhan yn yr ymgyrch yn erbyn gwastraff?

Carl Sargeant: Nid wyf yn sicr a wyf yn cytuno â hynny, ond gallaf weld y cam gweithredu yr ydych yn ceisio'i gymryd. Yn fy marn i, dylid bod yn agored ac yn dryloyw. Dylai'r ffigurau hynny fod ar gael i'r cyhoedd. Yr ydych yn honni eich bod yn hyrwyddo cwtogi mân reolau a biwrocratiaeth yn y cyswllt hwn. Yr wyf yn ymddiried mewn llawer o awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd yn gydweithredol ar draws y sector cyhoeddus yn gyfan i newid y modd yr ydym yn cyflawni busnes. Yr wyf wedi ymweld â mwyafrif yr awdurdodau erbyn hyn, a chaf fy nghalonogi gan y gwaith partneriaeth a wneir. Mae llawer iawn i'w wneud eto, ond nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai cyhoeddi data ar y rhyngwyd yn golygu mantais inni o ran cost nac unrhyw fanteision eraill o ran canlyniadau.

Chris Franks: Byddwch yn ymwybodol fod nifer o gynghorau wedi mynegi pryder am y broses cynlluniau datblygu lleol. Yn fy rhanbarth i, mae Cyngor Sir Caerdydd yn pryderu y gallai ei gynllun drafft gael ei adolygu'n helaeth yn dilyn sylwadau gan arolygwyr. A ydych yn fodlon fod y system gyfredol yn effeithiol? Mae nifer o drigolion yn pryderu y gallai datblygiadau mawr annerbyniol ddigwydd yn y wlad o amgylch y ddinas.

Carl Sargeant: Efallai y byddwch yn gwybod na allaf wneud sylwadau ar gynlluniau datblygu lleol unigol. Hwyrach y dylid cyfeirio'r mater hwn at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai er mwyn iddi allu ysgrifennu atoch i roi mwy o fanylion.

Gwaith Craffu Llywodraeth Leol

C6 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith craffu llywodraeth leol yng Nghymru ar ddiogelwch cymunedol? OAQ(3)1186(SJL)

Carl Sargeant: Local authorities have established crime and disorder scrutiny committees in accordance with the requirements of the Police and Justice Act 2006 and statutory guidance issued in February 2010. From 1 April, amending regulations provide for the co-option of any member, other than council executive members, to these committees.

Brian Gibbons: You will be aware that crime and the fear of crime is one big concern out there in the community. Do you welcome the recent results of the British crime survey, which showed a 7 per cent overall decline in crime over the last 12 months in the UK, with an 8 per cent decline in Wales? That includes an 11 to 12 per cent reduction in burglary, vehicle-related crime, vandalism and drug offences; a 21 per cent reduction in theft from the person and a 10-year low in the incidence of murder. That is all a consequence of the high levels of investment and the good policies pursued by the UK Government in conjunction with our community safety partnerships in Wales in the form of extra police, community safety officers and community safety in general. Do you agree that this progress could be put at risk if we do not continue to build on this excellent record of achievement and that our community safety partnership scrutiny is one way of ensuring that this good practice and record continues to be delivered?

Carl Sargeant: It is encouraging to be able to announce figures such as a decrease of 5 per cent in recorded crimes in the last 12 months. These are current figures, which were only released last week, as you are aware, Brian. People are worried about these issues and there is a perception of risk, but the risk of becoming a victim of crime has reduced to 23 per cent in the last year, falling from 40 per cent in 1995. So, we have moved a long way, and given police officer and community beat officer numbers, I am encouraged that the UK Government has made dramatic in-roads by investing in front-line public sector jobs. There is a

Carl Sargeant: Mae awdurdodau lleol wedi sefydlu pwyllgorau craffu ar droseddu ac anhrefn, yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2010. O 1 Ebrill ymlaen, mae rheoliadau diwygio'n darparu ar gyfer cyfethol unrhyw aelod, heblaw am aelodau gweithredol cynghorau, i'r pwyllgorau hyn.

Brian Gibbons: Byddwch yn ymwybodol bod cymunedau yn pryderu'n fawr am droseddu ac ofn troseddu. A ydych yn croesawu canlyniadau diweddar arolwg troseddu Prydain, a ddangosodd ostyngiad cyffredinol o 7 y cant mewn troseddu yn y DU dros y 12 mis diwethaf, a gostyngiad o 8 y cant yng Nghymru? Mae hynny'n cynnwys 11 i 12 y cant o ostyngiad mewn bwrgleriaeth, troseddau'n ymwneud â cherbydau, fandaliaeth a throseddau'n ymwneud â chyffuriau; 21 y cant o ostyngiad mewn achosion o ddwyn oddi ar berson, a'r nifer isaf o lofruddiaethau ers 10 mlynedd. Mae hynny i gyd wedi digwydd o ganlyniad i'r lefelau uchel o fuddsoddi a'r polisïau da a weithredwyd gan Lywodraeth y DU ar y cyd â'n partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru, ar ffurf mwy o swyddogion heddlu, swyddogion diogelwch cymunedol, a diogelwch cymunedol yn gyffredinol. A gytunwch y gallai'r cynnydd hwn fod mewn perygl os na fyddwn yn parhau i adeiladu ar yr hanes ardderchog hwn o gyflawni, a bod ein prosesau craffu ar bartneriaethau diogelwch cymunedol yn un ffordd i sicrhau bod yr hanes a'r arfer da hwn yn parhau i ddigwydd?

Carl Sargeant: Mae'n galonogol gallu cyhoeddi ffigurau megis 5 y cant o ostyngiad mewn troseddau a gofnodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r rhain yn ffigurau cyfredol a gyhoeddwyd dim ond yr wythnos diwethaf, fel y gwyddoch, Brian. Mae pobl yn pryderu am y materion hyn, ac mae rhyw ganfyddiad o risg, ond mae'r risg o ddioddef troseddu wedi gostwng i 23 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddisgyn o 40 y cant yn 1995. Felly, yr ydym wedi gwneud llawer o gynnydd, ac o ystyried niferoedd swyddogion heddlu a swyddogion rhawd cymunedol, caf fy nghalonogi bod Llywodraeth y DU wedi gwella'r sefyllfa'n

commitment to keep our front-line public sector workers in health, the police and education. I find that encouraging, but I am disappointed that the Conservative Party cannot support public spending.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn ategu'r hyn y mae Brian Gibbons newydd ei ddweud ynghylch pwysigrwydd cynnal y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector cyhoeddus. Pe byddai toriadau garw'n cael eu cyflwyno fel y mae'r Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi awgrymu, byddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu cwtogi yng Nghymru. A derbyn bod y buddsoddiad wedi digwydd a bod hynny wedi creu sefyllfa lle mae'r ystadegau o leiaf yn awgrymu bod ein cymunedau'n fwy diogel, a wnewch chi dderbyn mai canfyddiad y cyhoedd yw bod bygythiad, ac onid yw'n bwysig cyfathrebu gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r math o wasanaethau sydd ar gael a phwy sy'n gyfrifol am beth? Bu ichi sôn am heddlu a'r swyddogion diogelwch yn ein cymunedau. Bu ichi sôn am graffu a'r pwyllgorau craffu sydd ar gael. A wnewch sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r mynediad sydd ganddynt at y pwyllgorau hyn a'r cyfleoedd sydd ganddynt i fynegi barn drwy'r pwyllgorau?

2.00 p.m.

Carl Sargeant: The perception of crime is much more difficult to combat than crime itself. As I mentioned earlier, the risk of being a victim of crime is now 23 per cent, having fallen from 40 per cent in 1995. That shows that there has certainly been a significant decrease in risk, but people's perceptions of crime might be different. Police forces and police fora have a duty in this regard. I welcome the initiative in my area, whereby local police hold discussions in the community about concerns in their local area and consider ways to combat crime and reduce the perception of crime in order to make the communities safer places to be.

The fora that Brian asked about is something

ddramatig drwy fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen yn y sector cyhoeddus. Mae ymrwymiad i gadw ein gweithwyr rheng flaen yn y sector cyhoeddus ym maes iechyd, yr heddlu ac addysg. Mae hynny'n fy nghalonogi, ond yr wyf yn siomedig na all y Blaid Geidwadol gefnogi gwariant cyhoeddus.

Rhodri Glyn Thomas: I support Brian Gibbons's remarks about the importance of maintaining the investment in public sector services. If sharp cuts are introduced, as the Conservative Party and the Liberal Democrats have suggested, these services would be cut in Wales. Accepting that the investment has taken place and that it has created a situation in which the statistics at least suggest that our communities are safer, do you accept that public perception is that there is a threat, and is it not important to communicate with the public about the sorts of services that are available and who is responsible for what? You mentioned the police and safety officers in our communities. You mentioned scrutiny and the scrutiny committees that we have here. Will you ensure that members of the public are made aware of the access opportunities and the opportunities that they have to express an opinion through those committees?

Carl Sargeant: Mae'n anos o lawer mynd i'r afael â'r canfyddiad o droseddu na mynd i'r afael â throseddu ei hun. Fel y soniais yn gynharach, 23 y cant yw'r risg o ddioddef trosedd erbyn hyn, ac mae wedi disgyn o 40 y cant yn 1995. Dengys hynny fod y risg yn bendant wedi lleihau'n sylweddol, ond efallai fod canfyddiadau pobl o droseddu yn wahanol. Mae gan heddluoedd a fforymau heddluoedd ddyletswydd yn hynny o beth. Croesawaf y fenter yn fy ardal i, lle mae swyddogion heddlu lleol yn cynnal trafodaethau yn y gymuned am bryderon yn eu hardal leol, ac yn ystyried ffyrdd i fynd i'r afael â throseddu a lleihau'r canfyddiad o droseddu er mwyn gwneud y cymunedau'n lleoedd mwy diogel i fod ynddynt.

Mae'r fforymau yr oedd Brian yn holi yn eu

that I support. I have had good dialogue with the Ministry of Justice and this is something that we want to build upon in Wales.

Poverty Levels

Q7 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on poverty levels in Wales? OAQ(3)1183(SJL)

Carl Sargeant: Poverty has fallen in Wales and the UK over the past 10 years. I regret that the most recent household-below-average-income statistics showed a stalling of this progress. This demonstrates the importance of doing as much as we can to increase the life chances of individuals experiencing poverty.

Jenny Randerson: One of the ways in which you have tried to improve the life chances of such individuals is, of course, through the Communities First programme. I want to refer to the Plas Madoc example once again. While accepting that the Communities First programme is well intentioned and, indeed, that some extremely good work has been done by partnerships up and down the country, I want to concentrate on the failures in the Plas Madoc case because I do not believe that this is the only example where there may have been problems—although I am not for one minute suggesting that there are any other examples where the problems are on the same scale.

The key issue in the Auditor General for Wales's report is the fact that repeated warnings were given about problems in that partnership. Back in 2003, Wrexham County Borough Council wrote to warn your department about the issues and it later wrote again. Other individuals—whistleblowers—have reported things to the unit in the Assembly Government. Minister, can you give us a complete assurance that your Government will learn the lessons from the failures in this case and that never again will there be a complete failure to pay attention to warning signs on this scale?

cylch yn rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi. Yr wyf wedi cael trafodaeth dda â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae hwn yn rhywbeth yr ydym am ei ddatblygu yng Nghymru.

Lefelau Tlodi

C7 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau tlodi yng Nghymru? OAQ(3)1183(SJL)

Carl Sargeant: Mae tlodi wedi lleihau yng Nghymru a'r DU dros y 10 mlynedd diwethaf. Yr wyf yn gresynu bod yr ystadegau diweddaraf ar gartrefi islaw'r incwm cyfartalog yn dangos bod y cynnydd hwn wedi ei atal. Dengys hynny bwysigrwydd gwneud cymaint ag a allwn i gynyddu cyfleoedd bywyd unigolion sy'n byw mewn tlodi.

Jenny Randerson: Un o'r ffyrdd yr ydych wedi ceisio gwella cyfleoedd bywyd unigolion o'r fath, wrth gwrs, yw drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Hoffwn gyfeirio at enghraifft Plas Madog unwaith eto. Er fy mod yn derbyn bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn llawn bwriadau da, ac yn wir fod rhywfaint o waith eithriadol o dda wedi'i wneud gan bartneriaethau ar hyd a lled y wlad, hoffwn ganolbwyntio ar y methiannau yn achos Plas Madog. Ni chredaf mai dyma'r unig enghraifft o achos lle bu problemau efallai—ond nid wyf yn awgrymu am eiliad fod enghreifftiau eraill lle mae problemau mor enbyd.

Y mater allweddol yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r ffaith i'r naill rybudd ar ôl y llall gael ei roi am broblemau yn y bartneriaeth dan sylw. Yn ôl yn 2003, ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i rybuddio eich adran am y problemau, ac ysgrifennodd unwaith eto'n ddiweddarach. Mae unigolion eraill—rhai a chwythodd y chwiban—wedi rhoi gwybod am bethau i'r uned yn Llywodraeth y Cynulliad. Weinidog. Felly, a allwch roi sicrwydd llwyr inni y bydd eich Llywodraeth yn dysgu'r gwersi o'r methiannau yn yr achos hwn, ac na fydd methiant llwyr i roi sylw i rybuddion byth eto ar y raddfa hon?

Carl Sargeant: Communities First is just one strand of the anti-poverty strategy that we have developed. I am slightly concerned that you mentioned that there are problems in other partnerships, but if you have identified problems, you should write to me about them.

I do not recognise the accusations that you made in relation to some events that took place in the Plas Madoc Communities First development programme. You said that Wrexham County Borough Council wrote to the Assembly Government, which is correct, but I am not sure what action it called for. In fact, it did not call for any particular action, although you are correct in saying that it wrote to the Government.

I will ensure that we keep names out of this process, but you suggested that there were whistleblowers. You are correct that, in 2008 and early 2009, people came forward with concerns regarding Communities First. Initially, those concerns related to work within the Communities First programme; later, in July 2009, these concerns broadened to include the governance of Plas Madoc. Action was taken immediately by the Welsh Assembly Government. Since July 2009, timings have been dictated entirely by the audit process, and now the police investigation.

You and others have alluded to some dark goings on with regard to letters that were brought to the attention of Welsh Assembly Government officials, and so on, but I do not recognise that tale. I have been clear that if there are lessons to be learnt in terms of the service delivery, I want to know what they are. I refuse to acknowledge your suggestion that there has been a cover-up of some sort because that is not the case.

In fact, I have a note from one of the whistleblowers, who shall remain nameless, suggesting that we should compliment officials on the transparent way that this issue has been dealt with and exposed. Rather than

Carl Sargeant: Un agwedd yn unig ar y strategaeth yn erbyn tlodi a ddatblygwyd gennym yw Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf yn pryderu ichi grybwyll bod problemau mewn partneriaethau eraill, ond os ydych wedi dod ar draws problemau, dylech ysgrifennu ataf yn eu cylch.

Nid wyf yn adnabod y cyhuddiadau a wnaethoch yng nghyswllt rhai pethau a ddigwyddodd yn rhaglen ddatblygu Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog. Yr oeddech yn sôn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Cynulliad, sy'n gywir, ond nid wyf yn siŵr pa gamau gweithredu y galwodd amdanynt. Mewn gwirionedd, ni alwodd am gamau gweithredu penodol, er eich bod yn gywir wrth ddweud iddo ysgrifennu at y Llywodraeth.

Yr wyf am sicrhau ein bod yn cadw enwau allan o'r broses hon, ond yr oeddech yn awgrymu i rai chwythu'r chwiban. Yr oeddech yn gywir wrth ddweud bod pobl, yn 2008 ac yn gynnar yn 2009, wedi mynegi pryderon ynghylch Cymunedau yn Gyntaf. I ddechrau, yr oedd y pryderon hynny'n ymwneud â gwaith yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 2009, ehangodd y pryderon hynny i gynnwys prosesau llywodraethu Plas Madog. Cymerwyd camau gweithredu ar unwaith gan Lywodraeth y Cynulliad. Ers mis Gorffennaf 2009, y broses archwilio, a'r ymchwiliad gan yr heddlu'n awr, sydd wedi pennu pryd y mae popeth yn digwydd.

Yr ydych chi ac eraill wedi cyfeirio at rai pethau sy'n digwydd yn y dirgel yng nghyswllt llythyrau a ddygwyd i sylw swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ac yn y blaen, ond nid wyf yn gyfarwydd â'r stori honno. Yr wyf wedi egluro, os oes gwersi i'w dysgu am y modd y darperir gwasanaethau, yr wyf am wybod beth ydynt. Gwrthodaf gydnabod eich awgrym fod rhyw fath o ymdrech wedi bod i gelu problemau, oherwydd nid yw hynny'n wir.

Mewn gwirionedd, mae gennyf nodyn gan un o'r rhai a chwythodd y chwiban, ac nid wyf am ei enwi, sy'n awgrymu y dylem ganmol swyddogion am y modd tryloyw yr ymdriniwyd â'r broblem hon a'i datgelu. Yn

play politics in relation to what happened in Plas Madoc, my job is to get it sorted and get much needed funding out to partnerships where it is needed.

Joyce Watson: The Tories have a lot to answer for. They left us with a poisonous legacy in that child poverty doubled during their 18 years in office, which led to one-in-three children being in poverty in 1997. They have not learned from their past failed policies. Only yesterday, they again called for Welsh Labour's highly successful free school breakfast scheme to be scrapped, despite the fact that this scheme has helped children in the most deprived areas of Wales. Can you give an assurance that we will be keeping that scheme, Minister?

The Tories are also hostile to child tax credits, as we heard that the Liberal Democrats are this morning, as well as to child trust funds. The commitment to increase the number of families who benefit from those entitlements would be at risk should any of those find themselves in power. Can you assure the people of Wales that the Labour policies that you oversee will focus on further reducing poverty or providing for the people who are most vulnerable and most in need?

Carl Sargeant: The duty to combat poverty in Wales is a collective duty for the Cabinet. I lead on that, but I expect and have the support of my colleagues in addressing that in all the work that they do. Jenny highlighted the fact that Communities First are part of a strand that we use to combat poverty in Wales, and others include Flying Start, the home energy efficiency scheme, all-Wales coverage by the credit union network and so on. The ones that you raised today included free prescriptions, free bus passes, free school breakfasts and child trust funds. You can be assured, Joyce, that we are committed to those schemes and will be taking them forward into the next session of the UK Government. I am disappointed that my colleagues in the Conservative Party, on the opposite side of the Chamber, cannot

hytrach na chwarae gwleidyddiaeth yn yr hyn a ddigwyddodd ym Mhlas Madog, fy ngwaith i yw datrys y sefyllfa a sicrhau bod cyllid y mae angen mawr amdano yn cyrraedd y partneriaethau lle mae ei angen.

Joyce Watson: Mae gan y Torïaid lawer i ateb drosto. Gadawsant waddol gwenwynig inni, oherwydd dyblodd tlodi plant yn ystod y 18 mlynedd pan oeddent mewn grym, a olygodd bod un o bob tri phlentyn mewn tlodi yn 1997. Nid ydynt wedi dysgu o'u polisiau aflwyddiannus yn y gorffennol. Ddoe ddiwethaf yr oeddent yn gofyn unwaith eto am ddiddymu cynllun llwyddiannus iawn y Blaid Lafur yng Nghymru, sef y cynllun brechwast am ddim, er bod y cynllun wedi helpu plant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. A allwch roi sicrwydd y byddwn yn cadw'r cynllun hwnnw, Weinidog?

Mae'r Torïaid hefyd yn gwrthwynebu credydau treth plant, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ôl a glywsom y bore yma, ac mae'r Torïaid hefyd yn gwrthwynebu cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Byddai'r ymrwymiad i gynyddu nifer y teuluoedd sy'n cael budd o'r hawliau hynny mewn perygl pe bai'r naill blaid neu'r llall yn dod i rym. A allwch roi sicrwydd i bobl Cymru y bydd y polisiau Llafur yr ydych yn eu goruchwyllo yn canolbwyntio ar leihau tlodi ymhellach, neu ddarparu ar gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf mewn angen?

Carl Sargeant: Mae'r ddyletswydd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru yn ddyletswydd i bawb yn y Cabinet. Fi sy'n arwain y gwaith, ond disgwyliaf i'm cydweithwyr roi sylw i'r mater yn yr holl waith a wnânt, ac maent yn fy nghefnogi yn hynny o beth. Tynnodd Jenny sylw at y ffaith fod Cymunedau yn Gyntaf yn rhan o ddull a ddefnyddiwn i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, ac mae agweddau eraill yn cynnwys Dechrau'n Deg, y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sicrhau gwasanaeth ledled Cymru gan y rhwydwaith undebau credyd, ac yn y blaen. Yr oedd y rhai y soniech amdanynt heddiw'n cynnwys presgripsiynau am ddim, tocynnau bws am ddim, brechwast am ddim yn yr ysgol, a chronfeydd ymddiriedolaeth plant. Gallwch fod yn dawel eich meddwl, Joyce, ein bod wedi ymrwymo i'r cynlluniau hynny ac y

subscribe to that, because it will have a dramatic impact on the people of Wales.

Mohammad Asghar: Minister, it is deeply regrettable that 96,000 children in Wales are living without basic necessities. As you will know, earlier this year a report from Save the Children described the level of child poverty in Wales as staggering. This month's statistics show that little or no progress has been made against several of the indicators used to monitor the progress of the child poverty strategy. With this in mind, does the Minister remain confident that the strategies of the Welsh Assembly Government are adequately dealing with the issues of child poverty in Wales? You purport to be doing a lot of work, but we are not seeing the results.

Carl Sargeant: Ironically, only a few months ago, when you sat on this side of the Chamber, you supported free school breakfasts, free prescriptions, child trust funds and free bus passes, but, in six months, you have changed dramatically and no longer support them. However, that is life and things move on. What I am saying is that we have a commitment on this side of the Chamber to addressing and combating poverty in Wales. It is a real shame that you or your party cannot commit to doing that.

2.10 p.m.

Bethan Jenkins: Was the Welsh Government consulted prior to the recent changes to the employment and support allowance? I have received considerable correspondence from constituents who have said that the changes were made without any consultation with them. Have you received similar correspondence as a Government?

Carl Sargeant: I have not seen the details on that. I will have to write to you with the details that you asked for.

byddwn yn mynd â hwy gyda ni i sesiwn nesaf Llywodraeth y DU. Yr wyf yn siomedig na all fy nghydweithwyr yn y Blaid Geidwadol, yr ochr arall i'r Siambr, gefnogi hynny, oherwydd bydd yn cael effaith ddramatig ar bobl Cymru.

Mohammad Asghar: Weinidog, mae'n anffodus tu hwnt bod 96,000 o blant yng Nghymru yn byw heb yr angenrheidiau sylfaenol. Fel y gwyddoch, yn gynharach eleni nododd adroddiad gan Achub y Plant fod lefel tlodi plant yng Nghymru yn syfrdanol. Dengys ystadegau'r mis hwn nad oes fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o safbwynt nifer o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro cynnydd y strategaeth tlodi plant. O gofio hynny, a yw'r Gweinidog yn dal yn hyderus bod strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrin yn ddigonol â phroblemau tlodi plant yng Nghymru? Honnwch eich bod yn gwneud llawer o waith, ond nid ydym yn gweld y canlyniadau.

Carl Sargeant: Yn eironig ddigon, ychydig fisoedd yn unig yn ôl, pan oeddech yn eistedd yr ochr hon i'r Siambr, yr oeddech yn cefnogi brechwast am ddim yn yr ysgol, presgripsiynau am ddim, cronfeydd ymddiriedolaeth plant a thocynnau bws am ddim, ond mewn chwe mis, yr ydych wedi newid yn ddramatig ac nid ydych yn eu cefnogi mwyach. Fodd bynnag, felly y mae bywyd ac mae pethau'n symud yn eu blaen. Yr hyn a ddywedaf yw ein bod wedi ymrwymo, yr ochr hon i'r Siambr, i roi sylw i dlodi yng Nghymru, a mynd i'r afael ag ef. Mae'n drueni mawr na allwch chi na'ch plaid ymrwymo i wneud hynny.

Bethan Jenkins: A ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru cyn y newidiadau diweddar i'r lwfans cyflogaeth a chymorth? Yr wyf wedi cael llawer iawn o ohebiaeth gan etholwyr a ddywedodd bod y newidiadau wedi'u cyflwyno heb ymgynghori o gwbl â hwy. A ydych chi wedi cael gohebiaeth debyg, fel Llywodraeth?

Carl Sargeant: Nid wyf wedi gweld y manylion ynghylch hynny. Bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch i roi'r manylion y

gwnaethoch gais amdanynt.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes
Questions to Minister for Children, Education and Lifelong Learning

Education Budget

Q1 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the education budget? OAQ(3)1328(CEL)

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):

The education budget for 2010-11 was approved by the Assembly in December. It stands at more than £2 billion. In addition, the majority of funding to support local authority provision to schools and other educational services is provided through the revenue support grant.

Leanne Wood: Rhondda Cynon Taf County Borough Council has drafted plans to make fundamental changes to post-16 education. Its preferred option is to create bilingual tertiary colleges and those plans are, in the opinion of Plaid Cymru, deeply flawed. Apart from being prepared with indecent haste and a lack of consultation, these proposed measures will not provide a comprehensive range of Welsh-medium provision, which includes pastoral care and extra-curricular activities. Concern has also been expressed by the faith sector. Rhondda Cynon Taf council has previously stated that it will consider funding the changes with private finance initiative money, if finances are not available from the Assembly Government. Given that the proposals have been so unpopular, will the Welsh-medium education strategy that you unveiled last week provide any succour to concerned parents in Rhondda Cynon Taf who are deeply opposed to the council's plans as they stand?

Leighton Andrews: I will start by pointing out that when Rhondda Cynon Taf council used PFI, it was under a Plaid Cymru administration. I will make a general statement in respect of the transformation plans that are being submitted by local

Y Gyllideb Addysg

C1 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb addysg? OAQ(3)1328(CEL)

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):

Cymeradwywyd y gyllideb addysg ar gyfer 2010-11, sydd dros £2 biliwn, gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Yn ogystal, darperir y rhan fwyaf o'r arian i gefnogi darpariaeth awdurdodau lleol i ysgolion a gwasanaethau addysgol eraill drwy'r grant cynnal refeniw.

Leanne Wood: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi paratoi cynlluniau drafft ar gyfer newidiadau sylfaenol mewn addysg ôl-16. Y dewis gorau ganddo yw creu colegau trydyddol dwyieithog, ac ym marn Plaid Cymru mae'r cynlluniau hynny'n ddiffygiol iawn. Ar wahân i'r ffaith i'r cynlluniau gael eu paratoi'n frawychus o sydyn a heb ymgynghori digonol, ni fydd y mesurau arfaethedig hyn yn darparu ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth Gymraeg, sy'n cynnwys gofal bugeiliol a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r sector ffydd hefyd wedi mynegi pryder. Cyn hyn, mae cyngor Rhondda Cynon Taf wedi dweud y bydd yn ystyried ariannu'r newidiadau ag arian mentrau cyllid preifat, os na fydd arian ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad. O ystyried mor amhoblogaidd yw'r cynigion, a fydd y strategaeth ar addysg Gymraeg a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf yn cynnig unrhyw gymorth i rieni pryderus yn Rhondda Cynon Taf, sy'n gwrthwynebu'n chwymr gynlluniau'r cyngor yn eu ffurf bresennol?

Leighton Andrews: Dechreuaf trwy nodi mai dan weinyddiaeth Plaid Cymru y defnyddiodd cyngor Rhondda Cynon Taf fenter cyllid preifat. Gwnaf ddatganiad cyffredinol ynghylch y cynlluniau trawsnewid sy'n cael eu cyflwyno i

authorities to Ministers, as it would be inappropriate for any Minister to comment on the detail of plans that may come to us for determination in due course. I issued a written statement on Welsh-medium education and the transformation agenda on 21 January 2010, in which I made absolutely clear our commitment to protecting Welsh-medium education.

Andrew R.T. Davies: With the education budget coming under pressure, as will all budgets in the coming years, the higher education sector, which has suffered considerably in recent years, has been managing its budgets to meet the demands of students and education in those institutions, but finds itself having to operate under stringent conditions at the moment. In a letter that you sent to the Petitions Committee, you stated that you are looking to those institutions and the Higher Education Funding Council Wales to offer imaginative solutions when trying to manage their budgets and bring in efficiency savings. Can you flesh out how you believe that those imaginative solutions could be found and what type of monetary savings could be accrued by using the imagination that your officials clearly have, but you deem is not seeping down to HEFCW or the higher education institutions?

Leighton Andrews: My remit letter to HEFCW made clear what our agenda for higher education is over the next 12 months: to implement 'For Our Future', the strategy announced by my predecessor, Jane Hutt. In that, we made clear our commitment to greater collaboration between higher education institutions and the development of a regional agenda, among other things, which includes the opportunity to share back-room services. We have made that clear and we have explained that in meetings with Higher Education Wales. I also believe that when we come to publish the work that has been undertaken for us by PricewaterhouseCoopers in respect of the cost of administering the education system in Wales, it will also illustrate opportunities for further savings in the higher education sector.

Jenny Randerson: You are well aware that

Weinidogion gan awdurdodau lleol, oherwydd byddai'n amhriodol i unrhyw Weinidog wneud sylw ar fanylion cynlluniau a all ddod ger ein bron maes o law inni eu penderfynu. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar addysg Gymraeg a'r agenda drawsnewid ar 21 Ionawr 2010, ac yn y datganiad hwnnw eglurais yn bendant ein hymrwymiad i ddiogelu addysg Gymraeg.

Andrew R.T. Davies: Gyda'r gyllideb addysg yn dod dan bwysau, fel y bydd pob cyllideb yn y blynyddoedd i ddod, mae'r sector addysg uwch, sydd wedi dioddef yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn rheoli ei gyllidebau i fodloni gofynion myfyrwyr ac addysg yn y sefydliadau dan sylw, ond mae'r sector yn gweld ei fod yn gorfod gweithredu dan amodau anodd ar hyn o bryd. Mewn llythyr a anfonwyd gennych at y Pwyllgor Deisebau, yr oeddech yn dweud eich bod yn disgwyl i'r sefydliadau hynny a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynnig atebion dychmygus wrth geisio rheoli eu cyllidebau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. A allwch ddweud mwy ynghylch sut y credwch y gellid dod o hyd i'r atebion dychmygus hynny, a pha fath o arbedion ariannol y gellid eu cronni trwy ddefnyddio'r dychymyg sydd gan eich swyddogion, mae'n amlwg, ond nad yw, yn eich barn chi, yn treiddio i'r Cyngor Cyllido na'r sefydliadau addysg uwch?

Leighton Andrews: Yr oedd fy llythyr cylch gwaith at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn egluro ein hagenda ar gyfer addysg uwch dros y 12 mis nesaf: sef gweithredu 'Er Mwyn ein Dyfodol', y strategaeth a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd, Jane Hutt. Yn y strategaeth honno, eglurwyd ein hymrwymiad i fwy o gydweithredu rhwng sefydliadau addysg uwch a datblygu agenda ranbarthol, ymysg pethau eraill, sy'n cynnwys y cyfle i rannu gwasanaethau ategol. Yr ydym wedi gwneud hynny'n glir ac wedi'i esbonio mewn cyfarfodydd gydag Addysg Uwch Cymru. Credaf hefyd, pan fyddwn yn cyhoeddi'r gwaith a wnaed ar ein rhan gan PricewaterhouseCoopers ar gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru, y bydd yn dangos cyfleoedd i wneud mwy o arbedion yn y sector addysg uwch.

Jenny Randerson: Byddwch yn gwybod yn

there is no specialist education provision for those aged over 19 in Wales who have very complex impairments. Anyone in that category wishing to pursue their education has to go to England, and your Government spends £94,000 per student on sending such students to placements in England. However, even with that, there is a coming crisis, which is not just a financial issue: the number of placements available in England is decreasing. Your predecessor agreed to commission research into this issue but, in March, you said that you were reconsidering all your spending commitments, although you set up a task and finish group at the same time. Could you please clarify for us all whether that research is still going ahead?

Leighton Andrews: The important thing that we have done is announce the setting up of a task and finish group to look at the challenges that we face in respect of post-16 out-of-county and out-of-country placements. That work will need to be informed by a variety of research. I will be coming back to the Assembly in due course to announce the details of the task and finish group, including its membership. Perhaps that would be an appropriate time to revisit some of those questions.

Jenny Randerson: Thank you, Minister; that is very helpful. However, I am sure that you are aware that the parents of those young people are deeply concerned about any delay in the process that they hope will lead to a much-improved situation for their children, who, after all, do not have an easy path in life. Minister, are you convinced that the process that you are following will not delay any necessary research? It is the timescale that concerns the parents.

Leighton Andrews: I am more concerned about the timescale for action, and the implementation of any recommendations made by the task and finish group. It is widely recognised across Wales that the current situation in this regard is unsustainable. That is why I have announced the establishment of the task and finish group. I want it to look at post-16 provision,

iawn nad oes darpariaeth addysg arbenigol i rai dros 19 oed yng Nghymru sydd â namau cymhleth iawn. Rhaid i bawb yn y categori hwnnw sy'n dymuno parhau eu haddysg fynd i Loegr, ac mae eich Llywodraeth chi'n gwario £94,000 y pen ar anfon myfyrwyr o'r fath i leoliadau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae argyfwng ar ddod o ran y ddarpariaeth honno hyd yn oed, sy'n fwy na phroblem ariannol yn unig: sef bod nifer y lleoliadau sydd ar gael yn Lloegr yn lleihau. Cytunodd eich rhagflaenydd i gomisiynu ymchwil i'r mater hwn, ond ym mis Mawrth dywedasoed eich bod yn ailystyried eich holl ymrwymadau gwario, er ichi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar yr un pryd. A allech egluro i bawb a yw'r ymchwil hwnnw'n dal i fynd yn ei flaen?

Leighton Andrews: Y peth pwysig yr ydym wedi'i wneud yw cyhoeddi bod grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i edrych ar yr heriau sy'n ein hwynebu o ran lleoliadau ôl-16 y tu allan i'r sir a'r tu allan i'r wlad. Bydd angen i amrywiaeth o ymchwil gyfrannu at y gwaith hwnnw. Dof yn ôl i'r Cynulliad maes o law i gyhoeddi manylion y grŵp gorchwyl a gorffen, gan gynnwys aelodau'r grŵp. Efallai y byddai honno'n adeg briodol i ailystyried rhai o'r cwestiynau hynny.

Jenny Randerson: Diolch, Weinidog; mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod rhieni'r bobl ifanc hynny yn pryderu'n fawr am unrhyw oedi yn y broses y maent yn gobeithio a fydd yn arwain at sefyllfa lawer gwell i'w plant, nad yw eu llwybr mewn bywyd yn hawdd iawn, wedi'r cyfan. Weinidog, a ydych wedi eich argyhoeddi na fydd y broses yr ydych yn ei dilyn yn arwain at oedi gydag unrhyw ymchwil angenrheidiol? Yr amserlen sy'n poeni'r rhieni.

Leighton Andrews: Yr wyf yn poeni mwy am yr amserlen ar gyfer gweithredu, a rhoi ar waith unrhyw argymhellion a wneir gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Cydnabyddir yn helaeth ar draws Cymru nad yw'r sefyllfa bresennol yn y cyswllt hwn yn gynaliadwy. Dyna pam yr wyf wedi cyhoeddi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen. Yr wyf am i'r grŵp edrych ar ddarpariaeth ôl-16, mewn ysgolion

both in schools and in further education, in Wales and beyond. I look forward to that work being undertaken, and I hope that it brings forward swift conclusions.

Further Education

Q2 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on his priorities for further education in north Wales? OAQ(3)1341(CEL)

Leighton Andrews: Planning priorities for further education colleges for the coming academic year include basic skills and adult skills for the workplace. I also welcome progress on the transformation agenda in north Wales, such as the merger of Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Meirion-Dwyfor—and I congratulate the Presiding Officer on his latest presidential role.

Brynle Williams: Thank you for that answer, Minister. I, too, congratulate the Presiding Officer.

Yale College, Wrexham has achieved outstanding results for its students, a fact that has been recognised by Estyn. Despite those results, however, staff members face the threat of redundancy because of the shortfall in further education funding provided by your Government in the budget. Do you accept that your Government made the situation at Yale worse by encouraging the college to expand its provision for 16 to 18-year-olds before cutting its funding settlement? What assurances can you give young people in north Wales that they will have every opportunity to get the skills and training that they need to enter the workforce?

Leighton Andrews: I was pleased to have the opportunity yesterday, along with my colleague, Lesley Griffiths, the Assembly Member for Wrexham, to meet the principal of Yale College, Wrexham. Yale college plays a very important role in the education and training of young people in north Wales. We were able to announce an increase of over 5 per cent in post-16 funding provision for this financial year, so I am afraid that I do not recognise the picture that you portray.

ac mewn addysg bellach, yng Nghymru a thu hwnt. Edrychaf ymlaen at weld gwneud y gwaith hwnnw, a gobeithio y bydd yn cynnig casgliadau buan.

Addysg Bellach

C2 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer addysg bellach yn y gogledd? OAQ(3)1341(CEL)

Leighton Andrews: Ymhlith y blaenoriaethau cynllunio ar gyfer colegau addysg bellach am y flwyddyn academaidd i ddod y mae sgiliau sylfaenol a sgiliau oedolion ar gyfer y gweithle. Yr wyf hefyd yn croesawu cynnydd gyda'r agenda drawsnewid yn y gogledd, gan gynnwys uno Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Meirion-Dwyfor—a llongyfarchaf y Llywydd ar ei rôl lwyddol ddiweddaraf.

Brynle Williams: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf fi hefyd yn llongyfarch y Llywydd.

Mae Coleg Iâl, Wrecsam wedi sicrhau canlyniadau rhagorol i'w fyfyrwyr, ffaith sydd wedi'i chydabod gan Estyn. Er gwaetha'r canlyniadau hynny, fodd bynnag, mae aelodau staff yn wynebu bygythiad colli eu swyddi oherwydd y diffyg yn y cyllid ar gyfer addysg bellach a ddarperir gan eich Llywodraeth yn y gyllideb. A ydych yn derbyn bod eich Llywodraeth wedi gwaethygu'r sefyllfa yng Ngholeg Iâl trwy annog y coleg i ehangu ei ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed, cyn torri ei setliad cyllid? Pa sicrwydd y gallwch ei roi i bobl ifanc yn y gogledd y cânt bob cyfle i ennill y sgiliau a'r hyfforddiant y mae eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithlu?

Leighton Andrews: Yr oeddwn yn falch iawn cael y cyfle ddoe, ynghyd â'm cydweithiwr, Lesley Griffiths, yr Aelod Cynulliad dros Wrecsam, i gwrdd â Phrifathro Coleg Iâl, Wrecsam. Mae Coleg Iâl yn bwysig iawn yn addysg a hyfforddiant pobl ifanc y gogledd. Yr oeddem yn gallu cyhoeddi cynnydd o dros 5 y cant yn y cyllid a ddarperir ar gyfer addysg ôl-16 am y flwyddyn ariannol hon, felly, ofnaf nad wyf yn adnabod y darlun yr ydych yn ei

ddisgrifio.

Janet Ryder: Minister, I am glad that you made reference to Yale, which is very good. It fulfils the function of a further education college, but is more like a tertiary college for Wrexham as well. Wrexham is the sort of area in which, to achieve some of your Government's aims of extending participation in higher education, there must be a link-up and a pathway through to higher education. Yale is very well situated—it is very close to Glyndŵr University—to start creating those pathways together. These institutions may well want to expand those boundaries, perhaps by encouraging 14-year-olds into those pathways, which would lead them straight through to higher education. What is your department doing to support Yale and Glyndŵr University in any attempts to increase participation in further and higher education in the Wrexham area?

Janet Ryder: Weinidog, yr wyf yn falch ichi gyfeirio at Iâl, sy'n goleg da iawn. Mae'n cyflawni swyddogaeth coleg addysg bellach, ond mae'n fwy tebyg i goleg trydyddol i Wrecsam hefyd. Mae Wrecsam yn un o'r ardaloedd hynny lle mae'n rhaid cael cyswllt a llwybr drwodd i addysg uwch, er mwyn cyflawni rhai o nodau eich Llywodraeth o ran ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch. Mae Iâl mewn sefyllfa dda iawn—mae'n agos iawn i Brifysgol Glyndŵr—i ddechrau creu'r llwybrau dan sylw gyda'r brifysgol honno. Mae'n bosibl iawn y bydd y sefydliadau hyn am ehangu'r ffiniau, trwy annog myfyrwyr 14 oed i ddilyn y llwybrau dan sylw efallai, a fyddai'n eu harwain yn syth drwodd i addysg uwch. Beth y mae eich adran yn ei wneud i gefnogi Iâl a Phrifysgol Glyndŵr gydag unrhyw ymdrechion i gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach ac addysg uwch yn ardal Wrecsam?

Leighton Andrews: This also relates directly to the higher education strategy that we published last year. We made it clear that we want to see a greater expansion of collaboration between higher education institutions, certainly, but also between higher education institutions and further education institutions, and I think that significant progress is being made on that agenda across Wales. You are absolutely right to say that if we can ensure that the provision of foundation degrees, for example, in further education institutions is expanded, that will provide an important pathway into higher education for a wider range of people. That is at the heart of our agenda, and I welcome what you have to say.

Leighton Andrews: Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol hefyd â'r strategaeth addysg uwch a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Gwnaethom yn glir ein bod am weld mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau addysg uwch, yn bendant, ond hefyd rhwng sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach, a chredaf fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar yr agenda honno ar draws Cymru. Yr ydych yn iawn i ddweud y byddwn yn darparu llwybr pwysig i mewn i addysg uwch ar gyfer ystod ehangach o bobl os gallwn sicrhau bod y ddarpariaeth graddau sylfaen, er enghraifft, mewn sefydliadau addysg bellach yn cael ei ehangu. Mae hynny wrth wraidd ein hagenda, a chroesawaf yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

2.20 p.m.

Blaenoriaethau

C3 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1311(CEL)

Leighton Andrews: Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn parhau fel y'u nodir yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol mewn ymateb i'r dirywiad economaidd. Fy

Priorities

Q3 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on his priorities for the next six months? OAQ(3)1311(CEL)

Leighton Andrews: The Government's priorities remain as set out in 'One Wales', with additional measures taken in response to the economic downturn. My aim is to ensure

nod yw sicrhau bod y rheng flaen yn cael cyfran uwch o'n hadnoddau. Dyna pam y cyhoeddais adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg.

Nerys Evans: Fel yr amlinellwyd yn eich atebion, mae strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru yn glir. Hoffwn ofyn am ddwy elfen benodol ohoni. Yn gyntaf, deallaf fod y gwaith ar y coleg ffederal yn mynd yn ei flaen a bod yr amserlen yn cael ei dilyn, ond a allwch chi roi diweddariad i ni ynghylch y datblygiadau o ran sefydlu'r coleg ffederal?

Yn ail, mae angen cynllun yn ddirfawr i ailddosbarthu'r cyllid sydd ar gael o dan y cynllun bwrsari cenedlaethol i fyfyrwyr, a hynny er mwyn cael un cynllun cenedlaethol i ddenu myfyrwyr ac ehangu mynediad at addysg uwch. A allwch chi roi diweddariad i ni ynghylch y cynllun bwrsari hefyd?

Leighton Andrews: Yr wyf yn falch o ddweud bod Geraint Talfan Davies wedi cael ei gadarnhau'n gadeirydd y bwrdd gweithredu cysgodol ar gyfer y coleg ffederal.

Ar bwnc y cynllun bwrsari cenedlaethol, gwn fod Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ac Addysg Uwch Cymru wedi cwrdd i drafod y pwnc, a gobeithiaf gyhoeddi datganiad am y pwnc yn y dyfodol.

Paul Davies: Derbyniaf ei bod yn flaenoriaeth i chi fel Gweinidog sicrhau bod arian yn cyrraedd llinell flaen gwasanaethau addysg, a'i bod yn bwysig torri allan gwastraff a biwrocratiaeth o'r system addysg er mwyn gwneud hynny, a dyna pam yr ydych wedi cyhoeddi'r adolygiad o wariant yn y sector addysg. Deallais o'ch cyhoeddiad diwethaf yr oeddech yn disgwyl argymhellion PricewaterhouseCoopers cyn diwedd mis Mawrth. A allwch ddweud wrthym a ydych wedi derbyn yr argymhellion hynny, a phryd y byddwch mewn sefyllfa i gyhoeddi canlyniadau cyfnod cyntaf yr adolygiad hwnnw?

Leighton Andrews: I have had a couple of meetings with representatives of PricewaterhouseCoopers, who gave me an interim report during March and submitted a

that a higher proportion of our resource reaches the front line; hence, my announcement of a review of the cost of administering the education system.

Nerys Evans: As outlined in your responses, the Welsh Government's higher education strategy is clear. I want to ask about two specific elements of it. First, I understand that the work on the federal college is under way and that the timetable is being followed, but could you give us an update on any developments as regards establishing the federal college?

Secondly, a scheme is urgently needed to redistribute the funding available under the national bursary scheme for students, in order to get a national scheme that attracts students and extends access to higher education. Could you please give us an update on the bursary scheme also?

Leighton Andrews: I am pleased to announce that Geraint Talfan Davies has been confirmed as chair of the shadow implementation board for the federal college.

On the subject of the national bursary, I know that the National Union of Students Wales and Higher Education Wales have met to discuss the matter, and I hope to issue a statement on the matter in the future.

Paul Davies: I accept it is a priority for you as Minister to ensure that funding reaches the front line of education services, and that it is important to cut out any waste and bureaucracy in the education system in order to do so, and that is why you have announced the review of spending in the education sector. I understood from your recent announcement that you were expecting the recommendations of PricewaterhouseCoopers before the end of March. Are you able to tell us whether you have received those recommendations, and when you will be in a position to publish the findings of the first stage of that review?

Leighton Andrews: Yr wyf wedi cael un neu ddau gyfarfod â chynrychiolwyr PricewaterhouseCoopers, a roddodd adroddiad interim imi yn ystod mis Mawrth

review draft of the report to officials. We had some questions for them based on that, and we went back to them with those questions before the final report was completed. I anticipate being able to publish the report probably during the next month.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. I symud ymlaen i bwnc arall, gwnaethoch ddatganiad arall y mis diwethaf am ariannu dysgwyr chweched dosbarth ac addysg bellach sydd ag anghenion arbennig. Ers hynny, yr wyf wedi derbyn cynrychiolaeth gan rieni ac ysgol anghenion arbennig yn fy etholaeth sy'n poeni o hyd eu bod o dan bwysau ariannol, er eich bod wedi cyhoeddi arian ychwanegol. Yr wyf yn poeni'n fawr am effaith y pwysau hyn ar bobl fregus ein cymdeithas. Yn sgîl y pryderon hyn, a allwch chi edrych unwaith eto ar y sefyllfa hon i sicrhau bod y bobl fregus hyn yn cael y gefnogaeth y maent yn ei haeddu?

Leighton Andrews: I am aware of some of the issues that the Member raises, although if there are specific issues concerning a particular school in his constituency, he may wish to follow them up in writing. However, it is because of that general situation that I have already announced the establishment of a task and finish group to review post-16 special education needs. That review group, as I said in answer to Jenny Randerson's question, will be coming back to the Assembly in due course with further details.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1312(CEL), yn ôl.

Surplus Spaces in Schools

Q5 William Graham: Will the Minister outline the guidance given to local authorities to address the issue of surplus spaces in schools? OAQ(3)1318(CEL)

Leighton Andrews: Guidance on addressing surplus places is included in 'School Organisation Proposals: Welsh Assembly Government Circular No: 021/2009', which was issued in September 2009.

gan gyflwyno drafft adolygu o'r adroddiad i swyddogion. Yr oedd gennym rai cwestiynau iddynt ar sail yr adroddiad hwnnw, ac aethom yn ôl atynt gyda'r cwestiynau hynny cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gwblhau. Yr wyf yn rhagweld y gallaf gyhoeddi'r adroddiad yn ystod y mis nesaf, yn ôl pob tebyg.

Paul Davies: I am grateful to you, Minister, for that response. To move on to another matter, you made another statement last month about funding for sixth form and further education students who have special needs. Since then, I have received representations from parents and a special needs school in my constituency, who are still concerned that they are under financial pressure, although you have announced additional funding. I am much concerned about the effect of that pressure on vulnerable people in our society. As a result of those concerns, could you look at the situation once more to ensure that these vulnerable people receive the support they deserve?

Leighton Andrews: Yr wyf yn ymwybodol o rai o'r problemau y mae'r Aelod yn eu codi, ond os oes problemau penodol yn ymwneud ag ysgol benodol yn ei etholaeth, hwyrach y bydd am ysgrifennu ataf yn eu cylch. Fodd bynnag, y sefyllfa gyffredinol honno sydd i gyfrif fy mod eisoes wedi cyhoeddi bod grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu anghenion addysg arbennig ôl-16. Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn Jenny Randerson, bydd y grŵp adolygu hwnnw'n dod yn ôl at y Cynulliad gyda rhagor o fanylion maes o law.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)1312(CEL), is withdrawn.

Lleoedd Gwag mewn Ysgolion

C5 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol i roi sylw i fater lleoedd gwag mewn ysgolion? OAQ(3)1318(CEL)

Leighton Andrews: Mae canllawiau ynghylch mynd i'r afael â lleoedd gwag wedi'u cynnwys yn 'Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Cylchlythyr 021/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009.

William Graham: Thank you very much for your answer, Minister. You will know that your Government is doing its best to ensure that the provision of pupil places is being altered to fit demand in a fair way across Wales. However, it remains a worry, and any reorganisation of provision or proposals for school closures can provoke strong feelings in local communities. How is your Government acting to ensure that assistance is spread equitably among local authorities, which may adopt different approaches to addressing surplus places? You will know that Merthyr Tydfil has gone some way towards addressing the 1,078 surplus places in the secondary sector there with its proposed new learning campus. Conversely, in Newport, secondary schools are oversubscribed by nearly 7 per cent, and arrangements for future places are being made within existing provision. You will know that a new high school has recently opened in Newport, and yesterday the impressive new Glan Usk Primary School officially opened, but it was full on the first day.

Leighton Andrews: I visited Newport High School, and it is an excellent school. It is a really good representation of what investment through our twenty-first century schools programme can deliver. It provides a learning environment that is in tune with the needs of education today, and those who have visited the school will understand what I mean.

The Member will be aware that we provide funding to local authorities through the revenue support grant, which means that the funding for local schools is determined according to a number of local elements, including the number of pupils on roll. The reality is that every surplus place is a tax on the head of every pupil already in the system. Therefore, it is important that local authorities address the issue overall, and we look to them to do that, but how they do so is a matter for them. We have developed the guidance and the framework, and it was only a few weeks ago that his party stated, in a

William Graham: Diolch yn fawr ichi am eich ateb, Weinidog. Gwyddoch fod eich Llywodraeth yn gwneud ei gorau i sicrhau bod y ddarpariaeth lleoedd i ddisgyblion yn cael ei diwygio i gyd-fynd yn deg â'r galw ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'n destun pryder o hyd, a gall unrhyw gamau i ad-drefnu'r ddarpariaeth, neu gynigion i gau ysgolion, ennyn teimladau cryf mewn cymunedau lleol. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod cymorth yn cael ei rannu'n deg ymysg awdurdodau lleol, a all fabwysiadu dulliau gwahanol i fynd i'r afael â lleoedd gwag? Gwyddoch fod Merthyr Tudful wedi gwneud tipyn o gynnydd i fynd i'r afael â'r 1,078 o leoedd gwag sydd yn y sector uwchradd yno, gyda'i argymhellion ar gyfer campws dysgu newydd. I'r gwrthwyneb, yng Nghasnewydd mae nifer y disgyblion sydd mewn ysgolion uwchradd ryw 7 y cant yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, ac mae trefniadau ar gyfer lleoedd yn y dyfodol yn cael eu gwneud o fewn y ddarpariaeth bresennol. Gwyddoch fod ysgol uwchradd newydd wedi agor yng Nghasnewydd yn ddiweddar, a ddoe cafwyd agoriad swyddogol Ysgol Gynradd Glan Wysg, ysgol newydd drawiadol, ond yr oedd yn llawn ar y diwrnod cyntaf.

Leighton Andrews: Bùm yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Casnewydd, ac mae'n ysgol ardderchog. Mae'n dangos i'r dim yr hyn y gall buddsoddi trwy ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ei gyflawni. Mae'n darparu amgylchedd dysgu sy'n cyd-fynd ag anghenion addysg heddiw, a bydd y rheini sydd wedi ymweld â'r ysgol yn deall yr hyn a olygaf.

Bydd yr Aelod yn gwybod ein bod yn darparu cyllid i awdurdodau lleol trwy'r grant cynnal refeniw. Mae hynny'n golygu bod y cyllid ar gyfer ysgolion lleol yn cael ei bennu'n ôl nifer o elfennau lleol, gan gynnwys nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr. Y gwir amdani yw bod pob lle gwag yn dreth ar bob disgybl sydd eisoes yn y system. Felly, mae'n bwysig i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r broblem yn gyffredinol, ac yr ydym yn disgwyl iddynt wneud hynny, ond nhw sydd i benderfynu sut y dylent wneud hynny. Yr ydym wedi datblygu'r canllawiau a'r fframwaith, ac

debate in the Chamber, that the process of school closures was taking too long. I agree with that, and, in due course, we will bring forward proposals to address that.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, derbynïaf yn llwyr yr hyn a ddywedwyd am lleoedd gwag. Wrth reswm, maent yn cael effaith ar bob disgybl a addysgir ac ar gyllideb pob awdurdod addysg lleol. Fodd bynnag, oni fyddech yn cytuno â mi y rhagdybir yn aml mai mewn ysgolion bach, gwledig y ceir lleoedd gwag, er nad yw hynny bob amser yn wir? Mae gan ysgolion llawer mwy o faint mewn ardaloedd trefol fwy o broblem o ran hynny. Oni fyddech hefyd yn cytuno nad mater syml o edrych ar lleoedd gwag a cheisio ateb y broblem honno yw'r ffordd o ad-drefnu addysg mewn unrhyw awdurdod, gan fod angen ystyried nifer o ffactorau eraill? Dywedasoeh mai mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut i fynd i'r afael â phroblem lleoedd gwag, ond nid oes bosibl bod cyfrifoldeb ar y Llywodraeth i gynnig arweiniad a sicrhau nad proses o geisio dileu lleoedd gwag yn unig yw'r broses o drefnu addysg ein plant yn ein cymunedau.

Leighton Andrews: You are quite right that it is not just a question of how surplus places are managed. That is why our guidance goes into considerable detail on the issues to be considered when local authorities are addressing the organisation of places in their areas. It is also right to say that it is not just a question of there being surplus places in rural areas, as there are surplus places in many Valley communities and in city schools as well. Local authorities have to take a number of factors into consideration, among them the provision of Welsh-medium education. That is one of the subjects that our guidance refers to. If the Member recalls the debate that we had on school closures just a month or so ago, he will know that, in my response to that debate, I outlined a series of areas that the school organisation guidance takes into account. I think that it is pretty comprehensive.

ychedig wythnosau'n unig yn ôl y dywedodd y blaid hon, mewn dadl yn y Siambr, bod y broses o gau ysgolion yn cymryd gormod o amser. Yr wyf yn cytuno â hynny, a maes o law, byddwn yn cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r mater.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I accept entirely what was said about surplus places. Of course, they have an impact on every pupil taught and on the budget of every local education authority. However, would you not agree with me that it is often presumed that surplus places are a problem in small, rural schools, although that is not always the case? Much larger schools in urban areas have a much greater problem with surplus places. Would you also not agree that it is not just a simple matter of looking at surplus places and that trying to resolve that issue is the way to reorganise education services in any authority, as there are all sorts of other factors to be considered? You said it is for local authorities to decide how to tackle the problem of surplus places, but surely it is incumbent on the Government to offer some guidance on that and to ensure that the organisation of education for our children is not just about getting rid of surplus places.

Leighton Andrews: Yr ydych yn llygad eich lle nad yr unig fater dan sylw yw sut y caiff lleoedd gwag eu rheoli. Dyna pam mae ein canllawiau'n rhoi cryn dipyn o fanylion ynghylch y materion y dylid eu hystyried pan fydd awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â threfnu lleoedd yn eu hardaloedd. Mae'n iawn dweud hefyd nad mewn ardaloedd gwledig yn unig y mae lleoedd gwag yn broblem, gan fod lleoedd gwag mewn llawer o gymunedau yn y Cymoedd ac mewn ysgolion mewn dinasoedd hefyd. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hwnnw'n un o'r pynciau y mae ein canllawiau'n cyfeirio atynt. Os yw'r Aelod yn cofio'r ddadl a gawsom ar gau ysgolion, ryw fis yn unig yn ôl, bydd yn gwybod, yn fy ymateb i'r ddadl, imi amlinellu cyfres o feysydd y mae'r canllawiau ar drefniadaeth ysgolion yn eu hystyried. Credaf eu bod yn eithaf cynhwysfawr.

Higher Education

Q6 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the provision of higher education in north Wales?
OAQ(3)1346(CEL)

Leighton Andrews: I want to see the economy, people and businesses of north Wales benefiting more from higher education through greater collaboration between providers and greater exploration of their individual strengths, within a planning and delivery framework that reflects regional needs.

2.30 p.m.

Eleanor Burnham: We are all very excited about the various collaborations; we saw the collaboration between Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Meirion-Dwyfor last night. Obviously, further education has a huge presence in north-east Wales, but the concerns that are being voiced at the moment are about the level of participation of higher education in the Wrexham area, which are apparently much lower than the national average. You know very well, as does the local Member, that the only university in north-east Wales is Glyndŵr University, which is very successful, but funding constraints are placing severe limitations on its ability to expand, because the number of funded student places is effectively capped. What are you and your Government proposing to do to enable learners in that part of north-east Wales to have equality of opportunity with others across Wales?

Leighton Andrews: Currently, there is no cap on higher education numbers in Wales, in the way that there is in England, Scotland and Northern Ireland. I put that on record at the beginning. Broadly, what we have been able to do in the budget for this financial year is to provide flat-line provision on a revenue basis for higher education. I do not deny that times are challenging, but the proposals that were introduced by my predecessor, Jane Hutt, for reforming the tuition fee system, which your party oppose, should, by 2015, provide an additional £30 million for investment in

Addysg Uwch

C6 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg uwch yn y gogledd?
OAQ(3)1346(CEL)

Leighton Andrews: Yr wyf am weld yr economi, pobl a busnesau yn y gogledd yn elwa mwy o addysg uwch drwy ragor o gydweithio rhwng darparwyr ac archwilio'u cryfderau unigol yn fwy, a hynny o fewn fframwaith cynllunio a chyflawni sy'n adlewyrchu anghenion rhanbarthol.

Eleanor Burnham: Yr ydym i gyd yn teimlo'n gyffrous iawn ynghylch y gwahanol gynlluniau i gydweithio; gwelsom y cydweithio rhwng Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Meirion-Dwyfor neithiwr. Yn amlwg, mae gan addysg bellach bresenoldeb mawr yn y gogledd-ddwyrain, ond mae'r pryderon sy'n cael eu mynegi ar hyn o bryd am lefel y cyfranogiad mewn addysg uwch yn ardal Wrecsam, sydd, mae'n debyg, yn is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwyddoch yn dda iawn, fel y gŵyr yr Aelod lleol, mai Prifysgol Glyndŵr yw'r unig brifysgol yn y gogledd-ddwyrain. Mae'n brifysgol lwyddiannus iawn, ond mae cyfyngiadau cyllido yn cyfyngu'n ddifrifol ar ei gallu i ehangu, oherwydd bod terfyn wedi'i roi i bob pwrpas ar nifer y lleoedd myfyrwyr a ariennir. Beth yr ydych chi a'ch Llywodraeth yn cynnig ei wneud i alluogi dysgwyr yn y rhan honno o'r gogledd-ddwyrain i gael yr un cyfle cyfartal â dysgwyr eraill ar draws Cymru?

Leighton Andrews: Ar hyn o bryd, nid oes terfyn ar niferoedd myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, fel sy'n bodoli yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hoffwn gofnodi hynny ar y dechrau. Yn fras, yr hyn yr ydym wedi gallu'i wneud yn y gyllideb am y flwyddyn ariannol hon yw rhoi darpariaeth wastad ar sail refeniw i addysg uwch. Nid wyf yn gwadu ein bod mewn cyfnod heriol, ond erbyn 2015 dylai'r cynigion a gyflwynwyd gan fy rhagflaenydd, Jane Hutt, ar gyfer diwygio'r system ffioedd dysgu, y mae eich plaid yn eu gwrthwynebu, ddarparu

higher education.

£30 miliwn ychwanegol i'w fuddsoddi mewn addysg uwch.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1331(CEL), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1331(CEL), is withdrawn.

Grants for Small Schools

Grantiau ar gyfer Ysgolion Bach

Q8 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on grants for small schools? OAQ(3)1316(CEL)

C8 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am grantiau ar gyfer ysgolion bach? OAQ(3)1316(CEL)

Leighton Andrews: The grant for community focused projects in small and rural schools will again be available in 2010-11. Funding for this purpose totals £1.6 million.

Leighton Andrews: Bydd y grant ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn ysgolion bach a gwledig ar gael eto yn 2010-11. Mae cyfanswm y cyllid a ddarperir i'r diben hwn yn £1.6 miliwn.

Mark Isherwood: It has been reported in north Wales that the Government of Wales has written to all local authorities stating that it has reviewed grant funding for innovation in small schools, and concluded that the implementation phase of the school effectiveness framework will provide new opportunities for greater joint working between schools. This has been reported in the press as a cut in the Government of Wales grant for small schools, which will affect 22 predominantly rural schools in Flintshire, according to the Flintshire press. It reported concern expressed by county councillors of all parties over the future of a number of village schools, and this could force some to merge classes or make teachers redundant. What reassurance can you provide to these councillors and schools regarding their concerns, and do you recognise the possible implications of this decision?

Mark Isherwood: Cafwyd adroddiadau yn y gogledd bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn dweud ei bod wedi adolygu'r cyllid grant ar gyfer arloesi mewn ysgolion bach, ac wedi dod i'r casgliad y bydd cyfnod gweithredu'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Mae'r wasg wedi sôn bod hynny'n doriad yn y grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion bach, a fydd, yn ôl y wasg yn Sir y Fflint, yn effeithio ar 22 o ysgolion yn y sir, y mwyafrif yn ysgolion gwledig. Bu'r wasg yn sôn am bryderon a fynegwyd gan gynghorwyr sir o bob plaid am ddyfodol nifer o ysgolion pentref, a gallai hynny orfodi rhai i gyfuno dosbarthiadau neu ddiswyddo athrawon. Pa gysur y gallwch ei gynnig i'r cynghorwyr a'r ysgolion hynny mewn ymateb i'w pryderon, ac a ydych yn cydnabod goblygiadau posibl y penderfyniad hwn?

Leighton Andrews: As I said, funding for small and rural schools is included in the community focused schools grant; it remains in place, and £1.6 million will again be available in 2010-11 to support the community focused schools agenda in small and rural schools. Flintshire has been allocated some £85,000 for these projects in 2010-11. I look to Flintshire, as to all local authorities, to maximise the efficiency of its education spend and to address the issue of surplus places.

Leighton Andrews: Fel y dywedais, mae cyllid ar gyfer ysgolion bach a gwledig wedi'i gynnwys yn y grant ysgolion bro; mae'r grant yn dal i fodoli, a bydd £1.6 miliwn ar gael eto yn 2010-11 i gefnogi'r agenda ysgolion bro mewn ysgolion bach a gwledig. Mae Sir y Fflint wedi cael rhyw £85,000 ar gyfer y prosiectau hyn yn 2010-11. Yr wyf yn disgwyl i Sir y Fflint, a phob awdurdod lleol arall, gynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd ei wariant ar addysg, a mynd i'r afael â phroblem lleoedd gwag.

David Lloyd: Yng nghyd-destun strategaeth

David Lloyd: In the context of the Welsh-

addysg cyfrwng Cymraeg, yn naturiol croesawn yr arian sydd wedi'i gyhoeddi gennych eisoes, ond a oes potensial i edrych ar y posibilrwydd o grant cyfalaf yn y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â'r arian refeniw yr ydych eisoes wedi'i gyhoeddi?

Leighton Andrews: As you will recall, I announced an additional £1.725 million to existing budgets for 2010-11, which gives a total for Welsh-medium education of £10 million for the implementation of the strategy for 2010-11. Clearly, capital funds are available, in the sense that if we require developments in buildings, our twenty-first century schools programme provides funding for school buildings. Local authorities are drawing up proposals for new capital investment in a number of places in fulfilment of their transformation agenda, which will also include the Welsh-medium agenda.

Lifelong Learning Opportunities

Q9 William Graham: Will the Minister make a statement on the lifelong learning opportunities in South Wales East? OAQ(3)1317(CEL)

Leighton Andrews: The Welsh Assembly Government values lifelong learning and will ensure that the greatest number of people benefit from the resources available. This includes a range of provision from adult community learning through to skills-based programmes, further and higher education provision.

William Graham: How is your Government taking new steps to attract more long-term unemployed people from south-east Wales to take lifelong learning courses, such as those provided by the University of Wales, Newport, to equip them with the necessary skills and confidence to re-enter the jobs market? These people have not felt the benefits of schemes such as ProAct, and areas such as Blaenau Gwent and Caerphilly have higher percentages of claimants that have been receiving jobseekers allowance for over 18 months. It is essential to encourage people to gain new skills for employment.

medium education strategy, we naturally welcome the money which you have already announced, but is there scope to look at the possibility of a capital grant as part of the Welsh-medium education strategy, in addition to the revenue money which you have already announced?

Leighton Andrews: Fel y byddwch yn cofio, cyhoeddais y bydd £1.725 miliwn yn ychwanegol ar gael ar ben y cyllidebau sy'n bodoli ar gyfer 2010-11, sy'n rhoi cyfanswm o £10 miliwn i addysg Gymraeg i weithredu'r strategaeth ar gyfer 2010-11. Yn amlwg, mae cronfeydd cyfalaf ar gael, yn yr ystyr bod ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn darparu cyllid ar gyfer adeiladau ysgolion, os oes arnom angen gwaith datblygu mewn adeiladau. Mae awdurdodau lleol wrthi'n llunio cynigion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd mewn nifer o fannau er mwyn gwireddu eu agenda drawsnewid, a fydd hefyd yn cynnwys yr agenda cyfrwng Cymraeg.

Cyfleoedd Dysgu Gydol Oes

C9 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfleoedd dysgu gydol oes yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1317(CEL)

Leighton Andrews: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gwerth ar ddysgu gydol oes, a bydd yn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl yn elwa o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hynny'n cynnwys ystod o ddarpariaethau, o raglenni dysgu oedolion yn y gymuned i raglenni'n seiliedig ar sgiliau, a darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch.

William Graham: Pa gamau newydd y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i ddenu mwy o bobl o'r de-ddwyrain sy'n ddi-waith ers amser maith i ddilyn cyrsiau dysgu gydol oes, megis y rhai a ddarperir gan Brifysgol Cymru, Casnewydd, er mwyn iddynt gael yr hyder a'r sgiliau angenrheidiol i ddechre i'r farchnad swyddi? Nid yw'r bobl hyn wedi elwa o gynlluniau megis ProAct, ac mae gan ardaloedd megis Blaenau Gwent a Chaerffili ganrannau uchel o bobl sydd wedi bod yn hawlio lwfans ceisio gwaith am dros 18 mis. Mae'n hanfodol annog pobl i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth.

Leighton Andrews: Funding for adult community learning has increased by 4.9 per cent for 2010-11. We have made a number of investments in further and higher education designed to assist those who may otherwise be unemployed, including, for example, our Pathways to Apprenticeship programme, which we have continued to fund into this financial year. The points that you make are those that we are committed to supporting. We have in place a number of initiatives, such as the Skillbuild initiative, so that there is a range of different programmes from which people can benefit. You mentioned the University of Wales, Newport. I was pleased to visit the university last week to see its Caerleon campus and to see the plans that it has in place to promote the economic wellbeing of the south-east Wales region. I particularly welcome the initiatives that it is taking in regard to enterprise education.

Jeff Cuthbert: Minister, I am sure that you would join with me in congratulating The College Ystrad Mynach, where the topping out of its new B block took place a few weeks ago. It will provide considerable opportunities and facilities for students and other learners in my constituency. More broadly, do you agree that, in terms of lifelong learning opportunities, it is important that further education colleges work together in a collaborative manner, as recommended by the Webb review, and as required by our pioneering 14-19 learning pathways? Do you also agree that it is important for the further education sector to work closely with employers so that learners acquire the knowledge and skills relevant to the modern-day economy? Also, as today is Workers' Memorial Day, do you also agree that it is important that health and safety awareness should be included as an integral part of skills training?

Leighton Andrews: Jeff, I could just say 'yes' to all your questions, but it would not give you all of what you want. I congratulate The College Ystrad Mynach on the latest developments on its campus. I was pleased to see its principal at the Coleg Llandrillo-

Leighton Andrews: Mae cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned wedi cynyddu 4.9 y cant ar gyfer 2010-11. Yr ydym wedi gwneud llawer buddsoddiad mewn addysg bellach ac addysg uwch, a fwriadwyd i helpu'r rheini a fyddai'n ddi-waith fel arall, gan gynnwys, er enghraifft, ein rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau yr ydym wedi parhau i'w chyllido yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud yw'r pwyntiau yr ydym wedi ymrwymo i'w cefnogi. Mae gennym nifer o fentrau ar waith, megis y fenter Adeiladu Sgiliau, fel y gall pobl elwa o ystod o raglenni gwahanol. Cyfeiriech at Brifysgol Cymru, Casnewydd. Yr oeddwn yn falch ymweld â'r brifysgol yr wythnos diwethaf i weld ei champws yng Nghaerllion a gweld y cynlluniau sydd ganddi ar waith i hybu ffyniant economaidd rhanbarth y de-ddwyrain. Yr wyf yn croesawu'n benodol y mentrau sydd ganddi o ran addysg mentrau.

Jeff Cuthbert: Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddech yn ymuno â mi i longyfarch Coleg Ystrad Mynach, lle cynhaliwyd y seremoni i osod y garreg sylfaen ar gyfer Bloc B newydd y coleg ychydig wythnosau'n ôl. Bydd yn darparu cyfleoedd a chyfleusterau niferus i fyfyrwyr a dysgwyr eraill yn fy etholaeth. Yn fwy cyffredinol, a ydych yn cytuno, o ran cyfleoedd dysgu gydol oes, ei bod yn bwysig i golegau addysg bellach weithio gyda'i gilydd mewn modd cydweithredol, fel yr argymhellir gan adolygiad Webb, ac fel sy'n ofynnol gan ein rhaglen arloesol, llwybrau dysgu 14-19? A ydych hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig i'r sector addysg bellach weithio'n agos gyda chyflogwyr fel y gall dysgwyr ddysgu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i economi'r oes fodern? Yn ogystal, gan fod heddiw'n Ddiwrnod Coffau Gweithwyr, a ydych hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig cynnwys ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch fel rhan annatod o hyfforddiant sgiliau?

Leighton Andrews: Jeff, gallwn ateb pob un o'ch cwestiynau drwy ddweud 'ydw' a dim byd arall, ond ni fyddai hynny'n eich bodloni'n llwyr. Yr wyf yn llongyfarch Coleg Ystrad Mynach ar y datblygiadau diweddaraf ar ei gampws. Yr oeddwn yn falch gweld ei

Cymru/Coleg Meirion-Dwyfor event last night. The College Ystrad Mynach, Coleg Gwent and the University of Wales, Newport are exploring a number of possibilities for greater collaboration. You are right that our commitment, through the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, is to promote greater collaboration, not only between schools and further education institutions, but also through collaborations with work-based learning providers and, therefore, with employers as well. We have continued to invest in that programme. I very much support what you said in respect of Workers' Memorial Day and health and safety courses are among those that are often provided by work-based learning providers.

brifathro yn nigwyddiad Coleg Llandrillo Cymru/Coleg Meirion-Dwyfor neithiwr. Mae Coleg Ystrad Mynach, Coleg Gwent a Phrifysgol Cymru, Casnewydd yn archwilio nifer o bosibiliadau ar gyfer mwy o gydweithio. Yr ydych yn iawn wrth ddweud ein bod wedi ymrwymo, trwy Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, i hyrwyddo mwy o gydweithredu, nid yn unig rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ond hefyd trwy gydweithredu â darparwyr dysgu seiliedig ar waith, a chyda chyflogwyr hefyd, felly. Yr ydym wedi parhau i fuddsoddi yn y rhaglen honno. Yr wyf yn cefnogi'n fawr yr hyn a ddywedasoch am Ddiwrnod Coffau Gweithwyr, ac mae cyrsiau iechyd a diogelwch ymhlith y cyrsiau a ddarperir yn aml gan ddarparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith.

Post-16 Education Sector

Q10 Chris Franks: Will the Minister make a statement on the resources available for the post-16 education sector? OAQ(3)1338(CEL)

Leighton Andrews: A sum of £577 million will be allocated to the post-16 sector in 2010-11. This includes investment in supporting additional adult skills provision and extending the Pathways to Apprenticeship programme.

Chris Franks: Yesterday, the First Minister clearly stated that the best assistance that the Government can offer to the unemployed is to ensure that they are equipped with the necessary skills. How does this square with the fact that, currently, Barry College and Coleg Glan Hafren have a significant waiting list of potential students for a range of courses? In these two colleges, there are approximately 1,000 applicants for courses such as construction that cannot be met. Further, I understand that the merging of colleges does not attract additional resources in order to offer extra courses. Do you agree that these people are being let down and that we need to allocate adequate resources for the further education sector?

Leighton Andrews: No, I think that the One Wales Government is delivering for the further education sector. As I said earlier, we

Sector Addysg Ôl 16

C10 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y sector addysg ôl-16? OAQ(3)1338(CEL)

Leighton Andrews: Bydd swm o £577 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r sector ôl-16 yn 2010-11. Mae'n cynnwys buddsoddi i gefnogi darparu sgiliau ychwanegol i oedolion ac ymestyn y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau.

Chris Franks: Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog yn glir mai'r cymorth gorau y gall y Llywodraeth ei gynnig i bobl ddi-waith yw sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol. Sut mae cysoni hynny â'r ffaith fod gan Goleg y Barri a Choleg Glan Hafren, ar hyn o bryd, restrau aros sylweddol o fyfyrwyr posibl ar gyfer ystod o gyrsiau? Yn y ddau goleg hyn, mae oddeutu 1,000 o ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau megis cyrsiau adeiladu nad oes lleoedd ar gael ar eu cyfer. At hynny, yr wyf ar ddeall nad yw colegau sy'n uno yn cael adnoddau ychwanegol er mwyn cynnig cyrsiau ychwanegol. A ydych yn cytuno bod y bobl hyn yn cael eu siomi, a bod angen inni ddyrannu adnoddau digonol i'r sector addysg bellach?

Leighton Andrews: Nac ydw. Credaf fod Llywodraeth Cymru'n Un yn darparu ar gyfer y sector addysg bellach. Fel y dywedais

announced an overall increase of 5.8 per cent for further education institutions for this financial year. That is a significant investment and we have continued that investment in the Pathways to Apprenticeship scheme. I gave him an answer in respect of Barry College in an earlier question session in the Chamber. If there are new developments that the Member wishes to raise with me, he will no doubt do so in writing.

2.40 p.m.

We provide quite generous assistance to colleges that are in a merger situation. Our institutional merger scheme supports mergers between further education institutions and between further and higher education institutions, which are intended to bring significant learner benefits. That scheme provides for a maximum of £650,000 for pre-merger and post-merger activity. We are giving generous support to mergers.

William Graham: Do you agree that there is a need for more work-based training in post-16 education?

Leighton Andrews: We are committed, through the funding that we make available, to a significant level of work-based provision. I visited a number of work-based learning providers, including in Newport, and I was impressed by the way in which they are attracting into training opportunities young people in particular who had not previously taken up any qualifications. Therefore, we have an active work-based learning sector in Wales and we continue to support it.

Mick Bates: My question relates to the flexible use of post-16 funding available to schools, particularly with some of the funding associated with the transformation agenda. Could these funds be used to build on good practice in developing collaboration and effective communications between high schools for 11 to 18-year-olds and local colleges, particularly those in rural settings, where, as you understand, transport is a massive issue? The retention of high schools

yn gynharach, bu inni gyhoeddi cynnydd cyffredinol o 5.8 y cant i sefydliadau addysg bellach am y flwyddyn ariannol hon. Mae hynny'n fuddsoddiad sylweddol, ac yr ydym wedi parhau'r buddsoddiad hwnnw yn y cynllun Llwybrau at Brentisiaethau. Rhoddais ateb iddo ynghylch Coleg y Barri mewn sesiwn gwestiynau gynharach yn y Siambr. Os yw'r Aelod yn dymuno codi datblygiadau newydd gyda mi, mae'n siŵr y bydd yn gwneud hynny trwy ysgrifennu ataf.

Yr ydym yn darparu cymorth lled hael i golegau sy'n uno. Mae ein cynllun uno sefydliadau yn cefnogi achosion o uno sefydliadau addysg bellach ac uno sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, y bwriedir iddynt gynnig manteision sylweddol i ddysgwyr. Mae'r cynllun hwnnw'n darparu uchafswm o £650,000 ar gyfer gweithgareddau cyn uno ac ar ôl uno. Yr ydym yn rhoi cefnogaeth hael i gynlluniau uno.

William Graham: A ydych yn cytuno bod angen i addysg ôl-16 gynnwys mwy o hyfforddiant yn seiliedig ar waith?

Leighton Andrews: Yr ydym wedi ymrwymo, trwy'r cyllid a ddarparwn, i lefel sylweddol o ddarpariaeth yn seiliedig ar waith. Bûm yn ymweld â nifer o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys rhai yng Nghasnewydd, ac yr oeddwn yn llawn edmygedd o'r modd y maent yn denu pobl ifanc i mewn i gyfleoedd hyfforddi, yn enwedig pobl ifanc nad oeddent wedi mynd ati i ennill dim cymwysterau o'r blaen. Felly, mae gennym sector dysgu'n seiliedig ar waith sy'n weithredol yng Nghymru, ac yr ydym yn parhau i'w gefnogi.

Mick Bates: Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â defnyddio'n hyblyg y cyllid ôl-16 sydd ar gael i ysgolion, yn enwedig rhywfaint o'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r agenda drawsnewid. A fyddai modd defnyddio'r cronfeydd hynny i adeiladu ar arfer da o ran datblygu cydweithredu a chyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion uwchradd i ddisgyblion 11 i 18 oed a cholegau lleol, yn enwedig y rheini sydd mewn ardaloedd gwledig, lle mae cludiant yn

in many rural communities is of particular social importance, apart from the social structure of the school itself, because if there was flexible use of this funding, sixth forms in these schools could be retained, which, in many people's opinion, adds to the benefit of all those who attend these education institutions.

Leighton Andrews: As I said before, in respect of sixth forms, the proposals for the transformation of post-16 education are for local authorities to develop. Many of them are in discussion with the Assembly Government, with outlined business cases or strategic operational plans at different levels of development, and I am encouraged by much of the work that is going on across Wales. We provide funding through the 14-19 learning pathway networks to support a range of transformation developments locally to deliver our 14-19 agenda. Many of the local consortia are creatively deploying those resources to ensure proper collaboration between further education institutions and schools.

broblem enfawr, fel y deallwch? Mae cadw ysgolion uwchradd mewn nifer o gymunedau gwledig yn fater o bwysigrwydd cymdeithasol penodol, ar wahân i strwythur cymdeithasol yr ysgol ei hun, oherwydd pe bai modd defnyddio'r cyllid hwn yn hyblyg, gellid cadw'r chweched dosbarth yn yr ysgolion hyn, sydd, ym marn llawer o bobl, yn ychwanegu at y budd a gaiff pawb sy'n mynd i'r sefydliadau addysg hyn.

Leighton Andrews: Fel y dywedais o'r blaen, o ran dosbarthiadau chwech, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynigion ar gyfer trawsnewid addysg ôl-16. Mae nifer ohonynt yn trafod gyda Llywodraeth y Cynulliad, gydag achosion busnes amlinellol neu gynlluniau gweithredol strategol wedi'u datblygu i wahanol raddau, ac yr wyf wedi fy nghalonogi gan lawer o'r gwaith sy'n digwydd ledled Cymru. Yr ydym yn darparu cyllid trwy'r rhwydweithiau llwybrau dysgu 14-19 i gefnogi ystod o ddatblygiadau trawsnewid yn lleol i wireddu ein agenda 14-19. Mae llawer o'r consortia lleol yn defnyddio'r adnoddau hynny'n greadigol i sicrhau cydweithredu priodol rhwng sefydliadau addysg bellach ac ysgolion.

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Strategaeth Weithgynhyrchu The Enterprise and Learning Committee's Report on the Manufacturing Strategy

Gareth Jones: Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y strategaeth gweithgynhyrchu a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2010. (NDM4462)

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y strategaeth weithgynhyrchu i Gymru. Ein nod wrth gynnal yr ymchwiliad oedd ysgogi gweithgaredd Llywodraeth yn y maes pwysig hwn.

Mae hanes hir i weithgynhyrchu yng Nghymru. Gan gyfri'n uniongyrchol am 18 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru, yr oedd y sector yn werth £2.7 biliwn

Gareth Jones: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the Enterprise and Learning Committee's report on the manufacturing strategy, which was laid in the Table Office on 5 February 2010. (NDM4462)

I am delighted to open this debate on the Enterprise and Learning Committee report on the manufacturing strategy for Wales. Our intention in carrying out the inquiry was to stimulate Government activity in this important area.

Manufacturing has a long history in Wales. Directly accounting for 18 per cent of Welsh gross domestic product, the sector had an annual value of £2.7 billion a year in 2008 in

y flwyddyn yn 2008 o safbwynt allforio nwyddau a gafodd eu gweithgynhyrchu. Mae'n cyflogi degau o filoedd o bobl, ac yn cefnogi miloedd yn fwy yn anuniongyrchol. Eto i gyd, mae ei gyfraniad yn sylweddol is nag yn y gorffennol. Yr oedd gweithgynhyrchu 10 mlynedd yn ôl yn cyfrif am bron i 28 y cant o werth ychwanegol crynswth yng Nghymru. Mae'r ffigurau dros dro diweddaraf yn dangos gostyngiad o bron i 30 y cant mewn gwerth allforion rhwng 2008 a 2009 ac mae'r nifer o swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi disgyn gan 20,000 yn y ddwy flynedd diwethaf.

Cyhoeddodd Llywodraeth Prydain ei strategaeth weithgynhyrchu ym Medi 2008. Yn sgîl hyn, sefydlwyd fforwm gweithgynhyrchu Cymru i ddatblygu, gweithredu a chadw golwg ar strategaeth weithgynhyrchu i Gymru sydd yn mynd i'r afael â materion sydd yn berthnasol i'r sector. Yn unol â'r bwriad, cwblhawyd a chyflwynwyd y strategaeth i Weinidogion cyn diwedd 2008.

Bu'r oedi cyn cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn fater o bryder mawr i'r Pwyllgor Menter a Dysgu am gryn amser. Dywedwyd wrthym gan y Gweinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad bod materion brys yn ymwneud â'r dirwasgiad wedi gorfodi'r Llywodraeth i ganolbwyntio'i sylw ar fesurau i helpu cwmnïau oroesi yn y tymor byr. Dywedodd wrthym y byddai'r fforwm, felly, yn cwblhau ei strategaeth erbyn Mawrth 2010 fel y gallai fod ar waith law yn llaw â pholisi adnewyddu economaidd y Llywodraeth. Ymddangosai hynny'n ddigon synhwyrol i ni, ond y mae'n ddiwedd mis Ebrill bellach.

Un o'r prif gasgliadau i ddod i'r amlwg o'n hymchwiliad oedd yr angen i greu cysylltiadau gwell ar draws sectorau, rhwng adrannau Llywodraeth ac o fewn ein heconomi wybodaeth. Mae gwella'r dull o gyfnewid gwybodaeth rhwng addysg uwch a'r sector busnes, yn enwedig cwmnïau bach a chanolig eu maint, wedi bod yn thema gyson i lawer o ymchwiliadau ein pwyllgor dros y 12 mis diwethaf. Yn yr un modd, mae cysylltu strategaethau â meysydd polisi'r Llywodraeth yn flaenoriaeth arall. Fel y dywedodd un o swyddogion y Llywodraeth

terms of manufactured goods exported. It employs tens of thousands of people and indirectly supports thousands more. Yet, its contribution is significantly lower than in the past. Manufacturing accounted 10 years ago for almost 28 per cent of Welsh gross value added. The latest provisional figures show almost a 30 per cent reduction in export value between 2008 and 2009 and the number of manufacturing jobs in Wales has fallen by 20,000 in the last two years.

The UK Government published its manufacturing strategy in September 2008. As a result, the Welsh manufacturing forum was established to develop, implement and keep under review a manufacturing strategy for Wales that addresses issues of generic concern to the sector. The strategy was due to be completed and presented to Ministers before the end of 2008, and it was.

The delay in finally publishing the strategy has been of great concern to the Enterprise and Learning Committee for some time. We were told by the Minister in his written evidence to our inquiry that the overriding issues of the recession led to Government attention being focused instead on measures to assist the survival of companies in the short term. He told us that the forum would therefore complete its strategy by March 2010 so that it could be aligned with the Government's economic renewal policy. That seemed to us a sensible approach, but it is now the end of April.

One of the main conclusions to emerge from our inquiry was the need to make better links across sectors, between Government departments and within our knowledge economy. Improving knowledge exchange between higher education and the business sector, especially small and medium-sized enterprises, has been a recurring theme of many of our committee inquiries over the last 12 months. Similarly, connecting Government strategies and policy strands is another priority. As one Government official told us:

wrthym:

‘There is a lot of joining up to be done.’

Cafodd y dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth NESTA, y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau, argraff neilltuol o ddofn arnom. Datganodd NESTA:

‘Mae angen i strategaeth fodern, ddiwydiannol edrych tu hwnt i'r rhaniad hwn rhwng gweithgynhyrchu a gwasanaethau, a chanolbwyntio ar wir brosesau creu gwerth, arloesiad a thwf.’

Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os na chawn strategaeth weithgynhyrchu i Gymru, gadewch inni gael rhywfaint o arweiniad clir ar sut i dyfu'n heconomi yn ei chyfanrwydd. Nodwyd yr economi werdd gan NESTA, yn ogystal â'r diwydiannau creadigol a gofal iechyd, fel tri maes lle bydd galw mawr yn y dyfodol ac felly potensial mawr am dwf gyda phob un o'r tri maes yn rychwantu'r sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau fel ei gilydd.

Argymhellwn y dylai'r Llywodraeth greu rhwydweithiau rhwng gwahanol fuddiolwyr, gan gynnwys busnesau a banciau, fel y gellir integreiddio barn prif weithgynhyrchwyr Cymru'n well i ffordd y Llywodraeth o feddwl yn y dyfodol, ac i ffyrdd o wella wrth ddatblygu polisi economaidd. Mae'n dda gweld bod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad â breichiau agored.

Thema arall a ymddangosodd yn ein canfyddiadau oedd y cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm â'r economi werdd. Mae annog datblygiad marchnadoedd er mwyn cynnal cynnydd yn y galw am nwyddau a grëir mewn amodau cynaliadwy yn rhywbeth hanfodol ar gyfer eu dyfodol hirdymor. Argymhellwyd felly y dylai Llywodraeth Cymru fod ar flaen y gad wrth annog a chefnogi datblygiad sector gweithgynhyrchu gwyrdd fel rhan o ymrwymiad ehangach i wneud yr economi werdd yn rhan o brif ffrwd ei pholisi economaidd, yn hytrach nag fel rhywbeth ychwanegol ato. Unwaith eto, yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

The committee was particularly struck by the evidence received from NESTA, the National Endowment for Science, Technology and the Arts. It stated that:

‘A modern industrial strategy needs to look beyond the manufacturing/services divide, and focus on the real processes of value creation, innovation and growth.’

In other words, even if we do not get a manufacturing strategy for Wales, let us have some clear leadership on how to grow our economy as a whole. NESTA identified the green economy, the creative industries and healthcare as three areas of high future demand and therefore for high potential growth, with all three areas spanning both the manufacturing and service sectors.

We recommended that the Government should create networks between different communities of interest, including businesses and banks, so that the views of Wales's major manufacturers can be better integrated into the Government's future thinking and ways of working in developing economic policy. It is very pleasing that the Minister has accepted our recommendation without reservation.

Another theme to emerge in our findings was the opportunities and challenges presented by the green economy. Encouraging the development of markets in order to sustain an increase in demand for products produced in sustainable conditions is crucial to their long-term future. We therefore recommended that the Welsh Government should be at the forefront of encouraging and supporting the development of a green manufacturing sector as part of a wider commitment to making the green economy mainstream rather than additional to its wider economic policy. Again, I am pleased the Minister has accepted this recommendation.

Another point to concern us was the question of continuing to invest public money in attracting or retaining manufacturers that may ultimately vacate Wales in the longer term or who carry on their higher value activity, such as research and development, elsewhere. We therefore welcomed the Welsh Government's aim to encourage Welsh manufacturers to move further up the value chain to achieve higher margins, profits and technological input, although we were concerned that this has been the message from officials for some years now. We recommended that greater progress be made in delivery on the ground, and we shall continue to monitor the Government's action on this issue.

Pwynt arall a oedd yn peri pryder inni oedd mater parhau i fuddsoddi arian cyhoeddus i ddenu neu gadw gweithgynhyrchwyr a allai, yn y pen draw, adael Cymru yn y tymor hwy neu sy'n cynnal eu gweithgaredd gwerth uwch, megis ymchwil a datblygu, mewn man arall. Felly, yr oeddem yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i annog gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i symud yn uwch i fyny'r gadwyn werth er mwyn sicrhau elw a mewnbwn technolegol uwch, er ein bod yn pryderu mai dyna'r neges a gafwyd gan swyddogion ers rhai blynyddoedd erbyn hyn. Yr oeddem yn argymhell y dylid gwneud mwy o gynnydd i ddarparu ar lawr gwlad, a byddwn yn parhau i fonitro camau gweithredu'r Llywodraeth ar y mater hwn.

2.50 p.m.

Another theme to emerge was promoting and supporting innovation and excellence. We saw that as an effective and efficient way of generating employment and opportunity. Yet, despite Wales's high share of high-growth firms in manufacturing compared with other parts of the UK, our advantage is not being exploited. Commercialising and profiting from research and ideas are still significant challenges facing us in Wales. We therefore recommended that, in future, Welsh Government business support should focus more on quality, not quantity, that is, on firms with high growth potential as opposed to high numbers of start-ups, and that this policy should be reaffirmed in the manufacturing strategy. I am glad that the Deputy First Minister has accepted our view.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd hybu a chefnogi arloesedd a rhagoriaeth. Gwelsom hynny fel ffordd effeithiol ac effeithlon o greu swyddi a chyfleoedd. Er hynny, er gwaetha'r gyfran uchel o gwmnïau twf mawr a geir ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, nid ydym yn gwneud yn fawr o'r fantais honno. Mae masnacheiddio ac elwa o ymchwil a syniadau yn dal yn heriau sylweddol inni yma yng Nghymru. Yr oeddem yn argymhell, felly, y dylai cymorth busnes Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar ansawdd nid nifer yn y dyfodol, hynny yw, ar gwmnïau sydd â photensial mawr i dyfu yn hytrach nag ar nifer mawr o fusnesau newydd eu sefydlu, ac y dylid cadarnhau'r polisi hwn yn y strategaeth gweithgynhyrchu. Yr wyf yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn ein safbwynt.

Finally, if the manufacturing strategy for Wales is to be aligned on a different trajectory from now on, it will be essential to ensure that the country's workforce is skilled in the manufacturing industries of the longer term. As the Confederation of British Industry told us, while the Government is moving in the right direction, more needs to be done, more radically and more quickly. It is essential, therefore, that Welsh industries work closely with the Welsh Government,

Yn olaf, os bwriedir i'r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru fod ar lwybr gwahanol o hyn ymlaen, bydd yn hollbwysig sicrhau bod gweithlu'r wlad yn fedrus yn niwydiannau gweithgynhyrchu y tymor hwy. Dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wrthym, er bod y Llywodraeth yn symud i'r cyfeiriad cywir, fod angen gwneud mwy, a hynny mewn modd mwy radical ac ynghynt. Felly, mae'n hanfodol i ddiwydiannau yng Nghymru weithio'n agos

sector skills councils for science, engineering and manufacturing, and with further and higher education to develop an action plan for ensuring that the skills, qualifications and apprenticeship structures reflect the requirements of the new, changing technologies of the global manufacturing sector. While the Deputy First Minister has accepted this in principle, I urge him to ensure that those links are made.

In conclusion, the economic renewal programme provides Ministers with a major opportunity to change tack as to where Government investment and support is targeted from now on. It is the Government's role to help to create and sustain the environment in which manufacturing in Wales can develop, innovate and grow in the future. However, its role is far more than that, as Ministers have a duty to promote and support the right kind of manufacturing industries. The traditional interventionist approach of propping up old industries with short-term fixes is no longer sustainable; Wales needs to forge a new way. We need a radical culture change, and the speed with which policy makers drive this agenda will be crucial to the health and wealth of Wales's manufacturing industries.

I look forward to seeing a manufacturing strategy for Wales that has at its heart the development and growth of more sustainable, higher value, more innovative and lower carbon manufacturing industries, and that contains measures for ensuring that older manufacturing industries are enabled to re-skill, restructure and reposition themselves along those same lines.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Hoffwn, yn gyntaf, ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad. Edrychaf ymlaen at wrando ar gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad. Gobeithiaf y caf gyfle wedyn, Lywydd, i wneud cyfraniad mwy sylweddol tua diwedd y ddadl.

gyda Llywodraeth Cymru, y cynghorau sgiliau sector dros wyddoniaeth, peirianeg a gweithgynhyrchu, a chydag addysg bellach ac uwch i ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod y strwythurau sgiliau, cymwysterau a phrentisiaethau'n adlewyrchu gofynion technolegau newydd, cyfnewidiol y sector gweithgynhyrchu byd-eang. Er bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn hyn mewn egwyddor, yr wyf yn ei annog i sicrhau bod y cysylltiadau hynny'n cael eu gwneud.

I gloi, mae rhaglen adnewyddu'r economi yn gyfle pwysig i Weinidogion roi cynnig ar ffordd arall o dargedu buddsoddiad a chymorth y Llywodraeth yn y dyfodol. Swyddogaeth y Llywodraeth yw helpu creu a chynnal yr amgylchedd y gall gweithgynhyrchu yng Nghymru ddatblygu, arloesi a thyfu ynddo yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ei swyddogaeth yn llawer mwy na hynny, oherwydd mae gan Weinidogion ddyletswydd i hybu a chefnogi'r math iawn o ddiwydiannau gweithgynhyrchu. Nid yw'r dull gweithredu ymyraethol traddodiadol o gynnal hen ddiwydiannau gydag atebion tymor byr yn gynaliadwy bellach; mae angen i Gymru greu llwybr newydd. Mae angen newid diwylliant radical, a bydd pa mor gyflym y bydd llunwyr polisi yn datblygu'r agenda hon yn hollbwysig i iechyd a chyfoeth diwydiannau gweithgynhyrchu Cymru.

Edrychaf ymlaen at weld strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ac ehangu diwydiannau gweithgynhyrchu mwy cynaliadwy a mwy arloesol gyda gwerth uwch ac sy'n cynhyrchu llai o garbon, a strategaeth sy'n cynnwys mesurau ar gyfer sicrhau bod diwydiannau gweithgynhyrchu hŷn yn gallu ailhyfforddi, ailstrwythuro ac ail-leoli eu hunain mewn ffyrdd tebyg.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): Firstly, I thank the committee for its report. I look forward to listening to the contributions of Assembly Members. I hope then to have an opportunity, Presiding Officer, to make a more substantial contribution towards the end of the debate.

David Melding: I start by thanking Gareth Jones and commending him on his outstanding leadership of the Enterprise and Learning Committee, throughout his tenure as well as in leading us to produce this excellent report, which is all the stronger for, once again, being a report that has been agreed on unanimously. I note that the Government has accepted all but one of the recommendations, although some are accepted with qualifications. This demonstrates the scrutiny side of the Assembly at its very best. We had frank discussions in the committee about the direction that the report needed to take, but we were all of one mind when it came to the importance of manufacturing in Wales.

I was unsettled by some of the evidence, in particular when officials spoke to us and confirmed that a draft manufacturing strategy was ready and presented to the Minister in the autumn of 2008. The Minister decided not to proceed, in contrast to the decision made at the UK level, which was to publish its strategy. I am still not convinced that the Deputy First Minister's reason for that is particularly valid. He has maintained that we were overtaken by the economic crisis and that therefore the strategy had to be remodelled dramatically. When we see it, we will make a judgment as to how extensive that has been. However, a strategy for the manufacturing sector has to look over a long time, which takes in economic downturns. So, I still think that you could have produced a strategy and perhaps have amended it later, Minister.

However, we are where we are and I am pleased that the Government has said that it will align its strategy to its economic renewal process. I suppose that when people look back on this Assembly, they will conclude that it is disappointing that it was in its fourth year before these key documents were published and influencing or, indeed, determining the direction of Government policy. I think that we should have been swifter in this area and I fear that that may indicate a certain lack of ambition. I will apologise if I am proven wrong on that, but that is my fear.

David Melding: Dechreuaf drwy ddiolch i Gareth Jones a'i gymeradwyo am ei waith gwych yn arwain y Pwyllgor Menter a Dysgu, trwy gydol ei gyfnod yn y swydd, yn ogystal â'n harwain i gynhyrchu'r adroddiad ardderchog hwn. Mae'r adroddiad gymaint cryfach am ei fod, unwaith eto, yn adroddiad y cytunwyd arno'n unfrydol. Sylwaf fod y Llywodraeth wedi derbyn pob un o'r argymhellion hyn ac eithrio un, er bod rhai'n cael eu derbyn gydag amodau. Mae hyn yn dangos swyddogaeth graffu'r Cynulliad ar ei gorau. Cawsom drafodaethau gonest yn y pwyllgor am y cyfeiriad yr oedd angen i'r adroddiad ei ddilyn, ond yr oeddem i gyd yn cytuno ar bwysigrwydd gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Yr oedd rhai elfennau o'r dystiolaeth yn fy mhoeni'n fawr, yn arbennig pan siaradodd swyddogion â ni a chadarnhau bod drafft o strategaeth gweithgynhyrchu yn barod ac wedi'i chyflwyno i'r Gweinidog yn ystod hydref 2008. Penderfynodd y Gweinidog beidio â bwrw ymlaen, yn groes i'r penderfyniad a wnaed ar lefel y DU, sef cyhoeddi ei strategaeth. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o hyd fod rheswm y Dirprwy Brif Weinidog dros hynny'n ddilys iawn. Mae wedi dadlau bod yr argyfwng economaidd wedi dod ar ein gwarthaf ac y bu'n rhaid ailwampio'r strategaeth yn sylweddol, felly. Pan fyddwn yn ei gweld, gallwn roi barn ar hyd a lled yr ailwampio hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i strategaeth ar gyfer y sector gweithgynhyrchu gwmpasu cyfnod hir, sy'n cynnwys cyfnodau o ddirywiad economaidd. Felly, yr wyf yn dal i gredu y gallech fod wedi cynhyrchu strategaeth a'i diwygio'n ddiweddarach o bosibl, Weinidog.

Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi, ac yr wyf yn falch fod y Llywodraeth wedi dweud y bydd yn cysylltu ei strategaeth â'i phroses o adnewyddu'r economi. Pan fydd pobl yn edrych yn ôl ar y Cynulliad hwn, mae'n debyg y byddant yn dod i'r casgliad ei bod yn siomedig fod y Cynulliad yn ei bedwaredd flwyddyn cyn i'r dogfennau allweddol hyn gael eu cyhoeddi, a chyn iddynt ddylanwadu ar gyfeiriad polisi'r Llywodraeth, neu yn wir, cyn pennu'r cyfeiriad hwnnw. Credaf y dylem fod wedi gweithredu ynghynt yn y maes hwn, ac ofnaf y gallai hyn fod yn rhyw arwydd o ddiffyg

uchelgais. Ymddiheuraf os profir fy mod yn anghywir ar y pwynt hwn, ond dyna'r wyf yn ei ofni.

I welcome the fairly constructive response of the Welsh Assembly Government. However, when the strategy is published we will need a credible action plan, because in the past we have seen the Government produce strategies that do not include good monitoring mechanisms and that are not underlined by action plans. We were discussing transport yesterday and many of us fear that that issue is somewhat undermined by a lack of effective planning. I hope that that will not be repeated in this case.

I wish to reflect on a few challenges. The need to green our jobs, as some people put it, is accepted by everyone, but we should remember that as we move to a cleaner economy there are threats as well as opportunities. We have an economy that is still, in many respects, dominated by fairly heavy industries that are high consumers of energy and that use relatively dirty processes. It will take great tact and determination to preserve much of that capacity and turn it into more effective and greener production.

There are also opportunities. The most obvious one relates to marine energy. Some of us are disappointed by the record to date on that here. There are intimations of some progress and success, but if you look at what the Scottish Government has done to develop Scotland as a centre of excellence for the development and then manufacture of marine energy technology, you can see that we are already behind in that sector. It is disappointing that we have not taken forward and built on not just our natural advantages, but our very particular advantages in our higher education institutions, which could be contributing to this area. It seems to me that this is an area where the Government could add value.

The need to concentrate on high-tech and high-skilled areas of production is obvious. That brings into play a whole strategy of encouraging graduates to consider the

Croesawaf ymateb cymharol adeiladol Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, pan gaiff y strategaeth ei chyhoeddi bydd arnom angen cynllun gweithredu credadwy, oherwydd yn y gorffennol yr ydym wedi gweld y Llywodraeth yn cynhyrchu strategaethau nad ydynt yn cynnwys dulliau monitro da a heb eu hategu gan gynlluniau gweithredu. Yr oeddem yn trafod trafndiaeth ddoe, ac mae nifer ohonom yn ofni bod y mater hwnnw'n cael ei danseilio i raddau gan ddiffyg cynllunio effeithiol. Gobeithio na chaiff hynny ei ailadrodd yn yr achos hwn.

Hoffwn ystyried ambell her. Mae pawb yn derbyn bod angen gwyrddio ein swyddi, fel y bydd rhai pobl yn ei alw, ond dylem gofio, wrth inni symud tuag at economi lanach, fod yna fygythiadau yn ogystal â chyfleoedd. Mae gan ddiwydiannau cymharol drwm, sy'n defnyddio llawer o ynni ac yn defnyddio prosesau cymharol fudr, le blaenllaw yn ein heconomi o hyd, i ryw raddau. Bydd angen bod yn bwyllog ac yn benderfynol iawn i ddiogelu'r rhan fwyaf o'r gallu hwnnw a'i droi'n brosesau cynhyrchu mwy effeithiol a gwyrddach.

Mae yna gyfleoedd hefyd. Mae'r un mwyaf amlwg yn gysylltiedig ag ynni'r môr. Mae rhai ohonom yn siomedig â'r hyn a gyflawnwyd hyd yma yng Nghymru yn y cyswllt hwnnw. Ceir awgrymiadau o rywfaint o gynnydd a llwyddiant, ond os edrychwch ar yr hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud i ddatblygu'r Alban fel canolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu ac yna weithgynhyrchu technoleg ynni'r môr, yna fe welwch ein bod eisoes ar ei hôl hi yn y sector hwn. Mae'n siomedig nad ydym wedi datblygu ac adeiladu, nid yn unig ar ein manteision naturiol, ond hefyd ar ein manteision penodol iawn yn ein sefydliadau addysg uwch, a allai fod yn cyfrannu i'r maes hwn. Credaf fod y maes hwn yn un y gallai'r Llywodraeth ychwanegu gwerth iddo.

Mae'n amlwg fod angen canolbwyntio ar feysydd cynhyrchu uwch-dechnoleg a thra medrus. Mae hynny'n cyflwyno'r angen am strategaeth gyfan i annog graddedigion i

possibility of forming their own companies in a whole range of economic activity, but particularly in the high-tech and new-technology sectors. We have seen such companies become among the highest growth companies in the world, not just in Wales.

Fairly recently, I returned from a trip to North Carolina where I saw the research triangle around Raleigh. That demonstrated to me how, over the course of 25 years, fundamental economic transformation can be achieved, as it was an area that was not renowned previously for high levels of innovation.

In conclusion, on higher education links, we need to look at key markets abroad such as India and China and encourage their students to come here, particularly postgraduate students for PhDs and so on, because they will then form links in Wales, return to their home countries, and they will also bring new and innovative ideas here and link them up to opportunities for manufacture abroad. We need an ambitious public strategy, but we still await its publication.

3.00 p.m.

Jeff Cuthbert: I add my thanks to Gareth for the way in which he chaired and directed the committee. I also thank the officials for assisting us significantly by ensuring a smooth process of evidence taking and recording. I thank you, Llywydd, for allowing me to make this contribution today.

As a member of that committee, and as someone with a lifelong interest in skills and training, it is from this approach that I would like to tackle the issue today. I support the committee's recommendations in the report and I welcome the Welsh Assembly Government's constructive response, which it issued last month. I was pleased to see the Minister point out in his response that there was much common ground between the Welsh Assembly Government, its Welsh

ystyried posibilrwydd creu eu cwmnïau eu hunain mewn ystod eang o feysydd gweithgarwch economaidd, ond yn arbennig yn y sectorau uwch-dechnoleg a thechnolegau newydd. Gwelsom gwmnïau o'r fath yn dod yn amlwg ymhlith y cwmnïau sy'n tyfu fwyaf yn y byd, nid dim ond yng Nghymru.

Dychwelais o daith i Ogledd Carolina yn gymharol ddiweddar, lle gwelais y triogl ymchwil o amgylch Raleigh. Dangosodd hynny imi sut y gellir gweddnewid economi yn sylfaenol dros gyfnod o 25 mlynedd, oherwydd yr oedd yn ardal nad oedd yn enwog am lefelau uchel o arloesedd cyn hynny.

Yn olaf, o ran cysylltiadau ag addysg uwch, mae angen inni edrych ar farchnadoedd allweddol dramor mewn gwledydd megis India a Tsieina ac annog eu myfyrwyr i ddod yma, yn arbennig myfyrwyr ôl-raddedig ar gyfer doethuriaethau, ac yn y blaen. Oherwydd byddant yn creu cysylltiadau yng Nghymru cyn dychwelyd i'w gwledydd genedigol, ac yn dod â syniadau newydd ac arloesol yma ac yn eu cysylltu â chyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu dramor. Mae arnom angen strategaeth gyhoeddus uchelgeisiol, ond yr ydym yn dal i aros gweld ei chyhoeddi.

Jeff Cuthbert: Yr wyf fi hefyd yn diolch i Gareth am y modd y cadeiriodd y pwyllgor a'i gyfarwyddo. Diolch hefyd i'r swyddogion am roi cymorth sylweddol inni drwy sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i chofnodi'n ddidrafferth. Diolch ichi, Lywydd, am ganiatáu imi wneud y cyfraniad hwn heddiw.

Fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, ac fel un sydd â diddordeb oes mewn sgiliau a hyfforddiant, o'r safbwynt hwnnw yr hoffwn fynd i'r afael â'r mater hwn heddiw. Yr wyf yn cefnogi argymhellion y pwyllgor yn yr adroddiad a chroesawaf ymateb adeiladol Llywodraeth y Cynulliad, a gyhoeddwyd fis diwethaf. Yr oeddwn yn falch gweld y Gweinidog yn dweud yn ei ymateb fod yna lawer o dir cyffredin rhwng Llywodraeth y Cynulliad, fforwm gweithgynhyrchu Cymru, a'r

manufacturing forum, and the committee—both in relation to work that is already being done and work that is proposed for the future.

I would like to turn to recommendation 7 of the committee's report. We call for industry to

'work closely with the Welsh Government, [the various] sector skills councils... and with further and higher education to develop [a coherent] action plan for ensuring that the skills, qualifications and apprenticeship structures reflect the requirements of the new, changing technologies of the global manufacturing sector.'

We need to do this with particular reference to the STEM subjects—science, technology, engineering and mathematics—the benefits of which I have spoken about in the Chamber many times. I am pleased that the Deputy First Minister has accepted this recommendation, at least in principle. He is right to flag up existing arrangements with the Sector Skills Council for Science, Engineering and Manufacturing Technologies and other sector skills councils that cover the manufacturing sector. I also agree that Wales needs to identify high-tech manufacturing niches where we can concentrate our efforts towards economic growth, but we must also maintain sufficient flexibility to respond to outside pressures.

European structural funds have a role here. Our priorities target exactly this sort of thing, while our recent renegotiation of the intervention rates shows that they are flexible enough to take account of big shocks, such as the impact of the credit crunch. It is also vital that, in taking the committee's recommendations forward, we ensure that industry, FE, HE and the sector skills councils work together to produce appropriate vocational qualifications so that those who are learning, whether in college or in the workplace, can transfer their skills into their jobs, as is required by twenty-first century employers.

The Webb review recommended this, and the

pywllgor—o ran y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud a'r gwaith sy'n cael ei gynnal ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn ddychwelyd at argymhelliad 7 yn adroddiad y pywllgor. Yr ydym yn galw ar ddiwydiant i

'weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y cynghorau sgiliau sector [amrywiol]...a chydag addysg bellach ac uwch i ddatblygu cynllun gweithredu [cydlynol] i sicrhau bod y strwythurau sgiliau, cymwysterau a phrentisiaethau yn adlewyrchu gofynion technolegau newydd, cyfnewidiol y sector gweithgynhyrchu byd-eang.'

Mae angen inni wneud hyn gan roi sylw penodol i bynciau STEM—gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg—ac yr wyf droeon yn y Siambr wedi trafod manteision gwneud hynny. Yr wyf yn falch fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, mewn egwyddor o leiaf. Mae'n iawn iddo dynnu sylw at y trefniadau presennol gyda'r Cyngor Sgiliau Sector dros Wyddoniaeth, Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu a chynghorau sgiliau sector eraill sy'n cynnwys y sector gweithgynhyrchu. Yr wyf hefyd yn cytuno bod angen i Gymru nodi cyfleoedd arbenigol ym maes gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg lle gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar dwf economaidd, ond rhaid inni hefyd sicrhau hyblygrwydd digonol er mwyn ymateb i bwysau o'r tu allan.

Mae gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd rôl yn hyn o beth. Dyna'r union fath o beth mae ein blaenoriaethau'n ei dargedu ac mae aildrafod y cyfraddau ymyrryd yn ddiweddar yn dangos eu bod yn ddigon hyblyg i ystyried ergydion mawr, megis effaith y wasgfa gredyd. Mae hefyd yn hollbwysig, wrth weithredu argymhellion y pywllgor, ein bod yn sicrhau bod diwydiant, addysg bellach, addysg uwch a'r cynghorau sgiliau sector yn cydweithio i gynhyrchu cymwysterau galwedigaethol priodol fel y gall y rhai sy'n dysgu, yn y coleg neu yn y gweithle, drosglwyddo eu sgiliau i'w swyddi, fel sy'n ofynnol gan gyflogwyr yr unfed ganrif ar hugain.

Argymhellwyd hyn yn adolygiad Webb, ac

‘Skills That Work for Wales’ strategy goes some way to making sure that this process is put in place. However, it is important that we now link this to our developing manufacturing strategy, so that there is a coherent approach across departments to boosting the economy and skills. Minister, your economic renewal programme must, ultimately, reflect this. We in Wales want to be a small, clever, country based on green, knowledge-intensive jobs of a good quality. Learning and skills are absolutely crucial to this.

Finally, I welcome the Minister’s assurance that the Welsh Assembly Government’s leadership and management initiative offers sector-specific and demand-led support for leadership and personal development. As I mentioned in questions earlier, as this is Workers’ Memorial Day, I call for health and safety awareness to be made an integral part of skills training. Continuous professional development is an important part of training and skills development in general. I will be scrutinising closely the proposals for the remainder of this Assembly. I am pleased that the Minister has accepted this key recommendation, as well as the spirit of the report—at least in principle. The commitment is now there and we must ensure that goodwill is translated into action.

Jenny Randerson: I would like to thank the Chair for his leadership on this important issue.

The report is quite hard-hitting, though it is cast in the language of courtesy, as reports always are. The most telling phrase within this report is

‘We are concerned that the Welsh Government has been talking about value chains for years without much progress being made.’

You could delete ‘value chains’ and replace it with a number of issues, such as green manufacturing, the manufacturing strategy, higher value added, and so on, because the

mae’r strategaeth ‘Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru’ yn gwneud rhywfaint i sicrhau rhoi’r broses hon ar waith. Fodd bynnag, mae’n bwysig inni gysylltu hyn â’n strategaeth gweithgynhyrchu sy’n datblygu, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cydlynol o hybu’r economi a sgiliau ar draws pob adran. Weinidog, rhaid i’ch rhaglen i adnewyddu’r economi adlewyrchu hyn yn y pen draw. Yr ydym ni yng Nghymru am fod yn wlad fach, ddeallus sy’n seiliedig ar swyddi gwyrdd, gwybodaeth ddwys, o safon. Mae dysgu a sgiliau yn hanfodol ar gyfer hyn.

Yn olaf, yr wyf yn croesawu sicrwydd y Gweinidog fod menter arweinyddiaeth a rheoli Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig cymorth sy’n benodol i sector ac yn cael ei arwain gan y galw ar gyfer arweinyddiaeth a datblygiad personol. Fel y soniais yn y cwestiynau’n gynharach, gan ei bod yn Ddiwrnod Coffáu Gweithwyr yr wyf yn galw am i ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch fod yn rhan annatod o hyfforddiant sgiliau. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig fel rhan o hyfforddiant a datblygiad sgiliau’n gyffredinol. Byddaf yn edrych yn ofalus ar y cynigion ar gyfer y cyfnod sydd gan y Cynulliad hwn yn weddill. Yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad allweddol hwn, yn ogystal ag ysbryd yr adroddiad—mewn egwyddor o leiaf. Mae’r ymrwymiad wedi’i wneud, a rhaid inni sicrhau bod ewyllys da yn troi’n gamau gweithredu.

Jenny Randerson: Hoffwn ddiolch i’r Cadeirydd am ei arweiniad ar y mater pwysig hwn.

Mae’r adroddiad yn eithaf deifiol, er ei fod yn cael ei gyflwyno mewn iaith gwrtais, fel sy’n digwydd mewn adroddiadau bob amser. Yr ymadrodd mwyaf trawiadol yn yr adroddiad yw

‘Rydym yn bryderus fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn siarad am gadwyni gwerth ers blynyddoedd heb i lawer o gynnydd gael ei wneud.’

Gallech ddileu’r geiriau ‘cadwyni gwerth’ a rhoi nifer o bethau yn eu lle, megis gweithgynhyrchu gwyrdd, y strategaeth gweithgynhyrchu, gwerth ychwanegol uwch,

striking thing about this report is that it covers the same old topics that we have been discussing and agreeing on across the Chamber for years. This is not the source of political disagreement. The source of political disagreement is the stunning lack of progress. I want to emphasis one or two key issues.

Recommendation 3, which refers to closer engagement with Wales's major manufacturers, is important. I am convinced that the problem facing the Government, that is, Labour and Plaid, is their instinctive dislike and distrust of business. They do not say it, but you can feel it—actually, one or two do say it from time to time in unguarded moments. However, it is something that you have to get over to work closely with business and develop a good strategy.

Recommendation 4 refers to green manufacturing, and while we have been talking about it in the Assembly, the port at Bremerhaven has taken itself from being a failing port that was being used by just one manufacturer and with high levels of unemployment, which even in the dark days of Thatcher we would have thought were a big problem, to become a leading site for leading sustainable energy manufacturers and it has seen 3,000 jobs created. Its unemployment levels have dropped dramatically. If other countries can do it, why cannot we? Why can we as a country not have similar shining examples of success?

I re-emphasise the importance of links with higher education. David has already referred to this, but unless we have practical examples of working with higher education and an increase in its budget, rather than working to reduce it, so that it can develop more cutting edge research and technology in which businesses can invest, and unless we ensure that Welsh businesses develop from universities in Wales, we will not create the most valuable and effective jobs.

ac yn y blaen, oherwydd yr hyn sy'n drawiadol am yr adroddiad hwn yw ei fod yn trafod yr un hen bynciau yr ydym wedi bod yn eu trafod ac yn cytuno arnynt ar draws y Siambr ers blynyddoedd. Nid hyn sy'n achosi anghytuno gwleidyddol. Yr hyn sy'n achosi anghytuno gwleidyddol yw'r diffyg cynnydd syfrdanol. Hoffwn bwysleisio un neu ddau fater allweddol.

Mae argymhelliad 3, sy'n cyfeirio at ymgysylltu'n nes â phrif weithgynhyrchwyr Cymru, yn bwysig. Yr wyf yn argyhoeddedig mai'r broblem sy'n wynebu'r Llywodraeth, hynny yw, y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yw'r ffaith nad ydynt, wrth reddf, yn hoffi busnes nac yn ymddiried ynddo. Nid ydynt yn cyfaddef hynny, ond gallwch ei deimlo— yn wir, bydd un neu ddau'n dweud hynny o bryd i'w gilydd ar funud esgeulus. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ichi ei anghofio er mwyn gweithio'n agos gyda byd busnes a datblygu strategaeth dda.

Mae argymhelliad 4 yn cyfeirio at weithgynhyrchu gwyrdd, ac yn ystod y cyfnod yr ydym wedi bod wrthi'n trafod y mater yn y Cynulliad, mae'r porthladd yn Bremerhaven wedi datblygu o fod yn borthladd a oedd yn methu ac yn cael ei ddefnyddio gan un gweithgynhyrchwr yn unig, a lle oedd lefelau uchel o ddiweithdra a fyddai wedi eu hystyried yn broblem, hyd yn oed yn ystod dyddiau tywyll Thatcher, i fod yn safle blaenllaw ar gyfer gweithgynhyrchwyr ynni cynaliadwy amlwg ac mae 3,000 o swyddi wedi'u creu. Mae ei lefelau diweithdra wedi gostwng yn sylweddol. Os gall gwledydd eraill wneud hyn, pam na allwn ni? Pam nad oes gennym ni fel gwlad enghreifftiau gwych o lwyddiannau tebyg?

Yr wyf yn ailbwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau ag addysg uwch. Mae David eisoes wedi cyfeirio at hyn, ond ni fyddwn yn creu'r swyddi mwyaf gwerthfawr ac effeithiol oni welwn enghreifftiau ymarferol o weithio gydag addysg uwch a chynnydd yn ei chyllideb, yn hytrach nag ymgais i'w lleihau. Wedyn gall addysg uwch ddatblygu ymchwil a thechnoleg fwy blaengar y gall busnesau fuddsoddi ynddynt. Ni wnawn hynny oni fyddwn yn sicrhau bod busnesau Cymreig yn datblygu o brifysgolion yng

Nghymru.

To refer to an issue that was raised this morning in the ConstructionSkills meeting, the Minister has reformed and simplified the structure of support for business, the FS4B, and the concept sounds good. However, the speaker at our cross-party group meeting this morning emphasised how sorry he was at the loss of the knowledge bank, as it had been a success story for Welsh business, and now it has gone. I hope that the Minister will reassure us that something just as good will take its place.

Finally, I want to emphasise my concern that despite accepting all these proposals, the Minister has noted that there are no financial implications for any of them. Either we carry on with the same old rhetoric and no effective action, or we recognise that this will cost money. You will not create a revolution in our thinking and in the way our nation develops unless you invest some money upfront. Will you explain why there are no financial implications to what would appear to be a significant change of direction?

3.10 p.m.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn diolch yn gynnes i Gareth am ei gyflwyniad, ac i Aelodau Cynulliad ac aelodau'r pwyllgor am eu sylwadau, a oedd, ar y cyfan, yn hynod adeiladol. Mae dealltwriaeth gan aelodau'r pwyllgor a'r Llywodraeth fod y sector gweithgynhyrchu yn bwysicach yng Nghymru nag ydyw mewn gwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol. Mae'n dda gennyf nodi bod llawer o bethau'n gyffredin rhwng adroddiad y pwyllgor a pholisïau'r Llywodraeth. Cefais gyfle i dynnu sylw at hynny yn fy ymateb ffurfiol. Byddaf yn troi at y manylion maes o law, ond hoffwn yn gyntaf osod y strategaeth weithgynhyrchu yn ei chyd-destun.

Fel mae aelodau'r pwyllgor wedi nodi, mae gweithgynhyrchu yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru, gyda'i wreiddiau yn niwydiant trwm fwy na chanrif yn ôl. Fodd bynnag, yr ydym wedi gweld newidiadau

Cyfeiriaf at fater a godwyd y bore yma yn y cyfarfod ar Sgiliau Adeiladu, sef bod y Gweinidog wedi diwygio a symleiddio'r strwythur cymorth i fusnesau, Cymorth Hyblyg i Fusnes, ac mae'r cysyniad yn swnio'n dda. Fodd bynnag, yr oedd y siaradwr yn ein cyfarfod trawsbleidiol y bore yma yn pwysleisio cymaint yr oedd yn gresynu bod y banc gwybodaeth wedi dod i ben, oherwydd bu'n llwyddiant i fusnesau yng Nghymru, ac yn awr, mae wedi mynd. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi sicrwydd inni y daw rhywbeth llawn cystal yn ei le.

Yn olaf, hoffwn bwysleisio fy mhryder, er i'r holl gynigion hyn gael eu derbyn, fod y Gweinidog wedi nodi nad oes goblygiadau ariannol i'r un ohonynt. Yr ydym naill ai'n parhau'r un hen rethreg heb ddim gweithredu effeithiol, neu yr ydym yn cydnabod y bydd hyn yn costio arian. Ni fyddwch yn llwyddo i chwyldroi ein ffordd o feddwl a'r ffordd y mae ein gwlad yn datblygu heb fuddsoddi rhywfaint o arian ar y dechrau. A wnewch chi esbonio pam nad oes dim goblygiadau ariannol i'r hyn sy'n ymddangos yn newid cyfeiriad sylweddol?

The Deputy First Minister: I thank Gareth warmly for his introduction, and Assembly Members and committee members for their comments, which were, on the whole, incredibly constructive. Committee members and the Government share an understanding of the fact that the manufacturing sector is more important in Wales than in the other nations and regions of the United Kingdom generally. I am pleased to note that the committee's report and Government policy have much in common, a fact that I had an opportunity to allude to in my formal reply. I shall come to the detail in due course, but I should firstly like to set the manufacturing strategy in context.

As committee members have noted, manufacturing plays a major role in the Welsh economy, with its roots in heavy industry going back over a hundred years. However, we have seen great changes to the

mawr yn y sector yn ystod y degawdau diwethaf. Ni fu yr un o'r newidiadau hyn mor arwyddocaol â'r mewnfuddsoddi sylweddol a gafwyd yn ystod y 1970au, sydd wedi ein gweld yn troi at y diwydiannau ysgafnach sydd mor amlwg heddiw. Yn ogystal â'r newidiadau strwythurol cynnar hyn, mae pethau'n newid yn awr yn sgîl ffactorau economaidd fel globaleiddio a ffactorau cynladwyedd, fel yr agenda carbon isel. Mae'r rhain yn fwy na heriau; maent hefyd yn gyfleoedd, fel y clywsom Gareth yn cyfeirio atynt, i'n diwydiant gweithgynhyrchu.

Mae'r 30 mlynedd diwethaf wedi bod yn gryn her. Mae gwledydd dwyrain Ewrop wedi cynnig pecynnau cyfalaf atyniadol i ddenu mewnfuddsoddwyr, ac mae gwledydd datblygol yn Asia a De America wedi cynnig cyfraddau cyflog is. Mae technolegau cyfathrebu wedi gweddnewid cadwyni cyflenwi'r diwydiant a masnach yn fyd-eang. Yn ychwaneg, mae costau ynni wedi cynyddu'n ddramatig ledled y byd.

Mae nifer y swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi gostwng yn gyson yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, er bod cyfran y swyddi hyn wedi parhau uwchlaw cyfartaledd y Deyrnas Unedig. Gwelsom y duedd hon yn holl wledydd datblygedig y gorllewin. Fodd bynnag, mae swyddi gweithgynhyrchu'n parhau i gyfrannu llawer mwy o werth ychwanegol crynswth i'n heconomi na'r cyfartaledd. Mae gweithgynhyrchu felly yn parhau'n rhan hanfodol o'n heconomi.

Yn y cyd-destun hwn, yn 2004, sefydlodd y Gweinidog ar y pryd, Andrew Davies, grŵp gorchwyl a gorffen, gan ofyn iddo edrych ar y prif faterion a oedd yn effeithio ar y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru. Argymhellodd y grŵp hwnnw y dylid sefydlu fforwm gweithgynhyrchu i Gymru. Byddai hwn yn gorff unigryw a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr diwydiant, undebau llafur, cyrff cynrychioladol, cynghorau sgiliau sector, a Llywodraeth y Cynulliad. Byddai ei gylch gwaith yn cynnwys datblygu strategaeth weithgynhyrchu i Gymru, ei rhoi ar waith a'i hadolygu'n barhaus. Mae'r fforwm wedi bod yn gweithredu fel corff anghorfforedig ers tair blynedd, gyda'r aelodau'n rhoi o'u hamser a'u profiad er lles

sector in recent decades. None of these changes was as significant as the advent of major inward investment in the 1970s, which saw us move to the lighter industries which are much in evidence today. In addition to these earlier structural transformations, we now have changes brought about by economic factors, such as globalisation, and by sustainability drivers, such as the low carbon agenda. These are more than just challenges; they present opportunities, as we heard Gareth refer to them, for our manufacturing industry.

The past 30 years or so have been a major challenge. Eastern European countries have offered attractive capital packages to entice inward investors, and developing nations in Asia and South America have offered low wage rates. Communications technology has transformed industry and market supply chains worldwide. In addition, energy costs have increased dramatically all over the world.

The number of manufacturing jobs in Wales has fallen steadily over the past 20 years, though as a proportion they have remained above the UK average. This phenomenon can be seen in all the developed economies in the western world. However, manufacturing jobs still contribute a GVA to our economy that is well above average. Manufacturing therefore remains a vital part of our economy.

Against this background, in 2004 the then Minister, Andrew Davies, established a task and finish group charged with examining the key issues impacting on the manufacturing sector in Wales. That group recommended the formation of a Welsh manufacturing forum. This unique body was to comprise of representatives of industry, trade unions, representative bodies, sector skills councils and the Welsh Assembly Government. Its remit would include the development, implementation and continuous review of a manufacturing strategy for Wales. For three years, the forum has functioned as an unincorporated body, its members giving of their time and experience for the benefit of the industry here in Wales. For that, I wish to

y diwydiant yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i'r cynrychiolwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus sydd wedi gwasanaethu ar y fforwm, ac yn arbennig i Roger Evans, sydd wedi bod yn gadeirydd hynod weithgar ar y fforwm ers ei sefydlu yn 2007.

Ar ôl gwneud y gwaith ymchwil a dadansoddi y cyfeiriodd David Melding ato, cynhyrchodd y fforwm strategaeth weithgynhyrchu drafft ar ddiwedd 2008, a'i thrafod gyda mi. Yr oedd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar bedwar prif faes. Yn gyntaf, ychwanegu gwerth sylweddol, sef yr angen i ychwanegu gwerth, nid cost, at y cynhyrchion a'r gwasanaethau cysylltiedig yr ydym yn eu gwerthu. Yn aml, gellir cyflawni hyn drwy arloesi. Yn ail, sgiliau, yn arbennig yr angen am sgiliau rheoli ac arwain. Yn drydydd, busnesau bach a chanolig eu maint, gan roi sylw i anghenion penodol cwmnïau newydd a'r rhai sy'n datblygu, yn ogystal â'r materion maent yn eu hwynebu. Delwedd yw'r pedwerydd, am fod gan y sector gweithgynhyrchu ddelwedd gyffredin o fod yn ddirwasgedig ac yn isel ei ysbryd. Mae angen denu mwy o bobl ifanc o ansawdd i'r diwydiant. Hynny yw, mae eisiau gwneud y diwydiant gweithgynhyrchu yn rhywbeth y bydd pobl ifanc am ddilyn gyrfya ynddo.

I made it clear at the time, during many debates at the Assembly and when answering ministerial questions, that while facing the recession, my duties were to assist the economy in dealing with that recession, before returning to the manufacturing strategy at the earliest opportunity. I have also made it clear that, as the economy is now starting to show signs of moving out of the downturn, I wish to return to the work that the manufacturing forum had prepared.

I have met again with the forum to discuss how best to move forward with the strategy. We agreed that there was a need to review its proposals in the light of the recession, and the Assembly provided funding to enable that to take place. That was last October. Since then, the manufacturing sector has continued to experience very significant change. Despite further closures and job losses, we have also received news of investment in businesses

record my thanks to those private and public sector representatives who have served on the forum, and particularly to Roger Evans, who has been an extremely active chair since the forum's inception in 2007.

Having undertaken the investigation and analysis which David Melding referred to, the forum produced a draft Manufacturing strategy in late 2008, which it then discussed with me. The strategy focussed on four main areas. The first is that of high value added and the need to build value, not cost, into the products and associated service that we make and sell. This can often be achieved through innovation. The second is skills, and particularly the need for better management and leadership skills. The third concerns small and medium-sized enterprises, giving attention to the particular needs of our young and developing companies and the issues facing them. Image is the fourth, as the manufacturing industry is seen as being depressed and languishing. More young people of a high calibre need to be attracted into the industry. That is, the manufacturing industry needs to be something in which young people will want to pursue a career.

Esboniais yn glir ar y pryd, yn ystod nifer o ddadleuon yn y Cynulliad ac wrth ateb cwestiynau i'r gweinidog, mai fy nyletswyddau wrth wynebu'r dirwasgiad oedd helpu'r economi i ddelio â'r dirwasgiad hwnnw, cyn dychwelyd at y strategaeth gweithgynhyrchu cyn gynted ag y byddai'n bosibl. Yr wyf hefyd wedi egluro, gan fod yr economi'n dechrau dangos arwyddion o symud allan o'r dirwasgiad, fy mod am dychwelyd at y gwaith yr oedd y fforwm gweithgynhyrchu wedi'i baratoi.

Yr wyf wedi cyfarfod â'r fforwm eto i drafod y ffordd orau i symud ymlaen â'r strategaeth. Bu inni gytuno bod angen adolygu ei gynigion yn sgil y dirwasgiad, a darparodd y Cynulliad arian i alluogi hynny i ddigwydd. Digwyddodd hynny ym mis Hydref y llynedd. Ers hynny, mae'r sector gweithgynhyrchu wedi parhau i weld newid sylweddol iawn. Er bod mwy o fusnesau wedi cau a mwy o bobl wedi colli eu swyddi,

and in new products, particularly in the automotive sector, where the imperative of low carbon products has brought positive long-term announcements for anchor companies, including both the Toyota and Ford engine plants. The committee brought forward 10 recommendations, to which I have formally responded.

Before I comment more specifically today on those recommendations, I draw Members' attention to the responsibility given to the manufacturing forum back in 2007, and the decision that the manufacturing strategy would be the work of the partnership, and therefore not an Assembly Government document. We have had some challenges in determining the mechanism to achieve that goal, but I believe that we are now on track to deliver it. Within that context, I was more than happy, in my written response, to give agreement—or agreement in principle—to all of the recommendations bar one. I have indicated my agreement in principle only where the committee has made requests of the Government that are rightly in the remit of the forum or where actions are otherwise in hand. I am also pleased to accept the committee's recommendations as indicative of its clear support, not only for the Government's approach, but also for that of the forum.

In particular, there is a shared understanding that the manufacturing strategy must do a number of things. These include, as we have heard: being based on achieving higher added value; being inclusive of businesses, individuals, trade unions and Government; and being consistent with the needs of individual sub-sectors of manufacturing, and so on. The forum is now embarking on a process of approving the strategy, though which all member organisations of the forum will be invited to give their corporate endorsement of the document. When this is complete, it will be for the forum to publish the manufacturing strategy for Wales. I anticipate that that will take place in June.

I am delighted that the Assembly Government has been a partner in the

yr ydym hefyd wedi cael newyddion am fuddsoddi mewn busnesau a chynnyrch newydd, yn arbennig yn y sector modurol, lle mae pwysigrwydd cynnyrch carbon isel wedi arwain at gyhoeddiadau hirdymor cadarnhaol i gwmnïau angori, gan gynnwys ffatrioedd peiriannau Toyota a Ford. Cyflwynodd y pwyllgor 10 o argymhellion, ac yr wyf wedi ymateb yn ffurfiol iddynt.

Cyn imi roi sylwadau mwy penodol heddiw ar yr argymhellion hynny, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y cyfrifoldeb a roddwyd i'r fforwm gweithgynhyrchu yn ôl yn 2007, a'r penderfyniad mai gwaith y bartneriaeth fyddai'r strategaeth gweithgynhyrchu, ac na fyddai, felly, yn ddogfen Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym eisoes wedi wynebu heriau wrth benderfynu dull o gyflawni'r nod hwnnw, ond credaf ein bod ar y trywydd cywir erbyn hyn i'w gyflawni. Yn y cyddestun hwnnw, yr oeddwn yn fwy na pharod, yn fy ymateb ysgrifenedig, i gytuno—neu i gytuno mewn egwyddor—â phob un o'r argymhellion ac eithrio un. Yr unig argymhellion y cytunais mewn egwyddor â hwy yw'r rhai lle mae'r pwyllgor wedi gofyn i'r Llywodraeth wneud pethau sydd yn rhan briodol o gylch gwaith y fforwm neu lle mae camau'n cael eu cymryd fel arall. Yr wyf hefyd yn falch iawn o dderbyn argymhellion y pwyllgor fel arwydd o'i gefnogaeth glir, nid yn unig i ddull gweithredu'r Llywodraeth, ond hefyd i ddull gweithredu'r fforwm.

Yn arbennig, mae yna ddealltwriaeth gyffredin ei bod yn rhaid i'r strategaeth gweithgynhyrchu wneud nifer o bethau. Fel y clywsom, mae'r rhain yn cynnwys: bod yn seiliedig ar sicrhau gwerth ychwanegol uwch; cynnwys busnesau, unigolion, undebau llafur a'r Llywodraeth; a bod yn gyson ag anghenion is-sectorau gweithgynhyrchu unigol, ac yn y blaen. Mae'r fforwm yn dechrau ar broses o gymeradwyo'r strategaeth erbyn hyn, a gwahoddir pob sefydliad sy'n aelod o'r fforwm i roi eu cymeradwyaeth gorfforaethol i'r ddogfen. Wedi i hynny ddigwydd, y fforwm fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru. Rhagwelaf y bydd hynny'n digwydd ym mis Mehefin.

Yr wyf yn falch iawn fod Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn bartner yn y gwaith o

development of the forum strategy, which will sit alongside the economic renewal programme. I was disappointed with the comments made by Jenny Randerson about the Government's commitment to business. Let me make it clear today, once again, that this Government is committed to business and that it wants to see business flourish. We will do everything we can, through the economic renewal programme, to make that absolutely clear when the manufacturing strategy is published in June and the ERP is published around the same time.

Gareth Jones: Dim ond ychydig eiriau sydd gennyf wrth gloi, ond hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu geiriau caredig ac am eu cyfraniad sylweddol a chyson yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth. Hoffwn ddiolch i bob aelod o'r pwyllgor am hynny. Fel Cadeirydd y pwyllgor, yr wyf yn gwerthfawrogi'r gwaith craffu effeithiol a wnaethpwyd. Mae'r adroddiad hwn, a'r testun yr ydym wedi ymwneud ag ef, wedi bod yn ddigon heriol, fel y gwelwch wrth ddarllen yr adroddiad, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y cyfraniadau hynny.

I grynhoi'r hyn yr ydym wedi ei glywed y prynhawn yma, mae unfrydedd o ran yr angen am newid yng nghyd-destun y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Gwelwn y peryglon a'r heriau i'r dyfodol, ond gwelwn hefyd y cyfleoedd posibl. Gobeithiaf y bydd pawb a fydd yn darllen yr adroddiad yn sylweddoli, o leiaf, fod angen gweithredu. Un o'r pethau a ddaeth i'r amlwg y prynhawn yma oedd y galw am weithredu effeithiol ar gynllun. Yr oeddwn yn falch o glywed ymateb y Dirprwy Brif Weinidog ar hynny, ac edrychaf ymlaen at weld y strategaeth honno ym mis Mehefin.

3.20 p.m.

Mae cytundeb ar hynny. Mae angen cynllun gweithredu, wrth gwrs—yr ydym yn edrych ymlaen at hwnnw—a'r monitro y cyfeiriodd David Melding ato. Bûm yn gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd Jeff am sgiliau: mae angen i ni wynebu'r her sydd o'n blaenau, ac yr wyf yn meddwl ein bod yn ceisio ymateb i'r her honno hyd eithaf ein gallu. Mae Jenny'n iawn hefyd o ran

ddatblygu strategaeth y fforwm, a fydd yn cyd-fynd â'r rhaglen i adnewyddu'r economi. Yr oeddwn yn siomedig â'r sylwadau gan Jenny Randerson am ymrwymiad y Llywodraeth i fusnes. Gadewch imi ddatgan yn glir unwaith eto heddiw fod y Llywodraeth hon wedi ymrwymo i fusnes a'i bod am weld busnesau'n ffynnu. Fe wnawn bopeth yn ein gallu, drwy raglen adnewyddu'r economi, i bwysleisio hynny'n glir pan gaiff y strategaeth gweithgynhyrchu ei chyhoeddi ym mis Mehefin a phan gaiff y Cynllunio Adnoddau Menter ei gyhoeddi tua'r un pryd.

Gareth Jones: I have but a few words to say in conclusion, but I should like to thank the committee members for their kind words and for their substantial and steady contribution during the evidence-gathering process. I thank each member of the committee for that. As the Chair of the committee, I appreciate their effective scrutiny. This report, and the subject it deals with, has been challenging enough, as you will see from reading it, and I thank the Members for their contributions.

To summarise what we have heard this afternoon, there is unanimity on the need for change with regard to the manufacturing sector in Wales. We see the risks and the challenges in the future, but we also see potential opportunities. I hope that all who read this report will, if nothing else, realise that action is needed. Something that came out this afternoon is the call for the plan to be implemented effectively. I was pleased to hear the Deputy First Minister's response to that, and I look forward to seeing the strategy in June.

There is agreement in that. An action plan is required, of course—we look forward to it—as is the monitoring to which David Melding referred. I have listened carefully to Jeff's contribution on skills: we need to face the challenge ahead, and I believe that we are responding to that challenge to the best of our ability. Jenny is right, too, with regard to investment.

buddsoddi.

Yr ydym wedi rhoi sylw i nifer o bethau ac yr ydym yn hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am y ffordd y mae wedi ymateb yn bositif i'r pryderon a fynegwyd. Wedi'r cyfan, mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, ac yr wyf yn mawr obeithio, o ran mynd i'r afael â'r dystiolaeth ac ati, bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r pryderon sy'n bodoli yng Nghymru. Yr ydym oll eisiau gweld datblygiadau effeithiol yn y maes hwn; yr wyf yn meddwl bod unfrydedd yn ein plith, ac yr wyf yn ei groesawu.

Wrth gloi, diolchaf i'r tîm clericio sydd wedi bod yn ein cynorthwyo. Buom yn edrych yn fanwl ar weithgynhyrchu, ond yr oeddwn am weld yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn amser cymharol fyr ac felly gwnaethpwyd gwaith mawr yn yr amser hwnnw i gadw at yr amserlen. Yr wyf yn mawr obeithio, Ddirprwy Brif Weinidog, o'ch ymateb, y gwelwn gamau positif sylweddol yn y maes hwn, a hynny ar fyrder, o ystyried y sefyllfa anodd yr ydym yn ei wynebu.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.22 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.22 p.m.*

Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd yng Nghymru The Sustainability Committee's Inquiry into Flooding in Wales

Michael German: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Sustainability Committee into flooding in Wales, which was laid in the Table Office on 11 February 2010. (NDM4461)

Members will be pleased to hear that some of the time set aside for me to speak will be given up to a video that the committee made.

We have focused on a number of things, and we are extremely grateful to the Deputy First Minister for responding so positively to the concerns expressed. After all, this report is based on direct evidence, and I greatly hope that in addressing the evidence and so on, the report reflects the concerns that are current in Wales. We all want to see effective development in this area; I think that we are unanimous, and I welcome that.

In conclusion, I thank the clerking team for its assistance. We examined manufacturing in detail, but I also wanted the report to be published in a comparatively short time, and the work was conducted in that time to keep to the deadline. I sincerely hope, Deputy First Minister, that we will see in your response substantial, positive action taken urgently in this field, considering the difficult situation we find ourselves in.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Michael German: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar lifogydd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2010. (NDM4461)

Bydd Aelodau'n falch clywed bod rhywfaint o'r amser a neilltuwyd imi siarad yn cynnwys dangos fideo a baratowyd gan y pwyllgor. Yr

I, too, thank Mick Bates, who was the committee Chair at the time, and who drove this forward. I am now moving a motion relating to a report that is based on the work of a committee of which I was not a part, so I thank him for his work and effort.

I am sure that we are all aware that flooding is an increasing problem, which affects communities across Wales and the UK. However, flooding also has a very damaging personal effect. It does not matter when one is being flooded whether the water is coming from a river, the drains, the sewers or the sea, it need only be a small amount—sometimes less than an inch—to ruin people’s carpets, possessions, kitchens and ultimately their homes.

The committee agreed on a simple set of terms of reference for this inquiry, which was to look at the effects of flooding on individuals, communities and businesses in Wales, and at the mechanisms in place to help them before, during and after a flooding event. Through this inquiry, committee members were keen to find out how flooding affects people. To do this, the committee visited communities across Wales to give people a chance to tell Members about their experiences of flooding. I am sure that, during this debate, members of the committee will be able to share their experiences of the communities that they went to.

The committee visited St Richard Gwyn Catholic High School in Barry, a number of sites in Gloucester and the Environment Agency’s flood forecasting centre, and took evidence from a range of witnesses in the more traditional committee setting. The evidence gathered helped to illustrate what actually happens before, during and after a flood, and how floods impact on people’s lives. To help you understand, the committee produced this short video of the evidence gathered, which begins to show how much flooding affects people.

The video is not working, but I am told that your assistants will sort the problem out, Deputy Presiding Officer.

wyf fi hefyd yn diolch i Mick Bates, Cadeirydd ar y pwyllgor ar y pryd, a yrrodd hwn yn ei flaen. Yr wyf yn awr yn cyflwyno cynnig yn gysylltiedig ag adroddiad sy’n seiliedig ar waith pwyllgor nad oeddwn yn rhan ohono, felly, diolch iddo am ei waith a’i ymdrech.

Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn ymwybodol fod llifogydd yn broblem gynyddol sy’n effeithio ar gymunedau ledled Cymru a’r DU. Fodd bynnag, mae llifogydd hefyd yn cael effaith bersonol niweidiol iawn. Pan fydd unigolyn yn dioddef llifogydd, nid oes gwahaniaeth o ble y daw’r dŵr, boed o afon, y draeniau, y carthffosydd neu’r môr, dim ond ychydig o ddŵr—llai na modfedd weithiau—a gymer i ddifetha carpedi, eiddo, ceginau, a chartrefi pobl yn y pen draw.

Cytunodd y pwyllgor ar gylch gorchwyl syml ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sef edrych ar effeithiau llifogydd ar unigolion, cymunedau a busnesau yng Nghymru, a’r systemau sydd ar waith i’w helpu cyn, yn ystod ac ar ôl achos o lifogydd. Drwy’r ymchwiliad hwn, yr oedd aelodau’r pwyllgor yn awyddus i gael gwybod sut mae llifogydd yn effeithio ar bobl. I wneud hyn, bu’r pwyllgor yn ymweld â chymunedau ledled Cymru i roi’r cyfle i bobl ddweud wrth Aelodau am eu profiadau o lifogydd. Yn ystod y ddadl hon, yr wyf yn siŵr y bydd aelodau’r pwyllgor yn gallu rhannu eu profiadau o’r cymunedau y buont yn ymweld â hwy.

Ymwelodd y pwyllgor ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Barri, nifer o safleoedd yng Nghaerloyw a chanolfan darogan llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd, a chafodd dystiolaeth gan amrywiaeth o dystion mewn amgylchedd pwyllgor mwy traddodiadol. Yr oedd y dystiolaeth a gasglwyd o gymorth i ddarlunio beth yn union sy’n digwydd cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd, a sut mae llifogydd yn effeithio ar fywydau pobl. Er mwyn eich helpu i ddeall, cynhyrchodd y pwyllgor y fideo byr hwn o’r dystiolaeth a gasglwyd, sy’n dechrau dangos gymaint mae llifogydd yn effeithio ar bobl.

Nid yw’r fideo’n gweithio, ond dywedwyd wrthyf y bydd eich cynorthwyr yn datrys y broblem, Ddirprwy Lywydd.

Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn llythrennau italig isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD.

A DVD was shown. The transcription in italics below is a transcription of the oral contributions on the DVD.

Each time we have a flood now more and more of the garden is being washed away into the stream and the bank is deteriorating.

Bob tro y cawn lifogydd nawr mae mwy a mwy o'r ardd yn cael ei golchi i ffwrdd i'r nant ac mae'r lan yn gwaethygu.

I do not think that anyone can describe the aftermath of a flood. It just knocked us for six and we were out of our house for nearly a year.

Dydw i ddim yn meddwl y gall neb ddisgrifio canlyniad llifogydd. Bu'n ergyd ofnadwy inni a bu'n rhaid inni symud allan o'r tŷ am flwyddyn bron.

The water went right through the school and caused over £45,000 worth of damage, which we can replace through some recompense by the insurance companies. We cannot recompense children who might lose their lives due to the amount of water that came through the school.

Aeth y dŵr drwy'r ysgol gyfan gan achosi gwerth £45,000 o ddifrod. Gallwn brynu pethau newydd yn lle'r rhai a ddifrodwyd gyda rhywfaint o iawndal gan y cwmnïau yswiriant. Ni allwn dalu iawn i blant a allai golli eu bywyd o ganlyniad i'r holl ddŵr a ddaeth drwy'r ysgol.

I have had trouble with water and sewerage coming up in my yard since 1986. When there is heavy rain, thunder and lightning and there is a power cut, or the pump packs up for some reason, the water and sewerage comes up in my yard and I have been waist deep on some occasions in sewerage water among other stuff.

Rydw i wedi cael trafferth gyda dŵr a charthion yn codi yn fy iard er 1986. Pan fydd glaw trwm, mell t a thariad trydan, neu pan fydd y pwmp yn pallu am ryw reswm, bydd dŵr a charthion yn codi yn fy iard, ac rwyf wedi bod hyd at fy nghanol o bryd i'w gilydd mewn dŵr o'r system garthffosiaeth a phethau eraill.

Perhaps twice a year the river bursts its banks, water comes up people's toilets and sewerage paper is found in the roads in the morning.

Bydd yr afon yn gorlifo ddwywaith y flwyddyn efallai, bydd dŵr yn dod i fyny toiledau pobl a bydd papur o'r system garthffosiaeth i'w weld ar hyd y ffyrdd yn y bore.

What we have done to help ourselves is that we have put drainage pipes though our garden. We funded that ourselves.

Rydym wedi helpu'n hunain trwy osod pibau draenio drwy ein gardd. Ni dalodd am hynny ein hunain.

I was concerned about flooding in the area but felt that, if planning permission had been gained by the builder, then everything was okay. Unfortunately that does not appear to be the case.

Roeddwn yn pryderu am lifogydd yn yr ardal, ond yn tybio, os oedd yr adeiladwr wedi cael caniatâd cynllunio, y byddai popeth yn iawn. Yn anffodus, mae'n debyg nad yw hynny'n wir.

Water goes into a smaller drain. Once that is blocked, it goes everywhere. We have spoken to various people about it but, instead of getting better, it actually gets worse.

Mae'r dŵr yn mynd i ddraen llai o faint. Pan fydd hwnnw'n blocio, bydd y dŵr yn mynd i bobman. Rydym wedi siarad ag amrywiaeth o bobl am y sefyllfa, ond gwaethygu mae'r sefyllfa mewn gwirionedd, yn hytrach na gwella.

I watched the water coming up the road towards my house so, at 4 p.m., I phoned the National Floodline to say that I was going to be flooded. I was told to telephone my nearest builder's merchant to get some sandbags. This was at 4 p.m. on a Sunday afternoon, so that is about as much use as a chocolate teapot.

In years gone by, we did not have as much of a problem with flooding, because there were the old-fashioned roadmen who used to keep their own lengths clear and used to take great pride in cleaning out the culverts and the ditches.

Michael German: As you could see from that video, the evidence gathered for this report really brought home to the committee the emotional impact on people's lives that flooding can have. It made it clear to the members of the committee that far too many people are still affected by flooding. The current situation cannot continue as it is. We welcome the opportunity to raise, once again, the need for action in this area.

I would like to take this opportunity to thank everyone who took the time to provide evidence to the committee. The broad range of evidence considered by the committee during the course of the inquiry has, I believe, given us a solid base on which to make our recommendations. We make 28 recommendations in the report, which are aimed at making improvements in communities on an everyday basis, ensuring greater co-ordination for those responsible for dealing with flooding, and making it easier for people to get the help that they need to address this serious problem.

The report and its recommendations focus on a number of key themes that emerged throughout the committee's work. The first was the need for greater co-ordination, and for someone to take responsibility. Members of the public told the committee about their own experiences, and that made it clear that the emphasis was often placed on the residents themselves finding out who was responsible for dealing with the type of flooding they were experiencing. People were often passed between organisations when

Gwyliais y dŵr yn dod i fyny'r ffordd tuag at fy nhŷ, felly, am 4p.m, ffoniais y llinell rybuddion llifogydd genedlaethol, i ddweud bod fy nhŷ ar fin cael ei daro gan lifogydd. Dywedwyd wrthyf am ffonio'r masnachwr adeiladu lleol er mwyn cael bagiau tywod. Roedd hynny am 4 p.m ar brynhawn dydd Sul, felly 'dyw hynny'n dda i ddim.

Nid oeddem yn cael cymaint o broblem gyda llifogydd yn y gorffennol, oherwydd roedd dynion yn gweithio ar y ffyrdd yn y ffordd draddodiadol, ac roeddent yn cadw eu rhan hwy o'r ffordd yn glir ac yn cymryd balchder mawr mewn glanhau'r ffosydd a'r cwteri.

Michael German: Fel y gwelsoch yn y fideo hwnnw, yr oedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn gwneud y pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r effaith emosiynol a gaiff llifogydd ar fywydau pobl. Yr oedd yn dangos yn glir i aelodau'r pwyllgor fod llifogydd yn effeithio ar lawer gormod o bobl o hyd. Ni all y sefyllfa bresennol barhau fel y mae. Croesawn y cyfle i godi, unwaith eto, yr angen am weithredu yn y maes hwn.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu dystiolaeth i'r pwyllgor. Credaf fod yr ystod eang o dystiolaeth a ystyriwyd gan y pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad wedi rhoi sylfaen gadarn inni wneud ein hargymhellion arni. Yr ydym yn gwneud 28 o argymhellion yn yr adroddiad, sydd â'r nod o wneud gwelliannau mewn cymunedau o ddydd i ddydd, sicrhau mwy o gydgysylltu ymysg y sawl sy'n gyfrifol am ymdrin â llifogydd, a'i gwneud yn haws i bobl gael y cymorth y mae arnynt ei angen i fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon.

Mae'r adroddiad a'i argymhellion yn canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol a ddaeth yn amlwg drwy holl waith y pwyllgor. Y cyntaf oedd yr angen am gydgysylltu gwell, a'r angen i rywun gymryd cyfrifoldeb. Dywedodd y cyhoeddwr wrth y pwyllgor am eu profiadau eu hunain, a gwelwyd yn glir o'r dystiolaeth bod disgwyl yn aml i'r trigolion eu hunain ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am ymdrin â'r math o lifogydd yr oeddent yn eu dioddef. Byddai pobl yn aml yn cael eu cyfeirio o'r naill sefydliad i'r llall wrth geisio

trying to establish who had responsibility. By way of example, we refer in the report to a resident of Towyn who talked about how he had been passed between the county council, the Environment Agency and Welsh Water. It took about three hours before any organisation admitted responsibility for the type of flooding on his road and arrived to address the problem.

3.30 p.m.

The current situation of different organisations being responsible for different types of flooding and the lack of information available causes no end of confusion. The committee makes a series of recommendations seeking to address that. In particular, it recommends that the Welsh Government identify and fund an agency or organisation to become the single point of contact—a one-stop shop—for all inquiries relating to flooding incidents and for providing flood advice. We welcome the Minister's acceptance of that recommendation and hope that that will address the unacceptable confusion faced by the public at present.

The second key theme is the importance of community resilience and self-help. The point is emphasised throughout the report. The committee was inspired by the evidence heard about the ways in which people had helped themselves to minimise their flood risk, and of communities pulling together. For example, the committee received photographs from the residents of Ammanford, which showed the home-made floodgates outside their homes, sandbags outside their front doors, and the residents all outside brushing away the water and working together during a flood. The committee was also keen to highlight, through this report, the need to ensure that vulnerable members of the community are identified and that provision is made for them. For example, the suggestion of flood friends from one of the witnesses, David Jones, is just one idea that stood out. In addition, the evidence from Mary Dhonau about the work of the flood forum was inspirational. I am delighted that the Minister accepted the recommendation to establish a flood forum for Wales. We

cael gwybod pwy oedd yn gyfrifol. Er enghraifft, yn yr adroddiad cyfeirir at un o drigolion Tywyn a fu'n siarad am y modd y cafodd ei gyfeirio'n ôl ac ymlaen rhwng y cyngor sir, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru. Aeth rhyw dair awr heibio cyn i unrhyw sefydliad gymryd cyfrifoldeb am y math o lifogydd ar ei stryd ef a dod i ymdrin â'r broblem.

Mae'r sefyllfa bresennol, lle mae sefydliadau gwahanol yn gyfrifol am fathau gwahanol o lifogydd, ynghyd â'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael, yn creu dryswch mawr. Mae'r pwyllgor yn gwneud cyfres o argymhellion er mwyn ceisio mynd i'r afael â hynny. Yn benodol, mae'n argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi ac ariannu asiantaeth neu sefydliad i fod yn bwynt cyswllt—siop un stop—sy'n gyfrifol am bob ymholiad sy'n gysylltiedig ag achosion o lifogydd, ac am ddarparu cyngor ar lifogydd. Yr ydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwnnw, a gobeithiwn y bydd hynny'n mynd i'r afael â'r dryswch annerbyniol sy'n wyebu'r cyhoedd ar hyn o bryd.

Yr ail thema allweddol yw pwysigrwydd sicrhau bod cymunedau'n gallu gwrthsefyll llifogydd a'u helpu eu hunain. Mae'r pwynt hwnnw'n cael ei bwysleisio drwy'r adroddiad i gyd. Ysbrydolwyd y pwyllgor gan y dystiolaeth a glywyd am y ffyrdd yr oedd pobl wedi helpu eu hunain i leihau perygl llifogydd, a'r ffyrdd yr oedd cymunedau'n cyd-dynnu. Er enghraifft, cafodd y pwyllgor ffotograffau gan drigolion Rhydaman, a oedd yn dangos y llifddorau yr oeddent hwy eu hunain wedi'u hadeiladu y tu allan i'w cartrefi, bagiau tywod y tu allan i'w drysau ffrynt, a'r trigolion i gyd y tu allan yn brwsio'r dŵr ymaith ac yn cydweithio yn ystod llifogydd. Yr oedd y pwyllgor hefyd yn awyddus i dynnu sylw, drwy'r adroddiad hwn, at yr angen i sicrhau bod aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed yn cael eu nodi a bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar eu cyfer. Er enghraifft, mae'r awgrym a gafwyd gan un o'r tystion, David Jones, ynghylch cael cyfeillion llifogydd yn un syniad a oedd yn taro dyn. Yn ogystal, yr oedd y dystiolaeth gan Mary Dhonau am waith y fforwm

believe that that will help to support people during a flood and also help to raise awareness and increase action within communities to prevent or minimise the damage of such instances when they occur.

Finally, a number of the recommendations seek to address the third of these key themes: the need for better engagement with communities to take account of local knowledge when planning for flood risk. The committee felt strongly that organisations responsible for flooding must engage with communities and take account of the local knowledge they have. The committee heard a number of stories of the Environment Agency producing maps that showed water running uphill, or of planners not taking account of communities telling them that an area was prone to flooding and the new developments subsequently flooding. The committee firmly believes that, through proper engagement, flood risk management should become easier. The expectations of the public can then be better managed, and we have made a number of recommendations to address that point. In particular, we call on the Minister to work with the Environment Agency to ensure that its communications strategy clearly sets out its role and that of other public, interested organisations in public engagement.

The committee welcomes the Minister's positive response to the committee's report, and her acceptance, either in full or in part, of most of our recommendations. I particularly welcome her acceptance of the need for clarity about the responsibilities for flooding and of the need to improve communication with communities. Furthermore, I am pleased that the Minister has accepted those recommendations aimed at helping communities to help themselves, as the committee felt very strongly that everyone needs to take some responsibility for addressing issues of flooding. These recommendations seek to address that.

llifogydd yn ysbrydoledig. Yr wyf yn falch iawn bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion i sefydlu fforwm llifogydd i Gymru. Credwn y bydd hynny'n helpu cefnogi pobl yn ystod llifogydd, a hefyd yn helpu cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau bod mwy o weithredu mewn cymunedau i atal neu leihau'r difrod a achosir gan ddigwyddiadau o'r fath pan fyddant yn taro.

Yn olaf, mae nifer o'r argymhellion yn ceisio mynd i'r afael â'r drydedd thema allweddol: sef bod angen ymgysylltu â chymunedau'n well er mwyn ystyried gwybodaeth leol wrth gynllunio ar gyfer perygl llifogydd. Yr oedd y pwyllgor yn teimlo'n gryf y dylai sefydliadau sy'n gyfrifol am lifogydd ymgysylltu â chymunedau ac ystyried y wybodaeth leol sydd ganddynt. Clywodd y pwyllgor nifer o straeon am Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynhyrchu mapiau a oedd yn dangos dŵr yn llifo am i fyny, neu gynllunwyr yn gwrthod gwrandio ar gymunedau yn dweud wrthynt bod ardal yn dueddol i orlifo a'r datblygiadau newydd yn dioddef llifogydd wedi hynny. Mae'r pwyllgor yn credu'n gryf, drwy ymgysylltu priodol, y dylai gwaith rheoli perygl llifogydd ddod yn haws. Yna gellid rheoli disgwyliadau'r cyhoedd yn well, ac yr ydym wedi gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r pwynt hwnnw. Yn benodol, yr ydym yn galw ar y Gweinidog i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod ei strategaeth gyfathrebu yn egluro ei rôl hithau a rôl sefydliadau cyhoeddus eraill sydd â diddordeb, o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r pwyllgor yn croesawu ymateb cadarnhaol y Gweinidog i adroddiad y pwyllgor, a'r ffaith ei bod yn derbyn y rhan fwyaf o'n hargymhellion, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Croesawaf yn benodol y ffaith ei bod yn derbyn yr angen i sicrhau eglurder ynghylch y cyfrifoldebau dros lifogydd a'r angen i wella'r broses gyfathrebu â chymunedau. At hynny, yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion hynny sydd â'r nod o helpu cymunedau i helpu eu hunain, oherwydd yr oedd y pwyllgor yn teimlo'n gryf iawn bod angen i bawb gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros fynd i'r afael â phroblem llifogydd. Mae'r argymhellion hyn yn ceisio mynd i'r afael â hynny.

I am, however, very disappointed that the Minister felt unable to support our recommendation on technical advice note 15. We heard from numerous witnesses how they had presumed that their new properties would not be at risk of flooding because they had not considered the possibility that new homes would be built on floodplains. As a committee, we do not think that that is an unreasonable presumption, and we urge the Minister to consider again the wording of TAN 15, which states that

‘The general approach of PPW, supported by the TAN, is to advise caution in respect of new development in areas at high risk of flooding by setting out a precautionary framework to guide planning decisions.’

While the committee acknowledges that there has been a decrease in the number of developments on floodplains, we still believe that greater clarity and assurance would be provided by redrafting the TAN and ensuring that it includes a presumption against building on floodplains. Although the Minister did not accept the recommendation about development advice plans, we encourage her to consider shortening the time frame in which they are updated, to ensure that the most accurate information is considered. The previous four-year gap between updates is too long, and it is vital that the correct balance be achieved between the administration of changing these maps and having the best and most up-to-date information available for the TAN 15 system.

In conclusion, I thank the clerking team and members of the committee for their input into this inquiry and report. I also thank everyone who gave evidence to the committee for their openness and honesty, and for sharing their ideas. I hope that our recommendations, once adopted, will make a difference to everyone affected by flooding.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I thank both Chairs of the committee, and the rest of its members, for

Fodd bynnag, yr wyf yn siomedig iawn nad oedd y Gweinidog yn barod i gefnogi ein hargymhelliad ar nodyn cyngor technegol 15. Clywsom gan lawer o dystion fel y bu iddynt dybio na fyddai eu heiddo newydd yn wynebu perygl llifogydd am nad oeddent wedi ystyried y posibilrwydd y byddai cartrefi newydd yn cael eu hadeiladau ar orlifdir. Fel pwyllgor, ni chredwn fod hyn yn rhagdybiaeth afresymol, ac anogwn y Gweinidog i ailystyried geiriad Nodyn Cyngor Technegol 15, sy'n nodi

‘Yr agwedd gyffredinol a gymerir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac a gefnogir yn y Nodyn hwn yw rhoi cyngor i fod yn ofalus o safbwynt datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd trwy sefydlu fframwaith o ragofalon fydd yn gosod canllaw i benderfyniadau cynllunio.’

Er bod y pwyllgor yn cydnabod bod nifer y datblygiadau ar orlifdiroedd wedi gostwng, credwn y byddai modd cael mwy o eglurder a sicrwydd drwy ailddrafftio'r TAN a sicrhau ei fod yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn adeiladau ar orlifdiroedd. Er nad oedd y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad ynghylch cynlluniau cyngor datblygu, fe'i hanogwn i ystyried eu diweddarau'n amlach, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cywir yn cael ei hystyried. Mae'r bwch pedair blynedd a gafwyd yn flaenorol rhwng diweddariadau yn rhy hir, ac mae'n hanfodol sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng gweinyddu'r gwaith o newid y mapiau hyn a sicrhau bod y wybodaeth orau a mwyaf diweddar ar gael ar gyfer system Nodyn Cyngor Technegol 15.

I gloi, diolch i'r tîm clericio ac aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniad i'r ymchwiliad a'r adroddiad hwn. Diolch hefyd i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, am fod yn agored ac yn onest, ac am rannu eu syniadau. Gobeithio y bydd ein hargymhellion, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn gwneud gwahaniaeth i bawb yr effeithir arnynt gan lifogydd.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yr wyf yn diolch i ddau Gadeirydd y pwyllgor, ac i weddill ei aelodau, am yr

this timely report, not least because it brings flooding issues down to the personal experiences of many in our communities. In the context of this debate, one fundamental issue that has already changed is the fact that, previously, no authority had any responsibility when communities were flooded by surface water flooding. That has now explicitly changed following the introduction of the Flood and Water Management Act 2010, which went through Parliament just before its dissolution.

I thank the Chair, committee members, and those who gave evidence to the committee, including members of the community, for their work in influencing what we, as an Assembly Government, are doing on this agenda.

It is important to say a little about why the Government feels that the two recommendations that Mike has highlighted—on TAN 15 and development advice maps—are not at this point appropriate for amendment as the committee describes. Considering TAN 15 first, an urgent review of it has been called for on a number of occasions, but, on each occasion, I have said that I would be very happy to look at whether it needs reviewing when I see evidence that it is not working. I think that we find ourselves in interesting territory at the moment, because there is substantial evidence that the TAN is working. It is true that, in 2005, not long after it was introduced, 16 per cent of planning applications were granted against the advice of the Environment Agency. However, since the major floods in England in 2007, the environment in which decisions are made is now completely different. It is worth drawing Members' attention to the words used in the TAN itself, under the heading 'Acceptability criteria for flooding consequences':

'A1.12 To satisfy these criteria a site should only be considered for development if the following conditions can be satisfied;

Flood defences must be shown by the developer to be structurally adequate particularly under extreme overtopping conditions (i.e. that flood with a probability of occurrence of 0.1%)

adroddiad amserol hwn, yn enwedig am ei fod yn cysylltu problemau llifogydd â phrofiadau personol nifer o bobl yn ein cymunedau. Yng nghyd-destun y ddadl hon, un mater sylfaenol sydd eisoes wedi newid yw'r ffaith nad oedd gan yr un awdurdod gyfrifoldeb yn flaenorol, pan fyddai dŵr wyneb yn achosi llifogydd mewn cymunedau. Mae hynny wedi newid yn bendant yn sgil cyflwyno Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a aeth drwy Senedd y DU ychydig cyn ei diddymu.

Diolch i'r Cadeirydd, aelodau'r pwyllgor, a'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau'r gymuned, am eu gwaith yn dylanwadu ar yr hyn yr ydym ni, Llywodraeth y Cynulliad, yn ei wneud ar yr agenda hon.

Mae'n bwysig dweud ychydig ynghylch pam mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'n briodol, ar hyn o bryd, inni ddiwygio'r ddau argymhelliaid a grybwyllwyd gan Mike—ar TAN 15 a mapiau cyngor datblygu—fel y disgrifir gan y pwyllgor. Gan ystyried TAN 15 yn gyntaf, galwyd am adolygiad brys ohono droeon, ond bob tro dywedais y byddwn yn fodlon iawn ystyried a oes angen ei adolygu pan welaf dystiolaeth i ddangos nad yw'n gweithio. Credaf ein bod mewn sefyllfa ddiddorol ar hyn o bryd, oherwydd ceir tystiolaeth sylweddol i ddangos bod y TAN yn gweithio. Yn 2005, yn fuan ar ôl ei gyflwyno, mae'n wir bod 16 y cant o geisiadau cynllunio wedi eu caniatáu yn groes i gyngor Asiantaeth yr Amgylchedd. Fodd bynnag, ers y llifogydd mawr yn Lloegr yn 2007, mae'r amgylchedd y gwneir penderfyniadau ynddo yn gwbl wahanol bellach. Mae'n werth tynnu sylw Aelodau at y geiriau a ddefnyddir yn y Nodyn Cyngor Technegol ei hun, o dan y pennawd 'Meini prawf derbynioldeb mewn perthynas â llifogydd':

'A1.12 Er mwyn cyflawni'r meini prawf hyn ni ddylid ystyried unrhyw safle os nad yw'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

Rhaid i'r datblygwr ddangos bod amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ddigonol o ran eu strwythur, yn arbennig o dan amgylchiadau eithafol o dorri dros y top (hynny yw yn ystod llifogydd gyda

	thebygolrwydd o 0.1%)
The cost of future maintenance for all new/approved flood mitigation measures, including defences must be accepted by the developer and agreed with the Environment Agency.	Rhaid i'r datblygwr dderbyn, a rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd gytuno, gostau cynnal a chadw unrhyw fesurau lliniaru llifogydd newydd/a gymeradwyir gan gynnwys amddiffynfeydd
The developer must ensure that future occupiers of development are aware of the flooding risks and consequences	Rhaid i'r datblygwr sicrhau bod y sawl a fydd yn defnyddio'r adeiladau yn y dyfodol yn ymwybodol o risg llifogydd ac o'r canlyniadau
Effective flood warnings are provided at the site	Rhaid darparu rhybuddion effeithlon o lifogydd ar y safle
Escape/evacuation routes are shown by the developer to be operational under all conditions	Rhaid i'r datblygwr ddangos bod y llwybrau dianc a'r llwybrau ar gyfer symud pobl allan yn weithredol o dan bob amgylchiad
Flood emergency plans and procedures produced by the developer must be in place	Rhaid i'r datblygwr ddangos bod cynlluniau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer argyfwng
The development is designed by the developer to allow the occupier the facility for rapid movement of goods/possessions to areas away from the floodwaters	Rhaid i'r datblygwr ddangos bod y datblygiad wedi ei ddylunio fel bod modd i'r sawl sy'n defnyddio'r eiddo neu'n byw ynddo symud nwyddau/eiddo yn gyflym i ardaloedd oddi wrth y llifogydd
Development is designed to minimise structural damage during a flooding event and is flood proofed to enable it to be returned to its prime use quickly in the aftermath of the flood.	Mae'r datblygiad wedi cael ei ddylunio fel ag i wneud cyn lleied â phosib o ddifrod strwythurol pan fydd llifogydd yn digwydd ac mae'r adeilad yn ymgorffori mesurau rhag llifogydd, fel y gellir ei ddefnyddio at ei brif bwrpas yn fuan wedi llifogydd
No flooding elsewhere'.	Dim llifogydd yn cael eu hachosi yn unman arall.'
3.40 p.m.	
It was clearly laid out in the technical advice note that	Nodwyd yn glir yn y nodyn cyngor technegol mai
'Responsibility for satisfying the above criteria primarily will be the developer. The Environment Agency will provide advice to the developer to assist him in satisfying the criteria. The Environment Agency will advise the planning authority whether the criteria have been satisfied.'	'Cyfrifoldeb y datblygwr yn bennaf fydd bodloni'r meini prawf uchod. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu cyngor i'r datblygwr i'w helpu i fodloni'r meini prawf. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio a yw'r meini prawf wedi cael eu bodloni.'
In 2008-09, the Environment Agency objected to more than 650 applications in	Yn 2008-09, gwrthwynebodd Asiantaeth yr Amgylchedd fwy na 650 o geisiadau yng

Wales on the basis that they did not comply with the requirements of TAN 15. Since 2006, the planning inspectorate has received 39 appeals from developers across Wales, where TAN 15 was given as one reason why the local planning authority had refused planning consent. Of those appeals, 70 per cent were dismissed by the inspectorate on the grounds of being contrary to TAN 15, which has prevented more than 60 residential units, comprising houses, flats and permanent residential caravans, from being built in flood risk areas. On the positive front, TAN 15 has assisted Newport City Council to implement a successful development plan promoting a comprehensive and policy-compliant riverside development strategy. That has not only provided the new development, but also improved flood protection for existing inland communities.

Given our new obligations under the Flood and Water Management Act, which we fully welcome, we will be preparing national plans and local plans with local authorities, and we have said that the time for considering whether TAN 15 needs to be reviewed will be after those new arrangements are in place, not least because we are still hopeful that an incoming Government will bring forward a further piece of legislation on flood and water management in the new Parliament.

On the development advice maps, it is worth pointing out that the new development advice maps were only put in place in September last year. I have agreed with the Environment Agency that it will review annually whether they need updating. That means that there is certainty for developers who use the development advice maps, but, if changes need to be put in place, that will be done as quickly as possible.

We have rejected recommendations relating to a number of other areas, and we have laid out our reasons for doing so in the published information from the Assembly Government. There are three such recommendations, the first of which calls for an all-Wales drainage

Nghymru ar y sail nad oeddent yn cydymffurfio â gofynion TAN 15. Er 2006, mae'r arolygiaeth gynllunio wedi cael 39 o apeliadau gan ddatblygwyr ledled Cymru, lle'r oedd yr awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi TAN 15 fel un rheswm dros wrthod rhoi caniatâd cynllunio. O blith yr apeliadau hynny, gwrthodwyd 70 y cant gan yr arolygiaeth ar y sail eu bod yn mynd yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 15. Mae hynny wedi rhwystro mwy na 60 o unedau preswyl, gan gynnwys tai, fflatiau a charafanau preswyl parhaol, rhag cael eu hadeiladu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd. Ar nodyn cadarnhaol, mae TAN 15 wedi helpu Cyngor Dinas Casnewydd i weithredu cynllun datblygu llwyddiannus sy'n hybu strategaeth gynhwysfawr ac yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol, ar gyfer datblygu ar hyd glan afon. Mae hynny nid yn unig wedi darparu datblygiad newydd, ond mae hefyd wedi gwella dulliau o amddiffyn cymunedau mewndirol sy'n bodoli eisoes rhag llifogydd.

O ystyried ein rhwymedigaethau newydd dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, yr ydym yn ei chroesawu'n llwyr, byddwn yn paratoui cynlluniau cenedlaethol a chynlluniau lleol gydag awdurdodau lleol, ac yr ydym wedi dweud mai ar ôl rhoi'r trefniadau newydd hynny ar waith fydd yr amser i ystyried a oes angen adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15, yn enwedig am ein bod yn dal i obeithio y bydd Llywodraeth nesaf y DU yn cyflwyno darn arall o ddeddfwriaeth ar reoli llifogydd a dŵr yn y Senedd newydd.

O ran y mapiau cyngor datblygu, mae'n werth nodi mai dim ond ym mis Medi'r llynedd y rhoddwyd y mapiau cyngor datblygu ar waith. Yr wyf wedi cytuno ag Asiantaeth yr Amgylchedd y bydd yn mynd ati bob blwyddyn i adolygu a oes angen eu diweddarau. Mae hynny'n golygu bod sicrwydd i ddatblygwyr sy'n defnyddio'r mapiau cyngor datblygu ond, os bydd angen rhoi newidiadau ar waith, caiff hynny ei wneud mor gyflym ag sy'n bosibl.

Yr ydym wedi gwrthod argymhellion sy'n gysylltiedig â nifer o feysydd eraill, ac yr ydym wedi egluro ein rhesymau dros wneud hynny yn y wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Ceir tri argymhelliad o'r fath, mae'r cyntaf yn galw

board. Given that internal drainage boards fulfil a specialised role within agricultural regions, it would not be appropriate to transfer that to the whole of Wales. The second calls for a statutory duty to be placed on the fire and rescue services, using the Flood and Water Management Bill, as was. The statutory duty was not contained in the Bill, and it has now been passed, and so that opportunity has passed us by. However, if a new Bill comes forward in the first session of the new Parliament, I will have further discussions with the fire and rescue services on that issue. The third recommendation is in relation to home information packs, but they are not a devolved matter and they already require information to be included about flood risk.

With the committee, we have carefully considered all the other recommendations. I know that the committee is pleased that we are investing considerably more in flood-risk management. The implementation of the European flood directive will deliver a consistent approach across Europe, and we will be consulting on a draft national strategy in the summer.

Finally, this summer, we plan to launch a trial of a single point of contact for the public to deal with flooding from all sources. That will build on the Environment Agency's existing Floodline Warnings Direct service and our robust partnership arrangements in Wales.

Angela Burns: I also join the Chair in thanking everyone who took part in this inquiry. I thank Mick Bates for his excellent stewardship and Mike for taking up the reins so well towards the end of our inquiry. I thank our witnesses and the Minister for coming to see us on a number of occasions.

This report is all about people—something that can be easily lost among departments, laws, red tape and funding issues. The stories that we have heard and the evidence that we saw brought home, time and again, the complete devastation that a flood can cause,

am fwrdd draenio Cymru gyfan. O ystyried bod byrddau draenio mewnol yn cyflawni rôl arbenigol mewn rhanbarthau amaethyddol, ni fyddai'n briodol trosglwyddo hynny i Gymru gyfan. Mae'r ail argymhelliad yn galw am roi dyletswydd statudol ar y gwasanaethau tân ac achub, gan ddefnyddio'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr, fel yr oedd. Nid oedd y ddyletswydd statudol wedi'i chynnwys yn y Mesur, ac mae wedi cael ei phasio erbyn hyn, felly mae'r cyfle hwnnw wedi cael ei golli. Fodd bynnag, os bydd Mesur newydd yn cael ei gyflwyno yn ystod sesiwn gyntaf y Senedd newydd, byddaf yn cael trafodaethau pellach â'r gwasanaethau tân ac achub ynghylch y mater hwnnw. Mae'r trydydd argymhelliad yn gysylltiedig â phhecynnau gwybodaeth am eiddo, ond nid yw'r rheini'n fater sydd wedi'i ddatganoli ac maent eisoes yn gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.

Gyda'r pwyllgor, yr ydym wedi ystyried yr holl argymhellion eraill yn ofalus. Gwn fod y pwyllgor yn falch ein bod yn buddsoddi gryn dipyn yn fwy mewn rheoli perygl llifogydd. Bydd gweithredu cyfarwyddeb llifogydd Ewrop yn arwain at ddull gweithredu cyson ledled Ewrop, a byddwn yn ymgynghori ar strategaeth genedlaethol ddrafft yn yr haf.

Yn olaf, yr haf hwn bwriadwn lansio cynllun i dreialu un pwynt cyswllt i'r cyhoedd, a fydd yn ymdrin â llifogydd o bob ffynhonnell. Bydd hynny'n adeiladu ar wasanaeth Uniongyrchol Llinell Rybuddion Llifogydd cyfredol Asiantaeth yr Amgylchedd a'n trefniadau partneriaethau cadarn yng Nghymru.

Angela Burns: Yr wyf fi hefyd yn ymuno â'r Cadeirydd i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn. Diolchaf i Mick Bates am ei arweiniad rhagorol ac i Mike am gymryd yr awenau mor dda tuag at ddiwedd ein hymchwiliad. Diolchaf i'n tystion a'r Gweinidog am ddod i'n gweld lawer gwaith.

Mae a wnelo'r adroddiad hwn â phobl—ac mae'n hawdd colli golwg ar hynny ymhlith yr adrannau, y cyfreithiau, y fiwrocratiaeth a'r materion cyllido. Mae'r straeon a glywsom a'r dystiolaeth a welsom wedi dangos dro ar ôl tro y difrod llwyr y gall

as well as the absolute misery, the emotional and physical impact, and the financial hardship that serial flooding causes. We spoke to people who have suffered a once-in-a-100-year flood two years running, and, unless there is radical change, it is also on the cards for this year. We saw elderly folk trying to clear up and cope without help and support, young children frightened to move back into their home in case the water came in during the night, when their mummies and daddies were asleep, and people simply struggling. We have seen people who lie awake at night whenever there is persistent rain. Some have lost weight through stress. They cannot sleep properly. Some are on anti-depressants and sleeping pills. Some will not leave their homes for any length of time, and are quietly going broke.

This report is about this human story. It is a report informed by people, for people. However, anyone listening to me or reading this report, make no mistake: it is not a sentimental report. These stories form the backdrop. We then investigated the cold hard facts. The reality is one of overstretched services and underfunded solutions. We looked at some of the crass stupidities of building in areas of high flood risk, and not protecting the vital infrastructure that we need to keep going. We looked at the mishmash of communications, the confusion of multiple agencies dealing with different types of water, the vested interests of some groups, the enormity of the problem, and a science that tells us all that this issue will not go away and that the time has come to deal with it today and now, for the future. If we do not do so, the consequences will become immeasurably more difficult to deal with. People will lose heart and faith, and the financial cost to the public and private purse will become unimaginable.

We made 28 recommendations. In my view, some are more critical for action than others, but all are important. I am pleased, overall, with the Government's response to this report. I will take issue, in a moment, with

llifogydd ei achosi, yn ogystal â'r diflastod llwyr, yr effaith emosiynol a chorfforol, a'r caledi ariannol y mae llifogydd mynych yn eu hachosi. Bu inni siarad â phobl sydd wedi dioddef llifogydd a ddylai ddigwydd unwaith mewn can mlynedd, ddwy flynedd yn olynol, ac, oni fydd newid radical, mae perygl y byddant yn dioddef eto eleni. Gwelsom hen bobl yn ceisio cymhennu ac ymdopi heb help na chefnogaeth, plant ifanc yn rhy ofnus i symud yn ôl i'w cartref rhag ofn y byddai'r dŵr yn dod i mewn yn y nos, pan fyddai eu mam a'u tad yn cysgu, a phobl sy'n ei chael yn anodd ymdopi. Yr ydym wedi gweld pobl sy'n gorwedd ar ddiun yn y nos bod tro y bydd glaw trwm. Mae rhai wedi colli pwysau oherwydd y straen. Ni allant gysgu'n iawn. Mae rhai ohonynt yn cymryd tabledi gwrthiselder a thabledi cysgu. Mae rhai yn anfodlon gadael eu cartrefi am unrhyw gyfnod, ac maent yn mynd i drafferthion ariannol yn dawel bach.

Mae a wnelo'r adroddiad hwn â stori ddynol. Mae'n adroddiad a gyfoethogwyd gan bobl, i bobl. Fodd bynnag, i unrhyw un sy'n gwrando arnaf neu'n darllen yr adroddiad hwn, peidiwch â chamddeall: nid adroddiad sentimental mohono. Y straeon hyn yw'r cefndir. Yna, buom yn ymchwilio i'r ffeithiau moel. Y realiti yw gwasanaethau sy'n cael eu hymestyn yn ormodol ac atebion nad ydynt yn cael eu cyllido'n ddigonol. Buom yn edrych ar ymfydrwydd enbyd adeiladu mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd, a pheidio ag amddiffyn y seilwaith hanfodol y mae arnom ei angen i gario ymlaen. Buom yn edrych ar y cymysgwch o ran cyfathrebu, y dryswch o ran cael asiantaethau niferus sy'n ymdrin â gwahanol fathau o dŵr, budd personol rhai grwpiau, maint aruthrol y broblem, a gwyddor sy'n dweud wrth bob un ohonom na fydd y broblem yn diflannu a bod yr amser wedi cyrraedd i ymdrin â hi heddiw ac yn awr, ar gyfer y dyfodol. Os na wnawn hynny, bydd yn llawer iawn anos ymdrin â'r canlyniadau. Bydd pobl yn digalonni ac yn colli ffydd, a bydd y gost ariannol i'r wlad ac i unigolion yn fwy nag y gellir dychmygu.

Gwnaethom 28 o argymhellion. Yn fy marn i, mae angen gweithredu rhai ohonynt ar fwy o fyrder nag eraill, ond maent i gyd yn bwysig. Yn gyffredinol, yr wyf yn falch ag ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn. Mewn

those that the Minister has chosen to reject, but I was delighted to see the Government's commitment to the implementation of recommendation 1. In fact, in my view, recommendations 1 and 28 were the most important. Recommendation 1 is key, because, time and again, we heard of people's confusion, and the differentiation between different types of water that agencies were trying to make. I am delighted that you have accepted recommendations 22 and 23, because that shows that we have learned the lessons from the Gloucester floods, and that we understand how important it is to protect key infrastructure.

I am delighted that you have accepted in principle recommendations 24, 25 and 26, which deal with helping people to find reasonably priced insurance, reasonably priced protection for their homes, and giving them the ability and the funding to go around to retrofit their homes. I urge you, Minister, because this is an acceptance in principle, to make sure that we move on this together. Time and again, I have come across constituents who have tried to utilise the Government's grant scheme, for example, to retrofit flood defences to their homes. The Government has done very well in that respect, achieving a rate of 85 per cent. Unfortunately, it takes 18 months to get the consultants to prepare the report. I am worried that the Government is being ripped off, because the average cost of these consultants' reports is horrific, costing between £5,000 and £8,000. However, when I talk to Environment Agency people on the ground, they tell me what can be done in a matter of hours, except that they are not empowered to make those reports. Therefore, I urge you, for the sake of being able to spread a very small pot of money even further, to take a long hard look at these consultants and make sure that we can get back out to these people quickly when they ask for help with retrofitting their houses with flood-prevention measures. We do not want to allow these companies think that they can just make money out of the Government simply because it is the Government. I suspect that that is happening and I can provide you with empirical evidence that would go towards underpinning that.

munud af i'r afael â'r argymhellion hynny y mae'r Gweinidog wedi dewis eu gwrthod, ond yr oeddwn yn falch iawn gweld ymrwymiad y Llywodraeth i weithredu argymhelliad 1. Mewn gwirionedd, yn fy marn i argymhellion 1 a 28 oedd y rhai pwysicaf. Mae argymhelliad 1 yn allweddol, oherwydd dro ar ôl tro clywsom am ddryswch pobl, a'r ffordd yr oedd asiantaethau'n ceisio gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddŵr. Yr wyf yn falch iawn eich bod wedi derbyn argymhellion 22 a 23, oherwydd mae hynny'n dangos ein bod wedi dysgu'r gwersi ar ôl llifogydd Caerloyw, a'n bod yn deall mor bwysig yw gwarchod seilwaith allweddol.

Yr wyf yn falch iawn eich bod wedi derbyn egwyddor argymhellion 24, 25 a 26, sy'n ymdrin â helpu pobl i gael yswiriant am bris rhesymol, diogelu eu cartrefi am bris rhesymol, a rhoi'r gallu a'r cyllid iddynt ôl-ffitio mesurau atal llifogydd yn eu cartrefi. Pwysaf arnoch, Weinidog, gan ichi dderbyn hyn mewn egwyddor, i sicrhau ein bod yn datblygu hyn gyda'n gilydd. Dro ar ôl tro yr wyf wedi dod ar draws etholwyr sydd wedi ceisio defnyddio cynllun grant y Llywodraeth, er enghraifft, i ôl-ffitio amddiffynfeydd rhag llifogydd yn eu cartrefi. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud yn dda iawn yn hynny o beth, gan sicrhau cyfradd o 85 y cant. Yn anffodus, mae'n cymryd 18 mis i'r ymgynghorwyr baratoi'r adroddiad. Yr wyf yn poeni bod y Llywodraeth yn cael ei thwylo, oherwydd ar gyfartaledd mae cost adroddiadau'r ymgynghorwyr hyn yn arswydus, ac yn costio rhwng £5,000 ac £8,000. Fodd bynnag, pan siaradaf â phobl Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gweithio yn y maes, byddant yn dweud wrthyf beth y gellir ei wneud o fewn ychydig oriau, ond nid oes ganddynt yr awdurdod i lunio'r adroddiadau hynny. Felly, er mwyn sicrhau bod swm bach iawn o arian yn mynd ymhellach fyth, fe'ch anogaf i edrych yn hir ac yn fanwl ar yr ymgynghorwyr hyn a sicrhau y gallwn fynd yn ôl at y bobl hyn yn gyflym pan fyddant yn gofyn am gymorth i ôl-ffitio mesurau atal llifogydd yn eu cartrefi. Nid ydym am adael i'r cwmnïau hyn feddwl y gallant wneud arian ar draul y Llywodraeth dim ond am mai'r Llywodraeth ydyw. Yr wyf yn amau bod hynny'n digwydd, a gallaf roi tystiolaeth empirig ichi a fyddai'n helpu

ategu hynny.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Angela Burns: Certainly. I just want to bring up technical advice note 15. It is so important, Minister, that you look at this as a whole, as a jigsaw puzzle. You have rejected TAN 15 and a review of it. You have rejected placing the onus for building on floodplains back on the developers and the county councils. I can see, again—

Angela Burns: Yn sicr. Hoffwn drafod nodyn cyngor technegol 15. Mae mor bwysig, Weinidog, ichi edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd, fel jig-so. Yr ydych wedi gwrthod TAN 15 ac adolygiad ohono. Yr ydych wedi gwrthod rhoi'r cyfrifoldeb dros adeiladu ar orlifdir yn ôl i'r datblygwyr a'r cynghorau sir. Gwelaf, eto—

3.50 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Order. You really must wind up now

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rhaid ichi ddirwyn i ben yn awr.

Angela Burns: I can take you to my constituency. There are people there who are building on a floodplain, and it is crazy.

Angela Burns: Gallaf fynd â chi i'm hetholaeth. Mae yno bobl sy'n adeiladu ar orlifdir, ac mae hynny'n wallgof.

Leanne Wood: Flooding is the biggest climate-change-related threat that is facing us at the moment. Due to the unpredictable nature of climate change, damage from flooding could increase in real terms between two and 20 times by 2080. The Environment Agency has estimated that, currently, 220,000 properties in Wales are at risk of flooding, with 357,000 people, or one in nine of the population, living in these at-risk properties. Preparing for floods and building defences should be part of our response to this challenge, but building defences will not be enough on its own. Our response to flooding should be part of a wider climate change strategy to mitigate the increase in threat to lives and property.

Leanne Wood: Llifogydd yw'r bygythiad mwyaf yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r ffaith fod y newid yn yr hinsawdd yn anodd i'w ragweld yn golygu y gallai difrod yn sgil llifogydd gynyddu mewn gwirionedd rhwng dwywaith ac 20 gwaith erbyn 2080. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amcangyfrif bod 220,000 o gartrefi yng Nghymru yn wynebu perygl llifogydd ar hyn o bryd, a 357,000 o bobl, neu un o bob naw o'r boblogaeth, yn byw yn y cartrefi hyn sydd 'mewn perygl'. Dylai paratoi ar gyfer llifogydd ac adeiladu amddiffynfeydd fod yn rhan o'n hymateb i'r her hon, ond ni fydd adeiladu amddiffynfeydd yn ddigon ar ei ben ei hun. Dylai ein hymateb i lifogydd fod yn rhan o strategaeth ehangach ar y newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau'r bygythiad cynyddol i fywydau a chartrefi.

It is imperative that clear lines of responsibility are drawn up so that the various agencies involved in tackling flooding know exactly who needs to do what in the event of a crisis. If the local authorities, Dŵr Cymru, and Environment Agency are confused about who needs to do what within the first few vital hours of a flood, what chance do the people affected have? The proposed one-stop-shop proposal would help greatly to prevent confusion in that situation,

Mae'n holl bwysig fod gennym linellau cyfrifoldeb clir er mwyn i'r amrywiol asiantaethau sy'n rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â llifogydd wybod pwy'n union sy'n gwneud beth os bydd argyfwng. Os yw'r awdurdodau lleol, Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi drysu ynghylch pwy sy'n gwneud beth yn yr ychydig oriau cyntaf yn dilyn llifogydd, sy'n hanfodol bwysig, pa obaith sydd gan y bobl yr effeithir arnynt? Byddai'r siop un stop arfaethedig yn help

and I hope that the new legislation will do that as well. Confusion was a major part of the evidence that we received, so it needs to be looked at.

I believe that tighter regulations need to be introduced for the determination of planning applications. It is not enough that TAN 15 merely advises caution in respect of any new developments in areas at high risk of flooding; guidance has to be strengthened. People understand that building on floodplains is not a good idea. I accept what the Minister has said about things having changed in more recent years, but we still know that building is going ahead on floodplains. People understand that that is not a good idea, and local authorities need to understand that it is not a good idea. People do not have confidence in the current system.

Tackling climate change must be a priority, because, without concerted efforts in this area, any money that is spent on flood defences and flood prevention will be like sticking our fingers in the dyke. Greenhouse gases have to be reduced significantly, and soon. However, I am not confident that this will happen after watching the debacle of Copenhagen. There are predictions that sea levels could rise by 1.6m by 2080 because of the melting ice sheets in Greenland and western Antarctica. Of course, if that happens, the level of sea rise will be catastrophic to many of our communities.

Protecting our communities against flooding is vital, but it will be very expensive. In its report, 'Future Flooding in Wales', which was published in March of this year, Environment Agency Wales has estimated that, to maintain the number of properties at flood risk in 2035 relative to the present day, it requires about four times the current level of investment in flood prevention. Given the impending squeeze that we are all expecting on public finances, we have to ask whether this much-needed cash can be made available. We also need to ask ourselves whether we can afford for it not to be made available.

mawr i osgoi dryswch yn y sefyllfa honno, a gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth newydd hefyd yn gwneud hynny. Yr oedd dryswch yn rhan sylweddol o'r dystiolaeth a gawsom, ac felly mae angen mynd i'r afael â hynny.

Credaf fod angen rheoliadau tynnach ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio. Nid yw'n ddigon fod TAN 15 yn cynghori pobl i fod yn ofalus ynghylch unrhyw ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd; rhaid cryfhau'r arweiniad. Mae pobl yn deall nad yw adeiladu ar orlifdiroedd yn syniad da. Derbyniat yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud fod pethau wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, ond gwyddom fod gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar orlifdiroedd o hyd. Mae pobl yn deall nad yw hynny'n syniad da, ac mae angen i awdurdodau lleol ddeall nad yw hynny'n syniad da. Nid oes gan bobl hyder yn y system bresennol.

Rhaid i'r gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn flaenoriaeth, oherwydd heb ymdrechion ar y cyd yn y maes hwn bydd gwario arian ar amddiffynfeydd rhag llifogydd ac atal llifogydd yn wastraff llwyr. Rhaid lleihau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol, a hynny'n fuan. Fodd bynnag, nid wyf yn hyderus y bydd hyn yn digwydd ar ôl gwylio llanast Copenhagen. Rhagwelir y gallai lefel y môr godi 1.6m erbyn 2080 oherwydd yr haenau iâ sy'n toddi yn Kalaallit Nunaat (Greenland) a gorllewin Antarctica. Wrth gwrs, os digwydd hynny bydd y codiad yn lefel y môr yn drychinebus i nifer o'n cymunedau.

Mae amddiffyn ein cymunedau rhag llifogydd yn hanfodol, ond bydd yn ddrud iawn. Yn ei hadroddiad 'Llifogydd yng Nghymru yn y Dyfodol', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi amcangyfrif, er mwyn cadw nifer yr adeiladau sy'n wynebu perygl llifogydd yn 2035 ar lefel debyg i'r lefel bresennol, bydd angen buddsoddi tua phedair gwaith yn fwy nag a wneir ar hyn o bryd mewn dulliau atal llifogydd. O ystyried y wasgfa yr ydym i gyd yn ei disgwyl ar gyllid cyhoeddus cyn hir, rhaid inni ofyn a ellir sicrhau bod yr arian hwn, y mae mawr ei angen, ar gael. Rhaid inni hefyd ofyn inni ein hunain a allwn fforddio peidio â darparu'r

arian.

Finally, I will briefly address the issue of unscrupulous insurance companies. I have recently received correspondence from someone whose monthly premium tripled after being flooded for the first time in more than 10 years of living in the same property. The resident in question is convinced that he was only flooded because of the sheer number of developments in the area, which included the construction of a retail park on previously boggy fields. This brings us back to the question of local authority duties in approving planning applications and the guidance that they work to. Being forced to take out an indemnity policy will go some way to forcing councils to take responsibility in this area.

Flooding will become a problem for more and more families as climate change takes its toll. Our committee has heard harrowing stories about what people have been forced to go through when they are affected—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up, please?

Leanne Wood: It is absolutely awful. It is a growing problem, which will require a significant growth in political prioritisation by Governments at all levels in the coming years.

The Deputy Presiding Officer: I remind Members that you have a five-minute time limit and there are quite a few speakers this afternoon.

Darren Millar: I first commend the committee for taking this inquiry forward. I know that this is a matter of great concern to the people of Wales. We have already heard in this debate that hundreds of thousands of homes, business properties and much local infrastructure are at risk across the country. It is imperative that we do not allow the status quo to continue in terms of the misery of flooding, which people unfortunately have to put up with on an annual basis in some parts of Wales. In my constituency just before Easter, there were more flooding incidents in Llanddulas and in Colwyn Bay. I know

I gloi, deliaf yn fyr â phroblem cwmnïau yswiriant diegwyddor. Yn ddiweddar cefais ohebiaeth gan unigolyn yr oedd ei bremiwm misol wedi treblu ar ôl iddo gael llifogydd am y tro cyntaf ers 10 mlynedd a mwy o fyw yn yr un eiddo. Mae'r unigolyn dan sylw yn argyhoeddedig mai'r holl ddatblygiadau yn yr ardal oedd i gyfrif am y llifogydd a gafodd. Yr oedd y datblygiadau hynny'n cynnwys adeiladu parc manwerthu ar dir a oedd yn gaeau corsiog gynt. Daw hyn â ni'n ôl at ddyletswydd awdurdodau lleol wrth gymeradwyo ceisiadau cynllunio a'r canllawiau y maent yn eu dilyn. Bydd cael eu gorfodi i gael polisi indemnïad yn gwneud rhywfaint i orfodi cynghorau i gymryd cyfrifoldeb yn y maes hwn.

Bydd llifogydd yn broblem i fwy a mwy o deuluoedd wrth i'r newid yn yr hinsawdd achosi mwy o ddifrod. Mae ein pwyllgor wedi clywed straeon torcalonnus am yr hyn y mae pobl wedi gorfod mynd drwyddo pan fyddant yn dioddef—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ddowch i ben, os gwelwch yn dda?

Leanne Wood: Mae'n wirioneddol erchyll. Mae'n broblem sydd ar gynydd, a bydd angen i Lywodraethau ar bob lefel roi tipyn mwy o flaenoriaeth wleidyddol iddi yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Y Dirprwy Lywydd: Hoffwn atgoffa Aelodau mai pum munud yn unig sydd gennych a bod cryn nifer o siaradwyr y prynhawn yma.

Darren Millar: Yn gyntaf, cymeradwyaf y pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn. Gwn fod hwn yn destun pryder mawr i bobl Cymru. Clywsom yn y ddadl hon eisoes fod cannoedd o filoedd o gartrefi, adeiladau busnes a llawer o seilwaith lleol mewn perygl ar draws y wlad. Mae'n hanfodol inni beidio â chaniatáu i'r sefyllfa bresennol barhau o ran y diflastod a achosir gan lifogydd, a phobl yn gorfod ei ddioddef bob blwyddyn mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn anffodus. Yn fy etholaeth i, ychydig cyn y Pasg, bu rhagor o lifogydd yn Llanddulas ac ym Mae Colwyn. Gwn yn bersonol am y diflastod y gall

personally the misery that flooding can cause to a household, having lived through the Towyn floods, which mark their twentieth anniversary this year.

The report contains some excellent recommendations and I am delighted that the Minister has taken a number of them forward, particularly the one-stop shop. You will know that our party has been committed to having a single flood risk management agency as the port of call for individuals when a flood occurs. There is no doubt that the confusion in the aftermath of a flood causes great frustration among those who experience a flooding incident.

I wish to touch, if I may, on some of the things that have been missed out of the report, which I hope that the Minister will take on board. I am disappointed that TAN 15 will not be reviewed. There are shortcomings in that technical advice note. It was acknowledged by the Environment Agency, during the evidence-gathering stage, that it is not always aware of some of the flood risks in certain areas. For example, in terms of surface water drainage and the adequacy of the local infrastructure. One way in which the TAN could be improved, and I hope that you will consider this, is to include Dŵr Cymru-Welsh Water as a statutory consultee in the planning process. It is not one at the moment and it is often aware of localised flooding risks in an area where there have been risks in the past that may not have been reported to the Environment Agency.

You also referred to the residency of permanent mobile homes. However, you did not refer to mobile homes that are frequented by tourists. My own constituency is full of those, along the coast of Towyn and in Kinmel Bay, and there is a huge risk to those in that type of holiday accommodation when they visit a certain area. Could you extend the scope of the TAN to refer to those specifically and include guidance on when an application is made to the local authority for that kind of accommodation? I am committed to the principle that we need some blue belt land across Wales, which should be scored off and not developed on at all. I feel that that could also be identified in the revised TAN.

llifogydd ei achosi i deuluoedd, ar ôl byw drwy lifogydd Tywyn, ac eleni bydd yn ugain mlynedd ers y llifogydd hynny.

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai argymhellion rhagorol, ac yr wyf yn falch iawn fod y Gweinidog wedi symud nifer ohonynt yn eu blaen, yn enwedig y siop un stop. Gwyddoch fod ein plaid wedi ymrwymo i gael un asiantaeth rheoli perygl llifogydd fel y man i unigolion droi ato pan fydd llifogydd. Nid oes amheuaeth nad yw'r dryswch yn sgil llifogydd yn achosi rhwystredigaeth fawr ymhlith pobl sy'n cael llifogydd.

Os caf, hoffwn sôn am rai o'r pethau sydd wedi'u hepgor o'r adroddiad, a gobeithio y bydd y Gweinidog yn eu hystyried. Yr wyf yn siomedig na fydd TAN 15 yn cael ei adolygu. Mae gwendidau yn y nodyn cyngor technegol hwnnw. Cafwyd cydnabyddiaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth, nad yw bob amser yn ymwybodol o rai o'r peryglon llifogydd sydd mewn ardaloedd penodol. Er enghraifft, o ran draenio dŵr wyneb a digonolrwydd y seilwaith lleol. Un ffordd y gellid gwella'r TAN, a gobeithio y byddwch yn ystyried hyn, yw cynnwys Dŵr Cymru fel corff y mae'n rhaid ymgynghori ag ef yn statudol yn y broses gynllunio. Nid yw Dŵr Cymru yn un o'r cyrff hynny ar hyn o bryd, ac mae'n aml yn ymwybodol o beryglon llifogydd lleol mewn ardal lle bu peryglon yn y gorffennol ond na roddwyd gwybod i Asiantaeth yr Amgylchedd amdanynt efallai.

Yr oeddech yn cyfeirio hefyd at bobl sy'n byw mewn cartrefi symudol parhaol. Fodd bynnag, ni chyfeiriwyd at gartrefi symudol lle bydd twristiaid yn aros. Mae fy etholaeth fy hun yn llawn ohonynt, ar hyd arfordir Tywyn ac ym Mae Cinnel, ac mae perygl sylweddol i bobl yn y math hwnnw o lety gwyliau pan fyddant yn ymweld ag ardal benodol. A allech ehangu cwmpas y TAN i gyfeirio at y rheini'n benodol, a chynnwys canllawiau ar geisiadau a gyflwynir i'r awdurdod lleol ar gyfer llety o'r math hwnnw? Yr wyf wedi ymrwymo i'r egwyddor fod angen inni neilltuo tir ledled Cymru na ddylid datblygu arno o gwbl oherwydd perygl llifogydd. Credaf y gellid

nodi hynny hefyd yn y TAN diwygiedig.

I will take a few moments to commend the emergency services for the response that they manage to achieve in the event of a flood. I commend them on how they dealt with my constituents before Easter in Llanddulas. They did an excellent job at getting out there to rescue people from their homes and at helping them to tidy up afterwards. Emergency services, particularly the fire and rescue service, need additional resources to cope with what will be an increasing risk. We know that we have an increased frequency of wet weather and that we have rising sea levels. We should aim to invest in our emergency services in the future so that they can be properly equipped to deal with flooding events.

4.00 p.m.

I also think that the side-stepping of an attempt to make some progress on the inclusion of flood-risk information into a home information pack for potential buyers of properties is not good enough. You need to do much more to work with your UK colleagues in Westminster, whoever they may be after next week, to ensure that that is addressed. I am sure that there would be cross-party co-operation on that, and it is something that Members on this side of the Chamber support.

Therefore, I commend the report to you. I am disappointed that you have rejected so many of the decent recommendations within it. I encourage you to look at it again, Minister, particularly TAN 15, as it is important that we get this right for the future of Wales.

William Graham: I warmly welcome the Sustainability Committee's report and its particular emphasis on the effects that flooding has had on individuals, businesses and communities across Wales. Although the report does not highlight the pressing flooding issues facing people in South Wales East, many of the committee's recommendations are in urgent need of implementation if we are to provide our communities with the level of protection their assets will require if climate change experts'

Hoffwn dreulio ychydig eiliadau yn cymeradwyo'r gwasanaethau brys am y modd y byddant yn ymateb pan fydd llifogydd. Fe'u cymeradwyaf am y modd yr ymdriniwyd â'm hetholwyr i yn Llanddulas cyn y Pasg. Gwnaethant waith gwych yn achub pobl o'u cartrefi a'u helpu i gymhennu wedi hynny. Mae angen adnoddau ychwanegol ar wasanaethau brys, yn enwedig y gwasanaeth tân ac achub, i ymdopi â'r hyn a fydd yn berygl cynyddol. Gwyddom ein bod yn cael tywydd gwlyb yn amlach a bod lefelau'r môr yn codi. Dylem geisio buddsoddi yn ein gwasanaethau brys yn y dyfodol fel y gellir sicrhau bod ganddynt y cyfarpar priodol i ymdrin ag achosion o lifogydd.

Credaf hefyd nad yw'r modd yr osgowyd ymgais i wneud rhyw gynnydd ar gynnwys gwybodaeth am berygl llifogydd mewn pecyn gwybodaeth am eiddo i ddarpar brynwyr yn ddigon da. Mae angen ichi wneud llawer mwy i weithio gyda'ch cydweithwyr ar lefel y DU yn San Steffan, pwy bynnag fyddant ar ôl yr wythnos nesaf, i sicrhau mynd i'r afael â hynny. Yr wyf yn siŵr y byddai cydweithio trawsbleidiol ar hynny, ac mae'n rhywbeth y mae'r Aelodau ar yr ochr hon o'r Siambr yn ei gefnogi.

Felly, cymeradwyaf yr adroddiad ichi. Yr wyf yn siomedig eich bod wedi gwrthod cynifer o'r argymhellion da sydd ynddo. Fe'ch anogaf i edrych arno eto, Weinidog, yn enwedig TAN 15, oherwydd mae'n bwysig inni gael hyn yn iawn er mwyn dyfodol Cymru.

William Graham: Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn wresog, a'i bwyslais penodol ar yr effeithiau y mae llifogydd wedi'u cael ar unigolion, busnesau a chymunedau ledled Cymru. Er nad yw'r adroddiad yn tynnu sylw at y problemau llifogydd dybryd y mae pobl yn eu hwynebu yn y de-ddwyrain, mae angen gweithredu nifer o argymhellion y pwyllgor ar frys os ydym i amddiffyn asedau ein cymunedau i'r graddau a fydd yn ofynnol os gwiredir rhagfyngiadau arbenigwyr ar newid yn yr

predictions that water levels in the Severn estuary and Bristol channel could rise by a metre over the next 20 years become a reality.

The Minister will be well aware of the threat that flooding continually poses to the Gwent levels—articulated so well by the Gwent Flood Defence Alliance last Tuesday in its presentation to Assembly Members—that the walls at Caldicot are not sufficient to withstand flood damage. Such devastation could damage domestic and commercial property, the M4 would be rendered unusable, the Uskmouth power station would be useless and the Severn tunnel would be impassable and, probably, irrecoverable. The site of special scientific interest that covers much of the levels will be adversely effected by salt water.

This is not uninformed scaremongering; the climate change pioneer, James Lovelock, recently suggested that we have probably already passed the tipping point at which emissions, deforestation and pollution will have an irreversible impact on global temperatures and we must prepare for the worst-case scenario. The UK is just as dependent as Holland upon drainage authorities maintaining and updating complex systems for flood defence and drainage. Over 7,000 homes are at risk on the Gwent levels—all the villages on the Caldicot levels, plus around half of Newport East, and all of the properties below the railway line.

While the news in February that £4.8 million funded by the European Regional Development Fund in partnership with the Environment Agency and the Assembly Government is to be used to improve flood defences in central Newport was very welcome, it is clear that the need to provide more protection for the stretch of coastline between Uskmouth and Chepstow demands Assembly Government action sooner rather than later.

The report emphasises how multifaceted flooding really is, with ramifications that last

hinsawdd, sef y gallai lefelau aber Hafren a Môr Hafren godi un metr yn yr 20 mlynedd nesaf.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o fygythiad parhaus llifogydd i wastadeddau Gwent—a ddisgrifiwyd mor dda gan Gynghrair Amddiffyn rhag Llifogydd Gwent ddydd Mawrth diwethaf yn ei chyflwyniad i Aelodau'r Cynulliad—nad yw waliau Cil-y-coed yn ddigon i wrthsefyll difrod llifogydd. Gallai distryw o'r fath ddifrodi eiddo domestig a masnachol, ni fyddai modd defnyddio'r M4, byddai gorsaf bŵer Aber-wysg yn ddiwerth ac ni fyddai modd tramwyo twnnel Hafren, a hynny, mae'n debyg, byth eto. Bydd dŵr heli'n cael effaith andwyol ar y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig sy'n ymestyn dros y rhan fwyaf o'r gwastadeddau.

Nid codi ofn anwybodus mo hyn; yn ddiweddar awgrymodd James Lovelock, yr arloeswr ym maes y newid yn yr hinsawdd, ei bod yn debygol ein bod eisoes wedi pasio'r pwynt tyngedfennol lle bydd allyriadau, datgoedwigo a llygredd yn cael effaith na ellir ei dadwneud ar dymheredd y byd, a rhaid inni baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf posibl. Mae'r DU yr un mor ddibynnol â'r Iseldiroedd ar awdurdodau draenio i gynnal a chadw ac i ddiweddarau systemau cymhleth ar gyfer draenio ac amddiffyn rhag llifogydd. Mae dros 7,000 o gartrefi mewn perygl ar wastadeddau Gwent—yr holl bentrefi ar wastadeddau Cil-y-coed, yn ogystal â thua hanner Dwyrain Casnewydd, a'r holl eiddo sydd islaw'r rheilffordd.

Er bod croeso mawr i'r newyddion ym mis Chwefror, sef y byddai £4.8 miliwn wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i wella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yng nghanol Casnewydd, mae'n amlwg bod yr angen i ddarparu mwy o amddiffynfeydd ar hyd yr arfordir rhwng Aber-wysg a Chas-gwent yn galw am weithredu gan Lywodraeth y Cynulliad cyn gynted fyth â phosibl.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio mor amlochrog yw llifogydd mewn gwirionedd,

well beyond the event itself, such as insurers refusing to insure property and fertile farmland spoilt by salt water. With this in mind, it is pleasing that the Minister has accepted so many of the Committee's recommendations. She is absolutely right in her written response to the report that sole responsibility for flooding should not lie with Government, but that everyone can and must take responsibility.

The present confusion regarding responsibility for flooding issues underlines the need for a new agency to become a single point of contact for information and advice. Reading the report, it is difficult not to be struck by the unique demands that the risk of flooding carries, a point well made at point 76 of the report by the National Flood Forum that communities at risk of flooding

'need to think about Mrs Smith next door who uses a Zimmer frame, and if communities are cut off they need to become more resilient to help themselves.'

These are the vulnerable people that Governments of any political hue should make it a priority to protect and support.

Similarly, at point 94, referring to planning, the Environment Agency states that

'Developers are often making inadequate assessments of the risks to people from flooding from their development'

With this in mind, it is a little disappointing that the Minister has rejected the recommendation to redraft TAN 15 to ensure that flood risk is better reflected in the planning process.

With the case for a national flood forum compellingly promoted by the report in recommendation 8, it will be important to extend its role into Wales effectively while also taking advantage of the considerable body of knowledge on flooding that already

gyda goblygiadau a fydd yn para ymhell y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun, fel yswirwyr yn gwrthod yswirio eiddo a thir amaeth ffrwythlon yn cael ei ddifetha gan ddŵr heli. Gyda hynny mewn cof, mae'n braf bod y Gweinidog wedi derbyn cynifer o argymhellion y Pwyllgor. Mae'n gwbl gywir wrth ddweud, yn ei hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad, nad y Llywodraeth ddylai fod yn llwyr gyfrifol am lifogydd, ond y gall ac y dylai pawb gymryd cyfrifoldeb.

Mae'r dryswch ar hyn o bryd ynghylch cyfrifoldeb dros faterion yn ymwneud â llifogydd yn pwysleisio bod angen cael asiantaeth newydd a fydd yn cynnig un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor. O ddarllen yr adroddiad, mae'n anodd peidio â chael eich taro gan y gofynion unigryw a ddaw yn sgil perygl llifogydd, pwynt a wnaed yn dda gan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol ym mhwynt 76 yn yr adroddiad, fod angen i gymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd

feddwl am Mrs Smith drws nesaf sy'n defnyddio ffrâm gerdded, ac os yw cymunedau'n cael eu hynysu mae angen iddynt fod yn fwy gwydn i allu eu helpu eu hunain.

Dyma'r bobl sy'n agored i niwed y dylai Llywodraeth o unrhyw liw gwleidyddol roi blaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u cefnogi.

Yn yr un modd, ym mhwynt 94, sy'n cyfeirio at gynllunio, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud nad yw

Datblygwyr yn gwneud asesiadau digonol o'r peryglon i bobl yn sgil llifogydd o ganlyniad i'w datblygiad

O gofio hynny, mae braidd yn siomedig fod y Gweinidog wedi gwrthod yr argymhelliad i ailddrafftio TAN 15 i sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei adlewyrchu'n well yn y broses gynllunio.

Gyda'r achos o blaid cael fforwm llifogydd cenedlaethol yn cael ei hybu'n nerthol gan yr adroddiad yn argymhelliad 8, bydd yn bwysig ymestyn ei rôl i Gymru'n effeithiol gan fanteisio, ar yr un pryd, ar y corff sylweddol o wybodaeth am lifogydd sy'n

exists in Wales. I have seen at first hand the technical expertise of the Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board in managing the flood and coastal erosion risk in South Wales East and am particularly disappointed that the Minister sees fit to reject recommendation 3 to establish internal drainage boards on a Wales-wide basis. This is a major opportunity missed, creating a great deal of concern in the IDB industry and I urge the Minister to reconsider her position.

Recent consultations have highlighted the shortfall in resources in local authorities and other agencies in relation to the new responsibility under the Flood and Water Management Act 2010 and other related legislation. By adopting recommendation 3, the Assembly Government could take advantage of the opportunity created under the partnership-working provisions in the new Act for IDBs to become much more involved in flood management beyond their existing boundaries. There is considerable potential for such organisations to extend their operations and apply their technical expertise and local knowledge into areas beyond their present catchment areas. They already play an essential role in relation to flood risk management, and extending their role in future would make sense operationally and financially.

Looking beyond the Minister's rejection of recommendation 3, this is a most welcome report, with an encouraging response from the Minister, but it is not the definite word on flooding in Wales. The urgent need to improve sea defences in South Wales East cannot be overlooked for much longer. The message is clear—we must be more proactive in our approach so that the social and economic impact of future instances of flooding can be restricted to an absolute minimum.

Joyce Watson: I was pleased to join the committee during this inquiry, albeit late. I want to stick to one issue in particular, because when people think about flooding they tend to think about riverbanks overflowing or the sea coming in, that is, about a natural moving source of water. What

bodoli eisoes yng Nghymru. Yr wyf wedi gweld dros fy hun arbenigedd technegol Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg wrth reoli perygl llifogydd ac erydu'r arfordir yn y deddwyrain, ac yr wyf yn hynod siomedig fod y Gweinidog yn gweld yn dda wrthod argymhelliad 3 i sefydlu byrddau draenio mewnol ledled Cymru. Mae hwn yn gyfle sylweddol sydd wedi'i golli, gan greu llawer iawn o bryder yn y diwydiant Byrddau Draenio Mewnol, ac anogaf y Gweinidog i ailystyried ei safbwynt.

Mae ymgynghoriadau diweddar wedi tynnu sylw at y diffyg adnoddau mewn awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill o ran y cyfrifoldeb newydd dan Ddeddf Rheoli Dŵr a Llifogydd 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Drwy fabwysiadu argymhelliad 3, gallai Llywodraeth y Cynulliad achub ar y cyfle a grëwyd dan y darpariaethau i weithio mewn partneriaeth yn y Ddeddf newydd i Fyrddau Draenio Mewnol gael rhan fwy blaenllaw wrth reoli llifogydd y tu hwnt i'w ffiniau presennol. Mae potensial sylweddol i sefydliadau o'r fath ymestyn eu gweithrediadau a defnyddio'u harbenigedd technegol a'u gwybodaeth leol mewn ardaloedd y tu hwnt i'w dalgylchoedd presennol. Maent ganddynt eisoes rôl hanfodol wrth reoli perygl llifogydd, a byddai ymestyn eu rôl yn y dyfodol yn gwneud synnwyr o safbwynt gweithredol ac ariannol.

Ar wahân i'r ffaith fod y Gweinidog wedi gwrthod argymhelliad 3, mae hwn yn adroddiad sydd i'w groesawu'n fawr, gydag ymateb calonogol gan y Gweinidog. Ond nid dyma'r gair olaf ar lifogydd yng Nghymru. Ni ellir anwybyddu lawer yn hwy fod angen dybryd i wella amddiffynfeydd môr yn y deddwyrain. Mae'r neges yn glir—rhaid inni fod yn fwy rhagweithiol yn ein dull gweithredu fel y gellir lleihau effaith gymdeithasol ac economaidd llifogydd yn y dyfodol gymaint ag sy'n bosibl.

Joyce Watson: Yr oeddwn yn falch ymuno â'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn, er fy mod yn hwyr yn gwneud hynny. Yr wyf am drafod un mater yn benodol, oherwydd wrth feddwl am lifogydd mae pobl yn tueddu i feddwl am afon yn gorlifo'i glannau neu'r môr yn dod i mewn. Hynny yw, maent yn

they do not tend to think so much about is the impact of surface water. They do not think about the fact that their actions in concreting over the flower beds, vegetable patches or lawns in their front gardens, so that they can park their cars there, can have a direct impact on others in the neighbourhood. However, it could be that those affected live two miles away; it depends on where the additional surface water ends up after a heavy downpour. Also, additional surface water not only causes flooding, but because it carries everything with it, for example, the oil and petrol from the road surfaces that it has travelled over, that causes additional devastation in the houses or yards that it floods.

So, my request is for people to recognise that they can do something about surface water, and that local authorities must be made to do something. Only this week I visited a new development that has been built above already existing houses. The incline to the new development is fairly steep and takes your breath away, but what takes away the breath of people who live below it is the fact whenever it rains—it does not have to be particularly heavy rain—they are affected by water cascading down as a consequence of all the additional hard surfaces. So, my plea to Jane Davidson as Minister is to do all that she can to influence those outside of this Chamber, in local authorities and neighbourhoods, to think about surface water.

Nick Ramsay: I am pleased to contribute to this important debate. Like Angela Burns, who spoke earlier, I approached this matter initially from the perspective of the Finance Committee, which recently looked at the financial implications of the Assembly Government's approach to the flooding problem, which is important as we enter into a period in which no-one is certain of the effects that climate change will have on water levels.

As was said earlier, flooding comes in many forms. It comes in the form of flooding from

meddwl am ffynhonnell ddŵr yn symud mewn ffordd naturiol. Yr hyn nad ydynt yn tueddu i feddwl amdano yw effaith dŵr wyneb. Nid ydynt yn ystyried bod yr hyn a wnânt wrth osod concret dros welyau blodau, llain lysiau neu lawnt yn eu gerddi blaen, fel y gallant barcio'u ceir yno, yn gallu cael effaith uniongyrchol ar bobl eraill yn y gymdogaeth. Fodd bynnag, gall y sawl yr effeithir arnynt fod yn byw ddwy filltir i ffwrdd; mae'n dibynnu ymhle mae'r dŵr wyneb ychwanegol yn casglu ar ôl glaw trwm. Hefyd, nid yn unig y mae dŵr wyneb ychwanegol yn achosi llifogydd, ond am ei fod yn cario popeth gydag ef, er enghraifft, yr olew a'r petrol oddi ar wyneb y ffyrdd y mae'n llifo drostynt, mae hynny'n achosi dinistr ychwanegol yn y tai neu'r iardiau y mae'n eu gorlifo.

Felly, fy nghais yw i bobl sylweddoli y gallant wneud rhywbeth ynghylch dŵr wyneb, a'i bod rhaid gorfodi awdurdodau lleol i wneud rhywbeth. Mor ddiweddar â'r wythnos hon ymwelais â datblygiad newydd sydd wedi'i adeiladu uwchben tai sydd yno eisoes. Mae'r llethr sy'n arwain at y datblygiad newydd yn eithaf serth ac mae'n gwneud ichi gollu'ch gwynt. Ond yr hyn sy'n mynd â gwynt y bobl sy'n byw dan y datblygiad yw'r ffaith yr effeithir arnynt — bob tro pan fydd yn bwrw glaw—gan ddŵr yn rhaeadru i lawr y llethr oherwydd yr holl arwynebau caled ychwanegol—ac nid oes yn rhaid i'r glaw fod yn drwm iawn. Felly, yr wyf yn erfyn ar Jane Davidson fel Gweinidog i wneud popeth o fewn ei gallu i ddylanwadu ar y rheini y tu allan i'r Siambr hon, mewn awdurdodau lleol a chymdogaethau, i feddwl am ddŵr wyneb.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch cyfrannu at y ddadl bwysig hon. Fel Angela Burns, a siaradodd yn gynharach, deuthum at y mater hwn o safbwynt y Pwyllgor Cyllid i ddechrau, a fu'n edrych yn ddiweddar ar oblygiadau ariannol dull Llywodraeth y Cynulliad o ymdrin â phroblem llifogydd. Mae hyn yn bwysig wrth inni ddechrau ar gyfnod lle nad oes neb yn gwybod yn iawn beth fydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar lefelau dŵr.

Fel y dywedwyd yn gynharach, daw llifogydd ar lawer ffurf. Dônt ar ffurf

the sea, with coastal erosion, for which our flood defences are so important, and also in the form of surface run-off. The Minister will know that I have raised the issue of surface run-off on numerous occasions in questions, which ties in to some of the comments made by Joyce Watson. I am sure that the Minister will respond to the comments that she made, so I do not intend to go over that territory again.

4.10 p.m.

I wish to focus on two recommendations that were not accepted by the Government, namely recommendation 3 and recommendation 17. I will take recommendation 17 first. The recommendation was to update the development advice map annually. I heard what the Minister said about the stability needed by local authorities and planning bodies when using these maps, and I understand that there could be problems if there were a rolling edition of those maps. However, she rejected that without accepting the need for households and houses to be included in consultation on a regular basis when areas are included in those maps. I do not think that she has put any meat on the bones there—I can see that the Minister wants to add to that later, and I will listen with interest to what she has to say because Mike German's comments at the start were valid and there is a strong argument for having, if not annual updates, certainly more regular updates than we have at the moment.

I will move on to the second recommendation that I wanted to mention, which is recommendation 3:

‘The Committee recommends that the Minister investigates the opportunity for establishing Internal Drainage Boards on a Wales wide basis.’

That is on page 23 in the original report. I have read through that several times and it seems to me to be a sensible recommendation. In the report, the committee has looked at the valuable work done by internal drainage boards and suggested that that could be rolled out on a Wales-wide

llifogydd o'r môr, gydag erydiad arfordirol, a dyna pam mae ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd mor bwysig, a hefyd ar ffurf dŵr ffo. Gŵyr y Gweinidog fy mod wedi codi mater dŵr ffo droeon mewn cwestiynau, sy'n cysylltu â rhai o'r sylwadau a wnaed gan Joyce Watson. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymateb i rai o'r sylwadau a wnaeth, felly, nid wyf yn bwriadu ailadrodd hynny.

Hoffwn ganolbwyntio ar ddau argymhelliad na chawsant eu derbyn gan y Llywodraeth, sef argymhelliad 3 ac argymhelliad 17. Soniaf am argymhelliad 17 i ddechrau. Yr argymhelliad oedd diweddarau'r map cyngor datblygu bob blwyddyn. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog fod angen sefydlogrwydd ar awdurdodau lleol a chyrrff cynllunio wrth ddefnyddio'r mapiau hyn, a deallaf y gallai problemau godi pe bai'r mapiau'n cael eu diweddarau byth a hefyd. Fodd bynnag, gwrthododd hynny heb dderbyn yr angen i aelwydydd a thai gael eu cynnwys mewn gwaith ymgynghori rheolaidd pan fydd ardaloedd yn cael eu cynnwys ar y mapiau hynny. Ni chredaf iddi roi cig ar yr esgryn—gwelaf fod y Gweinidog am ychwanegu at hynny yn ddiweddarach, a byddaf yn gwranddo â diddordeb ar yr hyn sydd ganddi i'w ddweud oherwydd yr oedd sylwadau Mike German ar y dechrau yn ddilys, ac mae dadl gref o blaid diweddarau'r mapiau'n fwy rheolaidd nag a wneir ar hyn o bryd, hyd yn oed os nad yw hynny'n digwydd bob blwyddyn.

Symudaf ymlaen at yr ail argymhelliad yr oeddwn am sôn amdano, sef argymhelliad 3:

‘Mae'r Pwyllgor yn argymhell fod y Gweinidog yn ymchwilio i'r cyfle i sefydlu Byrddau Draenio Mewnol ledled Cymru.’

Mae hynny ar dudalen 23 yn yr adroddiad gwreiddiol. Yr wyf wedi darllen drwyddo droeon, ac ymddengys imi ei fod yn argymhelliad synhwyrol. Yn yr adroddiad, mae'r pwyllgor wedi edrych ar y gwaith gwerthfawr a wneir gan fyrddau draenio mewnol ac wedi argymhell y gallai hynny gael

basis. Looking at the Minister's response, all that I can find against this is that

'it would not necessarily be advisable to establish Internal Drainage Boards across Wales, as their remit is often quite specialised.'

I cannot see why that is a problem. I do not think that anyone is saying that a drainage board model should be taken from one area and put in another area using exactly the same knowledge. If you are saying that drainage boards have an important role to play in one area, Minister, surely you can recognise that they could be rolled out on a Wales-wide basis. That may not cover all your reasons for not accepting that model, but I would like to hear what you have to say on that, because I do not think that there is enough information in this section of the response to the committee's report to dismiss that recommendation. I would also like to know whether the comments made by the Minister with regard to rolling out the drainage boards across Wales will have any impact on the existing drainage boards. I am not entirely clear about that, and I think that the people working on the existing drainage boards would like to know exactly what that means for them. As I see it, if you are questioning the role of drainage boards on a Wales-wide basis, as you do in your response, perhaps you are looking for local authorities to take far more of a lead on flood-risk matters than drainage boards.

Those are the areas on which I would like some clarification, but I welcome the committee's report and that the Minister has accepted many of its recommendations. As I said at the start of my contribution, this is a problem that will not go away; it is an increasing problem. My constituency will be affected by the problems of coastal erosion, which are likely to increase along the Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board area. This is of great concern to many of my constituents and to the constituents of other AMs and I very much hope that the Minister will consider addressing some of the concerns that I have raised in her response later.

ei weithredu ledled Cymru. O edrych ar ymateb y Gweinidog, yr unig ddatl a welaf yn erbyn hynny yw

'na fyddai'n beth doeth o reidrwydd i sefydlu Byrddau Draenio Mewnol ledled Cymru, gan fod eu cylch gwaith yn aml yn arbenigol.'

Ni allaf weld pam mae hynny'n broblem. Ni chredaf fod neb yn dweud y dylid cymryd model bwrdd draenio o un ardal a'i weithredu mewn ardal arall gan ddefnyddio'r un wybodaeth yn union. Os ydych yn dweud bod gan fyrddau draenio rôl bwysig mewn un ardal, Weindog, siawns y gallwch gydnabod y gellid eu rhoi ar waith ar draws Cymru gyfan. Efallai nad yw hynny'n ymdrin â'ch holl resymau dros beidio â derbyn y model hwnnw, ond hoffwn glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud am hynny, oherwydd ni chredaf fod digon o wybodaeth yn y rhan hon o'r ymateb i adroddiad y pwyllgor i ddiystyru'r argymhelliad hwnnw. Hoffwn wybod hefyd a fydd y sylwadau a wnaed gan y Gweinidog am roi'r byrddau draenio ar waith ledled Cymru yn cael unrhyw effaith ar y byrddau draenio sydd eisoes yn bod. Nid wyf yn hollol glir ynghylch hynny, a chredaf yr hoffai'r bobl sy'n gweithio yn y byrddau draenio sydd eisoes yn bod wybod beth yn union mae hyn yn ei olygu iddynt hwy. Fel y gwelaf fi bethau, os ydych yn amau rôl byrddau draenio ledled Cymru, fel yr ydych yn eich ymateb, efallai eich bod am i awdurdodau lleol, yn hytrach na byrddau draenio, wneud llawer mwy i arwain ar faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd.

Dyna'r meysydd yr hoffwn gael eglurhad yn eu cylch, ond croesawaf adroddiad y pwyllgor a'r ffaith fod y Gweinidog wedi derbyn nifer o'i argymhellion. Fel y dywedais ar ddechrau fy nghyfraniad, mae hon yn broblem na fydd yn diflannu; mae'n broblem gynyddol. Bydd problemau erydiad arfordirol, sy'n debygol o gynyddu ar hyd ardal Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, yn effeithio ar fy etholaeth. Mae hyn yn destun pryder mawr i nifer o'm hetholwyr ac i etholwyr ACau eraill, ac yr wyf yn mawr obeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gennyf yn ei hymateb yn nes ymlaen.

The Deputy Presiding Officer: I am sure that the Minister has heard everything that Members have said today and that she will reply in writing, because she has used up all of her time in her opening speech.

Michael German: I thank everyone who has contributed. I will try to address a couple of the points raised in the short amount of time that I have left in which to reply. On the Minister's defence of TAN 15, I thought that she was saying that the experience of flooding in Tewkesbury in Gloucestershire had had an impact on the use of that guidance. My only concern about that is whether TAN 15 will be robust enough as memories fade and we forget the flooding that occurred. The news on the map update from the Minister is welcome.

As far as the statutory duty on fire and rescue services is concerned, one might ask why we were not seeking those powers for the National Assembly whenever any Bill came up. I know that it always requires a proactive case from the Welsh Assembly Government, but I would hope that we would seize every opportunity to get the powers for the National Assembly.

In respect of William's point, and the later point about the Gwent levels, this report does not look at coastal erosion. It recommends that the issue should be looked at, at a later stage. I understand the problems related to the different heights of the sea defences in that respect. I thank everybody for their contributions, and I will echo the words of Angela Burns by saying that this is a report about people.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Sustainability Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog wedi clywed popeth a ddywedodd yr Aelodau heddiw ac y bydd yn ymateb yn ysgrifenedig, oherwydd mae wedi defnyddio'r amser a oedd ganddi yn ei haraith agoriadol.

Michael German: Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Ceisiaf fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd yn yr amser byr sydd gennyf ar ôl i ymateb. O blaid y Gweinidog yng nghyswllt TAN 15, credais iddi ddweud bod y profiad o lifogydd yn Tewkesbury yn Swydd Gaerloyw wedi cael effaith ar y modd y caiff y canllaw hwnnw ei ddefnyddio. Fy unig bryder yw a fydd TAN 15 yn ddigon cadarn wrth i atgofion bylu ac wrth inni anghofio'r llifogydd a fu. Croesewir y newyddion gan y Gweinidog am ddiweddarau'r map.

O ran y ddyletswydd statudol ar wasanaethau tân ac achub, gallai dyn ofyn pam nad oeddem yn ceisio cael y pwerau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol pryd bynnag y byddai unrhyw Fesur yn codi. Gwn fod angen achos rhagweithiol gan Lywodraeth y Cynulliad bob tro, ond byddwn yn gobeithio y byddem yn manteisio ar bob cyfle i gael y pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

O ran pwynt William, a'r pwynt diweddarach am wastadeddau Gwent, nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried erydiad arfordirol. Mae'n argymhell ystyried y mater, yn ddiweddarach. Deallaf y problemau'n ymwneud ag uchder gwahanol yr amddiffynfeydd môr yn y cyswllt hwnnw. Diolch i bawb am eu cyfraniadau, a hoffwn adleisio geiriau Angela Burns drwy ddweud mai adroddiad am bobl yw'r adroddiad hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

**Dadl sy'n Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Eleanor Burnham Gyflwyno Mesur
Arfaethedig ynghylch Addysg Oedolion
Debate Seeking the Assembly's Leave for Eleanor Burnham to Introduce a
Proposed Measure on Adult Education**

Eleanor Burnham: I move that

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.103:

grants leave for Eleanor Burnham to introduce a Member proposed Measure to give effect to the pre-ballot information tabled on 8 May 2009 under Standing Order No. 23.102. (NDM4453)

It gives me great pleasure to present this proposal for a Measure to the Chamber today.

As my party's spokesperson on equalities, and as someone who has a background in supporting efforts to address underachievement, I am well aware of the key part that education plays in improving the lives of individuals, whatever their age. The Welsh Liberal Democrats firmly believe in lifelong learning, and in ensuring that people are given the chance to reach their full potential. I believe that this proposal could make an immense difference for many people in Wales. We cannot legislate for equality of outcome, but we can certainly legislate for equality of opportunity, which I believe my proposal seeks to do.

I would like to refer to the penultimate line and say that, following legal advice—and should the Assembly be minded to grant me leave to proceed—this element would not be part of any proposed Measure.

The concept of 'working age' is changing, and our proposal needs to reflect that change and broaden its scope to be more inclusive, so that nobody is excluded on the grounds of age. Inclusivity is the motivating principle that underpins this proposed Measure. Many of us here may have taken our educational journey for granted, but contemporary life can be much more complicated for the many people whose education is not so straightforward, such as young carers, young people who are bullied at school, those with

Eleanor Burnham: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.103:

yn caniatáu i Eleanor Burnham gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod er mwyn rhoi ei heffaith i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 8 Mai 2010 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.102. (NDM4453)

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r cynnig hwn ar gyfer Mesur i'r Siambr heddiw.

Fel llefarydd fy mhlaidd ar gydraddoldeb, ac fel rhywun sydd â chefnidir ym maes cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â thangyflawni, yr wyf yn ymwybodol iawn o ran allweddol addysg o safbwynt gwella bywydau unigolion, waeth beth fo'u hoed. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu'n gryf mewn dysgu gydol oes, ac mewn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn. Credaf y gallai'r cynnig hwn wneud gwahaniaeth enfawr i lawer o bobl yng Nghymru. Ni allwn ddeddfu i sicrhau canlyniad cyfartal, ond gallwn yn sicr ddeddfu i sicrhau cyfle cyfartal, a chredaf y bydd fy nghynnig yn ceisio cyflawni hynny.

Hoffwn gyfeirio at y llinell olaf ond un, a dweud, yn dilyn cyngor cyfreithiol—a phe bai'r Cynulliad yn fodlon rhoi caniatâd imi symud ymlaen—na fyddai'r elfen honno'n rhan o unrhyw Fesur arfaethedig.

Mae'r cysyniad o 'oed gweithio' yn newid, ac mae angen i'n cynnig adlewyrchu'r newid hwnnw ac ehangu ei rychwant i fod yn fwy cynhwysol, fel na chaiff neb ei eithrio ar sail oed. Cynwysoldeb yw'r egwyddor symbylol sy'n sail i'r Mesur arfaethedig hwn. Efallai fod llawer ohonom yma wedi cymryd ein gyrfa addysgol yn ganiataol, ond gall bywyd heddiw fod lawer yn fwy cymhleth i'r bobl niferus nad yw eu haddysg mor syml â hynny, pobl megis gofalwyr ifanc, pobl ifanc sy'n cael eu bwlio yn yr ysgol, pobl sydd ag

long-term illness, children living in poverty, or young women who fall pregnant at a young age. Indeed, interrupted education or bad experiences at school can blight a person's view of education and act as a barrier to further learning. My proposal is intended to encourage people back into learning if, for one reason or another, they have not been able to participate as fully as they would have liked in the past. It is also intended that those who have no qualifications but who are in employment can also benefit from this proposal.

A number of other documents and contributors have provided evidence to support my proposal. They include Careers Wales, which published 'Pupil destinations from schools in Wales 2009' last week. The percentage of young people entering employment outside Government-supported training programmes has dropped this year for years 11, 12 and 13. Those described as being not in education, employment or training, or NEETs, in year 13 in 2009 numbered 835; in year 12, they numbered 518; and in year 11, they numbered 2,130. Surprisingly, 30 per cent of these people are not registered with Careers Wales. The figure for those unable to work due to illness or pregnancy rose to 84 per cent for year 13, and there was a massive swing away from registering with Careers Wales, with 87.8 per cent not registered.

Work-based training for males and females has fallen since 2005—it has halved for years 11, 12 and 13. The National Institute of Adult Continuing Education supports the concept of entitlements to adult learning for those who have missed out on previous educational opportunities. Indeed, one of the main recommendations in the NIACE-sponsored inquiry into the future of lifelong learning was to build a set of general and specific transition learning entitlements. NIACE feels, however, that it is important to extend such entitlements to all, regardless of age. This reflects the fact that more and more people are choosing to extend their working lives, and participation in learning in later life is an important part of active ageing.

afiechyd hirdymor, plant sy'n byw mewn tloedi, neu fenywod ifanc sy'n beichiogi'n ifanc. Yn wir, gall addysg fylchog neu brofiadau gwael yn yr ysgol ddifetha safbwynt unigolyn ar addysg, a rhwystro unigolyn rhag dysgu yn y dyfodol. Bwriad fy nghynnig yw annog pobl i fynd yn ôl i ddysgu, os nad ydynt wedi gallu cymryd rhan mor llawn ag y byddent wedi dymuno yn y gorffennol, am ryw reswm neu'i gilydd. Bwriad arall yw sicrhau y gall pobl nad oes ganddynt gymwysterau, ond sydd â swydd, hefyd elwa o'r cynnig hwn.

Mae llawer o ddogfennau a chyfranwyr eraill wedi darparu tystiolaeth i gefnogi fy nghynnig. Maent yn cynnwys Gyrfa Cymru, a gyhoeddodd 'Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru 2009' yr wythnos diwethaf. Mae canran y bobl ifanc sy'n cael swydd y tu allan i raglenni hyfforddi a gefnogir gan y Llywodraeth wedi disgyn eleni ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13. Yn 2009, yr oedd 835 o bobl ifanc, a ddisgrifid fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ym mlwyddyn 13; yr oedd 518 ym mlwyddyn 12; ac yr oedd 2,130 ym mlwyddyn 11. Yn rhyfedd iawn, nid yw 30 y cant o'r rheini wedi'u cofrestru gyda Gyrfa Cymru. Cododd nifer y bobl ifanc a oedd yn methu gweithio oherwydd salwch neu oherwydd beichiogrwydd i 84 y cant ar gyfer blynyddyn 13, a gwelwyd nifer enfawr yn peidio â chofrestru gyda Gyrfa Cymru, wrth i 87.8 y cant beidio â gwneud hynny.

Mae hyfforddiant yn seiliedig ar waith i ddyfodol a menywod wedi gostwng er 2005—mae wedi haneru ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion yn cefnogi'r cysyniad o hawliau i addysg oedolion i bobl sydd wedi colli cyfleoedd addysgol gynt. Yn wir, un o'r prif argymhellion yn yr ymchwiliad a noddwyd gan NIACE i ddyfodol dysgu gydol oes oedd y dylid datblygu set o hawliau dysgu trosiannol cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae NIACE yn teimlo'i bod yn bwysig estyn hawliau o'r fath i bawb, waeth beth fo'u hoed. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod mwy a mwy o bobl yn dewis ymestyn eu bywyd gweithio, a bod dysgu'n ddiweddarach mewn bywyd yn rhan bwysig o barhau'n weithgar wrth fynd yn hŷn.

4.20 p.m.

The focus of my proposal is to improve employment prospects for individuals. While this is important, NIACE believes that Members should also consider the wider benefits of learning when debating this proposal. In particular, we should weigh the costs of the proposals against the potential savings to be gained across public services. These are indicated by some fascinating key facts. For instance, adults who participate in learning are 14 per cent more likely to give up smoking as a result, and it is estimated that smoking costs the NHS in Wales £250 million per year. Men with no qualifications who gain a level 1 qualification are up to 50 per cent less likely to become obese, and it is estimated that obesity costs the NHS in Wales £50 million per year, and that figure is rising significantly.

Adult education contributes to improved wellbeing and mental health. For example, taking women without qualifications to level 2 would reduce their risk of depression by 15 per cent. Mental health represents the biggest area of NHS expenditure in Wales, at £510 million or 11.9 per cent of total health spending in 2005-06. If you add just the savings that I have mentioned together, you are talking about a potential saving of £847 million per year in the health budget.

The education levels of parents and the development of children are inextricably linked. Schools account for about only 25 per cent of a child's performance, with the other 75 per cent attributable to other factors, particularly parental income, education and involvement. Some 31 per cent of adults in Wales do not have a qualification at level 2 GCSE equivalent or above, yet funding levels per head of population up to the age of 18 are roughly 13 times greater than funding levels per head of population post 19. Children of the least educated parents are up to one year behind their more advantaged peers in vocabulary performance at the age of three, and Wales has among the lowest levels of adult literacy and numeracy in the UK. If the

Mae fy nghynnig yn canolbwyntio ar wella rhagolygon unigolion o ran cyflogaeth. Er bod hynny'n bwysig, mae NIACE yn credu y dylai Aelodau hefyd ystyried manteision ehangach dysgu, wrth gael dadl ar y cynnig hwn. Yn benodol, dylem bwysu a mesur costau'r cynigion yn erbyn yr arbedion posibl y gellid eu sicrhau ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Caiff yr arbedion hynny eu dangos gan rai ffeithiau allweddol diddorol iawn. Er enghraifft, mae oedolion sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu 14 y cant yn fwy tebygol o roi'r gorau i ysmegu o ganlyniad, ac amcangyfrifir bod ysmegu'n costio £250 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru. Mae dynion heb gymwysterau sy'n ennill cymhwyster lefel 1 hyd at 50 y cant yn llai tebygol o fynd yn ordew, ac amcangyfrifir bod gordewdra'n costio £50 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru, ac mae'r ffigur hwnnw'n codi'n sylweddol.

Mae addysg oedolion yn cyfrannu at well lles ac iechyd meddwl. Er enghraifft, byddai mynd â menywod heb gymwysterau i lefel 2 yn lleihau 15 y cant eu risg o ddiodef iselder ysbryd. Caiff y swm mwyaf o arian yn y GIG yng Nghymru ei wario ym maes iechyd meddwl, sef £510 miliwn neu 11.9 y cant o'r holl wariant ar iechyd yn 2005-06. Os cyfrifwch yr arbedion yr wyf wedi'u crybwyll gyda'i gilydd, yr ydych yn sôn am arbed swm posibl o £847 miliwn y flwyddyn yn y gyllideb iechyd.

Mae yna gyswllt anorfod rhwng lefelau addysg rhieni a datblygiad plant. Mae ysgolion yn cyfrif am ddim ond rhyw 25 y cant o berfformiad plentyn, a chaiff y 75 y cant sy'n weddill ei briodoli i ffactorau eraill, yn enwedig incwm, addysg ac ymwneud y rhieni. Nid oes gan oddeutu 31 y cant o oedolion yng Nghymru gymhwyster lefel 2, cyfwerth â TGAU neu uwch, ac eto mae lefelau cyllid y pen ar gyfer y boblogaeth hyd at 18 oed oddeutu 13 gwaith yn uwch na lefelau cyllid y pen ar gyfer y boblogaeth dros 19 oed. Mae plant y rhieni lleiaf addysgedig hyd at flwyddyn y tu ôl i'w cyfoedion mwy breintiedig o ran eu geirfa pan fyddant yn dair oed, ac mae gan Gymru un o'r lefelau isaf o lythrennedd a rhifedd

proportion of the working age population with no qualifications was reduced by 1 percentage point, the saving in reduced crime could be £37 million per year in Wales. I retract my earlier comments because, when those savings are added to the savings that I mentioned could be made in health budget, the potential saving is £847 million. Most of these findings are from extensive research undertaken by the Centre for Research on the Wider Benefits of Learning.

The Minister has already indicated his opposition to my proposal, which is his prerogative. However, I would ask you all to bear in mind the fact that so many people, and Wales's economy, could benefit from the boost that this proposal could give, not to mention, hopefully, alleviating ill health. This is not just about skills and apprenticeships and linear progression within a particular age group, nor is it about retraining and ReAct; it is about incentivising learning, improved lives and adding real value, as well as reducing the health costs that I have mentioned previously. In particular, women who have been out of the job market due to child-raising responsibilities could see a major improvement in their lives and their pension prospects.

The Minister believes that this proposal would act as a disincentive to companies to offer training, but I disagree. A lot of this is about education as a route to employment or to better employment, and not just about training in the workplace for those who already have a job. We know that incomes affect outcomes, and we know the impact of a good education on a person's life chances. I therefore ask you all to consider the broad aspects of the principle of this proposal, and I ask you most sincerely to support me today.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I start by congratulating Eleanor on winning a place in the ballot, and on the general commitment that she brought to the issue of adult education. We know that skills are

ymysg oedolion y DU. Pe bai cyfran y boblogaeth o oed gweithio sydd heb gymwysterau yn gostwng 1 y cant, gallai'r arbedion o lai o droseddu fod yn werth cymaint â £37 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Tynnaf fy sylwadau blaenorol yn ôl, oherwydd pan gaiff yr arbedion hynny eu hychwanegu at yr arbedion y soniais amdanynt yn y gyllideb iechyd, mae'r arbediad posibl yn £847 miliwn. Daw'r rhan fwyaf o'r darganfyddiadau hyn o waith ymchwil eang a wnaed gan y Ganolfan Ymchwil i Fanteision Ehangach Dysgu.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi dangos ei wrthwynebiad i'm cynnig, a dyna'i hawl. Fodd bynnag, gofynnaf i bob un ohonoch gofio y gallai cynifer o bobl, ynghyd ag economi Cymru, elwa o'r hwb y gallai'r cynnig hwn ei roi, heb sôn am ei effaith o ran lleddfu salwch, gobeithio. Mae a wnelo'r cynnig â mwy na sgiliau a phrentisiaethau a chynnydd llinellol mewn un grŵp oed, ac mae a wnelo â mwy nag ailhyfforddi a ReAct hefyd; mae a wnelo â rhoi mwy o gymhelliant i ddysgu, gwella bywydau ac ychwanegu gwerth go iawn, yn ogystal â lleihau'r costau iechyd yr wyf wedi sôn amdanynt gynt. Yn benodol, gallai menywod sydd wedi bod allan o'r farchnad swyddi oherwydd cyfrifoldebau magu plant weld eu bywydau a'u rhagolygon pensiwn yn gwella'n sylweddol.

Cred y Gweinidog y byddai'r cynnig hwn yn cymell cwmnïau i beidio â darparu hyfforddiant, ond yr wyf yn anghytuno. Mae a wnelo llawer ohono ag addysg fel llwybr i gyflogaeth neu well cyflogaeth, ac nid oes a wnelo â hyfforddiant yn y gweithle'n unig i bobl sydd eisoes â swydd. Gwyddom fod incwm yn effeithio ar ganlyniadau, a gwyddom am yr effaith a gaiff addysg dda ar gyfleoedd bywyd unigolyn. Felly, gofynnaf i bob un ohonoch ystyried agweddau cyffredinol egwyddor y cynnig hwn, a gofynnaf yn ddidwyll iawn ichi fy nghefnogi heddiw.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Dechreuaf trwy longyfarch Eleanor ar ennill lle yn y balot, ac am ei hymrwymiad cyffredinol i'r mater hwn, sef addysg oedolion. Gwyddom fod sgiliau'n dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer

becoming increasingly important for the success of individuals, business, our communities and society as a whole, and that is not due solely to their direct impact on the economic prospects of individuals. We know that the labour market is changing; since 2001, the number of highly-skilled jobs in Wales has increased, and we expect this trend to continue. We also know that there are potential social benefits to lifelong learning, such as the physical and mental health benefits that Eleanor outlined. We agree that skills are critical at all levels, and we welcome the opportunity to engage in the debate over how we should target and prioritise our investment to get the best out of them for the most people, and ensure that skills investment drives productivity and jobs. However, while I welcome the debate and believe that the proposal is well-intentioned, I have strong reasons to believe that it is inappropriate for Wales and for our policy agenda, and that it will fail to deliver value for money at a time when we must make every Welsh pound count. Therefore, we will oppose this proposal.

Given the way the proposal has been presented to Members, one might fairly conclude that it is a response more to funding policy and practice operating in England than to that here in Wales. In Wales, for example, it is not the case that Government provides no means of supporting those over 25 with their course or exam fees. Indeed, in Wales, we have only just completed a major consultation, under the title 'Investing in Skills', on a future fees policy for further and adult education, to which over 70 detailed responses were received. I published the consultation summary report in March.

Eleanor's proposal and the limited supporting information regrettably fail to acknowledge that consultation and the responses to it. Moreover, the proposal fails to resonate with the published views of most respondents on the issue of how best to target a future fees policy. The proposal we put forward begins, not with unnecessary give-aways, but with a commitment to target full Government

llwyddiant unigolion, busnesau, ein cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol, ac nid yr effaith uniongyrchol a gânt ar ragolygon economaidd unigolion yw'r unig beth sydd i gyfrif am hynny. Gwyddom fod y farchnad lafur yn newid; er 2001 mae nifer y swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau yng Nghymru wedi cynyddu, a disgwyliwn i'r duedd hon barhau. Gwyddom hefyd fod manteision cymdeithasol posibl mewn dysgu gydol oes, megis y manteision corfforol a'r manteision iechyd meddwl y mae Eleanor wedi'u hamlinellu. Yr ydym yn cytuno bod sgiliau'n hollbwysig ar bob lefel, a chroesawn y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl am y modd y dylem dargedu a blaenoriaethu ein buddsoddiad i wneud y gorau ohono i'r rhan fwyaf o bobl, a sicrhau bod buddsoddi mewn sgiliau'n sbarduno cynhyrchiant a swyddi. Fodd bynnag, er fy mod yn croesawu'r ddadl ac yn credu bod y bwriad y tu ôl i'r cynnig yn dda, mae gennyf resymau cryf dros gredu ei fod yn amhriodol i Gymru ac i'n hagenda ar bolisi, ac y bydd yn methu â rhoi gwerth yr arian ar adeg pan fo'n rhaid inni sicrhau bod pob punt Gymreig yn cyfrif. Felly, byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig hwn.

O gofio'r modd y mae'r cynnig wedi'i gyflwyno i Aelodau, gellid dod i'r casgliad yn deg ei fod yn ymateb mwy priodol i'r polisi a'r arfer cyllido sydd ar waith yn Lloegr na'r polisi a'r arfer yma yng Nghymru. Yng Nghymru, er enghraifft, nid yw'n wir nad yw'r Llywodraeth yn darparu modd i gynorthwyo pobl dros 25 oed gyda ffioedd eu cyrsiau neu'u harholiadau. Yn wir, yng Nghymru yr ydym newydd gwblhau ymgynghoriad sylweddol, dan y pennawd 'Buddsoddi mewn Sgiliau', ar bolisi ffioedd yn y dyfodol ar gyfer addysg bellach ac addysg oedolion, a chafwyd 70 o ymatebion manwl iddo. Cyhoeddais adroddiad cryno ynghylch yr ymgynghoriad ym mis Mawrth.

Gwaetha'r modd, nid yw cynnig Eleanor a'r wybodaeth ategol gyfyngedig yn cydnabod yr ymgynghoriad hwnnw a'r ymatebion a gafwyd iddo. At hynny, mae'r cynnig yn methu ag atseinio'r safbwyntiau a gyhoeddwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar y ffordd orau i dargedu polisi ffioedd yn y dyfodol. Mae'r cynnig yr ydym ni'n ei gyflwyno yn dechrau gydag ymrwymiad i

support on those individuals who we know most need that help, such as those who are out of work or on certain types of benefit. It will also be targeted on the types of learning, such as basic skills and apprenticeships, that we believe are a policy priority.

The consultation response showed strong support for such a targeted approach, and for the principle and necessity of sharing the responsibility for investment where it is appropriate to do so. Respondents, including employers, further education colleges, sector skills councils, training providers and other stakeholder organisations, were in broad agreement that a shared investment approach and the categories we put forward for full fee remittance represented a sensible policy direction. Eleanor referred to NIACE Dysgu Cymru, and its response to the consultation said,

‘We believe that any fees policy should seek to re-dress the balance between those who can afford to pay for learning and those who cannot’.

We have a positive and sustainable agenda for funding reform, which I would like to highlight. First, there is the evidence that the approach outlined by Eleanor would fail to offer value for money. The proposal comes to us with little detail and no costing. However, we have taken the opportunity to undertake some initial modelling, which suggests that it would cost an additional £12 million a year to support.

Also, we learn from the experience in England that employers, when given the opportunity to substitute Government funding for their own investment, will take full advantage of such unnecessary giveaways. It was for that reason that the National Audit Office report on Train to Gain noted that half of the employers who used the £1.5 billion service in England would have trained their staff anyway without public subsidy. To repeat such a policy in Wales would be to accept deadweight costs—in other words, it

dargeddu cymorth llawn gan y Llywodraeth at yr unigolion hynny y gwyddom fod arnynt angen yr help hwnnw fwyaf, fel pobl sy'n ddi-waith neu sy'n cael mathau penodol o fudd-daliadau, ac nid yw'n dechrau trwy ddsbarthu arian yn ddiangen. Caiff cymorth hefyd ei dargeddu at fathau o ddysgu, megis sgiliau sylfaenol a phrentisiaethau, sy'n flaenoriaeth polisi yn ein barn ni.

Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gref i ddull felly wedi ei dargeddu, ac i'r egwyddor o rannu cyfrifoldeb dros fuddsoddi a'r angen i wneud hynny, lle mae'n briodol. Yr oedd yr ymatebwyr, gan gynnwys cyflogwyr, colegau addysg bellach, cynghorau sgiliau sector, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau rhanddeiliaid eraill, yn cytuno ar y cyfan fod cydfuddsoddi, a'r categorïau a gyflwynwyd gennym ar gyfer taliadau ffioedd llawn, yn gyfeiriad polisi synhwyrol. Cyfeiriodd Eleanor at NIACE Dysgu Cymru, a ddywedodd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad,

Yr ydym yn credu y dylai unrhyw bolisi ar ffioedd geisio unioni'r fantol rhwng pobl sy'n gallu fforddio talu am ddysgu a phobl nad ydynt yn gallu fforddio hynny.

Mae gennym agenda gadarnhaol a chynaliadwy ar gyfer cyllido gwaith diwygio, a hoffwn dynnu sylw at yr agenda honno. Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth y byddai'r dull gweithredu a eglurwyd gan Eleanor yn methu â rhoi gwerth yr arian. Daw'r cynnig atom gydag ychydig fanylion a dim gwybodaeth am gostau. Fodd bynnag, yr ydym wedi cymryd y cyfle i wneud ychydig waith modelu cychwynnol, sy'n awgrymu y byddai'n costio £12 miliwn ychwanegol y flwyddyn i'w gynnal.

Yn ogystal, yr ydym yn dysgu o'r profiad yn Lloegr y bydd cyflogwyr, pan gânt gyfle i gyfnewid cyllid y Llywodraeth am eu buddsoddiad eu hunain, yn manteisio'n llawn o arian o'r fath a ddsberthir yn ddiangen. Dyna pam y dywedodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar 'Hyfforddi i Ennill' y byddai hanner y cyflogwyr a ddefnyddiodd y gwasanaeth gwerth £1.5 biliwn yn Lloegr wedi hyfforddi eu staff beth bynnag, heb gymhorthdal cyhoeddus. Byddai ailadrodd polisi o'r fath yng Nghymru yn

would substitute public investment for investment that might in any case be made by employers. It would be a major mistake to do that at any time, but particularly when public finances are under such pressure.

The proposal fails to recognise any distinction between learners of different employment or income status, or different types of learning. Skills have a key role in helping to improve individuals life chances and in creating opportunities for employment. We have only to look at the relationship between the employment rate and qualifications to see that link. Yet the focus of this proposal on level 3 qualifications ignores the fact that the greatest increase in the employment rate comes between those with no qualifications and those with a minimum of a level 1 qualification. Such evidence again supports the need for a more targeted approach to a fees and funding policy.

4.30 p.m.

The implication of this proposal is that once an adult has achieved, at any point in the past, they would no longer be eligible for support. What about the individual who achieved a level-3 equivalent qualification 20 years ago, but who now needs support to retrain and exploit new opportunities? Are we saying that that individual should receive no or less support from the Government than someone who is doing well in work, but wishes to pursue a leisure or lifestyle oriented course for pleasure?

People's circumstances and aspirations change, and I do not think that this proposal reflects the need to be flexible and responsive to real need when it arises. By committing to the full funding of tuition and certification costs for apprentices, by committing to full funding for basic and essential skills courses, and by developing a realistic and affordable approach, based on giving the most support to those who need it most, we believe that we are on the right trajectory for future success and sustainability. In other words, it is an

golygu derbyn costau di-fudd—hynny yw, byddai'n cyfnewid buddsoddiad cyhoeddus am fuddsoddiad a fyddai efallai'n cael ei wneud beth bynnag gan gyflogwyr. Byddai'n gamgymeriad mawr gwneud hynny unrhyw bryd, ond yn enwedig ag arian cyhoeddus dan gwmaint o bwysau.

Mae'r cynnig yn methu â chydabod dim gwahaniaeth rhwng dysgwyr o wahanol statws o ran cyflogaeth neu incwm, neu rhwng gwahanol fathau o ddysgu. Mae gan sgiliau rôl allweddol o ran helpu gwella cyfleoedd bywyd unigolion a chreu cyfleoedd cyflogaeth. Nid oes ond rhaid inni ystyried y berthynas rhwng y gyfradd cyflogaeth a chymwysterau i weld y cysylltiad hwnnw. Eto i gyd, mae ffocws y cynnig hwn ar gymwysterau lefel 3 yn anwybyddu'r ffaith fod y cynnydd mwyaf yn y gyfradd cyflogaeth yn digwydd rhwng pobl sydd heb gymwysterau a phobl sydd â chymhwyster lefel 1 o leiaf. Unwaith eto, mae tystiolaeth o'r fath yn cefnogi'r angen am ddull gweithredu sy'n targedu'n fwy penodol ar bolisi ffioedd a chyllid.

Goblygiad y cynnig hwn yw na fyddai oedolyn, ar ôl iddo lwyddo, rywbryd yn y gorffennol, yn gymwys mwyach i gael cymorth. Beth am yr unigolyn a enillodd gymhwyster cyfwerth â lefel 3 20 mlynedd yn ôl ond sydd ag angen cymorth arno'n awr i ailhyfforddi a manteisio ar gyfleoedd newydd? A ydym yn dweud na ddylai'r unigolyn hwnnw gael cymorth o gwbl, neu y dylai gael llai o gymorth gan y Llywodraeth na rhywun sy'n gwneud yn dda yn y gwaith, ond sy'n dymuno dilyn cwrs yn ymwneud â hamdden neu ffordd o fyw, er mwyn pleser?

Mae amgylchiadau a dyheadau pobl yn newid, ac ni chredaf fod y cynnig hwn yn adlewyrchu'r angen i fod yn hyblyg ac ymateb i angen go iawn pan fydd yn codi. Trwy ymrwymo i gyllido holl gostau dysgu ac ardystio prentisiaid, trwy ymrwymo i gyllido cyrsiau sgiliau sylfaenol a hanfodol yn llawn, a thrwy ddatblygu dull realistig a fforddiadwy o weithredu, yn seiliedig ar roi'r cymorth mwyaf i bobl sydd â'r angen mwyaf, credwn ein bod ar y llwybr cywir i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

approach shaped and informed through engagement with partners in Wales.

Eleanor argued that there may be advantages in these proposals for women in particular. We are keen to give support to women who wish to re-enter the workforce. I am pleased to remind Members that the Assembly is providing match funding of £4.3 million for the Agile Nation project run by Chwarae Teg over the next six years. We support a number of measures to enable women to gain the skills that they need to be successful in work. We have provided over £2.2 million-worth of support, for example, to help with childcare costs. We continue to recognise the success of women's skills in Wales, and it is the case that, against some measures, women fare better than their male counterparts. For instance, the analysis of the educational attainment of 19-year-olds shows that 50 per cent of women had achieved level 3, compared with 42 per cent of men.

Therefore, in developing our proposals, we have an approach that is fit for Wales, while what Eleanor is proposing is an approach that has already being declared unfit in England.

Paul Davies: Yr wyf yn falch o'r cyfle i gael cymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn hwn. Llongyfarchaf Eleanor Burnham am ddod â'r cynnig hwn ger ein bron.

Croesawaf y pwyntiau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynnig, a chytunaf y dylem dalu fwy o sylw i ddarpariaeth addysg i oedolion yng Nghymru yn y Siambr hon. Nod y cynnig am Fesur arfaethedig ynghylch addysg oedolion yw rhoi'r hawl i oedolion o oedran gweithio gael cyfle i ymgeisio am gymhwyster hyd at lefel 3 a sicrhau mai'r Llywodraeth a fyddai'n talu am yr ymgais gyntaf. Cymeradwyaf ymdrechion Eleanor i gefnogi ymgyrch i wella addysg i oedolion, ac yr wyf yn ymrwymedig i gefnogi addysg i oedolion yng Nghymru ac i ehangu mynediad i addysg i bobl o bob oedran.

Fel y disgwylir, yn gynnar yn y broses hon, bydd cynnig am Fesur arfaethedig yn naturiol

Hynny yw, mae'n ddull sydd wedi'i lunio a'i lywio trwy ymgysylltu â phartneriaid yng Nghymru.

Yr oedd Eleanor yn dadlau y gallai menywod yn arbennig elwa o'r cynigion hyn. Yr ydym yn awyddus i gefnogi menywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithlu. Mae'n bleser gennyf atgoffa Aelodau fod y Cynulliad yn rhoi arian cyfatebol gwerth £4.3 miliwn i'r prosiect Cenedl Hyblyg, sy'n cael ei redeg gan Chwarae Teg dros y chwe mlynedd nesaf. Yr ydym yn cefnogi nifer o fesurau i alluogi menywod i ennill y sgiliau y mae arnynt eu hangen i lwyddo yn y gwaith. Yr ydym wedi darparu gwerth dros £2.2 miliwn o gymorth, er enghraifft, i helpu gyda chostau gofal plant. Yr ydym yn parhau i gydnabod llwyddiant sgiliau menywod yng Nghymru, ac mae'n wir bod menywod yn gwneud yn well na dynion mewn rhai mesurau. Er enghraifft, mae'r dadansoddiad o gyraeddiad addysgol pobl ifanc 19 oed yn dangos bod 50 y cant o fenywod wedi cyrraedd lefel 3, o'u cymharu â 42 y cant o ddynion.

Felly, wrth ddatblygu ein cynigion, mae gennym ddull gweithredu sy'n addas i Gymru, ond mae'r hyn y mae Eleanor yn ei gynnig yn ddull gweithredu y datganwyd eisoes ei fod yn anaddas yn Lloegr.

Paul Davies: I am glad to have the opportunity to participate in this debate this afternoon. I congratulate Eleanor Burnham on introducing this proposal.

I welcome the points outlined in the proposal, and I agree that we should pay more attention to the provision of adult education in Wales in this Chamber. The aim of the proposal for a proposed Measure on adult education is to give adults of working age the right to aim for any qualification up to level 3 and to ensure that the Government would pay for the first attempt. I applaud Eleanor's attempts to support a campaign to improve adult education, and I am committed to supporting adult education in Wales and to improve access to education for people of all ages.

As one would expect this early in the process, a proposal for a proposed Measure naturally

codi llawer o gwestiynau a fydd yn cael eu trafod pan graffir arno gan bwyllgor deddfu, os caniateir iddo symud ymlaen ymhellach. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu sgiliau oedolion o oedran gweithio a gwella eu hasedau academig ac economaidd, yn enwedig mewn cyfnod economaidd anodd. Yr wyf yn siŵr y byddai Mesur arfaethedig o'r fath yn cefnogi llawer o weithwyr ac yn helpu i ddatblygu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fel yr ydym yn ymwybodol, mae niferoedd y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn bryder i lawer yng Nghymru, ac mae'n hanfodol ein bod yn taclo'r broblem honno.

Croesawaf y cynnig hwn am Fesur arfaethedig mewn egwyddor, a byddai cyflwyno Mesur arfaethedig o'r fath o fudd i economi Cymru yn y tymor hir, ond byddai cyflwyno'r fath Fesur arfaethedig yn y tymor byr yn anodd yn ariannol. Mae'n glir mai nod tymor hir y cynnig yw gwella sgiliau gweithwyr a fyddai'n sicr yn gwella sgiliau cyflogaeth ar draws sectorau eang. Mae addysg yn hanfodol i'n heconomi, ac mae cynnig o'r fath yn bwysig i gydnabod hynny. Fodd bynnag, gan y bydd cyllidebau ac adnoddau'r Llywodraeth o dan bwysau yn y blynyddoedd nesaf, yr wyf yn poeni sut y gellid cyflwyno Mesur arfaethedig o'r fath yn y tymor byr. Byddai'n hanfodol iddo gael ei ariannu'n briodol ac wrth ystyried bod gofyniadau ar y sectorau addysg uwch a phellach am arbedion effeithlonrwydd, byddai cael gafael ar arian ychwanegol yn anodd iawn. Mae perygl hefyd y gallai ariannu cynnig o'r fath olygu ailgyfeirio arian oddi wrth sefydliadau addysg uwch a phellach yn y tymor byr. Mewn cyfnod lle bo llawer o ddarparwyr addysg uwch ac addysg bellach yn cael eu gorfodi i wneud arbedion effeithlonrwydd neu doriadau, efallai y gallai Eleanor ddweud wrthym, yn ei hymateb, sut y byddai, mewn realiti, yn ariannu Mesur arfaethedig o'r fath, yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi dweud yn ystod y ddadl y gallai hyn gostio £12 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, nid wyf yn dweud y dylem beidio â chyflwyno Mesur arfaethedig o'r fath oherwydd cyfyngiadau ariannol yn unig, ond y mae'n amlwg na roddwyd ystyriaeth ariannol eto i'r cynnig hwn.

raises many questions that would be discussed during scrutiny by a legislation committee, if it was to be permitted to go forward. It is vital that we develop the skills of working-age adults and improve their educational and economic assets, especially in a difficult economic age. I am sure such a proposed Measure would support many workers and help develop opportunities to develop the skills of people who are not in education, employment or training. As we are aware, the number of people who are not in education, employment or training is of concern to many in Wales, and it is essential that we deal with that problem.

I welcome this proposal for a proposed Measure in principle, and introducing such a proposed measure would benefit the Welsh economy in the long term. However, the introduction of such a proposed Measure in the short term would be difficult financially. It is clear that the proposal's long-term aim is to improve the skills of workers, which would certainly improve employment skills across many sectors. Education is essential to our economy, and such a proposal is important in recognising that. However, as the Government's budgets and resources will be under pressure in the next few years, I am concerned how such a proposed Measure could be introduced in the short term. It would have to be funded appropriately and considering that the higher and further education sectors are required to make efficiency savings, obtaining extra money would be quite a challenge. There is also a danger that funding such a proposal could lead to redirecting funds from higher and further education institutions in the short term. At a time when many higher and further education providers are being forced to make efficiency savings or cuts, perhaps Eleanor can tell us in her response how, in reality, such a proposed Measure could be funded, especially since the Minister said during the debate that it could cost £12 million a year. However, I am not saying that we should not introduce such a proposed Measure solely because of financial restraints, but it is obvious that no financial consideration has yet been given to this proposal.

Tra ein bod oll yn cefnogi addysg i oedolion, mae'n rhaid inni ystyried y cynnig hwn yng nghyd-destun meysydd eraill y portffolio addysg sy'n wynebu pwysau ariannol. Nodaf, o'r wybodaeth a dderbyniwyd cyn y balot, na chynhaliwyd ymgynghoriad, ac felly, nid oes ymchwiliadau wedi'u cynnal i weld pa mor angenrheidiol fyddai Mesur arfaethedig o'r fath. O ganlyniad, ni wyddom eto pa fath o strwythurau a mecanweithiau y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi Mesur arfaethedig o'r fath.

Mewn egwyddor, credaf y byddai'r cynnig hwn sydd ger ein bron heddiw, yn bendant, o fudd i ddatblygu addysg i oedolion, ond y mae'n glir bod angen inni weld mwy o ymchwilio ac ymgynghori er mwyn gweld effaith y fath Fesur arfaethedig. Mae'n rhaid inni ddeall effaith ariannol Mesur arfaethedig o'r fath, ond derbyniam y gallai cyflwyno'r fath Fesur gael effaith bositif drwy leihau costau'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, er mwyn gweld craffu manylach ar y cynnig, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r cynnig hwn er mwyn gweld Mesur arfaethedig yn symud i Gyfnod 1 y broses ddeddfu. Edrychaf ymlaen at dderbyn awgrymiadau'r pwyllgor os caiff Eleanor yr hawl i symud ymlaen â'i chynnig i'r cyfnod hwnnw.

Yn olaf, hoffwn ddiolch a llongyfarch Eleanor ar ei chynnig, ac am dynnu sylw'r Cynulliad at y mater pwysig hwn o addysg i oedolion. Mawr obeithiaf y gwnaiff Aelodau eraill gefnogi'r cynnig oherwydd mae'n haeddu mwy o sylw, a gobeithiaf y gallwn drafod y mater eto yn hwyrach yn y broses.

Nerys Evans: Hoffwn longyfarch Eleanor ar ennill y balot er mwyn cyflwyno cynnig am Fesur arfaethedig. Fel rhywun sydd wedi bod drwy'r broses, wedi cael caniatâd y Cynulliad, wedi bod drwy'r broses graffu yn y pwyllgor, a chael y Gweinidog i dderbyn y polisi, gwerthfawrogaf y baich gwaith sydd ynghlwm â'r broses hon a phwysigrwydd cyflwyno Mesurau arfaethedig Aelod. Cawsoch gyfleoedd gwych i ddeddfu ar faterion pwysig iawn.

Although we all support adult education, we must consider this proposal in the context of other areas of the education portfolio which face financial pressures. I note, from the information received before the ballot, that no consultation has been held and, therefore, there has been no investigation to see how necessary such a proposed Measure would be. As a result, we do not yet know what sorts of structures and mechanisms would need to be implemented in order to support such a proposed Measure.

In principle, I believe the proposal before us today would help with the development of adult education, but it is clear that we need to see more research and consultation in order to see the effect that such a proposed Measure would have. We must understand the financial impact of such a proposed Measure, but I accept that the introduction of such a Measure could have a positive effect by lessening the costs of the health service and other public services. However, in order to enable further scrutiny of the proposal, the Welsh Conservatives will support this proposal to enable a proposed Measure to move to Stage 1 of the legislation process. I look forward to the committee's recommendations if Eleanor is given the right to proceed with her proposal to that stage.

Finally, I should like to thank Eleanor and congratulate her on her proposal, and for drawing the Assembly's attention to this important subject: adult education. I sincerely hope that other Members will support the proposal because it deserves more attention, and I hope we will be able to discuss the matter again later in the process.

Nerys Evans: I wish to congratulate Eleanor on winning the ballot to introduce a proposal for a proposed Measure. As one who has been through the process, had the permission of the Assembly, been through the committee scrutiny process, and got the Minister to accept the policy, I appreciate the workload associated with this process and the importance of introducing Member proposed Measures. You have had wonderful opportunities to legislate on very important matters.

Mae gennyf feddwl agored o ran y cynnig am Fesur arfaethedig ac yr wyf yn barod i wrando ar y ddadl a'ch ymatebion i rai pwyntiau sydd gennyf. Gwn fod hyn yn wir hefyd am nifer o Aelodau meinciau cefn Plaid Cymru.

Mae'r syniad y tu ôl i'r cynnig yn un clodwiw. Mae'n siŵr gennyf fod consensws clir bod angen cynyddu sgiliau gweithlu Cymru, ymestyn cyfleoedd dysgu, a chael gwared ar unrhyw rwystr ariannol neu rwystrau eraill i gael mynediad at addysg a hyfforddiant. Mae'n amlwg bod yr amcanion sylfaenol wrth galon cynnig Eleanor yn rhai a gefnogir. Codwyd gennych bwyntiau teilwng iawn ynglŷn â'r angen i roi cyfleoedd i bobl sydd heb gael cyfle yn y gorffennol i ennill cymwysterau safon uwch neu NVQ lefel 3—rhieni ifanc neu bobl sydd wedi gadael yr ysgol am wahanol resymau. Deallaf y pryderon a amlinellwyd gan y Gweinidog, er enghraifft yr angen i sicrhau fod cyflogwyr yn chwarae eu rhan o safbwynt cynyddu sgiliau'r gweithlu, a'u cyfrifoldeb hwy, yn hynny o beth, yw ariannu'r broses honno. Serch hynny, beth am y rheiny sydd heb waith—y rheiny nad ydynt yn y byd gwaith ar hyn o bryd? Credaf y byddai angen gwneud diffiniad clir mewn unrhyw Fesur arfaethedig rhwng y rhai sydd â gwaith a'r rheiny sy'n ddi-waith. Mae angen dirfawr i bolisi o'r fath fod yn fwy strategol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach wrth edrych ar y gyllideb sy'n wynebu'r Cynulliad, a'r 'savage cuts' a fyddai'n cael eu gwneud i gyllideb y Cynulliad yn ôl arweinydd eich plaid eich hun, Nick Clegg.

Fel yr amlinellodd y Gweinidog, mae strategaethau ar waith ar gyfer cynyddu sgiliau yn y gweithle, agor opsiynau hyfforddiant ac addysgu pobl Cymru. Felly, cyn penderfynu a wyf am gefnogi'r cynnig am Fesur, hoffwn glywed mwy gan Eleanor am y tair elfen bwysig hon: yr angen i fod yn fwy strategol, yr angen i weld sut y mae modd defnyddio'r amcanion teilwng hyn gyda'r toriadau llym i'r gyllideb bresennol, a sut y mae'r cynllun a osodwyd yn y cynnig yn cyd-fynd â pholisïau presennol Llywodraeth Cymru.

4.40 p.m.

I have an open mind regarding the proposal for a proposed Measure, and I am prepared to listen to the debate and your responses to some of my points. I know that is also true of several Plaid Cymru backbenchers.

The idea behind the proposal is commendable. I am sure there is clear consensus that there we need to increase the skills of the Welsh workforce, extend learning opportunities and get rid of any financial barriers or other barriers to access to education and training. It is obvious that the fundamental aims at the heart of Eleanor's proposal are aims to be supported. You raised valid points about the need to give people opportunities, those who have not had opportunities in the past, to gain A-level qualifications or NVQ level 3—young parents or people who have left school for various reasons. I understand the concerns outlined by the Minister, for example, the need to ensure that employers play their part in terms of upskilling their workforce, and in that it is their responsibility to fund that process. Despite that, what about those who are without work—those who are not in the workforce at the moment? I believe a clear definition would be needed in any proposed Measure of people who are employed and those who are not. There is much need for such a policy to be more strategic. This is even more important as we consider the budget facing the Assembly, and the savage cuts which would be made to the Assembly's budget according to the leader of your party, Nick Clegg.

As the Minister outlined, there are strategies in place to improve skills in the workplace, to open up training and education options for the people of Wales. Therefore, before deciding whether I will support this proposal for a Measure, I should like to hear more from Eleanor on these three important elements: the need to be more strategic, the need to see how these laudable aims can be achieved given the harsh cuts in the current budget, and how the scheme presented in the proposal aligns with existing Welsh Government policies.

Yr wyf yn deall mai'r cam cyntaf yw hwn a'n bod yn trafod yr egwyddorion sylfaenol heddiw. Yn fy mhrofiad i gyda fy Mesur arfaethedig Aelod, yr oedd sawl peth wedi newid ac wedi cael llawer mwy o sylw wrth inni graffu arnynt, a gwneuthum un neu ddau o newidiadau i'r Mesur arfaethedig. Felly, deallaf fod posibilrwydd i chi edrych ar y pwyntiau hyn yn y dyfodol.

Hoffwn gloi drwy longyfarch Eleanor a diolch iddi am gyflwyno'r cynnig hwn am Fesur heddiw. Yr ydych wedi codi sawl pwynt pwysig, ac yr wyf yn deall mai trafod yr egwyddor yr ydym heddiw. Edrychaf ymlaen at glywed eich ymateb i'r pwyntiau hynny.

Eleanor Burnham: Hoffwn ddiolch i Paul a Nerys am eu cefnogaeth sylfaenol mewn egwyddor. Mae'n gynnar yn y broses. Diolch eto i Nerys, a oedd yn eithaf llwyddiannus ar hyd y ffordd, gan ei bod yn dallt y dalltings, fel petai.

I do worry that the Minister was slightly smug. Everything is hunky-dory in his fantasy land: all educational prospects are fantastic for everyone, and he has managed to save the world in one breath.

The private sector in Wales needs beefing up. The CBI and other bodies, and all kinds of academics, tell us that we are very reliant on Government jobs in Wales and that the private sector is rather fragile. My proposal is not only justified by training, but the other NIACE statistics that I used, which referred to the fact that adults who participate in learning are 14 per cent more likely to give up smoking. You could therefore balance the costs against the £215 million that it is estimated that smoking costs the NHS. I also mentioned men who do not have any qualifications, 50 per cent of whom are likely to become obese, which costs £50 million to the NHS in Wales. I also mentioned that adult education contributes to improved wellbeing and mental health and reduces the risk of depression by 15 per cent. It therefore contributes a certain amount towards the huge cost of mental health to the NHS.

I understand that this is just the first step and that we are discussing the basic elements today. In my experience with my Member proposed Measure, many things had changed and were given much more attention as they were scrutinised, and I made one or two changes to the proposed Measure. Therefore, I understand that there is a possibility that you will consider these points in future.

I wish to close by congratulating Eleanor and thanking her for introducing this proposal for a Measure today. You have raised several important points, and I understand that we are discussing the principle today. I look forward to hearing your response to those points.

Eleanor Burnham: I wish to thank Paul and Nerys for their initial support in principle. It is still early in the process. I thank Nerys again, who was quite successful on her journey, since she understands the ins and outs of it, as it were.

Yr wyf yn gofidio bod y Gweinidog ychydig yn hunangyfiawn. Mae popeth yn fendigedig yn ei fyd ffantasi: mae gan bawb ragolygon addysgol ardderchog, ac mae wedi llwyddo i achub y byd ar un anadl.

Mae angen cryfhau'r sector preifat yng Nghymru. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a chyrrff eraill, a phob math o academyddion, yn dweud wrthym ein bod yn ddibynnol iawn ar swyddi Llywodraeth yng Nghymru, a bod y sector preifat braidd yn fregus. Nid hyfforddiant yw'r unig gyfiawnhad dros fy nghynnig, oherwydd caiff ei gyfiawnhau hefyd gan yr ystadegau NIACE eraill a ddefnyddiais, a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod oedolion sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu 14 y cant yn fwy tebygol o roi'r gorau i ysmegu. Felly, gallai costau'r cynnig gael eu gwrthbwysio gan y £215 miliwn yr amcangyfrifir y mae ysmegu'n ei gostio i'r GIG. Soniais hefyd am ddynion nad oes ganddynt ddim cymwysterau, ac y mae 50 y cant ohonynt yn debygol o fynd yn ordew, sy'n costio £50 miliwn i'r GIG yng Nghymru. Soniais hefyd fod addysg oedolion yn cyfrannu at wella lles ac iechyd meddwl ac yn lleihau risg iselder ysbryd 15 y cant. Mae'n cyfrannu rhywfaint at gost enfawr iechyd meddwl i'r GIG.

Leighton Andrews: You referred again to NIACE Dysgu Cymru. The reality is that in its response to our consultation, 'Investing in Skills', it said that it believe that any fees policy should seek to redress the balance between those who can afford to pay for learning and those who cannot. Your proposal for a Measure does not do that. NIACE Dysgu Cymru has laid down the need to prioritise spend on adult education, and that is why we are opposing your proposal today.

Eleanor Burnham: I understand that, but all in the garden is not well and not all the flowers are blooming. We are in a difficult time. I realise that there will be cuts. I cannot give you the costings at the moment because, as Nerys pointed out, these are early days. As we move along, if I get past the first hurdle and you choose to be generous to a backbencher, I believe that I could prove to you that it is possible within our financial constraints.

I worry that we are not doing enough for the people who Nerys alluded to, that is, people who are coming back to education. The Minister mentioned that people in training should be trained by the private sector, and that that is all under his umbrella. However, I am not dealing with only those kinds of people. I do not have the statistics to hand, but a percentage of people are returning to the workplace for whatever reason. I think that I mentioned some of those reasons. They do not just relate to parenthood; some people have illnesses, and they have changes circumstances that mean that they cannot continue in education. I do believe, Minister, that you should give me the opportunity to bring forward a proposed Measure.

Let us have a rational debate and let us look in some depth at the fact that you believe that everything that you are doing is brilliant and that everything is okay, because it is not. If it were, I would not have suggested this proposal for a Measure. I do believe that there are issues that we have not addressed, and if we can progress beyond this stage, I could bring the costings to you and I could

Leighton Andrews: Yr oeddech yn cyfeirio unwaith yn rhagor at NIACE Dysgu Cymru. Y gwir yw fod y sefydliad wedi dweud, yn ei ymateb i'n hymgyngoriad, 'Buddsoddi mewn Sgiliau', ei fod yn credu y dylai unrhyw bolisi ffioedd geisio unioni'r fantol rhwng pobl sy'n gallu fforddio talu am ddysgu a phobl sy'n methu. Nid yw eich cynnig ar gyfer Mesur yn gwneud hynny. Mae NIACE Dysgu Cymru wedi pennu bod angen blaenoriaethu gwariant ar addysg oedolion, a dyna pam yr ydym yn gwrthwynebu eich cynnig heddiw.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn deall hynny, ond nid yw popeth yn llwyddo ac nid yw popeth yn llewyrchus. Yr ydym mewn cyfnod anodd. Yr wyf yn sylweddoli y bydd toriadau. Ni allaf roi'r costau ichi ar hyn o bryd oherwydd, fel y soniodd Nerys, megis dechrau yr ydym. Wrth inni symud ymlaen, os llwyddaf i oresgyn y rhwystr cyntaf ac os dewiswch fod yn hael wrth aelod o'r meinciau cefn, credaf y gallwn brofi ichi fod y cyfan yn bosibl o fewn ein cyfyngiadau ariannol.

Yr wyf yn poeni nad ydym yn gwneud digon dros y bobl y cyfeiriodd Nerys atynt, sef y bobl sy'n dod yn ôl i fyd addysg. Soniodd y Gweinidog y dylai pobl sy'n cael hyfforddiant gael eu hyfforddi yn y sector preifat, a bod y cyfan yn perthyn i'w faes ef. Fodd bynnag, nid am y mathau hynny o bobl yn unig yr wyf yn sôn. Nid yw'r ystadegau gennyf wrth law, ond mae canran o bobl yn dychwelyd i'r gweithle am ba bynnag reswm. Credaf imi sôn am rai o'r rhesymau hynny. Nid mater o fod yn rhiant yn unig yw hyn; mae gan rai pobl afiechydon ac mae eu hamgylchiadau'n newid, sy'n golygu na allant barhau mewn addysg. Credaf, Weinidog, y dylech roi'r cyfle imi gyflwyno Mesur arfaethedig.

Gadewch inni gael dadl resymegol, a gadewch inni edrych yn fanwl ar y ffaith eich bod yn credu bod popeth a wnewch yn wych a bod popeth yn iawn, oherwydd nid yw hynny'n wir. Pe bai hynny'n wir, ni fyddwn wedi awgrymu'r cynnig hwn ar gyfer Mesur. Credaf fod yna broblemau nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy, ac os bydd modd inni symud ymlaen y tu hwnt i'r cam hwn, gallwn

prove to you that such a proposed Measure would be worthy of the Assembly's time and commitment.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is an objection. In that case, I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

gyflwyno'r costau ichi a phrofi ichi y byddai Mesur arfaethedig o'r fath yn haeddu amser ac ymrwymiad y Cynulliad.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno'r cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Diweithdra yng Nghymru Unemployment in Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 in the name of Jane Hutt.

Jenny Randerson: I move that

the National Assembly for Wales:

regrets the latest rise in unemployment in Wales. (NDM4460)

There was an almost surreal moment in the Assembly last week when Rhodri Morgan stood up to congratulate the First Minister on the wonderful employment results that had come out and to comment on how improved the employment situation was in Wales. I have to say that he was so persuasive—and here I am, an experienced politician—that I looked again at the statistics on the Office for National Statistics website in case I had badly misinterpreted them. However, it turned out that it was not I who had misinterpreted them, but Plaid Cymru. They had issued an erroneous press release and had congratulated the First Minister on a drop of 10,000 in unemployment. I do not know whether the ex-First Minister, Rhodri Morgan, misread the figures or whether it was a supreme effort at spin. Whatever it was, it did not do the National Assembly for Wales or the Government any good at all.

One important thing about Government is

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

Jenny Randerson: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn gresynu wrth y cynnydd diweddaraf mewn diweithdra yng Nghymru. (NDM4460)

Cafwyd moment swrealiaidd bron yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf pan safodd Rhodri Morgan i longyfarch y Prif Weinidog ar y canlyniadau rhagorol a oedd wedi'u cyhoeddi am gyflogaeth, a nodi cymaint gwell oedd y sefyllfa o ran cyflogaeth yng Nghymru. Rhaid imi ddweud ei fod yn swnio mor ddarbwyllol—a finnau'n wleidydd profiadol—nes imi ailedrych ar yr ystadegau ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol rhag ofn imi eu camddechongli'n ddifrifol. Fodd bynnag, gwelais nad fi oedd wedi eu camddechongli, ond Plaid Cymru. Yr oeddent wedi cyhoeddi datganiad gwallus i'r wasg ac wedi llongyfarch y Prif Weinidog ar ostyngiad o 10,000 mewn diweithdra. Ni wn a oedd y cyn-Brif Weinidog, Rhodri Morgan, wedi camddarllen y ffigurau, ynteu ai ymdrech fawr ydoedd i roi golwg gadarnhaol ar bethau. Beth bynnag ydoedd, ni wnaeth ddim daioni i Gynulliad Cenedlaethol Cymru na'r Llywodraeth.

Un peth pwysig am Lywodraeth yw ei bod yn

that it must admit when things are not good and stand up and be counted when there is a problem. You will never solve a problem unless you admit that there is one. It does not convince the people of Wales one jot—especially in the middle of an election campaign—to pretend that there is no problem when 10,000 more people in Wales are unemployed than when the last statistics came out. We are talking about 10,000 lives.

I fully accept that the Deputy First Minister had a very good idea in setting up the economic summits. Those economic summits produced some good outcomes. It was an extremely good idea to involve businesses in the day-to-day response to the recession when it was at crisis point. Speeding up the time that it took for the Welsh Assembly Government and for local authorities to pay its suppliers was an extremely good idea, which clearly had an effect. Freeing up public land for affordable housing was also a good idea and I hope that that has also had an effect. However, ProAct, despite being a good idea, has been oversold by its initiators. Although it is a good idea, it is a modest, good idea. It is patchy, cumbersome and, in some areas, has helped few people. For example, in Monmouthshire, it has helped 88 people, in the Vale of Glamorgan, 34 people, in Ceredigion, eight people, and, in Conway, seven people. That is hardly the solution to the economic crisis. The idea and its contribution to the economy has been blown out of all proportion.

Brian Gibbons: You will be aware, Jenny—and I am sure that the Deputy First Minister will make this point—that those areas most likely to avail themselves of the ProAct scheme are those most likely to be in the eye of the recession. Do you have figures for the number of people who have benefited from ProAct in my constituency?

4.50 p.m.

Jenny Randerson: Yes, that is 1,195. However, to move on, I point out that 34 people have been helped in the Vale of Glamorgan, but that includes Barry, which I

rhaid iddi gyfaddef pan nad yw pethau'n dda, a dweud pan fydd problem. Ni lwyddwch byth i ddatrys problem oni chyfaddefwch fod yna broblem. Ni fydd honni nad oes problem, a 10,000 yn rhagor o bobl yn ddi-waith yng Nghymru na phan gyhoeddwyd yr ystadegau diwethaf, yn argyhoeddi pobl Cymru o gwbl—yn enwedig ynghanol ymgyrch etholiadol. Yr ydym yn sôn am 10,000 o fywydau.

Derbyniaf yn llawn fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cael syniad da iawn wrth sefydlu'r uwchgynadledau economaidd. Cynhyrchodd yr uwchgynadledau economaidd hynny rai canlyniadau da. Yr oedd yn syniad eithriadol o dda cynnwys busnesau yn yr ymateb i'r dirwasgiad o ddydd i ddydd, pan oedd mewn argyfwng. Yr oedd cyflymu'r amser a gymerai i Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol dalu eu cyflenwyr yn syniad eithriadol o dda, a chafodd effaith, mae'n amlwg. Yr oedd rhyddhau tir cyhoeddus ar gyfer tai fforddiadwy hefyd yn syniad da, a gobeithio bod hynny wedi cael effaith yn ogystal. Fodd bynnag, er bod ProAct yn syniad da, mae wedi cael ei orwerthu gan y sawl a'i cyflwynodd. Er ei fod yn syniad da, mae'n syniad da cyffredin. Mae'n fylchog ac yn feichus, ac ychydig o bobl y mae wedi eu helpu mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, yn Sir Fynwy mae wedi helpu 88 o bobl, yn Mro Morgannwg 34 o bobl, yng Ngheredigion wyth o bobl, ac yng Nghonwy saith o bobl. Go brin mai dyna'r ateb i'r argyfwng economaidd. Mae môr a mynydd wedi'i wneud o'r syniad a'i gyfraniad i'r economi.

Brian Gibbons: Byddwch yn ymwybodol, Jenny—ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff y Dirprwy Brif Weinidog y pwynt hwn—mai'r ardaloedd sydd fwyaf tebygol o fanteisio ar gynllun ProAct yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn llygad y dirwasgiad. A oes gennych ffigurau ar gyfer nifer y bobl sydd wedi cael budd o ProAct yn fy etholaeth i?

Jenny Randerson: Oes, 1,195. Fodd bynnag, i symud ymlaen, hoffwn dynnu sylw at y ffaith fod 34 o bobl wedi cael help ym Mro Morgannwg, ond mae hynny'n cynnwys y

would class as being very much in the eye of the economic storm. Barry has suffered economically, so that is not a measure of the prosperity of an area.

I want to move on to discuss how unemployment has affected us across Wales. First, I want to pause to consider Cardiff, because it is always held up as an area of great prosperity, but, for example, one part of Cardiff, Ely, has male unemployment levels of 13.5 per cent. Cardiff has an overall unemployment figure of 4.6 per cent, which is higher than the Welsh average. It is nowhere near as high as Blaenau Gwent, for example, but it is still higher than the Welsh average. Therefore, even our capital city is suffering badly from unemployment. Over the past few years, the unemployment level in Wales has gone from being well below the UK average, to now being well above the UK average.

I also want to draw attention to young people. I have very real and serious concerns about the latest statistics for people who are unfortunately called 'NEETs'—those not in education, employment or training. Among 16 to 18-year-olds, the figure for NEETs is 12 per cent, which has increased 2 per cent since 2006, despite the fact that I am well aware that the Government has strategies to reduce that number. Among 19 to 24-year-olds, the figure is 17 per cent. Fortunately, that figure is down 1 per cent since 2006. Nevertheless, 17 per cent is nearly one in five. It is far too high for us to feel satisfied or comfortable as a society.

I am well aware that the Government here does not hold all the levers of power; it holds far fewer than I would like it to. I want the Assembly to have powers over taxation, powers to create enterprise zones, and far greater powers to stimulate our economy. However, the problem is that the recession has led Wales to go from being a poor society with low levels of skills and wages, to one having even lower levels of employment, wages and competitiveness. Remember the competitiveness index published a few weeks ago by the University of Wales Institute,

Barri, a byddwn i'n dweud bod y Barri yn llygad y ddrycin economaidd. Mae wedi dioddef yn economaidd, felly, nid yw hynny'n fesur o ffyniant ardal.

Yr wyf am symud ymlaen i drafod sut mae diweithdra wedi effeithio arnom ledled Cymru. Yn gyntaf, yr wyf am oedi i ystyried Caerdydd, oherwydd sonnir bob amser ei bod yn ardal lewyrchus iawn, ond, er enghraifft, mae lefelau diweithdra ymhlith dynion mewn un rhan o Gaerdydd, sef Trelái, yn 13.5 y cant. Mae gan Gaerdydd ffigur diweithdra cyffredinol o 4.6 y cant, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Nid yw mor uchel o bell ffordd â Blaenau Gwent, er enghraifft, ond mae'n dal yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly, mae hyd yn oed ein prifddinas yn dioddef yn wael o ddiweithdra. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae lefel diweithdra yng Nghymru wedi newid o fod ymhell islaw cyfartaledd y DU i fod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yn awr.

Yr wyf hefyd am dynnu sylw at bobl ifanc. Yr wyf yn pryderu'n wirioneddol ac yn ddifrifol iawn am yr ystadegau diweddaraf am y bobl a elwir yn anffodus yn bobl 'NEET'—pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ymhlith y bobl ifanc hynny rhwng 16 a 18 oed mae 12 y cant yn bobl ifanc NEET, sy'n gynnydd o 2 y cant er 2006, er gwaetha'r ffaith fy mod yn ymwybodol iawn fod gan y Llywodraeth strategaethau i leihau'r nifer hwnnw. Ymhlith y bobl ifanc hynny rhwng 19 a 24 oed, 17 y cant yw'r ffigur. Yn ffodus, mae'r ffigur hwnnw 1 y cant yn llai er 2006. Er hynny, mae 17 y cant bron yn un o bob pump. Mae'n rhy uchel o lawer inni deimlo'n fodlon neu'n gyfforddus fel cymdeithas.

Yr wyf yn ymwybodol iawn nad yw'r holl bwerau gan y Llywodraeth yn y fan hon; mae ganddi lai o lawer o bwerau nag a hoffwn. Yr wyf am i'r Cynulliad gael pwerau dros drethi, pwerau i greu ardaloedd menter, a phwerau mwy o lawer i sbarduno ein heconomi. Fodd bynnag, y broblem yw bod y dirwasgiad wedi arwain Cymru o fod yn gymdeithas dlawd gyda lefelau isel o sgiliau a chyflogau, i fod yn gymdeithas gyda lefelau is fyth o gyflogaeth, cyflogau a chystadleurwydd. A ydych yn cofio'r mynegai cystadleurwydd a gyhoeddwyd ychydig wythnosau'n ôl gan

Cardiff. It is a national index that showed that we were absolutely at the bottom of all the nations and regions of the UK. We have fallen to twelfth place from eleventh place. We have been overtaken during the last couple of years. That shows that what the Government has been doing has not worked.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

2. ond yn nodi bod ystadegau diweddaraf y farchnad lafur yn dynodi gostyngiad yn nifer y sawl sy'n hawlio budd-dâl; a

3. yn croesawu'r camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys ProAct, i ddiogelu swyddi yng Nghymru, ac yn edrych ymlaen at gynigion pellach mewn perthynas â chyflogaeth yn ei rhaglen i adnewyddu'r economi.

Gareth Jones: Mae'n amlwg iawn, erbyn hyn, fod yr hinsawdd economaidd bresennol yn wael—y gwaethaf ers cenedlaethau—ac y mae wedi clwyfo cymunedau ar hyd a lled Cymru. Ym Mhlaid Cymru, yr ydym yn deall y poen sy'n dod o ganlyniad i gollu swyddi, gyda phrisiau tanwydd uchel ac ansicrwydd wrth edrych i'r dyfodol.

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol wedi dod o ganlyniad i'r chwalfa yn y sector ariannol bydol wedi methiant llwyr y trefniadau rheoleiddio a Llywodraethau i sylweddoli nid yn unig sut y digwyddodd, ond hefyd ei gyflymdra a'i raddfa. Deilliodd yr argyfwng hwn o fodel globaleiddio a roes ormod o rym i gorfforaethau a dim digon o warchodaeth i weithwyr a defnyddwyr. Yr oedd fframwaith rheoleiddio gwan yn y system bancio ar y naill ochr a'r llall i'r Iwerydd hefyd yn ddiamau yn rhan sylweddol o'r broblem.

Un o'r sialensiau mwyaf sydd yn ein hwynebu yng Nghymru yw diweithdra ymysg yr ifanc, fel y cyfeiriodd Jenny ato, sef pobl rhwng 16 a 24 oed sy'n canfod eu hunain allan o waith ac yn methu â dod o hyd

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd? Mae'n fynegai cenedlaethol a ddangosai ein bod yn is na phob gwlad a rhanbarth arall yn y DU. Yr ydym wedi disgyn o'r unfed safle ar ddeg i'r deuddegfed safle. Yr ydym wedi cael ein goddiweddyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hynny'n dangos nad yw'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ei wneud wedi gweithio.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Add as new points at the end of the motion:

2. notes, however, that the latest labour market statistics indicate a reduction in the claimant count; and

3. welcomes the Welsh Assembly Government's actions, including ProAct, to safeguard jobs in Wales, and looks forward to further proposals relating to employment within its economic renewal programme.

Gareth Jones: It is now clear that the current economic climate is poor—the worst for generations—and has harmed communities across Wales. In Plaid Cymru, we understand the pain caused by job losses, added to high fuel costs and uncertainty in facing the future.

The current economic situation is the result of the collapse of the global financial sector following utter failure in regulation and Government failure to understand how it happened and its speed and gravity. This crisis stemmed from a globalisation model which put too much power in the hands of corporations and not enough in the hands of workers and users. The weak regulatory framework in the banking system on both sides of the Atlantic undoubtedly was also a significant part of the problem.

One of the biggest challenges facing us in Wales is unemployment among young people, as Jenny mentioned, namely people between the ages of 16 and 24 who find themselves out of work and unable to find

i swydd newydd. Canmolaf Llywodraeth Cymru'n Un am gymryd camau pwysig yn y maes hwn yn ddiweddar. Yn gynharach yn y flwyddyn hon pan gyfarfu'r uwchgynhadledd economaidd, addawodd ein Llywodraeth £49 miliwn o arian newydd i roi help i bobl rhwng 16 a 24 oed i gael dyfodol gwell drwy greu mwy o gyfleoedd hyfforddiant.

The additional investment of £49 million during this year will fund education and training places, the Young Person's Guarantee, extra funding for student finance, the continuation of Pathways to Apprenticeships, and the young recruits programmes for another year. The funding will also be used to keep SkillBuild and ReAct working for Wales.

I acknowledge the positive impact that the Assembly Government's intervention has had on the communities, businesses and families that have endured this recession. Under the decisive leadership of Ieuan Wyn Jones, action has been taken to weather the financial storm. The ProAct and ReAct schemes have been warmly welcomed by the business community and the trade union movement alike. These schemes continue to protect jobs and help businesses. The decision of the Assembly Government to intervene and to reject the free-market-knows-best, laissez-faire approach is in clear contrast with the policy of our opponents. There are some who think that Welsh jobs and businesses should be put at risk by not intervening, by sitting back and doing nothing. That is not the responsible approach of a responsible Government.

There are those, too—

David Melding: Quite right.

Gareth Jones: Sorry, do I hear an intervention? You agree with that, do you? Well done.

There are those, too, who, during this fragile period in our economy, wish to slash and burn public spending immediately. They wish to jeopardise this fragile recovery by slashing billions during this financial year, an action that will have a devastating impact on

new jobs. I praise the One Wales Government for taking important steps in this area recently. Earlier this year, when the economic summit met, our Government pledged £49 million in new funding to assist people aged between 16 and 24 to access a better future by providing more training opportunities.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol o £49 miliwn yn ystod eleni yn ariannu lleoedd addysg a hyfforddiant, y Gwarant i Bobl Ifanc, arian ychwanegol ar gyfer cyllid myfyrwyr, parhad Llwybrau at Brentisiaethau, a'r rhaglenni recriwtiaid newydd, am flwyddyn arall. Bydd yr arian hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod Adeiladu Sgiliau a ReAct yn dal i weithio i Gymru.

Yr wyf yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae ymyriad Llywodraeth y Cynulliad wedi'i chael ar y cymunedau, y busnesau a'r teuluoedd sydd wedi goddef y dirwasgiad hwn. Dan arweinyddiaeth gadarn Ieuan Wyn Jones mae camau gweithredu wedi eu cymryd i ddod drwy'r storm ariannol. Mae'r gymuned fusnes a'r mudiad undebau llafur wedi rhoi croeso cynnes i gynlluniau ProAct a ReAct. Mae'r cynlluniau hynny'n parhau i ddiogelu swyddi a helpu busnesau. Mae penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i ymyrryd a gwrthod yr agwedd laissez-faire, mai'r farchnad rydd a w'yr orau, yn hollol wahanol i bolisi ein gwrthwynebwyr. Mae rhai pobl yn credu y dylai swyddi a busnesau Cymru gael eu peryglu drwy beidio ag ymyrryd, drwy eistedd yn ôl a gwneud dim. Nid agwedd gyfrifol Llywodraeth gyfrifol yw agwedd o'r fath.

Yn ogystal, mae'r rheini—

David Melding: Yn union.

Gareth Jones: Mae'n ddrwg gennyf, a wyf yn clywed ymyriad? Yr ydych yn cytuno â hynny, ydych chi? Da iawn.

Yn ogystal, mae'r sy'n dymuno torri gwariant cyhoeddus yn syth, yn ystod y cyfnod bregus hwn yn ein heconomi. Maent am beryglu'r adferiad bregus hwn drwy dorri biliynau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, sy'n gam gweithredu a gaiff effaith

communities across Wales and could plunge us back into negative growth, putting further jobs at risk. As Jeremy Paxman learned this week—and he needed to be educated—you cannot slash and burn your way to prosperity.

Plaid Cymru believes that our objective must be to create the conditions that mean that we can achieve and maintain an adequate standard of living and economic wellbeing for all the people of Wales in every part of Wales. We want to ensure that every young person in Wales has the prospect of securing a reasonable choice of job within their community, has access to affordable housing, and has a wide-ranging choice of career opportunities within our country. That is why the One Wales Government is implementing programmes now to encourage the acquisition of new skills, programmes such as the green jobs strategy that will result in the delivery of real support and job creation.

To achieve our aims, the Welsh economy must emerge from this recession in a strengthened and more viable position, allowing it to compete more effectively. The Rowlands review, while acknowledging the need for a vibrant small and medium-sized enterprise sector, highlighted a lack of provision for companies looking for between £2 million and £10 million in capital.

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up.

Gareth Jones: I will conclude with this point.

That is why we, as a party, call for the establishment of a venture capital fund for Wales, which could raise capital and deliver investment through a co-investment model with approved private sector partners. It is with that vision and with continued determination that we can ensure that Wales becomes more enterprising and that a sustainable level of economic growth can be achieved.

The Deputy Presiding Officer: I remind speakers that they are all going over the five minutes of allocated time. I have a long list of

ddinistriol ar gymunedau ledled Cymru, ac a allai ein hyrddio'n ôl i dwf negyddol, gan beryglu mwy o swyddi. Fel y dysgodd Jeremy Paxman yr wythnos hon—ac yr oedd angen ei addysgu—ni allwch sicrhau ffyniant drwy dorri ar wariant.

Ym marn Plaid Cymru rhaid gosod ein hamcan fel creu'r amodau sy'n golygu y gallwn gyrraedd a chynnal safon byw a lles economaidd digonol ar gyfer holl bobl Cymru ym mhob rhan o Gymru. Yr ydym am sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru obaith o gael dewis rhesymol o swyddi yn eu cymuned, mynediad i dai fforddiadwy, a dewis eang o gyfleoedd o ran gyrfa yn ein gwlad. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru'n Un yn gweithredu rhaglenni'n awr i annog pobl i ddysgu sgiliau newydd, rhaglenni megis y strategaeth swyddi gwyrdd a fydd yn arwain at ddarparu cymorth go iawn a chreu swyddi.

I gyrraedd ein nodau, rhaid i economi Cymru ddod allan o'r dirwasgiad hwn mewn sefyllfa gryfach a mwy dichonadwy, a fydd yn caniatáu iddi gystadlu'n fwy effeithiol. Er bod adolygiad Rowlands yn cydnabod bod angen sector busnesau bach a chanolig eu maint sy'n fywiog, tynnodd sylw at ddiffyg darpariaeth ar gyfer cwmnïau sy'n chwilio am rhwng £2 filiwn a £10 miliwn mewn cyfalaf.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi derfynu.

Gareth Jones: Hoffwn gloi gyda'r pwynt hwn.

Dyna pam yr ydym ni, fel plaid, yn galw am sefydlu cronfa cyfalaf menter i Gymru, a allai godi cyfalaf a darparu buddsoddiad drwy fodel cydfuddsoddi â phartneriaid cymeradwy o'r sector preifat. Gyda'r weledigaeth honno ynghyd ag agwedd benderfynol barhaus, gallwn sicrhau bod Cymru yn dod yn fwy mentrus ac y gellir sicrhau lefel gynaliadwy o dwf economaidd.

Y Dirprwy Lywydd: Hoffwn atgoffa'r siaradwyr eu bod i gyd yn mynd dros yr amser a glustnodwyd, sef pum munud. Mae

speakers, so please keep to five minutes. I call David Melding.

5.00 p.m.

David Melding: Unemployment is by far the worst effect of a recession. It is important for politicians to restate that, and I believe that everyone in the Chamber would agree with that. I am grateful to the Liberal Democrats for bringing forward this debate, because it is being held at an apposite time as we enter the last week of a general election campaign. The work to ameliorate unemployment is shared between what WAG can do here and what is done in Westminster. I say to Gareth Jones that he persists in a parody that any member of the Conservative Party is a believer in absolute free-market forces that are never mitigated against in which we advance unprotected. It is a bit like saying that the weather is the weather, but you cannot wear clothes, have an umbrella or build a shelter: you can do nothing to mitigate what are the sometimes ferocious forces that are out there. No sensible Conservative has ever advanced such a view. It is completely preposterous. I know of no Conservative Government that has not acted to promote a mixed economy. They have made all sorts of economic interventions. You need to go back to the drawing board with your lines of attack, Gareth. I am sure that there are differences between us that can be effectively pursued, but that we somehow believe that there is a notional force out there called the free market to which we can do nothing is arrant nonsense.

I share Jenny Randerson's dismay that, whatever we think about the Welsh Assembly Government, it was the case that, until 18 months ago, Wales had a lower rate of unemployment than the UK average. That was a considerable advance on our situation 10 or 20 years ago and shows that the work that was done after the 1980s recession to make the Welsh economy more resilient, as well as action taken by others, bore some fruit. I do not want to lay a claim on behalf of the Conservative Party to all the things that

gennyf restr hir o siaradwyr, felly cadwch at bum munud, os gwelwch yn dda. Galwaf ar David Melding.

David Melding: Diweithdra yw effaith waethaf dirwasgiad o bell ffordd. Mae'n bwysig i wleidyddion ailadrodd hynny, a chredaf y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno â hynny. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl hon, oherwydd caiff ei chynnal ar adeg addas, ar ddechrau wythnos olaf ymgyrch ar gyfer etholiad cyffredinol. Caiff y gwaith o ostwng diweithdra ei rannu rhwng yr hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud yma a'r hyn sy'n cael ei wneud yn San Steffan. Dywedaf wrth Gareth Jones ei fod yn glynu wrth barodi bod pob aelod o'r Blaid Geidwadol yn credu yng ngrymoedd absoliwt y farchnad rydd, na chymerir camau byth i'w lliniaru, a lle'r awn yn ein blaen yn ddiameddiffyn. Mae bron yr un fath â dweud mai'r tywydd yw'r tywydd, ac na allwch wisgo dillad, cario ymbarél nac adeiladu lloches: ni allwch wneud dim i liniaru'r grymoedd sy'n bodoli, sydd weithiau'n ffyrnig. Nid oes yr un Ceidwadwr synhwyrol wedi hyrwyddo safbwynt o'r fath erioed. Mae'n hollol afresymol. Ni wn am yr un Llywodraeth Geidwadol nad yw wedi gweithredu i hyrwyddo economi gymysg. Mae pob un wedi cyflwyno pob math o ymyriadau economaidd. Mae angen ichi fynd yn ôl i ailgynllunio eich ymosodiadau, Gareth. Yr wyf yn siŵr fod gwahaniaethau rhyngom y gellir mynd ar eu trywydd yn effeithiol, ond dwli llwyr yw'r awgrym ein bod rywsut yn credu bod grym damcaniaethol yn bodoli o'r enw'r farchnad rydd, na allwn wneud dim iddo.

Waeth beth yw ein barn am Lywodraeth y Cynulliad, yr wyf fi, fel Jenny Randerson, yn siomedig o gofio bod gan Gymru, tan 18 mis yn ôl, gyfradd diweithdra is na chyfartaledd y DU. Yr oedd hynny'n welliant sylweddol ar ein sefyllfa 10 neu 20 mlynedd yn ôl, a dengys fod y gwaith a wnaed ar ôl dirwasgiad yr 1980au i wneud economi Cymru yn fwy gwydn, yn ogystal â chmau gweithredu gan bobl eraill, wedi dwyn ffrwyth. Nid wyf am honni ar ran y Blaid Geidwadol mai ni sy'n gyfrifol am bopeth sydd wedi mynd yn dda

have gone well in the last 20 years of economic transformation in Wales. However, we are now in a situation in which we are the worst of the nations and have among the highest unemployment rate of all the regions, which is very disappointing.

To turn to the particular problem of youth unemployment, I remember the 1980s recession well, because I graduated just after that recession. I saw and shared the disappointment of the milk round drying up and of having skills that were not needed at that time in the economy. I have friends who were unemployed for two or three years before they could get the sort of position that they wanted, for instance as an articled clerk in a legal firm. It was a deeply depressing time for the people affected. We will have another generation, by poor ill luck, subjected to that psychological trauma. It is a very damaging experience. I do not think that anyone who considers it takes it lightly. At the other end of the scale, we have the highest unemployment rates among 15 to 19 year-olds in the Organisation for Economic Co-operation and Development, with most not in employment, education or training, and they are low skilled. Again, that is something that we must consider and tackle effectively.

May I spell out the obvious? What is responsible for Wales being among the poorest parts of the UK, as it has been for far too long, is the level of economic inactivity. If something like 80 per cent of our working-age population was at work, we would see the GVA gap close dramatically. It is because something like 25 per cent of our working-age population is economically inactive that we have the long-term structural economic difficulties that we have. That is what needs to be tackled. How do we tackle it? We need a unified back-to-work scheme, and I am pleased that the Conservative Party is offering that in this general election. We need more support for people who are looking to become self-employed—I have no doubt that a major part of the recovery, when it comes, will be the growth in self-employment. We need particular measures to tackle youth

yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf o drawsnewid economaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, y sefyllfa sydd ohoni yw mai ni yw'r wlad waethaf o blith y gwledydd i gyd, ac mai ni sydd ag un o'r cyfraddau diweithdra uchaf o blith y rhanbarthau i gyd, sy'n siomedig iawn.

I droi at broblem benodol diweithdra ymhlith ieuenctid, cofiaf ddirwasgiad yr 1980au yn dda, oherwydd graddiaid yn fuan ar ôl y dirwasgiad hwnnw. Digalonnais, fel pawb arall, wrth weld yr ymweliadau recriwtio'n dod i ben, a gweld bod gennyf sgiliau nad oedd eu hangen bryd hynny yn yr economi. Mae gennyf ffrindiau a fu'n ddi-waith am ddwy neu dair blynedd cyn iddynt allu cael y math o swydd a ddymunt, er enghraifft, fel clerc erthygledig mewn cwmni cyfreithiol. Yr oedd yn gyfnod digalon tu hwnt i'r bobl yr oedd yn effeithio arnynt. Drwy anlwc anffodus, bydd gennym genhedlaeth arall a fydd yn gorfod dioddef y trawma seicolegol hwnnw. Mae'n brofiad niweidiol iawn. Ni chredaf fod neb sy'n ei ystyried yn ei gymryd yn ysgafn. Ar y pegwn arall, mae gennym y gyfradd ddiweithdra uchaf ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 19 oed yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Nid yw'r mwyafrif mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac nid oes ganddynt lawer o sgiliau. Eto, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ystyried a mynd i'r afael ag ef yn effeithiol.

A gaf fi nodi rhywbeth amlwg? Y rheswm pam mae Cymru ymhlith rhannau tlotaf y DU, fel y bu ers gormod o amser o lawer, yw ei lefel anweithgarwch economaidd. Pe bai'n agos i 80 y cant o'n poblogaeth oed gweithio yn gweithio, byddem yn gweld y bwlch Gwerth Ychwanegol Crynswth yn cau'n ddramatig. Mae'n agos i 25 y cant o'n poblogaeth o oed gweithio yn economaidd anweithgar, a dyna sy'n gyfrifol am yr anawsterau economaidd strwythurol hirdymor sydd gennym. Dyna y mae angen mynd i'r afael ag ef. Sut y dylem fynd i'r afael ag ef? Mae arnom angen cynllun unedig i ddychwelyd i'r gwaith, ac yr wyf yn falch fod y Blaid Geidwadol yn cynnig hynny yn yr etholiad cyffredinol hwn. Mae arnom angen mwy o gymorth i bobl sydd am fod yn hunan-gyflogedig—nid oes gennyf amheuaeth na fydd twf mewn hunan-

unemployment, as I have said, and we also need better technical and vocational education so that people can take advantage of those opportunities. Finally, we must focus on outcomes. When we look at the interventions that the Government makes, we have to look at those improved, long-term trends and reward those that help to keep people in jobs for a good length of time and not just provide a three or four-month amelioration.

Michael German: I was very concerned to hear, on two occasions this week, the former First Minister question the current First Minister on the issue of whether or not there is rising unemployment in Wales, quoting the claimant count figures. I rushed off to the Members' research service and picked up the briefing that all Members have. I read that, for December 2009 to February 2010, which is the last quarter, the number of unemployed people in Wales was 131,000, an increase of 10,000 from the previous quarter and 22,000 from the previous year. Unemployment has, therefore, risen dramatically. I then looked at the claimant count figures. In Wales, the rate was 5.3 per cent, which represented an increase of 1,200 when compared with the previous year. I thought to myself, 'What is it that is defying gravity here?' I put it down to simply the general election. Clearly, there are pressures on the Government on this issue. One of the fundamental things on people's minds at the moment is jobs.

An article that I read recently, which contains research from the Institute of Welsh Affairs, also makes fascinating reading. It looks at how much money is spent on economic development in Wales, as compared with other parts of the United Kingdom. Wales spends more per head on economic development than any other region of the United Kingdom: £107 per head, which is £10 more than the northeast of England and £30 more than Scotland. However, it has taken several months to find that information. Part of the problem here is knowing where we are. The same piece of research reveals that there is very little accountability and

gyflogaeth yn rhan bwysig o'r adferiad, pan ddaw. Mae arnom angen mesurau penodol i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith ieuenctid, fel y dywedais, ac mae arnom angen gwell addysg dechnegol a galwedigaethol hefyd, er mwyn i bobl allu manteisio ar y cyfleoedd hynny. Yn olaf, rhaid inni ganolbwyntio ar ganlyniadau. Pan edrychwn ar ymyriadau'r Llywodraeth, rhaid inni edrych ar y tueddiadau hirdymor gwell, a gwobrwyo'r rheini sy'n helpu cadw pobl mewn swyddi am gyfnod hir, nid er mwyn cynnig gwelliant am dri neu bedwar mis yn unig.

Michael German: Yr oeddwn yn pryderu'n fawr o glywed y cyn-Brif Weinidog yn gofyn i'r Prif Weinidog presennol, ddwywaith yr wythnos hon, a yw diweithdra'n cynyddu yng Nghymru ai peidio, gan ddyfynnu ffigurau ynghylch nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Brysiais at wasanaeth ymchwil yr Aelodau a chasglu'r wybodaeth y mae pob Aelod yn ei chael. Darllenais fod 131,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Chwefror 2010, sef y chwarter diwethaf, sy'n gynydd o 10,000 ers y chwarter blaenorol a 22,000 ers y flwyddyn flaenorol. Felly, mae diweithdra wedi cynyddu'n ddramatig. Yna, edrychais ar y ffigurau am nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Yng Nghymru 5.3 y cant oedd y gyfradd, sef cynnydd o 1,200, o'i gymharu'r â'r flwyddyn flaenorol. Gofynnais imi fy hun, 'Beth sy'n wahanol i'r disgwyl yma?' Penderfynais mai'r etholiad cyffredinol oedd yn gyfrifol. Yn amlwg, mae pwysau ar y Llywodraeth yn y mater hwn. Un o'r pethau sylfaenol sydd ar feddyliau pobl ar hyn o bryd yw swyddi.

Mae erthygl a ddarllenais yn ddiweddar, sy'n cynnwys ymchwil gan y Sefydliad Materion Cymreig, hefyd yn ddi-ddorol iawn. Mae'n edrych ar faint o arian sy'n cael ei wario ar ddatblygiad economaidd yng Nghymru, o'i chymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae Cymru'n gwario mwy y pen ar ddatblygiad economaidd na'r un rhanbarth arall yn y Deyrnas Unedig: sef £107 y pen, sydd £10 yn fwy na gogledd-ddwyrain Lloegr a £30 yn fwy na'r Alban. Fodd bynnag, mae wedi cymryd misoedd lawer i ddarganfod y wybodaeth honno. Rhan o'r broblem yma yw gwybod ble'r ydym arni. Mae'r un darn o ymchwil yn datgelu mai ychydig iawn o

knowledge regarding what is happening to the money that is spent in Wales. There is no external evaluation, no detail of spend by programme and no evaluation of the effectiveness of those individual programmes. The Flexible Support for Business scheme lumped together lots of smaller schemes, so the spending was seen as being under one heading. It is very difficult to find out how effective that spend is.

To its credit, the UK Government commissioned research on all regional development agencies in England to find out how effective their spending has been. There has been no comparable external evaluation of the economic development spending and the programmes of the Welsh Assembly Government. This effectively means that we as a National Assembly, and the committee that Gareth Jones chairs, are in the dark. How effective has that spend been? It is ironic that Ian Courtney, who was a member of the task and finish group charged by the Deputy First Minister with investigating the commercialisation of intellectual property in Wales, revealed that, despite being appointed by the Government, he had to threaten to use the Freedom of Information Act 2000 to get the necessary information from the Welsh Assembly Government to be able to identify the work that was needed in understanding what was going on. We need to know what is going on, but, at the moment, that option is not available to us.

We have the figures for ProAct—the 77 people in Monmouthshire include the great people of Caldicot. As you know, Caldicot was primarily a steel town, for the people who worked at Corus. Corus in Llanwern has lost more workers than any other steel plant in south Wales in recent years. That is because there has been a change in economic pattern. I often wonder why Labour Members say that we should not be spending this money in areas like Caldicot; perhaps they have written Caldicot off the electoral map. We will wait and see for another week. I give way willingly to Brian Gibbons.

5.10 p.m.

atebolrwydd a gwybodaeth sydd am yr hyn sy'n digwydd i'r arian a gaiff ei wario yng Nghymru. Nid oes gwerthusiad allanol, manylion am wariant fesul rhaglen, na gwerthusiad o effeithiolrwydd y rhaglenni unigol hynny. Taflodd y cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes lawer o gynlluniau llai o faint at ei gilydd, felly, câi'r gwariant ei weld dan un pennawd. Mae'n anodd iawn darganfod pa mor effeithiol yw'r gwariant hwnnw.

Er clod iddi, comisiynodd Llywodraeth y DU ymchwil ar bob asiantaeth ddatblygu ranbarthol yn Lloegr i weld pa mor effeithiol fu ei gwariant. Ni chafwyd yr un gwerthusiad allanol tebyg o wariant ar ddatblygu economaidd a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad. I bob pwrpas, golyga hynny ein bod ni, fel Cynulliad Cenedlaethol, a'r pwyllgor y mae Gareth Jones yn ei gadeirio, yn y niwl. Pa mor effeithiol fu'r gwariant hwnnw? Mae'n eironig fod Ian Courtney, a oedd yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen y gofynnodd y Dirprwy Brif Weinidog iddo ymchwilio i fasnacheiddio eiddo deallusol yng Nghymru, wedi datgelu iddo orfod bygwth defnyddio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i gael y wybodaeth angenrheidiol gan Lywodraeth y Cynulliad, er iddo gael ei benodi gan y Llywodraeth, er mwyn iddo allu nodi'r gwaith yr oedd angen ei wneud i ddeall beth oedd yn digwydd. Mae angen inni wybod beth sy'n digwydd, ond ar hyn o bryd nid yw'r dewis hwnnw ar gael inni.

Mae'r ffigurau gennym ar gyfer ProAct—mae'r 77 o bobl yn Sir Fynwy yn cynnwys pobl wych Cil-y-coed. Fel y gwyddoch, tref gwaith dur oedd Cil-y-coed yn bennaf, i'r bobl a weithiai yn Corus. Mae Corus yn Llan-wern wedi colli mwy o weithwyr na'r un gwaith dur arall yn y de yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y rheswm am hynny yw'r newid a fu yn y patrwm economaidd. Byddaf yn meddwl yn aml pam mae Aelodau'r Blaid Lafur yn dweud na ddylem fod yn gwario'r arian hwn mewn ardaloedd megis Cil-y-coed; efallai eu bod wedi dileu Cil-y-coed oddi ar y map etholiadol. Cawn weld ymhén wythnos arall. Yr wyf yn fodlon iddio i Brian Gibbons.

Brian Gibbons: Your reference to the steel industry is relevant to Port Talbot because we are talking about a part of the same company. Corus has engaged with the people from ProAct, so your underpinning thesis is incorrect with regard to the number in Caldicot. Corus has engaged with the ProAct scheme, and if there were Corus employees in those particular circumstances they would have benefited, just like their equivalents in areas such as Port Talbot.

Michael German: Some 10,000 people worked for Corus in Llanwern 10 years ago—more before that—but there are now fewer than 1,000; those workers necessarily come from that area. I am very confused, therefore, about whether the Government's programme is sufficient, and whether it is detailed enough to meet the requirements of the current problem. Let us face the fact that we have a problem, and face up to the reality that we need an action plan that we can evaluate and that meets the needs of the people of Wales.

Mohammad Asghar: Thank you for the opportunity, Deputy Presiding Officer, to speak on this hugely important issue. It is deeply regrettable that the latest figures show yet another increase in unemployment here in Wales between the last two quarters. The First Minister has said that we are on the road to recovery, but these latest figures paint another depressing picture. The Welsh unemployment rate for the three months to February shows an increase to 131,000. Nine per cent of the people of Wales are eager to work but simply cannot find jobs; it is a horrible state of affairs for so many. Clearly, there is a lack of opportunities, and many people to whom I speak across the South Wales East region are unsure of where to turn. Looking at the figures from a UK level, we can see that things are particularly bad in Wales. We still have the highest unemployment of any UK nation; this has been the case since the spring of 2008 and does not look like changing any time soon.

Minister, there are some solutions to this problem that I hope you will note. There has been a degree of consensus on initiatives that

Brian Gibbons: Mae eich cyfeiriad at y diwydiant dur yn berthnasol i Port Talbot, oherwydd yr ydym yn siarad am ran o'r un cwmni. Mae Corus wedi ymgysylltu â phobl ProAct, felly, mae eich gosodiad sylfaenol yn anghywir o safbwynt y nifer yng Nghil-y-coed. Mae Corus wedi ymgysylltu â chynllun ProAct, ac os oedd gweithwyr o Corus yn yr amgylchiadau penodol hynny, byddent wedi elwa, yn yr un modd â phobl debyg iddynt mewn ardaloedd megis Port Talbot.

Michael German: Yr oedd tua 10,000 o bobl yn gweithio i Corus yn Llanwern 10 mlynedd yn ôl—mwy cyn hynny—ond mae llai na 1,000 erbyn nhyn; mae'r gweithwyr hynny o reidrwydd yn dod o'r ardal honno. Nid wyf yn siŵr o gwbl, felly, a yw rhaglen y Llywodraeth yn ddigonol, ac a yw'n ddigon manwl i fodloni gofynion y broblem bresennol. Gadewch inni wynebu'r ffaith fod gennym broblem, ac wynebu'r realiti, sef bod arnom angen cynllun gweithredu y gallwn ei werthuso ac sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

Mohammad Asghar: Diolch am y cyfle i siarad am y mater hynod bwysig hwn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n anffodus iawn bod y ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd arall eto mewn diweithdra yma yng Nghymru rhwng y ddau chwarter diwethaf. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud ein bod ar y trywydd iawn at adferiad, ond mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn cyfleu darlun digalon arall. Mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer y tri mis hyd at fis Chwefror yng Nghymru yn dangos cynnydd i 131,000. Mae naw y cant o bobl Cymru yn awyddus i weithio, ond yn syml iawn maent yn methu dod o hyd i swyddi; mae'n sefyllfa ofnadwy i gynifer o bobl. Yn amlwg, mae yna ddiffyg cyfleoedd, ac mae llawer o'r bobl y byddaf yn siarad â hwy ledled rhanbarth Dwyrain De Cymru yn ansicr ble i droi. Wrth edrych ar y ffigurau o safbwynt y DU, gallwn weld bod pethau'n arbennig o wael yng Nghymru. Ni sydd â'r gyfradd ddiweithdra uchaf o hyd o holl wledydd y DU; dyna'r sefyllfa ers y gwanwyn 2008, ac nid yw'n debygol o newid yn fuan iawn.

Weinidog, mae yna rai atebion i'r broblem hon, y gobeithio y byddwch yn eu nodi. Cafwyd rhywfaint o gonsensws ynghylch

are in place to deal with the problem. The First Minister regularly champions the ProAct and ReAct schemes that we have in Wales. We all support the aims of these initiatives, and it is welcome news when packages help people retain jobs or find new ones. However, with the figures as bad as they are, I question whether enough is being done on these schemes.

We should think innovatively to reduce the number of unemployed. We must look to drag Wales away from the bottom end of these league tables. We must ensure that all people are fully aware of the existing support available to them; information technology resources should be there for everyone in schools and colleges. Many young people, in particular, seem unsure of where to turn, and are unsure of the support that is on offer, at school or in college. I am pleased that the UK Conservative Party favours collaboration with the Welsh Assembly Government to implement an initiative in Wales that will offer greater support to the young unemployed by referring them to a work programme after six months.

Innovation in Wales is worryingly low and we must ensure that people are given strong assistance and encouragement if they are looking at being self-employed. The Conservatives' Work for Yourself scheme pledges to give advice and support to those looking to be self-employed, and also promises to remove the red tape and barriers in place should the self-employed find themselves in a position to hire staff; it is an idea that should be applauded. I also commend the party's promise to abolish—for a 12-month period—employer national insurance for the first 10 employees hired by new firms within the first two years of a Conservative administration.

At an employer level, the Welsh Assembly Government's failure to provide adequate business rate relief for many businesses means that many are not in a position to hire new staff, which exacerbates unemployment. Business rates are in the top three forms of expenditure for small and medium-sized

mentrau sydd ar waith i ymdrin â'r broblem. Mae'r Prif Weinidog yn rheolaidd yn hyrwyddo'r cynlluniau sydd gennym yng Nghymru, sef ProAct a ReAct. Yr ydym i gyd yn cefnogi nodau'r mentrau hynny, ac mae'n braf clywed pan fydd pecynnau'n helpu pobl i gadw swyddi neu ddod o hyd i rai newydd. Fodd bynnag, gan fod y ffigurau cynddrwg ag y maent, yr wyf yn amau a oes digon yn cael ei wneud ar y cynlluniau hyn.

Dylem feddwl yn arloesol i leihau nifer y bobl sy'n ddi-waith. Rhaid inni geisio tynnu Cymru o waelod y tablau hyn. Rhaid inni sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r cymorth presennol sydd ar gael iddynt; dylai adnoddau technoleg gwybodaeth fod ar gael i bawb mewn ysgolion a cholegau. Mae llawer o bobl ifanc, yn enwedig, fel pe baent yn ansicr ynghylch ble i droi, ac yn ansicr ynghylch y cymorth sydd ar gael, yn yr ysgol neu'r coleg. Yr wyf yn falch bod Plaid Geidwadol y DU o blaid cydweithredu â Llywodraeth y Cynulliad i weithredu menter yng Nghymru a fydd yn cynnig mwy o gymorth i bobl ifanc ddi-waith, drwy eu cyfeirio at raglen waith ar ôl chwe mis.

Mae lefel arloesedd yng Nghymru yn bryderus o isel, a rhaid inni sicrhau bod pobl yn cael cymorth ac anogaeth gadarn os ydynt am fod yn hunangyflogedig. Mae cynllun Gweithio i Chi eich Hun y Ceidwadwyr yn addo rhoi cyngor a chymorth i'r rheini sydd am fod yn hunangyflogedig, ac yn addo hefyd cael gwared â'r fiwrocratiaeth a'r rhwystrau sy'n bodoli pe bai pobl hunangyflogedig yn gweld eu bod mewn sefyllfa i gyflogi staff; mae'n syniad y dylid ei gymeradwyo. Yr wyf hefyd yn cymeradwyo addewid y blaid i ddileu—am gyfnod o 12 mis—yswariant gwladol cyflogwyr, ar gyfer y 10 gweithiwr cyntaf y mae cwmnïau newydd yn eu cyflogi yn ystod dwy flynedd gyntaf gweinyddiaeth Geidwadol.

O safbwynt cyflogwyr, mae methiant Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu rhyddhad ardrethi busnes digonol i lawer o fusnesau'n golygu nad yw llawer ohonynt mewn sefyllfa i gyflogi staff newydd, sy'n gwaethygu diweithdra. Mae ardrethi busnes ymhlith y tair prif ffurf ar wariant ar gyfer

enterprises. We should be doing all we can to foster and develop the growth of new businesses to help ease the unemployment problem. A story in today's *Western Mail* highlights how Wales's shopping centres have more empty units than anywhere else in the UK. That is worrying. It is clear that we must do all we can to encourage and stimulate growth in the private sector to help get the economy moving and to help stimulate employment opportunities in Wales. We do not want to see extra burdens on businesses—that will not help to ease unemployment.

Recently, this nation has helped the banks to survive. It is about time that the banks helped communities to regain employment, and David Cameron has a plan for that. That is necessary to strengthen our economy and increase prosperity in Wales.

Brian Gibbons: Losing your job is a massive personal catastrophe, and it is also a catastrophe for the communities that are subject to job losses. What is worse, however, is if those who lose their jobs feel that they are left to cope on their own and thrown on the scrapheap and forgotten about. Those of us who have lived through the recessions of the 1980s and 1990s remember what that was like: not only were people losing their jobs, but they felt abandoned and neglected by Government.

David Melding is correct that Conservative Governments intervene in the market, but there is no doubt that their interventions in the market in the early 1980s and 1990s were intended to create unemployment, and to use it as an instrument to achieve other political and social objectives. That is what is different about this economic crisis—instead of a Government intervening in a way that considers unemployment to be a price worth paying, we have a Government that has intervened in such a way as to do everything possible to stabilise the economy, set it on the road to recovery, and give people who have lost jobs real hope and prospects.

busnesau bach a chanolig eu maint. Dylem fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i feithrin a datblygu twf busnesau newydd i helpu i leddfu problem diweithdra. Mae stori yn rhifyn heddiw o'r *Western Mail* yn tynnu sylw at y ffaith bod gan ganolfannau siopa yng Nghymru fwy o unedau gwag na'r un man arall yn y DU. Mae hynny'n peri pryder. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i annog ac ysgogi twf yn y sector preifat er mwyn helpu i gael yr economi i symud a helpu ysgogi cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru. Nid ydym am weld mwy o feichiau ar fusnesau—ni fydd hynny'n helpu lleddfu diweithdra.

Yn ddiweddar, mae'r wlad hon wedi helpu'r banciau i oroesi. Mae'n hen bryd i'r banciau helpu cymunedau i adennill cyflogaeth, ac mae gan David Cameron gynllun ar gyfer hynny. Mae hynny'n angenrheidiol i gryfhau ein heconomi a chynyddu ffyniant yng Nghymru.

Brian Gibbons: Mae colli eich swydd yn drychineb bersonol enfawr, ac mae hefyd yn drychineb i'r cymunedau sy'n colli swyddi. Fodd bynnag, mae'n waeth os yw'r rheini sy'n colli eu swyddi yn teimlo'u bod yn cael eu gadael i ymdopi ar eu pen eu hunain, ac yn cael eu taflu ar y domen ac yn mynd yn angof. Mae'r rheini ohonom sydd wedi byw drwy ddirwasgiadau'r 1980au a'r 1990au yn cofio sut brofiad oedd hynny: nid yn unig yr oedd pobl yn colli eu swyddi, ond yr oeddent hefyd yn teimlo bod y Llywodraeth yn troi ei chefn arnynt a'u hesgeuluso.

Mae David Melding yn iawn wrth ddweud bod Llywodraethau Ceidwadol yn ymyrryd yn y farchnad, ond nid oes amheuaeth nad bwriad eu hymyriadau yn y farchnad ddechrau'r 1980au a'r 1990au oedd creu diweithdra, a'i ddefnyddio fel modd i gyflawni amcanion gwleidyddol a chymdeithasol eraill. Dyna sy'n wahanol am yr argyfwng economaidd hwn—yn hytrach na Llywodraeth sy'n ymyrryd mewn modd sy'n ystyried bod diweithdra'n bris gwerth ei dalu, mae gennym Lywodraeth sydd wedi ymyrryd mewn modd lle mae wedi gwneud popeth o fewn ei gallu i sefydlogi'r economi, ei rhoi ar y ffordd i adferiad, a rhoi gwir obaith a dyfodol i bobl sydd wedi colli eu swyddi.

Mike German quoted some statistics on this recession. Despite the fact that it has been the biggest global economic recession for two, three or four generations—half a century—the unemployment rate as measured by the claimant count stands at 5.3 per cent. The nearest equivalent to the claimant count figures that we have for the 1980s showed a peak of 12 per cent unemployment, in early 1984. That was absolutely scandalous. In 1993, unemployment was 11 per cent. Was anything done to get those people into work similar to what is being done now? Absolutely not. People had no hope and were despondent. The way that the Government has responded to the current crisis and the personal tragedy of unemployment has been amazing. Increased efforts to promote community resilience have meant that we have not seen the big increases in crime that we saw in previous recessions. In fact, in the last year, crime has gone down by 8 per cent in Wales. We have not seen 150,000 home repossessions, as we did in the early 1990s under the Conservatives. Fifty thousand home repossessions are too many, but that is nowhere near the 150,000 repossessions that were allowed to happen in the 1990s as a result of the inactivity of a previous Government.

We need to promote business, but the most recent statistics on promoting business show that the rate of business survival at one year in Wales is roughly equivalent to the UK average. At five years, it is marginally higher. Those who want to run down the business environment in Wales, and the work that is being done by this Assembly Government, are also running down Wales as a country, as well as running down the prospects for our economy, and opportunities for people to get back to work. We are in an election period, and Members have referred to that. People have a choice in this election period. One is whether or not we believe in the role of government in responding to this crisis. One of the options that have been put before the people of the United Kingdom is that government is too big and overbearing and

Dyfynnodd Mike German rai ystadegau am y dirwasgiad hwn. Er mai hwn fu'r dirwasgiad economaidd byd-eang gwaethaf ers dwy, tair neu bedair cenhedlaeth—hanner canrif—mae'r gyfradd ddiweithdra, fel y caiff ei mesur ar sail nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, yn 5.3 y cant. Yr oedd y mesur sydd gennym ar gyfer yr 1980au, sy'n cyfateb agosaf i nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, yn dangos cyfradd uchaf o 12 y cant ar gyfer diweithdra ddechrau 1984. Yr oedd hynny'n hollol warthus. Yn 1993 yr oedd diweithdra yn 11 y cant. A wnaed rhywbeth i gael y bobl hynny i weithio, tebyg i'r hyn a wneir yn awr? Naddo'n wir. Nid oedd gan bobl obaith, ac yr oeddent yn ddigalon. Mae'r modd y mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'r argyfwng presennol a thrychineb personol diweithdra wedi bod yn rhyfeddol. Mae mwy o ymdrechion i hybu gwydnwch cymunedol wedi golygu nad ydym wedi gweld y cynnydd mawr mewn troseddau a welsom yn ystod dirwasgiadau blaenorol. Mewn gwirionedd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae troseddau wedi lleihau 8 y cant yng Nghymru. Nid ydym wedi gweld 150,000 o gartrefi'n cael eu hadfeddiannu, fel y gwelsom ddechrau'r 1990au dan y Ceidwadwyr. Mae hanner can mil o gartrefi a adfeddiannwyd yn ormod, ond nid yw'n agos at y 150,000 o gartrefi y caniatwyd eu hadfeddiannu yn yr 1990au o ganlyniad i anweithgarwch Llywodraeth flaenorol.

Mae angen inni hyrwyddo busnes, ond mae'r ystadegau diweddaraf ar hyrwyddo busnes yn dangos bod cyfradd y busnesau sy'n goroesi ar ôl blwyddyn yng Nghymru yr un fath yn fras â chyfartaledd y DU. Ar ôl pum mlynedd, mae ychydig yn uwch. Mae'r rheini sydd am ladd ar yr amgylchedd busnes yng Nghymru, a'r gwaith y mae'r Llywodraeth hon yn y Cynulliad yn ei wneud, hefyd yn lladd ar Gymru fel gwlad, yn ogystal â'r gobeithion ar gyfer ein heconomi, a chyfleoedd i bobl ddychwelyd i'r gwaith. Yr ydym mewn cyfnod o etholiad, ac mae Aelodau wedi cyfeirio at hynny. Mae gan bobl ddewis yn y cyfnod hwn o etholiad. Un dewis yw a ydym yn credu ai peidio mewn rôl llywodraeth wrth ymateb i'r argyfwng hwn. Un o'r dewisiadau a gyflwynwyd i bobl y Deyrnas Unedig yw bod llywodraeth yn rhy

that we do not need it to turn the economy around and to give hope to people in the face of massive economic challenges. There are other parties going into this election that believe that the market has failed, and that it is only through strong, determined government intervention that we have any prospect of being able to turn this massive problem around.

5.20 p.m.

David Melding: That is a powerful, heartfelt speech, but it is at some variance to the facts. Last week, your colleague Rhodri Morgan called the unemployment figures that were published ‘excellent’. Do you agree with that?

Brian Gibbons: I do not think that anyone losing their job is excellent. You make a fine rhetorical point, David, but you know that Rhodri Morgan would agree that the fact that 13,000 jobs are no longer available in Wales is not acceptable. However, unlike your party, which has an economic policy that is going to tighten the screws even further, we offer a choice. We want to do something and will be doing something to address this.

Trish Law: I thank the Liberal Democrats for choosing this topic for debate today, as it is the most crucial issue in my constituency, where there are more people are claiming jobseekers allowance than anywhere else in Wales.

Unemployment is the root cause of so many of the ills of Blaenau Gwent: poor housing, giving rise in many cases to poor health and low life expectancy; drug and alcohol-related problems; crime; child poverty; pensioner poverty; low self-esteem; social exclusion; a feeling of insecurity and vulnerability—the list goes on. Unemployment has reached epidemic proportions in Blaenau Gwent. I can show you third and fourth generations of families who have inherited a jobless culture. They do not expect to find work; they are resigned to the unemployment scrapheap, for there is no work. According to official figures for March, there are 3,246 people chasing jobs that do not exist in Blaenau Gwent and claiming jobseekers allowance—three

fawr ac yn rhy awdurdodol, ac nad oes arnom ei hangen i wella'r economi a rhoi gobaith i bobl yn wyneb heriau economaidd enfawr. Mae pleidiau eraill sy'n mynd i mewn i'r etholiad hwn yn credu bod y farchnad wedi methu, ac mai ymyriad cryf a phenderfynol gan lywodraeth yw ein hunig obaith o allu datrys y broblem enfawr hon.

David Melding: Dyna ichi arraith rymus a didwyll, ond nid yw'n cyd-fynd yn union â'r ffeithiau. Yr wythnos diwethaf dywedodd eich cydweithiwr, Rhodri Morgan, fod y ffigurau diweithdra a gyhoeddwyd yn ‘ardderchog’. A ydych yn cytuno â hynny?

Brian Gibbons: Ni chredaf fod rhywrai'n colli eu swyddi'n ardderchog. Mae gennych bwynt rhethregol da, David, ond gwyddoch y byddai Rhodri Morgan yn cytuno bod y ffaith nad oes 13,000 o swyddi ar gael yng Nghymru bellach yn annerbyniol. Fodd bynnag, yn wahanol i'ch plaid chi, sydd â pholisi economaidd sy'n rhoi mwy fyth o bwysau ar bobl, yr ydym ni'n cynnig dewis. Yr ydym am wneud rhywbeth, a byddwn yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hyn.

Trish Law: Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ddewis y pwnc hwn ar gyfer y ddadl heddiw, oherwydd hwn yw'r pwnc pwysicaf yn fy etholaeth i, lle mae mwy o bobl yn hawlio lwfans ceisio gwaith nag yn unman arall yng Nghymru.

Diweithdra yw gwir achos cynifer o drafferthion Blaenau Gwent: tai gwael, sy'n achosi afiechyd a disgwyliad oes isel mewn llawer o achosion; problemau cyffuriau ac alcohol; troseddu; tlodi plant; tlodi pensïynwyr; hunan-barch isel; allgáu cymdeithasol; ymdeimlad o ansicrwydd a bod yn agored i niwed—mae'r rhestr yn ddiwedd. Mae diweithdra wedi cyrraedd lefelau epidemig ym Mlaenau Gwent. Gallaf ddangos trydedd a phedwaredd cenhedlaeth mewn teuluoedd ichi sydd wedi etifeddu diwylliant o ddiweithdra. Nid ydynt yn disgwyl cael gwaith; maent wedi derbyn eu bod ar y domen ddiweithdra am nad oes gwaith. Yn ôl ffigurau swyddogol ar gyfer mis Mawrth, mae 3,246 o bobl yn chwilio am

quarters of them are men, which is the highest number of any constituency in Wales. Of the economically active population of Blaenau Gwent, 11.8 per cent rely on jobseekers allowance, which is the highest proportion in Wales. However, that is only part of the story of unemployment in Blaenau Gwent. The lobby group, the Industrial Communities Alliance, maintains that the jobseekers allowance count massively understates the true scale of unemployment. The alliance, the successor to the Coalfields Community Campaign and Steel Action, stated in a recent report:

‘Official measures of unemployment have never captured the full picture, and this has been particularly the case in older industrial Britain, where over the years large numbers of the unemployed have become “hidden” on other benefits or driven out of the benefits system altogether.’

Peter Hain talks about the prospect of 50,000 new jobs in Wales. Where will they come from and when will they come? Those jobs are needed now, not at some fantasy future date. I am afraid that Mr Hain and his New Labour cronies are living in never-never land. I have called, time and again for a Minister for the Valleys, and I hope that the new First Minister will look afresh at this suggestion, which would require a radical reshuffle of the Cabinet, for other Valleys communities are suffering a similar fate to that of Blaenau Gwent, although not quite to the same extent.

Jeff Cuthbert *rose—*

Trish Law: No, I will not take an intervention, Jeff. I want to finish what I have to say.

There needs to be someone who can devote his or her full-time efforts to the regeneration, re-energising and re-employment of the Valleys.

Over recent years, Cardiff, the northern and

swyddi nad ydynt ar gael ym Mlaenau Gwent, ac yn hawlio lwfans ceisio gwaith—dynion yw tri chwarter, sef y nifer uchaf mewn unrhyw etholaeth yng Nghymru. O'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar ym Mlaenau Gwent, mae 11.8 y cant, sef y gyfran uchaf yng Nghymru, yn dibynnu ar lwfans ceisio gwaith. Fodd bynnag, dim ond rhan o stori diweithdra ym Mlaenau Gwent yw hynny. Mae'r grŵp lobiö, y Cynghrair Cymunedau Diwydiannol, yn honni bod nifer y bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith yn is o lawer na'r nifer sy'n ddi-waith mewn gwirionedd. Dywedodd y cynghrair, sef olynnydd Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo a Steel Action, mewn adroddiad yn ddiweddar:

Nid yw'r dulliau swyddogol o fesur diweithdra erioed wedi cyfleu'r darlun llawn, ac mae hynny wedi bod yn arbennig o wir yn yr hen Brydain ddiwydiannol, lle mae niferoedd mawr o bobl ddi-waith, dros y blynyddoedd, wedi mynd o'r golwg ar fudd-daliadau eraill, neu wedi'u gwthio allan o'r system fudd-daliadau'n gyfan gwbl.

Mae Peter Hain yn sôn am y gobaith o sicrhau 50,000 o swyddi newydd yng Nghymru. O ble y byddant yn dod, a phryd? Mae angen y swyddi hynny'n awr, nid ar ryw ddyddiad dychmygol yn y dyfodol. Mae arnaf ofn fod Mr Hain a'i ffrindiau Llafur Newydd yn byw mewn paradwys ffŵl. Yr wyf wedi galw droeon am Weinidog dros y Cymoedd, a gobeithio y bydd y Prif Weinidog newydd yn edrych unwaith eto ar yr awgrym hwnnw, a fyddai'n gofyn am ad-drefnu'r Cabinet yn sylfaenol, oherwydd mae cymunedau eraill yn y Cymoedd yn dioddef tynged debyg i dynged Blaenau Gwent, er nad i'r un graddau'n union.

Jeff Cuthbert *a gododd—*

Trish Law: Na, nid wyf am dderbyn ymyriad, Jeff. Yr wyf am orffen yr hyn sydd gennyf i'w ddweud.

Mae angen cael rhywun a all ymroi'n gyfan gwbl i adfywio'r Cymoedd, eu grymuso o'r newydd a sicrhau bod eu trigolion yn cael eu hailgyflogi.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar,

southern coastal belts, and some, but not many, rural parts of Wales have experienced the biggest increase in employment, while the south Wales Valleys and other industrial towns have suffered a downward spiral. Many Valleys communities are dying on their knees and I want the Welsh Assembly Government to start taking the problem seriously. I am not doing down Valleys communities. I have lived in the Valleys all my life, and the people there are the salt of the earth. The industrial scars of the past have disappeared to be replaced by green and lush hills and mountain sides. However, while the industrial scars have disappeared, so too have the traditional industries of coal and steel on which Valleys communities were founded. Despite initiatives by successive Governments, the jobs that were lost have never been replaced. The Welsh Government has an opportunity to spearhead a regeneration blitz in the Valleys, and I would like to see such an employment revolution led by a Minister for the Valleys. Otherwise, Blaenau Gwent and valleys to the west will forever be playing catch-up in employment terms. I want to see these Valleys communities leading from the front, not always propping up the rear.

Mark Isherwood: Wales already has the highest unemployment rate in the United Kingdom. It has risen 10,000 on the last quarter and 22,000 on the year, which means that 549,000 people of working age in Wales—one in three—are not in work today. We have record youth unemployment and a Prince's Trust report warned that a 'lost generation' of unemployed young people in Wales faces decades of poor health and stunted life chances. We must learn from the decisions that, over 13 years, have led us to this point, and tackle excessive debt, over-borrowing and a dysfunctional regulatory system.

While Labour in London and Labour and Plaid Cymru in Wales seek to bribe the electorate with borrowed money that it will have to repay, it is quietly imposing cuts left, right and centre. The losses disclosed in a

Caerdydd, ardaloedd arfordir y gogledd a'r de a rhai rhannau gwledig o Gymru, ond nid llawer ohonynt, sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth, ond mae Cymoedd y de a threfi diwydiannol eraill wedi dioddef gostyngiad graddol. Mae nifer o gymunedau'r Cymoedd wedi eu llorio ac yn marw, ac yr wyf am i Lywodraeth y Cynulliad ddechrau cymryd y broblem o ddifrif. Nid wyf yn gwneud tro gwael â chymunedau'r Cymoedd. Yr wyf wedi byw gydol fy oes yn y Cymoedd, ac mae'r bobl yno'n halen y ddaear. Mae creithiau diwydiannol y gorfennol wedi diflannu, a gwelir bryniau a llethrau gwyrdd a glaswelltog yn eu lle. Fodd bynnag, er bod y creithiau diwydiannol wedi diflannu, mae'r diwydiannau glo a dur traddodiadol hefyd wedi diflannu y sefydlwyd cymunedau'r Cymoedd arnynt. Er gwaethaf mentrau gan y naill Lywodraeth ar ôl y llall, nid oes swyddi newydd wedi dod yn lle'r rhai a gollwyd. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain ymgyrch adfywio yn y Cymoedd, a hoffwn weld chwyldro cyflogaeth o'r fath yn cael ei arwain gan Weinidog dros y Cymoedd. Fel arall bydd Blaenau Gwent, a'r cymoedd i'r gorllewin, ar ei hôl hi am byth o safbwynt cyflogaeth. Yr wyf am weld y cymunedau hyn yn y Cymoedd yn arwain o'r tu blaen, yn lle dilyn bob amser o'r tu ôl.

Mark Isherwood: Cymru sydd eisoes â'r gyfradd ddiweithdra uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae wedi cynyddu 10,000 ers y chwarter diwethaf a 22,000 ers y llynedd, sy'n golygu nad yw 549,000 o bobl o oed gweithio yng Nghymru—un o bob tri—mewn gwaith heddiw. Mae gennym y lefelau uchaf erioed o ddiweithdra ymhlith ieuenctid, a rhybuddiodd adroddiad gan Ymddiriedolaeth y Tywysog fod cenhedlaeth goll o bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru yn wynebu degawdau o afiechyd a chyfleoedd bywyd cyfyngedig. Rhaid inni ddysgu o'r penderfyniadau sydd wedi ein harwain i'r fan hon dros 13 o flynyddoedd, a mynd i'r afael â dyledion gormodol, gorfenthyca a system gamweithredol o reoleiddio.

Tra mae'r Blaid Lafur yn Llundain, a'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yng Nghymru, yn ceisio llwgrwobrwyo'r etholwyr ag arian benthyg y bydd yn rhaid iddynt ei dalu'n ôl, maent yn cyflwyno toriadau'n dawel bach ym

wide-ranging analysis by *The Sunday Times* include tens of thousands of nurses and midwives, social workers, teachers and police officers, and the cutbacks are already being implemented. Cuts this year in Wales are hitting colleges, councils and contractors; and the Minister for Health and Social Services has told Welsh local health boards that 3 per cent of nursing staff graded band 5 and above must be lost every year over the next three years.

Jeff Cuthbert: Will you give way?

Mark Isherwood: I will take one intervention, Jeff.

Jeff Cuthbert: I am only going to intervene once. It is interesting that David Cameron said recently that government is too big in the north-east of England and in Northern Ireland. I daresay that he also has Wales in mind. With the sorts of cuts that you are proposing, how will that help to reduce the levels of unemployment?

Mark Isherwood: I am talking about targeting the money—not cutting it—towards investment in order to create jobs and support businesses that create jobs.

Conservative priorities are to tackle the deficit and protect front-line services. We will stop Labour's jobs tax, which would lead to 57,000 job losses in small and medium-sized businesses alone, and would also take £6 billion from businesses and households, which they need to drive investment and economic recovery. Our plans, based on the advice of the UK Government's own efficiency advisers, are not about job losses; they are about not filling vacancies as they arise in back-office public office posts.

The danger to public sector jobs is a Labour Government that runs out of money. As anyone who has tried it will tell you that you

mhob man. Mae'r colledion a ddatgelwyd mewn dadansoddiad cynhwysfawr gan *The Sunday Times* yn cynnwys degau o filoedd o nyrsys a bydwragedd, gweithwyr cymdeithasol, athrawon a swyddogion heddlu, ac mae'r toriadau eisoes yn cael eu gweithredu. Mae toriadau eleni yng Nghymru yn effeithio ar golegau, cynghorau a chontractwyr; ac mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud wrth fyrrdau iechyd lleol Cymru ei bod yn rhaid colli 3 y cant o staff nyrsio band 5 ac uwch bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

Jeff Cuthbert: A wnewch chi ildio?

Mark Isherwood: Derbyniaf un ymyriad, Jeff.

Jeff Cuthbert: Unwaith yn unig y byddaf yn ymyrryd. Mae'n ddiddorol fod David Cameron wedi dweud yn ddiweddar fod llywodraeth yn rhy fawr yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n siŵr ei fod yn ystyried Cymru hefyd. Gyda'r mathau o doriadau yr ydych yn eu cynnig, sut y bydd hynny'n helpu gostwng lefelau diweithdra?

Mark Isherwood: Yr wyf yn sôn am dargedu'r arian—nid ei dorri—at fuddsoddi er mwyn creu swyddi a chefnogi busnesau sy'n creu swyddi.

Blaenoriaethau'r Ceidwadwyr yw mynd i'r afael â'r diffyg ariannol a diogelu gwasanaethau rheng flaen. Byddwn yn rhwystro treth y Blaid Lafur ar swyddi, a fyddai'n arwain at golli 57,000 o swyddi mewn busnesau bach a chanolig eu maint yn unig, ac a fyddai hefyd yn cymryd £6 biliwn oddi ar fusnesau ac aelwydydd sydd ag angen yr arian i sbarduno buddsoddiad ac adferiad economaidd. Nid yw ein cynlluniau, sy'n seiliedig ar gyngor gan gynghorwyr effeithlonrwydd Llywodraeth y DU ei hun, yn golygu cholli swyddi; maent yn golygu peidio â llenwi swyddi gwag wrth iddynt ddigwydd mewn swyddi cyhoeddus cefn swyddfa.

Y perygl i swyddi yn y sector cyhoeddus yw Llywodraeth Lafur sydd â'i harian yn dod i ben. Bydd pawb sydd wedi ceisio dod allan o

cannot borrow your way out of debt. Any Government that tries this will kill economic recovery with bigger cuts, taxes and interest rates down the road. Housing Debt Helpline Wales helps anyone using credit and in arrears. Perhaps we should give its telephone number to Great Gord the Imprudent.

When the credit crunch hit, we had the biggest debt-fuelled boom and the worst budget deficit of any large economy. We have experienced the deepest recession since the war. Independent research has shown that the barriers to work in the tax and benefits system have grown under Labour. The Get Britain Working programme, proposed by the Conservatives, details action to help back into work those who have been stuck in the benefits trap, but that will only happen if David Cameron becomes Prime Minister.

During Labour's time in office, it has launched 22 different employment programmes at the UK level and trialled 15 alternative programmes through pilot schemes. It has spent £2.2 billion to create over 800 Jobcentre Plus offices and an estimated £5.7 billion on the New Deal employment programmes. That is in addition to the £346 billion spent on benefit payments to those out of work, and yet we went into recession with nearly 5 million people on out-of-work benefits. We have the highest level of youth unemployment in Europe, and we have a record level of economic inactivity.

It will be the responsibility of an incoming UK Government to tackle welfare reform using experience from here and abroad. The Get Britain Working programme, proposed by the Conservatives, offers a completely different approach. Instead of multiple schemes, we offer one major programme of support for the unemployed that brings together welfare, enterprise, training, skills and education, helping to transform the economy and promote competitiveness. A

ddyled drwy fenthycy yn dweud wrthyhch nad yw'n bosibl gwneud hynny. Bydd unrhyw Lywodraeth sy'n ceisio gwneud hynny'n lladd adferiad economaidd yn ddiweddarach drwy gyflwyno toriadau, trethi a chyfraddau llog uwch. Mae Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru yn helpu pawb sy'n defnyddio credyd ac sydd mewn dyled. Efallai y dylem roi'r rhif ffôn i Brif Weinidog annoeth y Deyrnas Unedig.

Pan ddaeth y wasgfa ar greddy, ni oedd yr economi fawr a oedd â'r ffyniant mwyaf wedi ei sbarduno gan ddyledion, a ni oedd â'r diffyg cyllidebol gwaethaf. Yr ydym wedi bod drwy'r dirwasgiad gwaethaf ers y rhyfel. Mae ymchwil annibynnol wedi dangos bod y rhwystrau i weithio yn y system drethi a budd-daliadau wedi tyfu dan y Blaid Lafur. Mae'r rhaglen 'Get Britain Working', a gynigiwyd gan y Ceidwadwyr, yn rhoi manylion camau gweithredu er mwyn helpu'r bobl a ddaliwyd yn y trap budd-daliadau i ddychwelyd i'r gwaith, ond dim ond os daw David Cameron yn Brif Weinidog y bydd hynny'n digwydd.

Yn ystod cyfnod y Blaid Lafur mewn grym, mae wedi lansio 22 o wahanol raglenni cyflogaeth ar lefel y DU ac wedi treialu 15 rhaglen arall drwy gynlluniau peilot. Mae wedi gwario £2.2 biliwn i greu dros 800 o swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, ac amcangyfrifir ei bod wedi gwario £5.7 biliwn ar raglenni cyflogaeth y Fargen Newydd. Mae hynny'n ychwanegol at y £346 biliwn a wariwyd ar daliadau budd-daliadau i bobl ddi-waith, ond eto i gyd aethom i mewn i'r dirwasgiad gyda bron i 5 miliwn o bobl ar fudd-daliadau diweithdra. Ni sydd â'r lefel uchaf yn Ewrop o ddiweithdra ymhlith ieuenctid, ac mae gennym y lefel uchaf erioed o anweithgarwch economaidd.

Cyfrifoldeb Llywodraeth newydd yn y DU fydd mynd i'r afael â diwygio budd-daliadau gan ddefnyddio'r profiad a gafwyd yma a thramor. Mae'r rhaglen 'Get Britain Working', a gynigir gan y Ceidwadwyr, yn cynnig dull hollol wahanol o weithredu. Yn hytrach na chynlluniau di-ri, yr ydym yn cynnig un rhaglen fawr o gymorth i bobl ddi-waith, sy'n cyfuno lles, menter, hyfforddiant, sgiliau ac addysg, gan helpu trawsnewid yr economi a hybu cystadleurwydd. Bydd

new integrated welfare-to-work initiative, the Work programme, will provide a simple, integrated programme for all out-of-work benefit claimants.

5.30 p.m.

We will tailor return-to-work support to an individual's need rather than the benefit that they are claiming. Only last Friday, homeless people from across north Wales, desperate to get qualifications and to end their dependency on benefits, told me of their frustration at being told that they would lose their housing benefit if they went to college. This obscenity must end. The Conservatives will, again, reinvigorate self-employment as a route back to work. Carwyn Jones loves to hark back to the 1980s, as does Jeff, when the Conservative enterprise allowance scheme helped over 100,000 people a year into self-employment. That figure fell to just 5,000 people a year under Labour's New Deal self-employment option. Facts—say no more, Carwyn Jones, squire.

The Deputy Presiding Officer: I am not sure how Mark Isherwood finished his contribution. I will check the Record.

I now call on the Deputy First Minister to speak on behalf of the Government.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Credaf ein bod i gyd yn sylweddoli ein bod wedi bod drwy gyfnod economaidd hynod anodd, a hynny yng nghyd-destun y dirwasgiad dyfnaf ers yr ail ryfel byd. Yr ydym i gyd, felly, yn cydnabod bod diweithdra wedi cynyddu. Mae hynny'n destun gofid, fel y clywsom gan nifer o Aelodau heddiw. Yr ydym yn rhannu'r pryder hwnnw, a dyna pam y bydd ein gwelliant yn cael ei atodi i gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol. Fodd bynnag, mae'n bwysig rhoi hynny yn ei gyd-destun, oherwydd mae'n rhaid inni edrych ar yr holl ffigurau ac ystadegau am nad yw'r darlun ynglŷn â lefelau diweithdra yn dweud y stori

menter 'o fudd-dal i waith' integredig newydd, sef y rhaglen 'Work', yn darparu rhaglen integredig syml i bawb sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra.

Byddwn yn teilwra cymorth dychwelyd i'r gwaith fel y bydd yn cyd-fynd ag angen unigolyn yn hytrach na'r budd-dal y mae'n ei hawlio. Mor ddiweddar â dydd Gwener diwethaf, clywais gan bobl ddiartref o bob cwr o'r gogledd, a fyddai'n fodlon gwneud unrhyw beth bron i gael cymwysterau a rhoi diwedd ar eu dibyniaeth ar fudd-daliadau, am eu rhwystredigaeth wrth gael gwybod y byddent yn colli eu budd-dal tai pe baent yn mynd i'r coleg. Rhaid i'r anlladrwydd hwn ddod i ben. Bydd y Ceidwadwyr yn adfywio hunan-gyflogaeth unwaith eto fel llwybr yn ôl i waith. Mae Carwyn Jones wrth ei fodd yn sôn byth a hefyd am yr 1980au, fel y mae Jeff, pan lwyddodd cynllun lwfans menter y Ceidwadwyr i helpu dros 100,000 o bobl y flwyddyn i fod yn hunan-gyflogedig. Gostyngodd y ffigur hwnnw i 5,000 o bobl y flwyddyn yn unig dan ddewis hunan-gyflogaeth y Fargen Newydd dan y Blaid Lafur. Dyna'r ffeithiau—nid oes angen dweud mwy, Carwyn Jones, sgweier.

Y Dirprwy Lywydd: Nid wyf yn siŵr sut y gorffennodd Mark Isherwood ei gyfraniad. Edrychaf ar y Cofnod.

Galwaf yn awr ar y Dirprwy Brif Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth.

The Deputy First Minister: I am glad of the opportunity to contribute to this debate. I believe we all recognise that we are going through an extremely difficult time, economically, in the context of the deepest recession since the second world war. We all recognise, therefore, that unemployment has risen. That is a cause of concern, as many Members have said today. We share that concern, which is why our amendment will be added to the Liberal Democrat motion. However, it is important to put that in context, as we must look at all the figures and statistics, because the picture on unemployment levels does not tell the whole story.

i gyd.

Mae'n debyg, felly, ein bod, fel yr eglurais, wedi gweld y cwmp mwyaf mewn lefelau cynnyrch mewnwladol crynswth am y degawdau diwethaf. Dangosodd y data diweddaraf fod y Deyrnas Gyfunol wedi esgyn o'r dirwasgiad yn chwarter olaf 2009. Mae'r adferiad hwnnw wedi parhau drwy dri mis cyntaf eleni, er bod yr amcangyfrifon cyntaf yn awgrymu efallai fod yr adferiad hwn wedi arafu rhywfaint. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod, wrth gwrs, oherwydd mae'r ffigurau yn gallu newid. Addaswyd y ffigurau diwethaf am i fyny, a'r tebyg yw y bydd hynny'n cael ei wneud i'r rhai diweddaraf hefyd.

Gwaetha'r modd, nid oes gennym ddata penodol i Gymru eto, ac felly mae'n rhy gynnar i ddweud a ydym wedi dod allan o'r dirwasgiad yn llwyr. Yn bendant, mae'n rhy fuan i'r Llywodraeth hon ac i'r Llywodraeth nesaf yn San Steffan wneud toriadau a fyddai'n arafu'r adferiad economaidd. Byddai hynny'n drychineb i Gymru. Nid ydym wedi clywed llawer am hynny gan y gwrthbleidiau y prynhawn yma.

We all acknowledge that the impact of the global recession on the labour market in Wales has been severe. This is the first recession to face this devolved Government, or indeed any devolved Government in the United Kingdom. I would argue that we have put in place tailored policies to help people through the hard times. As a result, the impact has not been as devastating on our people and communities as in previous recessions, when policy set by Westminster did not always help Wales, even making things worse. When you compare the impact of the recessions in the 1980s and 1990s on Welsh communities, when the drop in GDP was not as severe as it has been recently, you will see that the figures now are not as bad. I am not saying that interventions by the Welsh Assembly Government have prevented us from going into recession, or indeed that they made a substantial impact, but there were opportunities that we took to ameliorate the impact.

It seems, therefore, as I explained, that we have seen the greatest fall in gross domestic produce figures of the last few decades. The latest data show that the United Kingdom moved out of recession in the last quarter of 2009. That recovery has continued through the first three months of this year, even though estimates suggest it might have slowed down somewhat. However, we do not know if that is the case, of course, because figures can change. The last set of figures has been amended upwards, and that is also likely to be the case with the most recent figures.

Unfortunately, we do not yet have specific data for Wales, so it is too early to say whether we are fully out of recession. It is definitely too early for this Government or for the next Westminster Government to start making cuts that would slow down the economic recovery. That would be disastrous for Wales. We have not heard much about that from the opposition parties this afternoon.

Yr ydym i gyd yn cydnabod bod effaith y dirwasgiad byd-eang ar y farchnad lafur yng Nghymru wedi bod yn ddifrifol. Hwn yw'r dirwasgiad cyntaf i wynebu'r Llywodraeth ddatganoledig hon, a phob Llywodraeth ddatganoledig yn y Deyrnas Gyfunol, yn wir. Byddwn i'n dadlau ein bod wedi cyflwyno polisiau wedi'u teilwra i helpu pobl drwy'r amseroedd anodd. O ganlyniad, ni fu'r effaith ar ein pobl a'n cymunedau mor ddinistriol ag y bu mewn dirwasgiadau blaenorol, pan nad oedd y polisiau a bennid gan San Steffan yn helpu Cymru bob amser, a phan oeddent yn gwneud pethau'n waeth hyd yn oed. Wrth gymharu effaith y dirwasgiadau yn yr 1980au a'r 1990au ar gymunedau Cymru, pan nad oedd y gostyngiad mewn cynnyrch mewnwladol crynswth mor ddifrifol ag a fu'n ddiweddar, fe welch nad yw'r ffigurau cynddrwg yn awr. Nid wyf yn dweud bod ymyriadau gan Lywodraeth y Cynulliad wedi ein hatal rhag mynd i ddirwasgiad, na'u bod wedi cael effaith sylweddol ychwaith, ond cafwyd cyfleoedd a gymerwyd gennym i leddfu'r effaith.

It is also true to say that there was overreliance on the financial sector in London, which meant that the manufacturing sector was not given the status it deserved. That will have an impact on us as we come out of recession. I have indicated clearly that the most recent International Labour Organisation unemployment data remain a real cause for concern, given that they show an increase in the quarter between December and February. However, we all acknowledge, and the Office of National Statistics makes it clear, that it is difficult to rely on a simple, one-month figure, because the ILO rates are survey-based and they can be volatile. I am sure that David and Jenny will have seen the figures for the last few months. They can go up 10,000 or down 10,000, and that cannot possibly be the case. So, you have to look at that over a period of time to see what direction those unemployment figures are going in. I think that everyone now accepts that the direction is downward, although there will be spikes from time to time that may give us an indication that we are not out of the woods yet.

One thing that surprised me about Jenny's introduction was that she did not recognise that the claimant count is always more timely and less volatile, and the figures for March show a decline. In fact, the claimant count has now declined in four out of the last five months. Provided that that continues, we will see that pattern reflected in the ILO measure in due course.

More generally, as a longer-term perspective on the labour market, there are some positive trends, which give me some hope that we have weathered the worst of the storm and protected some of our most vulnerable communities thanks to Welsh Assembly Government policies. We have worked extremely hard to help the unemployed. We have implemented innovative strategies, such as ReAct and ProAct, in conjunction with business to actively prevent people from becoming unemployed. I was astounded by Jenny Randerson's criticism of ProAct. It has

Mae hefyd yn wir dweud inni weld gorddibyniaeth ar y sector ariannol yn Llundain, a oedd yn golygu na chafodd y sector gweithgynhyrchu y statws yr oedd yn ei haeddu. Bydd hynny'n effeithio arnom wrth inni ddod allan o'r dirwasgiad. Yr wyf wedi nodi'n glir bod data diweddaraf y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ynghylch diweithdra'n parhau i beri pryder gwirioneddol, o ystyried eu bod yn dangos cynnydd yn y chwarter rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror. Fodd bynnag, yr ydym i gyd yn cydnabod, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi'n glir, ei bod yn anodd dibynnu ar ffigur syml ar gyfer un mis, oherwydd mae cyfraddau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn seiliedig ar arolygon, a gallant fod yn gyfnewidiol. Yr wyf yn siŵr y bydd David a Jenny wedi gweld y ffigurau ar gyfer yr ychydig fisoedd diwethaf. Gallant gynyddu 10,000 neu ostwng 10,000, ac ni all hynny fod yn wir. Rhaid ichi edrych, felly, ar y sefyllfa dros gyfnod i weld i ba gyfeiriad y mae'r ffigurau diweithdra hynny'n mynd. Credaf fod pawb yn derbyn bellach eu bod yn mynd tuag i lawr, er y bydd amrywiadau sydyn o bryd i'w gilydd, a allai ddangos inni nad ydym allan o drafferthion eto.

Un peth a'm synnodd am gyflwyniad Jenny oedd nad oedd yn cydnabod bod nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn fwy amserol ac yn llai cyfnewidiol bob amser, ac mae'r ffigurau ar gyfer mis Mawrth yn dangos gostyngiad. Mewn gwirionedd, mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng bellach yn ystod pedwar o'r pum mis diwethaf. Cyhyd ag y bydd hynny'n parhau, fe welwn y patrwm hwnnw'n cael ei adlewyrchu maes o law ym mesur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

Yn fwy cyffredinol, fel safbwynt mwy hirdymor ar y farchnad lafur, mae yna rai tueddiadau cadarnhaol, sy'n rhoi rhywfaint o obaith imi ein bod wedi dod drwy ran waethaf y storm, a'n bod wedi amddiffyn rhai o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed, diolch i bolisiau Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym wedi gweithio'n hynod galed i helpu pobl ddi-waith. Yr ydym wedi gweithredu strategaethau arloesol, megis ReAct a ProAct, mewn cydweithrediad â byd busnes, er mwyn gweithredu i atal pobl rhag colli eu gwaith. Yr oeddwn yn rhyfeddu at

been trumpeted throughout the UK. I find it surprising that the Liberal Democrats in Scotland think that ProAct is a fantastic scheme and want it to be introduced there, while a Welsh Liberal Democrat criticises the scheme that others have trumpeted. There you are—that is what you expect from a party like the Liberal Democrats.

Jenny Randerson: I do not think that you were listening carefully, Ieuan. I said that it was a perfectly good scheme. I did not criticise the scheme; I criticised the fact that it had been over-hyped by the Welsh Assembly Government as the answer to all problems in this economic crisis.

The Deputy First Minister: We have never claimed that it would be the answer, but we have said and we are entitled to claim that but for ProAct, another 10,000 people would be unemployed, and I think that you should acknowledge that. I find it utterly astounding that you trumpeted the figures in your contribution. ProAct is a demand-led scheme; it is up to companies to apply to it. Any company in any part of Wales can apply to ProAct—that is the nature of the scheme. The Government cannot be criticised if, having made the scheme available, certain companies do not apply for it. That is not our fault. In certain areas, such as in the case of Corus, as Brian mentioned, these schemes have helped considerably.

So, rather than criticise the scheme, you should congratulate us on introducing it, recognise the contribution that it has made, and ask us why we cannot develop it to ensure that its skill element continues into the future. That is precisely what we are doing. We recognise that the scheme's wage element will need to come to an end as we come out of recession, but we are retaining the skill element of the scheme for the future. All we ask in the Government's amendment is for you to recognise the contribution that we have made. We do not have the macro-economic policies that are available to the Westminster Government. However, you should recognise that the Welsh Assembly Government, in using its powers

feirniadaeth Jenny Randerson o ProAct. Mae wedi'i ganmol ledled y DU. Mae'n fy synnu bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Alban yn credu bod ProAct yn gynllun ardderchog a'u bod am iddo gael ei gyflwyno yno, tra mae un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn beirniadu'r cynllun y mae pobl eraill wedi'i ganmol. Dyna chi—dyna sydd i'w ddisgwyl gan blaid fel y Democratiaid Rhyddfrydol.

Jenny Randerson: Nid wyf yn credu eich bod wedi gwrando'n astud, Ieuan. Dywedais ei fod yn gynllun da. Ni feirniadais y cynllun; beirniadais y ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi'i frolio'n ormodol fel yr ateb i bob problem yn yr argyfwng economaidd hwn.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid ydym erioed wedi honni mai hwn fyddai'r ateb, ond yr ydym wedi dweud, ac mae gennym hawl i honni, y byddai 10,000 yn rhagor o bobl yn ddi-waith oni bai am ProAct, a chredaf y dylech gydnabod hynny. Mae'n fy synnu'n fawr eich bod wedi sôn am y ffigurau yn eich cyfraniad. Mae ProAct yn gynllun sy'n cael ei arwain gan alw; cyfrifoldeb cwmnïau yw cyflwyno cais iddo. Gall unrhyw gwmni ym mhob cwr o Gymru gyflwyno cais i ProAct—dyna yw natur y cynllun. Ni ellir beirniadu'r Llywodraeth, ar ôl iddi sicrhau bod y cynllun ar gael, os nad yw rhai cwmnïau'n cyflwyno cais iddo. Nid ein bai ni yw hynny. Mewn rhai ardaloedd, megis yn achos Corus, fel y soniodd Brian, mae'r cynlluniau hyn wedi helpu'n sylweddol.

Felly, yn hytrach na beirniadu'r cynllun, dylech ein llongyfarch ar ei gyflwyno, cydnabod y cyfraniad y mae wedi'i wneud, a gofyn inni pam na allwn ei ddatblygu i sicrhau bod ei elfen sgiliau'n parhau i'r dyfodol. Dyna'n union yr ydym yn ei wneud. Yr ydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i elfen gyflogau'r cynllun ddod i ben wrth inni ddod allan o'r dirwasgiad, ond yr ydym yn cadw elfen sgiliau'r cynllun ar gyfer y dyfodol. Y cyfan yr ydym yn gofyn amdano yng ngwelliant y Llywodraeth yw ichi gydnabod y cyfraniad yr ydym wedi'i wneud. Nid oes gennym y polisiau macro-economaidd sydd ar gael i Lywodraeth San Steffan. Fodd bynnag, dylech gydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad, wrth ddefnyddio ei phwerau'n

innovatively, has been able to make a contribution to tackling these unemployment figures, but we recognise that there is still more to do.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I thank colleagues across the Chamber for their contribution to the debate. What unites us all is an understanding of the devastation that unemployment can bring to individuals and communities, and we have a shared desire to do something about that, although how we would go about that differs according to which part of the Chamber you occupy. Let us be clear about the challenge that we face and about the fact that the Deputy First Minister is right—the Government in Wales has not sat back and done nothing in the face of the global recession and its effect on the Welsh economy.

5.40 p.m.

I can understand that the Deputy First Minister is suitably proud of his economic summits and the measures that emanate from them—he tells us about them a lot. Indeed, the measures resulting from those summits have been an attempt to ameliorate some of the worst effects that the recession could have wrought on the labour market in Wales. However, let us be clear and open about the fact that, in the three months to February, for every job that ProAct saved in the year that it has been running, another person has lost their job.

The Deputy First Minister: I would like to make it clear to Kirsty that this Government has invested £48 million in the ProAct scheme. How much would the Liberal Democrats have invested?

Kirsty Williams: The Liberal Democrats have never opposed the ProAct scheme. The Liberal Democrats have supported the Government in bringing that scheme forward. We have never voted against it or opposed the money that you have spent on it. I am just saying that we should be real about the fact that, for every job saved by that £48 million scheme, the last three months for which figures are available show that an equal

arloesol, wedi gallu cyfrannu i fynd i'r afael â'r ffigurau diweithdra hyn, ond yr ydym yn cydnabod bod mwy o waith eto i'w wneud.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Diolch i'm cydweithwyr ar draws y Siambr am eu cyfraniad i'r ddadl. Yr hyn sy'n ein huno i gyd yw dealltwriaeth o'r dinistr y gall diweithdra ei achosi i unigolion a chymunedau, ac yr ydym i gyd yn awyddus i wneud rhywbeth am hynny, er y byddai ein dulliau o wneud hynny'n wahanol, yn ôl pa ran o'r Siambr yr ydych yn eistedd. Gadewch inni ddeall yn glir yr her sy'n ein hwynebu, a'r ffaith fod y Dirprwy Brif Weinidog yn gywir—nid yw'r Llywodraeth yng Nghymru wedi eistedd yn ôl a gwneud dim yn wyneb y dirwasgiad byd-eang a'i effaith ar economi Cymru.

Gallaf ddeall bod y Dirprwy Brif Weinidog yn briodol falch o'i uwchgynadleddau economaidd a'r mesurau sy'n deillio ohonynt—mae'n sôn llawer wrthym amdanynt. Yn wir, mae'r mesurau a ddeilliodd o'r uwchgynadleddau hynny wedi bod yn ymgais i leddfu rhai o'r effeithiau gwaethaf y gallai'r dirwasgiad fod wedi'u hachosi i'r farchnad lafur yng Nghymru. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn glir ac yn onest fod un unigolyn, yn ystod y tri mis hyd at fis Chwefror, wedi colli ei swydd am bob swydd y llwyddodd ProAct i'w hachub yn ystod y flwyddyn y mae wedi bod ar waith.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Hoffwn egluro wrth Kirsty bod y Llywodraeth hon wedi buddsoddi £48 miliwn yng nghynllun ProAct. Faint fyddai'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i fuddsoddi?

Kirsty Williams: Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol erioed wedi gwrthwynebu cynllun ProAct. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cefnogi'r Llywodraeth wrth gyflwyno'r cynllun hwnnw. Nid ydym erioed wedi pleidleisio yn ei erbyn na gwrthwynebu'r arian yr ydych wedi'i wario arno. Y cyfan yr wyf yn ei ddweud yw y dylem fod yn onest fod y tri mis diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer yn dangos

number of people have lost their jobs. *[Interruption.]* If the Deputy First Minister could calm down and listen to the rest of my contribution, we may get somewhere.

The issue we face is that, in trying to deal with the storm that has engulfed us, we have not been able to get to and deal with the real problems that affect our nation or the weaknesses in the economic structure. We heard the example of Blaenau Gwent, and in communities such as this, we are facing the third or fourth generation who do not know the dignity of hard work. While I accept that Trish has said that there is a lack of aspiration in those communities, when I go to Valleys communities, I find a huge amount of aspiration among the young people living in them. The tragedy is that they cannot fulfil their aspirations within their own community; they have to look outside the Valleys, or even outside Wales, if they are to realise their hopes and their dreams.

David Melding spoke eloquently about youth unemployment, and this is one of the issues that we need to address, as is the economic inactivity that continues to dog our economy. That is one of the structural difficulties that we face in providing a long-term solution to unemployment in Wales.

Other structural problems that we face are the age structure of our population: the number of people we have under the age of 16 and the number of people we have over the age of 65. You could add to that the low level of compensation that Welsh workers receive, low pay and the low and declining operating surpluses in the private sector that deny the private sector of the capital to invest to develop their businesses. Those are some of the things that we need to tackle.

I accept that the Deputy First Minister cannot do very much about the age profile of Wales; that is beyond him. *[Laughter.]* However, we need to get to grips with some of the

bod nifer y bobl sydd wedi colli eu swyddi yr un fath â nifer y swyddi a achubwyd gan y cynllun £48 miliwn hwnnw. *[Torri ar draws.]* Pe bae'r Dirprwy Brif Weinidog ymdawelu a gwranddo ar weddill fy nghyfraniad, hwyrach y gallem symud ymlaen.

Y broblem sy'n ein hwynebu, wrth geisio ymdrin â'r storm sydd wedi ein hamgylchynu, yw ein bod wedi methu cyrraedd y problemau go iawn sy'n effeithio ar ein gwlad a'r gwendidau yn y strwythur economaidd, ac wedi methu ymdrin â hwy. Clywsom am enghraifft Blaenau Gwent, ac mewn cymunedau megis honno yr ydym yn wynebu'r drydedd neu'r bedwaredd genhedlaeth nad yw'n gwybod beth yw urddas gwaith caled. Er fy mod yn derbyn bod Trish wedi dweud bod diffyg dyhead yn y cymunedau hynny, pan af i gymunedau'r Cymoedd gwelaf lawer iawn o ddyhead ymhlith y bobl ifanc sy'n byw yno. Y drasiedi yw na allant wireddu eu dyheadau yn eu cymuned eu hunain; rhaid iddynt edrych y tu allan i'r Cymoedd, neu'r tu allan i Gymru hyd yn oed, os ydynt i wireddu eu gobeithion a'u breuddwydion.

Siaradodd David Melding yn huawdl am ddiweithdra ymhlith ieuenctid, ac mae'n un o'r problemau y mae angen inni roi sylw iddi, fel gyda'r anweithgarwch economaidd sy'n parhau i boeni ein heconomi. Dyna un o'r anawsterau strwythurol sy'n ein hwynebu wrth ddarparu ateb hirdymor i ddiweithdra yng Nghymru.

Ymhlith y problemau strwythurol eraill sy'n ein hwynebu y mae strwythur oed ein poblogaeth: nifer y bobl sydd gennym dan 16 oed a nifer y bobl sydd gennym dros 65 oed. At hynny, gallech ychwanegu lefel isel yr iawndal a gaiff gweithwyr Cymru, cyflogau isel, a'r gwarged gweithredol isel sy'n gostwng yn y sector preifat, sy'n golygu nad oes gan sefydliadau'r sector preifat y cyfalaf i fuddsoddi i ddatblygu eu busnesau. Dyna rai o'r pethau y mae angen inni fynd i'r afael â hwy.

Derbyniaf na all y Dirprwy Brif Weinidog wneud llawer iawn am broffil oed Cymru; mae hynny y tu hwnt i'w allu. *[Chwerthin.]* Fodd bynnag, mae angen inni fynd i'r afael â

structural issues. The Deputy First Minister is right to say that our ability to do that in the Assembly is limited, given the powers that we have. We need to look at the situation in Westminster. I would argue for a reform of the banking structure so that we never get ourselves into this mess again. We should get the banks that are primarily owned by us, taxpayers, to lend to businesses in Wales and across the UK, and we should have an economic plan for the UK that does not focus just on the Square Mile of London, but recognises the need for all of us, wherever we are in the UK, to have gainful employment. We have been distracted by the Square Mile in London, rather than looking at the wider picture across the UK.

I would argue that we need to continue to have an immediate stimulus programme to continue to offset the worst aspects of this recession. I would especially like to see emphasis placed on the construction industry, which is still at rock bottom, getting builders back to work, but also providing long-term benefits in home energy efficiency and affordable housing. We need schemes to give young people practical experience of the workplace so that they can demonstrate to future employers that they do not just have the academic qualifications to do the job, but also practical skills that they can bring to that job. We need new innovative ways of raising capital for business in Wales, and I would argue that we still need to look at issues around a Welsh stock exchange, as well as finding new ways of supporting mutual and co-operative models in Wales that would provide more sustainable job opportunities in future.

We also need to look at what the Government can do to create a culture of innovation. It is something that the Government spends a lot of time talking about, but the fall in the number of patent applications in Wales over the last year demonstrates a different reality. We need to develop business and management skills in our country in the private sector. We heard little of what the

rhai o'r problemau strwythurol. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn iawn wrth ddweud bod ein gallu i wneud hynny yn y Cynulliad wedi'i gyfyngu, o ystyried y pwerau sydd gennym. Mae angen inni edrych ar y sefyllfa yn San Steffan. Byddwn yn dadlau dros ddiwygio'r strwythur bancio fel nad awn i'r un trafferthion byth eto. Dylem gael y banciau, yr ydym ni'r trethdalwyr yn berchen arnynt yn bennaf, i fenthyca i fusnesau yng Nghymru a ledled y DU, a dylem gael cynllun economaidd ar gyfer y DU nad yw'n canolbwyntio ar Filtir Sgwâr Llundain yn unig, ond sy'n cydnabod bod angen inni i gyd gael gwaith cyflogedig, ble bynnag yr ydym yn y DU. Mae'r Filtir Sgwâr yn Llundain wedi tynnu ein sylw, sy'n golygu nad ydym wedi bod yn edrych ar y darlun ehangach ledled y DU.

Byddwn yn dadlau bod angen inni barhau i gael rhaglen o ysgogiadau uniongyrchol er mwyn parhau i leddfu'r agweddau gwaethaf ar y dirwasgiad hwn. Yn arbennig, hoffwn weld pwyslais ar y diwydiant adeiladu, sydd ar ei liniau o hyd, a chael adeiladwyr yn ôl i'r gwaith, ond gan ddarparu manteision hirdymor hefyd o safbwynt effeithlonrwydd ynni cartref a thai fforddiadwy. Mae arnom angen cynlluniau i roi profiad ymarferol o'r gweithle i bobl ifanc, er mwyn iddynt allu dangos i gyflogwyr yn y dyfodol nad y cymwysterau academaidd yn unig sydd ganddynt i wneud y swydd, ond y gallant ddod â sgiliau ymarferol i'r swydd honno hefyd. Mae arnom angen ffyrdd newydd ac arloesol i godi cyfalaf ar gyfer byd busnes yng Nghymru, a byddwn yn dadlau bod angen o hyd inni edrych ar faterion ynghylch cyfnewidfa stoc Gymreig, yn ogystal â chael ffyrdd newydd i gefnogi modelau cydfuddiannol a chydweithredol yng Nghymru, a fyddai'n darparu mwy o gyfleoedd cynaliadwy o ran swyddi yn y dyfodol.

Mae angen hefyd inni edrych ar yr hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i greu diwylliant o arloesedd. Mae'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth yn treulio llawer o amser yn siarad amdano, ond mae'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau am batent yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos realiti wahanol. Mae angen inni ddatblygu sgiliau busnes a sgiliau rheoli yn ein gwlad yn y

Government intends to do to address these fundamental structural difficulties in the Welsh economy. Unless we get to grips with those, we will continue to have debates in the Chamber about Wales having the highest unemployment levels in the whole of the UK.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

The Business Committee agreed that voting would not be before 5 p.m. and it is now 5.45 p.m. so I intend to move straight to the votes. Does any Member wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

sector preifat. Ychydig a glywsom am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r anawsterau strwythurol sylfaenol hyn yn economi Cymru. Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r rheini, byddwn yn parhau i gael dadleuon yn y Siambr am y ffaith mai Cymru sydd â'r lefelau diweithdra uchaf yn y DU gyfan.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes na fyddai pleidleisio'n digwydd cyn 5 p.m. ac mae bellach yn 5.45 p.m., felly, bwriadaf symud yn syth at y pleidleisiau. A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4453: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 27.
Motion NDM4453: For 15, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Evans, Nerys
German, Michael
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Jocelyn
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Cynnig NDM4460: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Motion NDM4460: For 14, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant1 i NDM4460: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 13.
Amendment1 to NDM4460: For 29, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Gareth

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

Cynnig NDM4460 fel y'i diwygiwyd: bod

Motion NDM4460 as amended: that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

1. yn gresynu wrth y cynnydd diweddaraf mewn diweithdra yng Nghymru.

1. regrets the latest rise in unemployment in Wales;

2. ond yn nodi bod ystadegau diweddaraf y farchnad lafur yn dynodi gostyngiad yn nifer y sawl sy'n hawlio budd-dâl; ac

2. notes, however, that the latest labour market statistics indicate a reduction in the claimant count; and

3. yn croesawu'r camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys ProAct, i ddiogelu swyddi yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at gynigion pellach mewn perthynas â chyflogaeth yn ei rhaglen i adnewyddu'r economi.

3. welcomes the Welsh Assembly Government's actions, including ProAct, to safeguard jobs in Wales and looks forward to further proposals relating to employment within its economic renewal programme.

*Cynnig NDM4460 fel y'i diwygiwyd: O blaid 29, Ymatal 5, Yn erbyn 8.
Motion NDM4460 as amended: For 29, Abstain 5, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Williams, Brynle

Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Bates, Mick
 Burnham, Eleanor
 German, Michael
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4460 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4460 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Llywodraethu'r Corfforaethau—Gwersi i'w Dysgu o Visteon UK Governing the Corporations—Lessons to be Learned from Visteon UK

Bethan Jenkins: I have agreed to give a minute to Jeff Cuthbert and Brian Gibbons to speak in this short debate. I welcome some of the ex-Visteon UK workers to the public gallery who have come to support this debate, and I thank Assembly Members who have agreed to stay to listen.

Bethan Jenkins: Yr wyf wedi cytuno i roi munud i Jeff Cuthbert a Brian Gibbons siarad yn y ddadl fer hon. Hoffwn groesawu rhai o gyn-weithwyr Visteon UK, sydd wedi dod i gefnogi'r ddadl hon, i'r oriel gyhoeddus, a diolchaf i Aelodau'r Cynulliad sydd wedi cytuno i aros i wrando.

*Daeth Lorraine Barrett i'r Gadair am 5.48 p.m.
 Lorraine Barrett took the Chair at 5.48 p.m.*

I am going to start with a story. One day, a mouse chanced upon a farmer and his wife setting a mousetrap. Very alarmed, he immediately ran off to tell the other farm animals. The chicken raised its head and said, 'Mr Mouse, I can tell this is a grave concern to you, but I can't be bothered by it.' The pig sympathised, but said, 'I am so very sorry, Mr Mouse, but there is nothing I can do about it.' The cow said, 'Mr Mouse, I am sorry for you, but it's no skin off my nose.' So, the mouse returned to the farmhouse, dejected, to face the farmer's mousetrap alone. That night, the whole farm woke to the sound of it snapping shut. The farmer's wife got there first, but in the darkness she could not see that it was a venomous snake with its tail caught in the trap, and it bit her. When she returned from hospital, she still had a fever. The farmer knew that the way to treat it was with chicken soup, so he grabbed his hatchet

Yr wyf am ddechrau gyda stori. Un diwrnod, digwyddodd llygoden weld ffermwr a'i wraig yn gosod trap llygod. Wedi dychryn, rhedodd yn syth i ddweud wrth anifeiliaid eraill y fferm. Cododd yr iâr ei phen a dweud, 'Mr Llygoden, yr wyf yn sylweddoli ei fod yn peri pryder mawr i chi, ond nid wyf fi'n poeni dim am y peth.' Yr oedd y mochyn yn cydymdeimlo â'r llygoden, ond meddai, 'Mae'n flin iawn gennyf, Mr Llygoden, ond ni allaf fi wneud dim am y peth.' Meddai'r fuwch, 'Mr Llygoden, mae'n flin gennyf drosoch, ond does dim ots gennyf fi.' Felly, aeth Mr Llygoden yn ôl i'r ffermdy'n ddigalon i wynebu trap llygod y ffermwr ar ei ben ei hun. Y noson honno, dihunodd y fferm gyfan i sŵn y trap yn clecian wrth iddo gau. Gwraig y ffermwr a gyrhaeddodd gyntaf, ond yn y tywyllwch ni allai weld mai neidr wenwynig oedd wedi dal ei chwt yn y trap, a chafodd ei chnoi ganddi. Pan ddychwelodd

and slaughtered the main ingredient in the farmyard. However, his wife's sickness persisted. Friends and neighbours came to sit with her. To feed them, the farmer butchered the pig. Sadly, this care was not enough, and the farmer's much-loved wife died. So many people came for her funeral that the farmer had the cow slaughtered to provide a feast for them. What is the moral of this tale? When someone is in trouble, it could mean that we are all in trouble.

o'r ysbyty, yr oedd yn dal dan dwymyn. Gwyddai'r ffermwr mai'r driniaeth briodol oedd cawl cyw iâr, felly, cydiodd yn ei fwyell a lladdodd y prif gynhwysyn ar y buarth. Fodd bynnag, parhaodd salweh ei wraig. Daeth ffrindiau a chymdogion draw i eistedd gyda hi, ac er mwyn eu bwydo lladdodd y ffermwr y mochyn. Gwaetha'r modd, ni fu'r gofal hwnnw'n ddigon, a bu farw gwraig y ffermwr, yr oedd pawb mor hoff ohoni. Daeth cynifer o bobl i'w hangladd nes i'r ffermwr orfod lladd y fuwch i ddarparu gwledd ar eu cyfer. Beth yw moeswers y stori hon? Pan fydd unigolyn mewn trafferth, gallai olygu bod pob un ohonom mewn trafferth.

5.50 p.m.

This story was sent to me by one of the men from Swansea who once worked at the Visteon UK automotive factor. He was one of the 700 workers from that city, and one of over 3,000 men and women across the UK, who are fighting for what is theirs and what has been taken from them in one of the most shameful moments of callous corporate action in modern British industrial history.

Anfonwyd y stori hon ataf gan un o'r dynion o Abertawe a fu'n gweithio yn ffatri fodurol Visteon UK. Mae'n un o 700 o weithwyr o'r ddinas honno, ac yn un o dros 3,000 o ddynion a menywod ar draws y DU, sy'n ymladd am rywbeth sy'n eiddo iddynt ac sydd wedi'i gymryd oddi arnynt yn un o'r enghreifftiau mwyaf cywilyddus o weithredu corfforaethol didrugaredd yn hanes diwydiannol modern Prydain.

As a result of what happened to those pensioners, I believe that the time has come to decide as an Assembly, as a country, and across the western world as a whole, whether what has happened with Visteon will be the last time that we will stand for such breathtaking free-market disregard for working people, or whether the way in which these men and women have been sold down the river by one of the world's biggest, most recognisable and loved brands becomes just the first of many more depressing episodes. In short, we need to decide where to draw the line, how to take back power from these corporations, and to reaffirm our persistence in providing the duty of care that we have promised to the people we represent.

O ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd i'r pensiywyr dan sylw, credaf ei bod yn bryd penderfynu fel Cynulliad, fel gwlad, ac ar draws y byd gorllewinol yn gyfan, ai'r digwyddiad hwn gyda Visteon yw'r tro olaf y byddwn yn goddef amarch mor syfrdanol at weithwyr gan y farchnad rydd, ynteu a fydd y modd y bradychwyd y dynion a'r menywod hyn gan un o frandiau mwyaf helaeth, adnabyddus a phoblogaidd y byd yn enghraifft gyntaf o nifer o achosion trist o'r fath. Yn syml, mae angen inni benderfynu ble i dynnu'r llinell, sut i adennill grym oddi ar y corfforaethau hyn, ac ailddatgan ein bwriad i ddyfalbarhau wrth ddarparu'r ddyletswydd gofal yr ydym wedi'i haddo i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli.

The Assembly may not be aware of recent developments concerning the Visteon pensioners. The Visteon Corporation, parent company to Visteon UK, is seeking chapter 11 reorganisation in the US, which will effectively allow it to shake off much of its debt and start afresh and anew. While this

Efallai nad yw'r Cynulliad yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar yn achos pensiywyr Visteon. Mae corfforaeth Visteon, sy'n rhiant-gwmni i Visteon UK, yn ceisio mynd drwy broses ad-drefnu dan bennod 11 yn yr Unol Daleithiau a fydd, i bob pwrpas, yn caniatáu iddi gael gwared ar lawer o'i dyled a

claim was being heard in the courts, the Visteon UK pension fund trustees, with the support of the pension protection fund, entered a claim for around £350 million, the amount by which the Visteon UK pension fund was underfunded.

In the US, Ford assisted Visteon in meeting its pension obligations in order to allow the company to emerge from bankruptcy. Visteon Corporation lawyers have issued a near 250-page objection to the UK claim. It can be whittled down to the following points: allowing the claim would have a dramatic impact on the corporation's ability to pay other creditors and UK pensioners would receive their money first; that under UK law the corporation has no obligation to the Visteon UK pension plan because it is no longer its sponsor; any judgment made in the UK against Visteon is unenforceable, because it cut its ties with the UK when it went bust; and lastly, that the Visteon Corporation subsidised its UK operation to the tune of almost \$800 million during the nine years that it was in existence, and received no benefit in kind.

I want to concentrate on the final point by looking at the history of the Visteon Corporation. At the turn of the millennium, faced with mounting component prices and with ever more available cheap labour in emerging economies, Ford spun its parts division out of the main business. Until Visteon was formed in 2000, components had been paid for in what was referred to, by Ford, as 'wooden dollars', that is, the transfer cost between Ford divisions that was built into the price of the car. Now, however, it had created an internal market. Visteon was Ford's main supplier and supplied only Ford in the first year. Visteon workers, including the 3,500 based in the UK, were given cast-iron guarantees by Ford that their pension plans and terms would be transferred over to Visteon and mirrored by the new business. All of this is a matter of record. With the trade unions, Ford finalised a clear agreement on the transfer as part of the Ford European Works Council.

dechrau o'r newydd. Tra oedd y llysoedd yn gwranddo ar y cais hwn, cyflwynodd ymddiriedolwyr cronfa bensiwn Visteon UK, gyda chymorth y gronfa diogelu pensiynau, gais am oddeutu £350 miliwn, sef swm y diffyg cyllid yng nghronfa bensiwn Visteon UK.

Yn yr Unol Daleithiau, cafodd cwmni Visteon gymorth gan Ford i fodloni ei rwymedigaethau pensiwn, er mwyn caniatáu iddo oroesi'r broses fethdalau. Mae cyfreithwyr corfforaeth Visteon wedi cyflwyno gwrthwynebiad i gais y DU, sydd bron yn 250 o dudalennau o hyd. Gellir ei grynhoi ar ffurf y pwyntiau canlynol: byddai caniatáu'r cais yn effeithio'n ddramatig ar allu'r gorfforaeth i dalu credydwy'r eraill, a byddai pensiwnwyr y DU yn cael eu harian yn gyntaf; dan gyfraith y DU, nid yw'r gorfforaeth dan rwymedigaeth o gwbl i gynllun pensiwn Visteon UK, oherwydd nid yw'n ei noddi mwyach; ni ellir gorfodi'r un dyfarniad a wneir yn y DU yn erbyn Visteon, gan i'r gorfforaeth dorri ei chysylltiadau â'r DU wrth fynd yn fethdalwr; ac yn olaf, rhoddodd corfforaeth Visteon bron i \$800 miliwn o gymhorthdal i'w busnes yn y DU yn ystod naw mlynedd ei bodolaeth, ond ni chafodd ddim budd ymarferol.

Yr wyf am ganolbwyntio ar y pwynt olaf, drwy edrych ar hanes corfforaeth Visteon. Ar droad y mileniwm, pan oedd yn wynebu prisiau cynyddol am gydrannau, a chyda mwy a mwy o lafur rhad ar gael mewn economïau a oedd yn datblygu, trodd Ford ei adran cydrannau allan o'r prif fusnes. Nes i Visteon gael ei ffurfio yn 2000, arferid talu am y cydrannau mewn 'doleri pren', fel y caent eu galw gan Ford, sef y gost o drosglwyddo rhwng adrannau Ford, a gâi ei chynnwys ym mhpris y car. Fodd bynnag, erbyn hynny yr oedd wedi creu marchnad fewnol. Visteon oedd prif gyflenwr Ford, a chwmini Ford yn unig yr oedd yn ei gyflenwi yn ystod y flwyddyn gyntaf. Rhoddodd Ford sicrwydd hollol bendant i weithwyr Visteon, gan gynnwys y 3,500 yn y DU, y byddai eu cynlluniau a'u hamodau pensiwn yn cael eu trosglwyddo i Visteon a'u hadlewyrchu gan y busnes newydd. Mae ar ddu a gwyn. Gweithiodd Ford gyda'r undebau llafur i lunio cytundeb clir ar gyfer y trosglwyddo, fel rhan o Gyngor Gwaith Ewropeaidd Ford.

What only became apparent much later was how Ford had effectively set up Visteon to fail from the start. It insisted that its labour costs were locked into the transfer agreement, but Ford had committed Visteon to matching competitive prices on its entire product range within five years. This is known as ‘the China price’, where suppliers are told to get their prices down to those of emerging economies and the third world, where there are no final salary pension schemes, just appalling pay and even worse conditions, or they face losing the trade. Visteon ended up selling its products back to Ford for 30 per cent less than it had expected. By 2006, Visteon UK’s costs for materials, labour and overheads were 113.7 per cent of its revenue. In its nine years of existence, Visteon UK never made a profit. Instead, it lost \$955 million, or \$500,000 every working day that it operated.

From reading the objection, you might surmise that Visteon UK was a basket case in isolation, but not so. In 2005, the Visteon Corporation offloaded 17 unprofitable plants and six offices, many of them in the US, although Ford yesterday announced that it is investing \$32 million in a plant that Visteon handed back to it. The following year, Visteon de-listed from the New York stock exchange after its share price dropped to two cents. Not all of this was Ford’s fault. Pensions were 120 per cent funded when moved from Ford to Visteon, which dropped to 80 per cent. It took Visteon three years to start contributing. In addition, Visteon UK allowed many long-serving former Ford employees to retire early, presumably so that it could employ new staff on lower wages and less advantageous entitlements. This meant that by 31 March 2008—a year before Visteon went bust and fired its workforce with six minutes’ notice—the UK pension scheme had 3,131 members and just 618 contributors, a ratio of 0.2 active to one retired, compared with a ratio of 11 to one just six years before. Of course, the Visteon Corporation received benefits in kind, despite what it claims. It could not manufacture a particular driveshaft at any plant on earth

Yr hyn na ddaeth i’r amlwg tan yn ddiweddarach o lawer oedd y modd yr oedd Ford, i bob pwrpas, wedi sicrhau y byddai Visteon yn methu o’r dechrau. Mynnodd fod ei gostau llafur yn rhan annatod o’r cytundeb trosglwyddo, ond yr oedd Ford wedi addo y byddai prisiau holl gynnyrch Visteon yn cydfynd â phrisiau cystadleuol cyn pen pum mlynedd. Gelwir pris o’r fath yn ‘Bris Tsieina’, lle dywedir wrth gyflenwyr y dylent ostwng eu prisiau i gyd-fynd â phrisiau’r trydydd byd ac economïau sy’n datblygu ac nad oes ganddynt gynlluniau pensiwn cyflog terfynol, dim ond cyflog gwarthus ac amodau sy’n waeth fyth, neu wynebu colli’r busnes. Yn y pen draw gwerthodd cwmni Visteon ei gynnyrch yn ôl i Ford am 30 y cant yn llai na’r disgwyl. Erbyn 2006 yr oedd costau Visteon UK o ran deunyddiau, llafur a gorbenion yn cyfateb i 113.7 y cant o’i refeniw. Yn ystod naw mlynedd ei fodolaeth, ni wnaeth Visteon UK elw o gwbl. Yn hytrach colodd \$955 miliwn, neu \$500,000 am bob diwrnod gwaith pan fu’n gweithredu.

O ddarllen y gwrthwynebiad, gallech dybio bod Visteon UK yn achos unigryw, ond nid yw hynny’n wir. Yn 2005, cafodd corfforaeth Visteon wared ar 17 o ffatrioedd nad oeddent yn gwneud elw a chwe swyddfa, nifer ohonynt yn yr Unol Daleithiau, er i Ford gyhoeddi ddoe ei fod yn buddsoddi \$32 miliwn mewn ffatri yr oedd Visteon wedi’i throsglwyddo’n ôl iddo. Y flwyddyn ganlynol, aeth Visteon oddi ar restr cyfnewidfa stoc Efrog Newydd ar ôl i bris cyfranddaliadau’r cwmni ostwng i ddwy sent. Nid Ford oedd ar fai am hynny i gyd. Câi pensiynau eu hariannu 120 y cant pan gawsant eu symud o Ford i Visteon, a ostyngodd lefel yr ariannu i 80 y cant. Cymerodd dair blynedd i Visteon ddechrau cyfrannu. Yn ogystal, gadawodd Visteon UK i lawer o gyn-weithwyr Ford, a oedd wedi gwasanaethu’r cwmni am amser maith, ymddeol yn gynnar er mwyn iddo allu cyflogi staff newydd ar gyflogau is, yn ôl pob tebyg, a chynnig hawliau llai manteisiol iddynt. Golygai hynny, erbyn 31 Mawrth 2008—flwyddyn cyn i gwmni Visteon fethdalua a diswyddo’i weithwyr gan roi chwe munud o rybudd iddynt—fod gan gynllun pensiwn y DU 3,131 o aelodau a dim ond 618 o gyfranwyr, sef cymhareb o 0.2 o weithwyr

other than Swansea. It had tried, and failed. That is the real benefit of a highly skilled and properly remunerated workforce—not that either Visteon or Ford seemed to care.

Sensing that the game was up, the two colluded in what was known as project Kennedy—duplicate resourcing and stockpiling so that Visteon UK could be closed without any disruption to Ford's output. It is worth noting that, even though over 500 men were made redundant on 31 March last year, Ford lost not one single day of production. The expertise and benefits that it claimed not to have received from the UK were hived off to a new business, Visteon Engineering Services, with a new pension plan. It is here, at the company's headquarters in Chelmsford, that you will find Visteon UK's former senior officers, the architects and executioners of a plan that, while not illegal, was certainly duplicitous and morally inexcusable, seeking as it did to deceive men and women who had never done anything other than work hard for many years for Ford and Visteon.

If the judge in the US decides to refuse Visteon Corporation's objections and winds up the company, it is quite possible that production at Ford would be considerably disrupted, to the point where it might well be more sensible for it to put its hands up and agree to sponsor the Visteon UK pension fund, as it has already done in the US, for Visteon workers there. The cost of doing this would be limited to around £15 million per year. This step would also avoid possible legal action by Unite, the Visteon pensioners' union, which has apparently agreed to take the corporation to court to demonstrate that it reneged on pension guarantees when it spun Visteon out of its core business. That would be the easy route.

gweithgar am bob un gweithiwr a oedd wedi ymddeol, o'i chymharu â chymhareb o 11 i un chwe blynedd yn unig cyn hynny. Cafodd corfforaeth Visteon fuddion ymarferol, wrth gwrs, er yr hyn y mae'n ei honni. Ni allai gynhyrchu siafft yrru benodol yn yr un ffatri yn y byd heblaw Abertawe. Yr oedd wedi ceisio ac wedi methu. Dyna'r fantais wirioneddol o gael gweithlu tra medrus a delir yn briodol—nid bod Visteon na Ford fel pe baent yn poeni am hynny.

Gan synhwyro bod y gêm ar ben, cyd-gynllwyniodd y ddau ar brosiect o'r enw Prosiect Kennedy—gan ddyblygu gwaith darparu adnoddau a phentyrru stoc er mwyn gallu cau Visteon UK heb darfu dim ar allbwn Ford. Mae'n werth nodi na cholodd Ford yr un diwrnod o gynhyrchu, er i dros 500 o ddynion gael eu diswyddo ar 31 Mawrth y llynedd. Cafodd yr arbenigedd a'r buddion yr oedd yn honni nad oedd wedi'u cael gan y DU eu trosglwyddo i fusnes newydd, Visteon Engineering Services, gyda chynllun pensiwn newydd. Yma, ym mhencadlys y cwmni yn Chelmsford, y gwelwch uwch-swyddogion blaenorol Visteon UK, sef penseiri a gweithredwyr cynllun nad oedd yn anghyfreithlon, ond a oedd yn sicr yn dwyllodrus ac yn anfaddeuol o safbwynt moesol, am iddo geisio twyllo dynion a menywod na wnaethant erioed ddim byd mwy na gweithio'n galed am flynyddoedd lawer i Ford a Visteon.

Os bydd y barnwr yn yr Unol Daleithiau yn penderfynu gwrthod gwrthwynebiadau corfforaeth Visteon a dod â'r cwmni i ben, mae'n ddigon posibl y byddai hynny'n tarfu'n sylweddol ar waith cynhyrchu yn Ford, i'r graddau lle gallai fod yn fwy synhwyrol iddo ildio a chytuno i noddi cronfa bensiw Visteon UK, fel y mae eisoes wedi gwneud ar gyfer gweithwyr Visteon yn yr Unol Daleithiau. Byddai'r gost o wneud hynny'n cael ei chyfyngu i oddeutu £15 miliwn y flwyddyn. Byddai'r cam hwnnw hefyd yn osgoi camau cyfreithiol posibl gan Unite, undeb pensiynwyr Visteon, sydd, mae'n debyg, wedi cytuno i fynd â'r gorfforaeth i'r llys i ddangos ei bod wedi torri ei haddewid ynghylch gwarantu pensiynau, pan drodd Visteon allan o'i busnes craidd. Dyna fyddai'r llwybr hawdd.

So far, Ford and Visteon remain trenchant in their opinion that they have done everything that they could to support Visteon UK pensioners, and no doubt they will have to be dragged, kicking and screaming, into court. Ford continues to describe the situation as ‘unfortunate’. Losing a button is unfortunate. Being robbed of a lifetime pension after such clear commitments from an employer like Ford is a tragedy, and a tragedy affecting all the employees that transferred to Visteon.

It is hard to follow Ford’s thinking. I cannot pretend that I understand the company’s spending priorities, but only yesterday it reported profits of \$2.3 billion for the first quarter of 2010—a six-year high. Its shares are at a five-year high. It plans to increase production by 9 per cent this year and it expects to remain profitable throughout the rest of the year. Sponsoring the UK Visteon pension fund would not amount to 1 per cent of its quarterly profits. At the present time, the Visteon pension scheme is being assessed for entry into the Government’s pension ‘rescue’ process, the pension protection fund. Visteon’s management may have seen the failure of the pension fund as simply something to be picked up by the PPF, and may therefore have acted with less care towards it. The pensions regulator is now investigating the situation.

The overriding concern for Swansea’s Visteon employees is the long-term security of the PPF, as payments are already as much as 40 per cent lower than the Ford Visteon scheme. Those payments could be reduced at any time, or the fund could be closed altogether. However, there is a wider question over how corporations take advantage of schemes for employment and can be compelled to fulfil their obligations when they close factories. This is an issue for the Assembly. Pensions are a matter for the UK Government, while the trustees, the PPF and Unite are doing what they can to seek redress for these workers. I have to say that I have not seen much from the UK Government—from the Secretary of State for Wales nor the Secretary of State for Work and Pensions—that convinces me that it is on the pensions regulator’s back over Visteon.

Hyd yn hyn, mae Ford a Visteon yn parhau’n bendant o’r farn iddynt wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi pensiynwyr Visteon UK, ac nid oes amheuaeth na fydd yn rhaid iddynt gael eu llusgo o’u hanfodd i’r llys. Mae Ford yn dal i ddisgrifio’r sefyllfa fel un ‘anffodus’. Mae colli botwm yn anffodus. Mae cael eich amddifadu o bensiwn oes ar ôl cael addewid mor glir gan gyflogwr fel Ford yn drasiedi, ac mae’n drasiedi sy’n effeithio ar bob gweithiwr a drosglwyddodd i Visteon.

Mae’n anodd dilyn trywydd meddwl Ford. Ni allaf esgus fy mod yn deall blaenoriaethau’r cwmni o ran gwario, ond ddoe ddiwethaf cyhoeddodd elw o \$2.3 biliwn ar gyfer chwarter cyntaf 2010—y ffigur uchaf ers chwe blynedd. Mae gwerth ei gyfranddaliadau’n uwch yn awr nag ers pum mlynedd. Mae’n bwriadu cynyddu ei waith cynhyrchu 9 y cant eleni, ac mae’n disgwyl parhau i wneud elw trwy gydol y flwyddyn. Ni fyddai noddi cronfa bensiwn Visteon UK yn costio 1 y cant o’i elw bob chwarter. Ar hyn o bryd, mae cynllun pensiwn Visteon yn cael ei asesu i weld a gaiff ei dderbyn i broses ‘achub’ pensiynau’r Llywodraeth, sef y gronfa diogelu pensiynau. Efallai fod rheolwyr Visteon wedi ystyried y byddai methiant y gronfa bensiwn yn rhywbeth y byddai’r gronfa diogelu pensiynau’n gofalu amdano, ac mae’n bosibl, felly, iddynt ddelio â’r gronfa’n llai gofalus. Mae’r rheoleiddiwr pensiynau’n ymchwilio i’r sefyllfa erbyn hyn.

Yr hyn sy’n peri’r pryder mwyaf i weithwyr Visteon Abertawe yw diogelwch y gronfa diogelu pensiynau yn y tymor hir, gan fod taliadau eisoes gymaint â 40 y cant yn is na chynllun Ford Visteon. Gallai’r taliadau hynny gael eu gostwng unrhyw bryd, neu gallai’r gronfa gael ei chau’n gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae yna gwestiwn ehangach hefyd ynghylch sut y mae corfforaethau’n manteisio ar gynlluniau cyflogaeth, a sut y gellir eu gorfodi i fodloni eu rhwymedigaethau pan fyddant yn cau ffatrioedd. Mae hwn yn fater i’r Cynulliad. Mae pensiynau’n fater i Lywodraeth y DU, er bod yr ymddiriedolwyr, y gronfa diogelu pensiynau ac Unite yn gwneud popeth o fewn eu gallu i geisio sicrhau iawndal i’r gweithwyr hyn. Rhaid imi ddweud nad wyf wedi gweld llawer o weithredu gan Lywodraeth y DU—gan Ysgrifennydd

Naturally, we have had a few letters flying about, and a number of robust denials, particularly from Peter Hain, that little is being done to help the pensioners. But you do not sense the urgency—the prioritisation—from the Labour Ministers in the UK Government.

This has become a bit of an issue for me because Ministers here have rightly said that they do not have the relevant devolved powers. They have asked their UK counterparts to take up the issue, but there is only so much leading to water that the Welsh Government can do.

6.00 p.m.

There is a wider debate to be had about what kind of company we want here in Wales. Of course we want the Fords of this world to come to Wales, as such companies provide highly skilled, well-paid work that filters out into the wider Welsh economy, albeit too often on a sliding scale. We need to get past the myth that local suppliers do well out of such big companies. For example, Ford in Bridgend sources most, if not all, of its parts abroad. That is crucial because, if we are to have grants structures in Wales that award funding to companies that come here, it should be paramount that those businesses continue to benefit our economy over a meaningful period of time. They should become drivers of the economy through the use of our money, and those benefits should continue to ripple further outwards.

None of us can guess future economic movement, and in giving grants we are taking the same kinds of risks as those in the private sector. However, we must be mindful of the long term, and we must ensure that we look past the prestigious names and examine instead the track records of these blue-chip corporations, to decide whether they can bring sustainable advantage to the Welsh

Gwladol Cymru na'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau—sy'n fy argyhoeddi bod y Llywodraeth y tu ôl i'r rheoleiddiwr pensiynau ynghylch Visteon. Yn naturiol, mae ambell lythyr wedi bod yn mynd yn ôl ac ymlaen, a nifer o bobl, yn enwedig Peter Hain, yn gwadu'n chwyn nad oes fawr ddim yn cael ei wneud i helpu'r pensiynwyr. Yr wyf yn amau nad yw Gweinidogion Llafur Llywodraeth y DU yn gweithredu ar frys—nac yn rhoi blaenoriaeth i'r mater.

Mae wedi dod yn dipyn o broblem i mi, oherwydd mae Gweinidogion yma wedi dweud, yn gywir ddigon, nad oes ganddynt y pwerau datganoledig perthnasol. Maent wedi gofyn i'w cymheiriaid yn y DU fynd i'r afael â'r mater, ond mae pen draw ar y camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i arwain y ceffyl at y dŵr.

Mae yna ddadl ehangach hefyd am y math o gwmmi yr ydym am ei gael yma yng Nghymru. Wrth gwrs, yr ydym am i gwmmiau tebyg i Ford ddod i Gymru, gan fod cwmnïau o'r fath yn cynnig gwaith sy'n gofyn am sgiliau da ac sy'n talu'n dda, sy'n treiddio i economi ehangach Cymru, er bod hynny ar raddfa amrywiol yn rhy aml o lawer. Mae angen inni symud y tu hwnt i'r myth bod cyflenwyr lleol yn elwa o gwmmiau mawr o'r fath. Er enghraifft, mae Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'i gydrannau o dramor. Mae hynny'n hollbwysig, oherwydd os ydym am gael strwythurau grantiau yng Nghymru sy'n rhoi cyllid i gwmmiau sy'n dod yma, dylai fod o'r pwys mwyaf bod y busnesau hynny'n parhau i wneud lles i'n heconomi dros gyfnod ystyrlon. Dylent fod yn sbarduno'r economi â'n harian ni, a dylai'r manteision hynny barhau i ymestyn ymhellach.

Ni all yr un ohonom ddyfalu sut y bydd yr economi'n symud yn y dyfodol, ac wrth roi grantiau yr ydym yn cymryd risgiau tebyg i'r rheini sydd yn y sector preifat. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ymwybodol iawn o'r tymor hir, a rhaid inni sicrhau ein bod yn edrych y tu hwnt i'r enwau mawr, a'n bod yn hytrach yn archwilio hanes y corfforaethau hyn sydd o'r radd flaenaf, er mwyn penderfynu a allant

economy, or whether they are simply benefiting themselves in the short term. To do anything else would assist only in concentrating wealth in the hands of a very small group of executives who very rarely live in, or care about, Wales.

They, of course, are not our concern: we are charged with ensuring the welfare of our constituents. Can we really shrug our shoulders and allow former workers in Wales—men and women who have retired—to sell their retirement homes and return to the workplace? Can we really stand by and leave them to the possibility of many uncertain years ahead, when they are at a time in their lives when they should be enjoying the fruits of their labours? Should we not all do what we can when there are workers—some of whom spent only six months with Visteon after 40 years with Ford—who now have nothing? Can we really allow our economy to be played like a Stradivarius by callous opportunists who take what they can and then expect the Welsh Government and, by extension, the Welsh people to sweep up their mess? Thank you for listening, and I thank all the former Visteon workers who have come here tonight. I sincerely hope that the Welsh Government can help you, and I hope that Unite will take this legal action against Ford. [*Applause.*]

Brian Gibbons: Thank you, Bethan, for an excellent and passionate presentation of the case of the Visteon pensioners. There is no doubt that what has happened at Jersey Marine is an outrage and a disgrace. Sometimes, people ask why we should be in a union. Only a third of the public workforce of Wales is in a union, while only one sixth of the private workforce has membership. Apart from the moral support that we can offer the Visteon workers, the big opportunity for them—other than campaigning—is for their union to continue to stand with them and offer support in this campaign, taking their case to the courts to deliver justice. From my personal discussions with Unite, I know that it is committed to doing so.

ddod â budd cynaliadwy i economi Cymru, ynteu ai'r unig beth a wnânt yw sicrhau budd yn y tymor byr iddynt hwy eu hunain. Wrth weithredu fel arall, ni fyddwn ond yn cynorthwyo i sicrhau bod cyfoeth yn cronni yn nwylo grŵp bach iawn o swyddogion gweithredol, sydd prin yn byw yng Nghymru neu'n poeni am Gymru.

Nid ein busnes ni yw'r cwmnïau mawr, wrth gwrs: ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau lles ein hetholwyr. A allwn ymddwyn yn ddifater a gadael i gyn-weithwyr yng Nghymru—dynion a menywod sydd wedi ymdeol—werthu eu cartrefi ymdeol a dychwelyd i'r gweithle? A allwn sefyll i'r naill ochr a'u gadael i wynebu'r posibilrwydd o lawer o flynyddoedd ansicr yn y dyfodol, pan maent mewn cyfnod yn eu bywyd pan ddylent fod yn mwynhau ffrwyth eu llafur? Oni ddylai pob un ohonom wneud popeth o fewn ein gallu, pan nad oes gan rai gweithwyr—y treuliodd rhai ohonynt chwe mis yn unig gyda Visteon ar ôl 40 mlynedd gyda Ford—ddim byd erbyn hyn? A allwn adael i bobl greulon sy'n gweld eu cyfle, ac sy'n bachu popeth posibl, chwarae â'n heconomi fel pe bai'n Stradivarius, gan ddisgwyl wedyn i Lywodraeth Cymru, a phobl Cymru drwy hynny, glirio'u llanast? Diolch am wrando, ac yr wyf am ddiolch i bob un o gyn-weithwyr Visteon sydd wedi dod yma heno. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y gall Llywodraeth Cymru eich helpu, a gobeithio y bydd Unite yn cymryd y camau cyfreithiol hyn yn erbyn Ford. [*Cymeradwyaeth.*]

Brian Gibbons: Diolch, Bethan, am gyflwyniad ardderchog ac angerddol ynghylch achos pensiynwyr Visteon. Nid oes amheuaeth nad yw'r hyn sydd wedi digwydd yn Jersey Marine yn sarhad ac yn warth. Weithiau, bydd pobl yn gofyn pam y dylem berthyn i undeb. Dim ond un rhan o dair o weithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n perthyn i undeb, a dim ond un rhan o chwech o weithlu'r sector preifat sy'n perthyn i un. Ar wahân i'r gefnogaeth foesol y gallwn ei chynnig i weithwyr Visteon, eu siawns orau—heblaw drwy ymgyrchu—yw cael eu hundeb i barhau i'w cefnogi a'u cynorthwyo yn yr ymgyrch hon, gan fynd â'u hachos i'r llysoedd i sicrhau cyfiawnder. O'm trafodaethau personol ag Unite, gwn ei fod wedi ymrwymo i wneud hynny.

The only slightly sour note that was struck in the presentation—which I did not think was needed—was the comment about the Secretary of State for Wales. Let it be on record that, when there was stagnation over the pension protection fund, Peter Hain was the person who cut through all the bureaucracy and put the fund in place. That fund provides many pensioners with protection for up to 90 per cent of their pensions, up to a cap of £30,000. While people may criticise Peter Hain for this and that, I think that he needs to be given due credit for making progress where people had been sitting on their hands for many years.

Jeff Cuthbert: Thank you, Bethan, for raising this issue. I am grateful that you have given me a minute in which to respond, as I am the convener of the Unite group of Labour Assembly Members. Ever since the Robert Maxwell scandal, it has been identified that pensions are deferred pay, and there is a duty on employers to preserve and protect workers' pensions. While the Visteon pensions case is not exactly the same as those in the Maxwell scandal, it is worrying that the original pensioner agreements are not being honoured by Visteon or Ford.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 6.04 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 6.04 p.m.*

Pensions are important and personal. It is understandable, therefore, that Visteon workers are upset that their deferred pay, which they believed would give them security in their later years, has been drastically cut in many cases, not to mention the loss of nearly 1,000 jobs UK wide, during the most difficult economic times our country has faced for scores of years. It is unfair to expect the taxpayer to foot the £350 million bill left by the Visteon pensions black hole, and it is unfair on those workers and pensioners who have been affected on a multitude of levels. It is my belief, as Brian Gibbons said, that the former workers are best represented by their union, Unite, which I know is taking legal action. That is its job, and I know that it takes that responsibility seriously.

Yr unig nodyn braidd yn sur a darwyd yn ystod y cyflwyniad—nad oedd ei angen yn fy marn i—oedd y sylw am Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dylid cofnodi mai Peter Hain oedd y dyn a dorrodd trwy'r holl fiwrocratiaeth a chreu'r gronfa diogelu pensiynau, pan nad oedd dim byd yn digwydd ynghylch y gronfa honno. I nifer o bensiynwyr, mae'r gronfa'n diogelu hyd at 90 y cant o'u pensiynau, hyd at uchafswm o £30,000. Gall pobl feirmiadu Peter Hain am hyn a'r llall, ond credaf fod angen iddo gael y clod y mae'n ei haeddu am wneud cynnydd mewn maes lle'r oedd pobl wedi bod yn llaesu dwylo am flynyddoedd lawer.

Jeff Cuthbert: Diolch, Bethan, am godi'r mater hwn. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi munud imi ymateb, gan mai fi yw cynullydd grŵp Unite Aelodau Llafur y Cynulliad. Ers sgandal Robert Maxwell, nodwyd mai cyflog gohiriedig yw pensiwn, ac mae dyletswydd ar gyflogwyr i warchod a diogelu pensiynau gweithwyr. Er nad yw achos pensiynau Visteon yn union yr un fath ag achos sgandal Maxwell, mae'n ofid nad yw cytundebau gwreiddiol pensiynwyr yn cael eu hanrhydeddu gan Visteon neu Ford.

Mae pensiynau'n fater pwysig a phersonol. Felly, mae'n ddealladwy bod gweithwyr Visteon yn anhapus bod eu cyflog gohiriedig y credent a fyddai'n rhoi sicrwydd iddynt pan fyddent yn hŷn, wedi'i dorri'n sylweddol mewn llawer achos, heb sôn am y 1,000 bron o swyddi a gollwyd ledled y DU, yn ystod y cyfnod economaidd mwyaf anodd i'n gwlad ei wynebu ers blynyddoedd lawer. Mae'n annheg disgwyl i'r trethdalwr dalu'r bil o £350 miliwn a adawyd gan dwll du pensiynau Visteon, ac mae'n annheg ar y gweithwyr a'r pensiynwyr hynny y mae'r sefyllfa wedi effeithio arnynt ar nifer o lefelau. Credaf, fel y dywedodd Brian Gibbons, mai'r ffordd orau i'r cyn-weithwyr gael eu cynrychioli yw gan eu hundeb, Unite, a gwn fod yr undeb yn cymryd camau cyfreithiol. Dyna yw ei waith, a gwn ei fod yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Hoffwn ddiolch i Bethan am godi'r achos hwn gerbron y Cynulliad heddiw. Gwn ei bod yn teimlo'n gryf iawn am achos gweithwyr Visteon, ac yr wyf yn ei llongyfarch ar y ffordd y mae wedi cyflwyno'r achos ym mhob ffordd posibl, ar lawr y Cynulliad ac mewn llythyrau.

She will know, as we all now know, that the primary responsibility for this difficult situation lies with the companies concerned and the pensions regulator. What is clear, however, is that the workers have paid into their pension fund and that they, and their trade unions, have fought all the way to protect that fund. The workers, Bethan's constituents, are blameless and deserve our full support.

As Bethan will know, this situation arose when the UK subsidiary of Visteon became insolvent in March 2009. It had originally been spun out of the Ford Motor Company in 2000, but the UK arm had never, in fact, been profitable. The administrators, KPMG, then moved to close the three Visteon factories in the UK, at Belfast, Basildon and Enfield. The Swansea operation, which is the focus of today's debate, had been sold to Linamar in late 2007. Visteon workers had reached an agreement with Ford that their employment rights on joining Visteon would mirror those enjoyed at Ford for the lifetime of Visteon. Unfortunately, however, the pension fund had insufficient assets, and the 3,000 members face an extremely uncertain future.

Members will see the clear similarities between Visteon and Allied Steel and Wire. In both cases, companies had gone into insolvency with insufficient funds to meet pension obligations. It is deplorable that the loyal workers of a major manufacturing company in Wales have been denied access to the pension benefits they had expected and had contributed towards.

The issues surrounding the Visteon UK pension fund, the various transfers from Ford to Visteon and Visteon back to Ford, and then the lately formed Visteon Engineering

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I thank Bethan for bringing this issue before the Assembly today. I know she feels strongly about the Visteon workers' case, and I congratulate her on the way she has made their case by every means possible, on the floor of the Assembly and in correspondence.

Bydd yn gwybod, fel y gwyddom bob un yn awr, mai'r cwmnïau dan sylw a'r rheoleiddiwr pensiynau sy'n bennaf gyfrifol am y sefyllfa anodd hon. Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw bod y gweithwyr wedi talu cyfraniadau i'w cronfa bensiwn, a'u bod hwy a'u hundebau llafur wedi ymladd gydol yr amser i ddiogelu'r gronfa honno. Nid oes dim bai ar y gweithwyr, sef etholwyr Bethan, ac maent yn haeddu ein cefnogaeth lawn.

Fel y gŵyr Bethan, cododd y sefyllfa hon pan aeth is-gwmni Visteon yn y DU yn fethdalwr ym mis Mawrth 2009. Deilliodd yn wreiddiol o Gwmni Moduron Ford yn 2000, ond ni wnaed elw erioed gan y gangen yn y DU mewn gwirionedd. Yna aeth y gweinyddwyr, KPMG, ati i gau tair ffatri Visteon yn y DU, yn Belfast, Basildon ac Enfield. Gwerthwyd y ffatri yn Abertawe, sef ffocws y ddadl hon heddiw, i Linamar ddiwedd 2007. Yr oedd gweithwyr Visteon wedi dod i gytundeb gyda Ford y byddai eu hawliau cyflogaeth, wrth ymuno â Visteon, yn adlewyrchu'r hawliau cyflogaeth a oedd ganddynt gyda Ford, a hynny tra byddai Visteon. Yn anffodus, fodd bynnag, nid oedd gan y gronfa bensiwn ddigon o asedau, ac mae'r 3,000 o aelodau'n wynebu dyfodol eithriadol o ansicr.

Bydd Aelodau'n gallu gweld y tebygrwydd amlwg rhwng Visteon ac Allied Steel and Wire. Yn y ddau achos yr oedd cwmnïau wedi methdalau heb ddigon o gyllid i fodloni rhwymedigaethau pensiwn. Mae'n warthus fod cwmni gweithgynhyrchu mawr yng Nghymru wedi gwrthod caniatáu i'w weithwyr ffyddlon gael y buddion pensiwn yr oeddent wedi disgwyl eu cael ac wedi cyfrannu atynt.

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â chronfa bensiwn Visteon UK, yr amrywiol drosglwyddiadau o Ford i Visteon ac o Visteon yn ôl i Ford, ac yna cwmni Visteon

Services Ltd are very complex and in no way come under the responsibility of the Welsh Assembly Government, as Bethan has acknowledged. I understand, however, that they are under review by the pensions regulator and associated bodies. Members will recall the long saga over Allied Steel and Wire pensions. As a result of that situation and others like it, and long campaigning by the workers, trade unions, MPs and AMs, the House of Commons enacted the Pensions Act 2004 to protect pension scheme members' benefits. It included the creation of the pensions regulator, and also the pension protection fund, which is a body independent of the regulator.

The pension protection fund ensures that all members of eligible defined benefit schemes receive compensation for pension payments that might otherwise have been lost if their employer had gone into liquidation. The fund provides that members will receive at least 90 per cent of their expected entitlements. I understand that the Visteon UK pension scheme is currently being assessed to see whether it will be taken on by the pension protection fund. Even if that is the case, however, the Visteon pension fund members have been told that there may be a reduction in their benefits of between 15 and 80 per cent, with potentially a need to repay pension already received.

This is a matter of great concern for these workers, as I think everyone in the Assembly will acknowledge. Visteon workers and their unions also feel that it is significant that, in 2000, Ford's European Works Council successfully negotiated an agreement guaranteeing that anyone working in Visteon, should it become a stand-alone company, would enjoy the same terms and benefits as mainstream Ford workers—including pension benefits. At the time, that was heralded as the first time such an agreement had been reached through the European Works Council mechanism. Visteon workers clearly feel that that agreement commits Ford to continue to support them following Visteon UK's demise.

Engineering Services Ltd, sef y cwmni a ffurfiwyd yn ddiweddar, yn gymhleth iawn, ac nid ydynt yn rhan o gwbl o gyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad, fel y mae Bethan wedi cydnabod. Fodd bynnag, deallaf fod y materion hyn yn cael eu hadolygu gan y rheoleiddiwr pensiynau a chyrff cysylltiedig. Bydd Aelodau'n cofio'r saga hir gyda phensiynau Allied Steel and Wire. O ganlyniad i'r sefyllfa honno a sefyllfaoedd eraill tebyg iddi, ac ymgyrchu hir gan y gweithwyr, yr undebau llafur, yr Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad, cyhoeddodd Tŷ'r Cyffredin Ddeddf Pensiynau 2004 i ddiogelu buddion aelodau cynlluniau pensiwn. Yr oedd yn cynnwys creu'r rheoleiddiwr pensiynau, a'r gronfa diogelu pensiynau hefyd, sy'n gorff annibynnol ar y rheoleiddiwr.

Mae'r gronfa diogelu pensiynau'n sicrhau bod pob aelod o gynlluniau buddion diffiniedig cymwys yn cael iawndal am daliadau pensiwn a allai gael eu colli fel arall pe bai eu cyflogwyr yn methdal. Mae'r gronfa yn sicrhau y bydd yr aelodau'n cael o leiaf 90 y cant o'u hawliau disgwylidig. Deallaf fod cynllun pensiwn Visteon UK yn cael ei asesu ar hyn o bryd i weld a fydd y gronfa diogelu pensiynau'n ei dderbyn. Hyd yn oed os digwydd hynny, mae aelodau cynllun pensiwn Visteon wedi cael gwybod y gallai eu buddion ostwng rhwng 15 a 80 y cant, gyda'r posibilrwydd y byddai angen iddynt ad-dalu pensiwn y maent eisoes wedi'i gael.

Mae hwn yn fater o bryder mawr i'r gweithwyr hyn, a chredaf y bydd pawb yn y Cynulliad yn cydnabod hynny. Mae gweithwyr Visteon a'u hundebau'n teimlo hefyd ei bod yn arwyddocaol fod Cyngor Gwaith Ewropeaidd Ford, yn 2000, wedi llwyddo i ddod i gytundeb yn gwarantu y byddai unrhyw un yn gweithio yn Visteon, pe bai'n dod yn gwmni annibynnol, yn mwynhau'r un telerau a'r un buddion â gweithwyr prif-ffrwd Ford—gan gynnwys buddion pensiwn. Bryd hynny, cyhoeddwyd mai dyna'r tro cyntaf i gytundeb o'r fath gael ei lunio trwy weithdrefn y Cynghorau Gwaith Ewropeaidd. Mae'n amlwg fod gweithwyr Visteon yn teimlo bod y cytundeb hwnnw'n rhwymo Ford i barhau i'w cefnogi yn dilyn tranc Visteon UK.

6.10 p.m.

David Melding: I must say that I thought that Bethan's speech was absolutely outstanding. It was incredibly fluent and powerful, possibly because it goes to the heart of such an important matter—and you also mentioned Allied Steel and Wire, Deputy First Minister. What I found most shocking from what Bethan said was that, in the United States, Ford has accepted its moral obligation. The package that it devised 10 years ago to spin off these activities did not work, and it has accepted that the obligation to meet the pensions commitments comes back to it. Could the Welsh Assembly Government write to Ford to point out that incredible disparity, and at least bring some moral pressure to bear on the company? I am sure that you would have the full support of the Assembly for entering into such correspondence.

The Deputy First Minister: Thank you, David. Your comments show the all-party nature of any support that we can offer in this situation. I will come to what the Welsh Assembly Government thinks it can do to assist in this case at the end of my contribution.

Given that we do not know the detail of the previous arrangement, it is difficult for me to make any further comment on it, but it is clear, as we have heard, that Unite and the workers feel strongly that there is a case to be answered. I can see why they feel, morally, that such a commitment should be upheld.

Another worrying aspect of this situation is the time that it is taking to give security to the workers. That is because the pension protection fund usually seeks to establish whether a new employer will rescue the pension scheme and whether it has sufficient assets to provide benefits at least equal to those provided by the pension protection fund under the Act. It requires an assessment period, which must last a minimum of one year, but usually lasts between two to three years. If neither outcome is achievable, the pension scheme transfers to the pension protection fund. However, if the assessment shows that a company pension scheme has sufficient assets to pay members more than

David Melding: Rhaid imi ddweud, yr oeddwn yn meddwl bod araith Bethan yn wirioneddol ragorol. Yr oedd yn rhugl ac yn rymus tu hwnt, efallai oherwydd ei bod yn mynd at wraidd mater mor bwysig—a soniech hefyd chi hefyd am Allied Steel and Wire, Ddirprwy Brif Weinidog. Yr hyn a'm syfrdanodd fwyaf yn yr hyn a ddywedodd Bethan oedd bod Ford, yn yr Unol Daleithiau, wedi derbyn ei rwymedigaeth foesol. Ni weithiodd y pecyn a luniodd 10 mlynedd yn ôl i droi'r gweithgareddau hyn allan, ac mae wedi derbyn ei fod yn gyfrifol am y rhwymedigaeth i fodloni'r ymrwymiadau pensiwn. A allai Llywodraeth y Cynulliad ysgrifennu at Ford i dynnu sylw at y gwahaniaeth anhygoel hwnnw, a rhoi o leiaf rhywfaint o bwysau moesol ar y cwmni? Yr wyf yn siŵr y caech gefnogaeth lawn y Cynulliad i ddechrau gohebiaeth o'r fath.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch, David. Mae eich sylwadau'n dangos natur hollbleidiol unrhyw gefnogaeth y gallwn ei chynnig yn y sefyllfa hon. Byddaf yn sôn am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y gall ei wneud i gynorthwyo yn yr achos hwn ar ddiwedd fy nghyfraniad.

O gofio na wyddom fanylion y trefniant blaenorol, mae'n anodd imi wneud unrhyw sylw pellach arno, ond mae'n amlwg, fel yr ydym wedi clywed, fod Unite a'r gweithwyr yn teimlo'n gryf bod achos i'w ateb. Gallaf weld pam y maent yn teimlo, am resymau moesol, y dylid cadw at ymrwymiad o'r fath.

Agwedd arall ar y sefyllfa hon sy'n peri gofid yw'r amser a gymer i roi sicrwydd i'r gweithwyr. Y rheswm am hynny yw y bydd y gronfa diogelu pensiynau, fel rheol, yn ceisio penderfynu a fydd cyflogwr newydd yn achub y cynllun pensiwn, ac a oes ganddo ddigon o asedau i ddarparu buddion sydd o leiaf yn gyfartal â'r buddion a fyddai'n cael eu darparu gan y gronfa diogelu pensiynau dan y Ddeddf. Mae'n gofyn am gyfnod asesu, y mae'n rhaid iddo bara o leiaf blwyddyn, ond sydd fel rheol yn para rhwng dwy a thair blynedd. Os na ellir sicrhau'r naill ganlyniad na'r llall, caiff y cynllun pensiwn ei drosglwyddo i'r gronfa diogelu pensiynau. Fodd bynnag, os yw'r asesiad yn dangos bod

90 per cent of their pension entitlements, the scheme will not transfer to fund. Instead, it will either operate as a closed scheme or find an insurer willing to buy out its liabilities and make payments to members, who may receive more than 90 per cent of accrued entitlement. In all circumstances, the pension protection fund operates at arm's length from the UK Government and is managed by the fund's board. Ultimately, it is a matter for the pension protection fund to establish whether schemes transfer to the fund. As things stand, neither UK Government nor Welsh Assembly Government Ministers have a formal say in such deliberations.

I know that the First Minister has raised the Visteon workers' case with the Secretary of State for Wales, and that this matter has been pursued at the highest levels of the present UK Government. Protecting pension scheme members' benefits remains a fundamental part of UK Government pension policy, as we have acknowledged, and it is not a devolved area. Nevertheless, we all feel that we want to do all that we can to support the workers at this difficult time.

As Bethan has highlighted, this case raises the question of whether more fundamental reform is required of corporate rather than pension law. This is a complex area, particularly when dealing with multinational companies and their interests, as in the Visteon case. Nevertheless, there is considerable merit in the UK Government looking again at the lessons to be learned from recent cases, such as Visteon's, to see whether more material changes might be made to create a system under which there is far greater protection for employees. I can assure Bethan today that the Welsh Assembly Government would be happy to raise this issue with the new UK Government following the general election. I will also consider the point made about making contact with the company.

I want to show today that, despite the fact that we in the Assembly Government have no powers to intervene directly, we want to

gan gronfa bensiwn unrhyw gwmni ddigon o asedau i dalu dros 90 y cant o'u hawliau pensiwn i'r aelodau, ni chaiff y cynllun ei drosglwyddo i'r gronfa. Yn hytrach, bydd naill ai'n gweithredu fel cynllun caeëdig ynteu'n dod o hyd i yswiriwr sy'n barod i brynu ei ymrwymadau a thalu'r aelodau, a allai gael dros 90 y cant o'r hawliau y maent wedi'u cronni. Ym mhob amgylchiad mae'r gronfa diogelu pensiynau'n gweithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth y DU, a chaiff ei rheoli gan fwrdd y gronfa. Yn y pen draw, mater i'r gronfa diogelu pensiynau yw penderfynu a gaiff cynlluniau eu trosglwyddo i'r gronfa. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth y DU na Llywodraeth y Cynulliad lais ffurfiol mewn trafodaethau o'r fath.

Gwn fod y Prif Weinidog wedi codi achos gweithwyr Visteon gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a bod y mater hwn wedi cael sylw ar lefelau uchaf Llywodraeth bresennol y DU. Mae diogelu buddion aelodau cynlluniau pensiwn yn dal yn rhan sylfaenol o bolisi pensiynau Llywodraeth y DU, fel yr ydym wedi cydnabod, ac nid yw'n faes datganoledig. Er hynny, mae pob un ohonom yn teimlo ein bod am wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r gweithwyr yn ystod yr adeg anodd hon.

Fel y dywedodd Bethan, mae'r achos hwn yn codi'r cwestiwn a oes angen gwneud rhagor o waith diwygio sylfaenol ar gyfraith gorfforaethol yn hytrach na chyfraith pensiynau. Mae hwn yn faes cymhleth, yn enwedig wrth ymdrin â chwmnïau rhyngwladol a'u buddiannau, fel yn achos Visteon. Er hynny, mae'n sicr yn werth i Lywodraeth y DU ailedrych ar y gwersi sydd i'w dysgu o achosion diweddar, megis achos Visteon, i weld a ellid gwneud newidiadau mwy perthnasol er mwyn llunio system lle caiff gweithwyr eu diogelu'n fwy helaeth o lawer. Gallaf sicrhau Bethan heddiw y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon codi'r mater hwn gyda Llywodraeth newydd y DU yn dilyn yr etholiad cyffredinol. Byddaf hefyd yn ystyried y pwynt a wnaed am gysylltu â'r cwmni.

Yr wyf am ddangos heddiw ein bod am rannu'r pryder y mae Bethan wedi'i fynegi mor huawdl ar ran y gweithwyr, er nad oes

share the concern that Bethan has so eloquently shown today on behalf of the workers. I congratulate her on what she has done so far. Let us also give an assurance to Visteon workers and Unite that they have our goodwill and moral support in taking this fight forward. I know that they will also appreciate the way in which Bethan and others have taken up their case.

gennym ni yn y Cynulliad ddim pŵer i ymyrryd yn uniongyrchol. Yr wyf am longyfarch Bethan ar y gwaith y mae wedi'i wneud hyd yn hyn. Gadewch inni hefyd roi sicrwydd i weithwyr Visteon ac Unite ein bod yn estyn ein hewyllys da a'n cefnogaeth foesol iddynt wrth ymladd y frwydr hon. Gwn y byddant hefyd yn gwerthfawrogi'r modd y mae Bethan ac eraill wedi pledio'u hachos.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.14 p.m.
The meeting ended at 6.14 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)

Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)